

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

23/09/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Adrannau Brys Gorlawn](#)
[Urgent Question: Emergency Department Overcrowding](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau](#)
[Motion to Elect Members to Committees](#)

[Datganiad: Canlyniad Refferendwm yr Alban a'i Obygiadau ar gyfer Cymru](#)
[Statement: The Outcome of the Scottish Referendum and Implications for Wales](#)

[Datganiad: Lansio'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru](#)
[Statement: Launch of the White Paper on the Collection and Management of Devolved Taxes in Wales](#)

[Datganiad: Diwygio Llywodraeth Leol](#)
[Statement: Reforming Local Government](#)

[Datganiad: Gwasanaethau Cynghori—Darparu Cefnogaeth Ymarferol i Bobl yr Effeithir Arnynt gan y Camau i Ddiwygio Lles](#)
[Statement: Advice Services—Providing Practical Support to People Affected by Welfare Reform](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith: Darpariaethau ar gyfer Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol](#)
[Legislative Consent Memorandum on the Infrastructure Bill: Provisions for the Control of Invasive Non-Native Species](#)

[Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14](#)
[The Sustainable Development Annual Report 2013-14](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Gwasanaethau Iechyd

Health Services

13:30 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau iechyd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1846(FM)

1. Will the First Minister make a statement on the provision of health services in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)1846(FM)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Our priority is to ensure that all people in Brecon and Radnorshire, as elsewhere in Wales, receive safe, sustainable, high-quality healthcare, that is delivered as close to patients' homes as possible.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod pawb ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, fel mewn mannau eraill yng Nghymru, yn derbyn gofal iechyd diogel, cynaliadwy, o ansawdd uchel, sy'n cael ei ddarparu mor agos at gartrefi cleifion â phosibl.

13:30

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

I have recently been contacted by a clinician who looks after my constituents. He stated that on a recent ward round, of the 12 patients in his beds, five were suffering from delayed transfers of care and five more were nearing that position. He put that down to the inability of the local social services department to provide timely packages of care at home. I have also been contacted by constituents who are desperate to get their relatives out of nearby district general hospitals back to community facilities, but they cannot because there is a lack of beds. What can the Welsh Government do to ensure that healthcare and social services are more in alignment and that patients do not have to suffer because of the inability to source packages of home care?

Cysylltodd clinigydd sy'n gofalu am fy etholwyr â mi yn ddiweddar. Dywedodd fod pump o'r 12 claf yn ei welyau ar rownd ward yn ddiweddar yn dioddef o oedi wrth drosglwyddo gofal ac roedd pump arall yn agosáu at y sefyllfa honno. Dywedodd mai anallu'r adran gwasanaethau cymdeithasol lleol i ddarparu pecynnau amserol o ofal yn y cartref oedd yn gyfrifol am hynny. Mae etholwyr sy'n daer i gael eu perthnasau allan o ysbytai cyffredinol dosbarth cyfagos yn ôl i gyfleusterau cymunedol wedi cysylltu â mi hefyd, ond ni allant wneud hynny oherwydd bod prinder gwelyau. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cydfynd â'i gilydd yn well ac nad oes rhaid i gleifion ddioddef oherwydd yr anallu i ddod o hyd i becynnau gofal cartref?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:31

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The leader of the Liberal Democrats will know that this forms an important part of the work of the Williams commission. I can say that, generally in Wales, delayed transfers of care were down in July. Nevertheless, it is important that local authorities look very carefully at the packages that they provide in order that people can go home. Ultimately, of course, we want to make sure, as I said earlier, that people do not spend more time in hospital than they need to, and we would expect Powys, as well as every other local authority in Wales, to be able to deliver the service that people would expect. However, again, we know that there are issues that will need to be resolved as part of the Williams process to improve the service for local people.

Bydd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwybod bod hyn yn rhan bwysig o waith comisiwn Williams. Gallaf ddweud bod achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gostwng ym mis Gorffennaf yng Nghymru yn gyffredinol. Serch hynny, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn edrych yn ofalus iawn ar y pecynnau y maent yn eu darparu er mwyn i bobl fynd adref. Yn y pen draw, wrth gwrs, rydym ni eisiau gwneud yn siŵr, fel y dywedais yn gynharach, nad yw pobl yn treulio mwy o amser yn yr ysbyty nag y mae angen iddynt, a byddem yn disgwyl i Bowys, yn ogystal â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru, allu darparu'r gwasanaeth y byddai pobl yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, unwaith eto, rydym yn gwybod bod problemau y bydd angen eu datrys yn rhan o broses Williams i wella'r gwasanaeth ar gyfer pobl leol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcomed, as did many of my constituents, the Minister for Health and Social Services' decision earlier this year to commission a special review of healthcare in Wales. I understand that the Welsh Institute for Health and Social Care, which carried out that review, is due to report in the autumn—if not, indeed, this month. Are you able to provide an update on the study, First Minister, and are you able to indicate a timetable for your response, and also the health board's response, to its findings?

Croesewais, fel y gwnaeth llawer o'm hetholwyr, benderfyniad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gynharach eleni i gomisiynu adolygiad arbennig o ofal iechyd yng Nghymru. Rwy'n deall bod Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, a gynhaliodd yr adolygiad hwnnw, i fod i adrodd yn yr hydref—os nad, yn wir, y mis hwn. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr astudiaeth, Brif Weinidog, ac a allwch chi nodi amserlen ar gyfer eich ymateb, ac ymateb y bwrdd iechyd hefyd, i'w chanfyddiadau?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. The timetable has not changed, to my knowledge. It is an important study and we look forward to studying in depth its findings and then acting on the recommendations.

Gallaf. Nid yw'r amserlen wedi newid, hyd y gwn i. Mae'n astudiaeth bwysig ac rydym yn edrych ymlaen at astudio ei chanfyddiadau yn fanwl ac yna gweithredu ar yr argymhellion.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The people of Brecon and Radnorshire have their health provided by the Powys Teaching Local Health Board, which had an overspend of almost £20 million in the last financial year as a result of your Labour Government's NHS cuts. What assurances can you give the people of Brecon and Radnorshire and, indeed, the wider country of Wales, that the resources available to the NHS are sufficient to meet their needs, especially when we see an ambulance service in crisis, waiting lists spiralling out of control, and cancer patients not able to access the drugs that they need?

Darperir iechyd pobl Brycheiniog a Sir Faesyfed gan Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, a orwariodd o bron i £20 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf o ganlyniad i doriadau eich Llywodraeth Lafur i'r GIG. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i bobl Brycheiniog a Sir Faesyfed ac, yn wir, i wlad ehangach Cymru, bod yr adnoddau sydd ar gael i'r GIG yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion, yn enwedig pan fyddwn yn gweld gwasanaeth ambiwlans mewn argyfwng, rhestrau aros yn mynd allan o reolaeth a chleifion cancer ddim yn gallu cael gafael ar y cyffuriau sydd eu hangen arnynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, that was an ironic speech, given the announcement yesterday with regard to one cancer drug. The Member seems to have forgotten that one. If you look at the figures for Powys, in July of this year, we see that referral-to-treatment times show a 98.6% performance against a 95% target, with no patient waiting in excess of 36 weeks. That is one among many items of data that show that the people of Powys have healthcare that is provided well for them, both by English providers—that is true—and by Welsh providers. We want to make sure, of course, as we look toward the budget, that money in Wales, in terms of health spending, continues to grow, and that we will be in a position where health spend in Wales per head remains above that in England, as it has always been.

Wel, roedd honna'n araith eironig, o ystyried y cyhoeddiad ddoe o ran un cyffur cancer. Mae'n ymddangos bod yr Aelod wedi anghofio hynny. Os edrychwch chi ar y ffigurau ar gyfer Powys, gwelwn ym mis Gorffennaf eleni bod amseroedd atgyfeirio i driniaeth yn dangos perfformiad o 98.6% yn erbyn targed o 95%, a dim un claf yn aros mwy na 36 wythnos. Mae hynny yn un ymhlith llawer o eitemau o ddata sy'n dangos bod pobl Powys yn cael gofal iechyd a ddarperir yn dda ar eu cyfer, gan ddarparwyr yn Lloegr—mae hynny'n wir—a chan ddarparwyr yng Nghymru. Rydym eisiau gwneud yn siŵr, wrth gwrs, wrth i ni edrych tuag at y gyllideb, bod yr arian yng Nghymru, o ran gwariant ar iechyd, yn parhau i dyfu, ac y byddwn mewn sefyllfa lle mae gwariant ar iechyd yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch nag yn Lloegr, fel y mae wedi bod erioed.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I ddechre at y gwasanaethau go iawn i'r etholwyr ym Mhowys, ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, un o'r problemau gyda'r ffaith nad oes ysbyty cyffredinol yn y sir yw'r ddibyniaeth ar wasanaethau cymunedol. Wrth inni bwyso a mesur yr adroddiad y byddwch yn ei dderbyn gan yr Athro Marcus Longley, sut y gallwch sicrhau bod ymateb y Llywodraeth yn un sy'n cadarnhau ac yn tyfu gwasanaethau cymunedol? Yn gyffredinol drwy orllewin Cymru, y gŵyn yw ei bod yn iawn delio â rhai o'r toriadau a'r newidiadau sy'n digwydd mewn ysbytai, ond bod yn rhaid cael y gwasanaethau cymunedol i ddal y slac. Nid yw hynny ar gael ym mhob rhan o Bowys, nac yn gyffredin drwy'r gorllewin, ar hyn o bryd.

To return to real services for constituents in Powys, in Brecon and Radnorshire, one problem resulting from the lack of a district general hospital in the county is the reliance on community services. As we consider the report that you are to receive from Professor Marcus Longley, how can you ensure that the Government's response confirms and grows community services? In general in west Wales, the complaint heard is that it is one thing to deal with some of the cuts and changes in hospitals, but that community services are a must in order to provide cover. Such services are not currently available in all parts of Powys, nor more generally in west Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, wrth gwrs, mae'r astudiaeth wedi ei chrosawu gan bawb sy'n gweithio yn y sector yn y canolbarth. Rydym yn edrych ymlaen at weld beth fydd yr astudiaeth honno yn ei ddangos. Rydym yn erfyn y bydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd y mis hwn. Unwaith y bydd y canlyniadau ar gael, bydd y Gweinidog yn ystyried beth oedd gan yr astudiaeth i'w ddweud.

Well, of course, the report has been welcomed by all who work in the sector in mid Wales. We look forward to seeing what the study shows. We expect it to be completed by the end of this month. Once the results are available, the Minister will consider what the study had to say.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Blaenoriaethau Trafnidiaeth

Transport Priorities

13:35	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth yng ngorllewin Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)1834(FM)</i></p>	<p><i>2. Will the First Minister make a statement on his priorities for transport in west Wales over the next 12 months? OAQ(4)1834(FM)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
13:35	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rydym yn cyflwyno ystod o gamau i wella trafndiaeth. Er enghraifft, rydym yn parhau i roi cymorth i wasanaethau bws, gan gynnwys cymorth i Bwcabus. Hefyd, ym mis Ebrill agorwyd yn swyddogol ffordd yr A477 rhwng San Clêr a Rhos-goch, sy'n hollbwysig i drigolion yr ardal.</p>	<p>We are taking forward a range of actions to improve transport. For example, we continue to provide support for bus services, including support for Bwcabus. Also, in April we officially opened the A477 St Clears to Red Roses road, which is crucial for the local population.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:36	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Brif Weinidog, cwrddais yn ddiweddar ag etholwyr yn Abergwaun sy'n galw am ffordd osgoi i leddfu rhai o'r problemau traffig ar y ffordd fawr i'r dref o gyfeiriad Aberteifi. Mae'ch rhagflaenydd chi, rai blynyddoedd yn ôl, wedi cydnabod yr anhawster o yrru yn y rhan hon o Abergwaun. Felly, a fydddech chi fel Llywodraeth yn fodlon ymrwymo i edrych ar gynigion a fydd yn datrys y problemau hyn, gan gynnwys creu ffordd osgoi yn yr ardal, o ystyried y byddwn yn derbyn cyfran arall o arian Ewropeaidd maes o law?</p>	<p>First Minister, I recently met with constituents in Fishguard who are calling for a bypass to alleviate some of the traffic problems on the approach to the town from Cardigan. Your predecessor recognised, some years ago, how difficult it is to drive in this part of Fishguard. Therefore, would you, as a Government, be willing to commit to looking at solutions to these problems, including the construction of a bypass in the area, given that we will soon be receiving another round of European funding?</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:36	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rwy'n adnabod yr heol, wrth gwrs, ac mae cornel anodd ar un rhan ohoni, wrth droi i fynd lan y tyle ar bwys yr harbwr. Byddem wedi meddwl, o adnabod yr ardal, y byddai creu ffordd osgoi yn brosiect mawr—man a man dweud hynny. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, gofynnaf i'r Gweinidog ystyried y galw am ffordd osgoi yn yr ardal honno o Abergwaun, i adeiladu, wrth gwrs, ar yr hyn rydym wedi ei wneud yn barod yn Abergwaun, sef sicrhau dyfodol gwasanaeth trên yr harbwr, a'r dref, i'r dwyrain.</p>	<p>I know the road, of course; there is a difficult corner on it as you turn up the hill near the harbour. I would have thought, knowing the area, that building a bypass would be a huge project—I might as well say that. However, having said that, I will ask the Minister to consider demand for a bypass in that part of Fishguard, to build upon, of course, what we have already done in Fishguard, securing the future of the train service to the harbour, the town and the east.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:37	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Brif Weinidog, beth yw polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â chylchfannau ar heolydd deulol? Mae cwestiynau wedi codi ynglŷn â'r mynediad i'r heol newydd yr oeddech yn sôn amdani, rhwng San Clêr a Rhos-goch, o gyfeiriad Llanddowror. Mae pryder, wrth i bobl dynnu allan yn y fan honno, y bydd ceir yn mynd ar gyflymder mawr ar hyd yr heol honno, ac y gallai hynny greu damweiniau.</p>	<p>First Minister, what is the Welsh Government's policy on roundabouts on dual carriageways? Questions have arisen on access to the new road that you just mentioned between St Clears and Red Roses from the direction of Llanddowror. There is concern, as people pull out there, that cars may be travelling at great speed on that road and that it could cause accidents.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:38	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae'n hollol arferol, wrth gwrs, cael cylchfannau ar bob heol, ar wahân i draffyrdd. O ran yr heol honno, gofynnaf i'r Gweinidog ysgrifennu atoch ynglŷn â'r pwynt hwnnw, gydag ateb.</p>	<p>It is usual, of course, to have roundabouts on all roads with the exception of motorways. As regards that road in particular, I will ask the Minister to write to you directly with an answer to that point.</p>	Senedd.tv Fideo Video
<p>Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau</p>		<p>Questions Without Notice from the Party Leaders</p>	
13:38	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>First this afternoon, we have the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.</p>	<p>Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.</p>	Senedd.tv Fideo Video

- 13:38 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru
First Minister, events in Scotland, and the response of the UK parties, have created a new context for debate on the constitution in these islands. Is it your view that the time has now come to go further on tax powers for this National Assembly, and do you agree that a referendum on income tax powers is now not necessary?
- Brif Weinidog, mae'r digwyddiadau yn yr Alban, ac ymateb pleidiau'r DU, wedi creu cyd-destun newydd ar gyfer dadl ar y cyfansoddiad yn yr ynysoedd hyn. A ydych chi o'r farn bod yr amser wedi dod bellach i fynd ymhellach o ran pwerau treth ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol hwn, ac a ydych chi'n cytuno nad oes angen refferendwm ar bwerau treth erbyn hyn?
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
No, I think that the referendum will still be necessary, but I do agree that the current suggestion in the Wales Bill is now consigned to history. I do not find anybody looking to defend the lockstep, for example. I do think that there is great scope now to look once again at the tax-varying arrangements of the devolved administrations, as a whole, and to go beyond what the Wales Bill actually says.
- Na, rwy'n meddwl y bydd angen y refferendwm o hyd, ond rwy'n cytuno bod yr awgrym cyfredol ym Mil Cymru yn hen hanes erbyn hyn. Nid wyf yn gweld unrhyw un sydd eisiau amddiffyn y camu clos, er enghraifft. Rwyf yn credu bod yna gyfle gwych bellach i edrych unwaith eto ar drefniadau amrywio trethi'r gweinyddiaethau datganoledig, yn eu cyfanrwydd, ac i fynd y tu hwnt i'r hyn y mae Bil Cymru yn ei ddweud mewn gwirionedd.
- 13:39 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for your answer there. It is interesting that you want to keep the referendum in place, so that is one area of no change. I have listened very carefully to what you have had to say in recent days on the question of home rule for Wales. Now, it is important to establish how your suggestion of home rule differs from the current arrangements, or from the Silk proposals for further devolution. Could you tell us whether, for example, you support the devolution of the criminal justice system to this National Assembly—in the near rather than the distant future—or whether you support, for example, the removal of the upper limit on energy powers? What exactly does home rule look like to you, First Minister?
- Diolch i chi am eich ateb. Mae'n ddiddorol eich bod eisiau parhau â'r refferendwm, felly dyna un maes o ddim newid. Rwyf wedi gwrando'n ofalus iawn ar yr hyn y bu gennych chi i'w ddweud yn y diwrnodau diwethaf ar y cwestiwn o ymreolaeth i Gymru. Nawr, mae'n bwysig canfod sut mae eich awgrym o ymreolaeth yn wahanol i'r trefniadau cyfredol, neu i gynigion Silk ar gyfer datganoli pellach. A allech chi ddweud wrthym a ydych, er enghraifft, yn cefnogi datganoli'r system cyfiawnder troseddol i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn—yn y dyfodol agos yn hytrach na'r dyfodol pell—neu a ydych chi'n cefnogi, er enghraifft, cael gwared ar y terfyn uchaf ar bwerau ynni? Beth yn union yw ystyr ymreolaeth i chi, Brif Weinidog?
- 13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
First of all, we must separate powers from structure. To my mind, the issue of powers must be dealt with separately. That means that the Wales Bill must progress through Parliament. I would like to see the whole of Part 1 implemented, beyond the Wales Bill, the whole of Part 2 implemented, and, of course, Wales's underfunding dealt with; those are fundamentals.
- Yn gyntaf oll, mae'n rhaid i ni wahanu pwerau oddi wrth strwythur. Yn fy marn i, mae'n rhaid ymdrin â'r mater o bwerau ar wahân. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i Fil Cymru symud drwy'r Senedd. Hoffwn weld Rhan 1 i gyd ar waith, y tu hwnt i Fil Cymru, Rhan 2 i gyd ar waith, ac, wrth gwrs, datrys tanariannu Cymru; dyna'r hanfodion.
- With regard to the convention, I would envisage it looking at the structure of devolution within the UK, to create what I have described as home rule in the UK. That would mean that there would need to be, initially, a meeting of all four administrations, a way forward would need to be agreed, and the final constitutional arrangement would need to be agreed by all four Governments. It is not sufficient for the whole thing to be done in Westminster, without proper input from Scotland, Wales and Northern Ireland.
- O ran y confensiwn, byddwn yn rhagweld y bydd yn edrych ar strwythur datganoli yn y DU, i greu'r hyn yr wyf wedi ei ddisgrifio fel ymreolaeth yn y DU. Byddai hynny'n golygu y byddai angen, yn y lle cyntaf, cyfarfod rhwng y pedair gweinyddiaeth, byddai angen cytuno ar ffordd ymlaen, a byddai angen i bob un o'r pedair Llywodraeth gytuno ar y drefn gyfansoddiadol derfynol. Nid yw'n ddigon i'r holl beth gael ei wneud yn San Steffan, heb fewnbwn priodol gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The leader of Plaid Cymru is absolutely right to say that things have changed. I have to say to Members that, I suspect, if I had said three months ago that I was in favour of home rule, I would have received a great deal of criticism from elsewhere, but that is the way that things have changed now. I have not been silent in terms of my view of what the future should hold.

Mae arweinydd Plaid Cymru yn llygad ei lle i ddweud bod pethau wedi newid. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelodau, rwy'n amau, pe bawn i wedi dweud tri mis yn ôl fy mod i o blaid ymreolaeth, byddwn wedi derbyn llawer iawn o feirniadaeth o fannau eraill, ond dyna sut mae pethau wedi newid erbyn hyn. Nid wyf wedi bod yn dawel o ran fy marn ar yr hyn ddylai ddigwydd yn y dyfodol.

13:41 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the indications that you have given today, First Minister, of a possible change in pace, and the fact that you want to go beyond the Silk recommendations in terms of powers for Wales. In that spirit, would you be prepared to work with me and the other party leaders in this institution, to agree a joint Wales position on securing meaningful new powers from the UK Government, by or during the next Assembly term?

Rwy'n croesawu'r arwyddion yr ydych chi wedi eu rhoi heddiw, Brif Weinidog, o newid cyflymder posibl, a'r ffaith eich bod eisiau mynd y tu hwnt i argymhellion Silk o ran pwerau i Gymru. Yn yr ysbryd hwnnw, a fydddech chi'n barod i weithio gyda mi ac arweinwyr y pleidiau eraill yn y sefydliad hwn, i gytuno ar safbwynt ar y cyd yng Nghymru ar sicrhau pwerau newydd ystyrlon oddi wrth Lywodraeth y DU, erbyn neu yn ystod tymor nesaf y Cynulliad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. I am prepared to work with all parties to do that. We have a good record of doing that; we did it, of course, before the 2011 referendum. I am aware of the leader of Plaid Cymru's view; I am aware of the leader of the Liberal Democrats' view; I do not know yet what the view of the leader of the Welsh Conservatives is on this issue. As a bare minimum, we need to see Part 1 plus Part 2 of Silk, plus underfunding, addressed. We need to see the structure of the UK's constitution changed. The idea of all sovereignty coming from Westminster is now outdated. The idea that the Secretary of State for Wales should be able to veto any Bill from this Chamber is wrong. The idea, for example, that Wales should not have control of its own energy resources is also wrong, to my mind. It is also wrong—even if this is a theoretical possibility, rather than a practical issue—that it is possible in law for the UK Parliament to abolish this place without reference to the people of Wales. That cannot be right in the twenty-first century, and it shows why there needs to be change.

Byddwn. Rwy'n barod i weithio gyda phob plaid i wneud hynny. Mae gennym hanes da o wneud hynny; gwnaethom hynny, wrth gwrs, cyn refferendwm 2011. Rwy'n ymwybodol o farn arweinydd Plaid Cymru; rwy'n ymwybodol o farn arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol; nid wyf yn gwybod eto beth yw barn arweinydd Ceidwadwyr Cymru ar y mater hwn. Mae angen i ni weld sylw yn cael ei roi i Ran 1 a Rhan 2 o Silk, yn ogystal â thanariannu, ar y lleiaf. Mae angen i ni weld strwythur cyfansoddiad y DU yn cael ei newid. Mae'r syniad o'r holl sofraniaeth yn dod o San Steffan yn hen ffasiwn bellach. Mae'r syniad y dylai Ysgrifennydd Gwladol Cymru allu rhoi feto ar unrhyw Fil o'r Siambr hon yn anghywir. Mae'r syniad, er enghraifft, na ddylai Cymru fod â rheolaeth dros ei hadnoddau ynni ei hun hefyd yn anghywir, yn fy marn i. Mae hefyd yn anghywir—hyd yn oed os mai posibilrwydd damcaniaethol yw hyn, yn hytrach na mater ymarferol—ei bod yn bosibl dan y gyfraith i Senedd y DU ddiddymu'r lle hwn heb gyfeirio at bobl Cymru. Ni all hynny fod yn iawn yn yr unfed ganrif ar hugain, ac mae'n dangos pam mae angen newid.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:42 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

First Minister, 18 months ago, I challenged you on figures that showed that some patients were waiting up to five and a half hours in the back of ambulances outside accident and emergency departments. You said then that you were

Brif Weinidog, 18 mis yn ôl, fe wnes i eich herio chi ar ffigurau a oedd yn dangos bod rhai cleifion yn aros hyd at bum awr a hanner yng nghefn ambiwlansys y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys. Dywedasoich bryd hynny eich bod yn

'assessing the need in terms of what must be done'.

'asesu'r angen yn nhermau'r hyn y mae'n rhaid ei wneud'.

Last week, we saw the tragic consequences of such delays. Could you outline to the Chamber what you have done in the last 18 months to resolve this situation?

Yr wythnos diwethaf, gwelsom ganlyniadau trasig oediadau o'r fath. A allech chi amlinellu i'r Siambr beth yr ydych chi wedi ei wneud yn y 18 mis diwethaf i ddatrys y sefyllfa hon?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First of all, I would urge Members not to pre-empt the inquiry that will take place into the events of last week. My condolences go, of course, to the family. It is not quite as straightforward as it seems, but I will leave the inquiry to make its findings. I am pleased with the fact that we have seen improvement in ambulance response times, and I expect that improvement to continue.

Yn gyntaf oll, byddwn yn annog yr Aelodau i beidio ag achub y blaen ar yr ymchwiliad a fydd yn cael ei gynnal i ddiwyddiadau yr wythnos diwethaf. Rwyf yn cydymdeimlo, wrth gwrs, â'r teulu. Nid yw mor syml ag y mae'n ymddangos, ond byddaf yn gadael yr ymchwiliad i gyflwyno ei ganfyddiadau. Rwy'n falch o'r ffaith ein bod wedi gweld gwelliant i amseroedd ymateb ambiwlansys, ac rwy'n disgwyl i'r gwelliant hwnnw barhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The most recent figures show that you are further away than you were a year ago in meeting your A&E targets, and it is clear that many A&E departments are struggling to cope, with some honourable exceptions, I must say, in Cwm Taf. Do you anticipate that the Welsh NHS will ever meet your A&E targets while you are the First Minister?

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos eich bod ymhellach i ffwrdd nag oeddech chi flwyddyn yn ôl o ran bodloni eich targedau damweiniau ac achosion brys, ac mae'n amlwg bod llawer o adrannau damweiniau ac achosion brys yn cael trafferth i ymdopi, gyda rhai eithriadau anrhydeddus, mae'n rhaid i mi ddweud, yng Nghwm Taf. A ydych chi'n rhagweld y bydd y GIG yng Nghymru fyth yn bodloni eich targedau damweiniau ac achosion brys tra eich bod chi'n Brif Weinidog?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, I do. Those targets are testing, I have to admit, and sometimes there are reasons why those targets are not met. For example, one of the things that is sometimes believed when we talk about A&E waiting times is that they are the times that people have to wait before treatment; they are not. They are the times that people wait in A&E from the time they arrive to the time they leave or are admitted to hospital. That is the first thing we have to remember. On that basis, of course, there will be occasions—practitioners have said this to me—when they have to keep people there to wait for tests; better that than admitting them to hospital. There will be occasions when people are waiting longer than 12 hours because the alternative is to admit them, perhaps for three days in hospital. So, yes, it is important that people do not have to spend an inordinate amount of time in A&E—90% of people are in and out within four hours—but there will always be those people who will need to spend more time in A&E waiting for results and, of course, to avoid being admitted to hospital.

Ydw, mi ydwyf. Mae'r targedau hynny'n anodd, mae'n rhaid i mi gyfaddef, ac weithiau mae rhesymau pam nad yw'r targedau hynny'n cael eu bodloni. Er enghraifft, un o'r pethau a gredir weithiau pan fyddwn yn sôn am amseroedd aros damweiniau ac achosion brys yw mai dyma'r amseroedd y mae'n rhaid i bobl aros cyn y driniaeth; nid yw hynny'n wir. Dyma'r amserau y mae pobl yn aros yn yr adran damweiniau ac achosion brys o'r amser maen nhw'n cyrraedd i'r amser maen nhw'n gadael neu'n cael eu derbyn i'r ysbyty. Dyna'r peth cyntaf y mae'n rhaid i ni ei gofio. Ar y sail honno, wrth gwrs, bydd achlysuron—mae ymarferwyr wedi dweud hyn wrthyf—pan fydd yn rhaid iddynt gadw pobl yno i aros am brofion; mae hynny'n well na'u derbyn i'r ysbyty. Bydd adegau pan fydd pobl yn aros yn hwy na 12 awr gan mai'r dewis arall yw eu derbyn nhw, efallai am dri diwrnod yn yr ysbyty. Felly, ydy, mae'n bwysig nad oes yn rhaid i bobl dreulio llawer gormod o amser mewn adrannau damweiniau ac achosion brys—mae 90% o bobl i mewn ac allan o fewn pedair awr—ond bydd bob amser y bobl hynny y bydd angen iddyn nhw dreulio mwy o amser yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn aros am ganlyniadau ac, wrth gwrs, er mwyn osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Despite assurances from you and the Minister for health that delayed transfers of care would be tackled with a new sense of urgency, the reality is that delayed transfers of care are up on what they were last year. That means that there are fewer beds for people who need to be in them for clinical reasons. That can lead to longer waiting times in A&E departments and, subsequently, more ambulances queuing outside A&E, waiting to discharge their patients. When would you anticipate that we will see the dramatic improvements in delayed transfers of care that we need to see?

Er gwaethaf sicrwydd gennych chi a'r Gweinidog iechyd y byddai oedi wrth drosglwyddo gofal yn cael sylw gyda synnwyr newydd o frys, y gwir amdani yw bod achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn uwch nag oeddent y llynedd. Mae hynny'n golygu bod llai o welyau i bobl sydd angen bod ynddynt am resymau clinigol. Gall hynny arwain at amseroedd aros hwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac, yn sgil hynny, mwy o ambiwlansys yn ciwio y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys, yn aros i ollwng eu cleifion. Pryd ydych chi'n rhagweld y byddwn yn gweld y gwelliannau dramatig o ran oedi wrth drosglwyddo gofal y mae angen i ni ei weld?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

She is right to point out that, compared with this time last year, the figures are up, but they are down from the previous month. Two things: first of all, the community and hospital interface national task and finish group has identified a number of actions at local and national level that will need to be taken forward. Also, because of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, there are ways now to ensure more collaborative working between health and social services in order to reduce the number of delayed transfers of care, and we expect, as that Act is rolled out, to see that number decreasing even further.

Mae hi'n iawn i nodi, o'u cymharu â'r adeg hon y llynedd, bod y ffigurau wedi cynyddu, ond maen nhw wedi gostwng ers y mis blaenorol. Dau beth: yn gyntaf oll, mae grŵp gorchwyl a gorffen cenedlaethol rhyngwyneb y gymuned a'r ysbty wedi nodi nifer o gamau gweithredu ar lefel lleol a chenedlaethol y bydd angen eu datblygu. Hefyd, oherwydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, ceir ffyrdd o sicrhau mwy o gydweithio rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol erbyn hyn, er mwyn lleihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, ac rydym yn disgwyl, wrth i'r Ddeddf honno gael ei chyflwyno, gweld y nifer honno'n gostwng hyd yn oed ymhellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, I call on the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Yn olaf, galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Thank you, Presiding Officer. First Minister, last January, you said,

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, dywedasoch ym mis Ionawr,

'We want a sustainable health service that is based on the guidance that doctors themselves give.'

'Rydym ni eisiau gweld gwasanaeth iechyd cynaliadwy sy'n seiliedig ar yr arweiniad y mae meddygon eu hunain yn ei roi.'

Last week, many of us would have seen the British Medical Association's report, which stated that it faces imminent meltdown. Its key recommendation was,

Yr wythnos diwethaf, bydd llawer ohonom wedi gweld adroddiad Cymdeithas Feddygol Prydain, a nododd ei bod ar fin wynebu argyfwng difrifol yn fuan. Ei argymhelliad allweddol oedd,

'The Welsh Government should commission an urgent and full-scale independent Wales-wide inquiry into all NHS health services throughout Wales.'

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwiliad annibynnol brys a llawn trwy Gymru gyfan i holl wasanaethau iechyd y GIG ledled Cymru.

Doctors have given their advice. When will the Government act?

Mae meddygon wedi rhoi eu cyngor. Pryd y bydd y Llywodraeth yn gweithredu?

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The difficulty, of course, is that the BMA, not doctors, is not consistent in the messages that it gives. For example, back in March, it said,

Yr anhawster, wrth gwrs, yw nad yw'r BMA, nid meddygon, yn gyson yn y negeseuon y mae'n eu rhoi. Er enghraifft, yn ôl ym mis Mawrth, dywedodd,

'This data demonstrates clearly that the claim that Welsh hospitals deliver worse outcomes than English ones is a wicked slander.'

Mae'r data hwn yn dangos yn eglur bod yr honiad bod ysbytai Cymru yn darparu canlyniadau gwaeth na rhai Lloegr yn athrod maleisus.

In March, Dr Banfield, who said that the Welsh NHS was in meltdown, said, 'Don't bring in a Keogh-style inquiry'. Dr Mark Porter, the chair of the BMA council said that your party, the UK Government, was being 'fundamentally dishonest' about the funding of the NHS.

Ym mis Mawrth, dywedodd Dr Banfield, a ddywedodd fod y GIG yng Nghymru mewn argyfwng difrifol, Peidiwch â chyflwyno ymchwiliad tebyg i Keogh. Dywedodd Dr Mark Porter, cadeirydd cyngor y BMA bod eich plaid, Llywodraeth y DU, yn bod yn sylfaenol anonest am gyllid y GIG.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The difficulty, is it not, when you have such inconsistent statements, is which ones do you believe? I have to say that his comments are not supported by others who work within the NHS.

Yr anhawster, onid yw, pan fo gennych ddatganiadau anghyson o'r fath, yw pa rai rydych chi'n eu credu? Mae'n rhaid i mi ddweud nad yw ei sylwadau'n cael eu cefnogi gan eraill sy'n gweithio yn y GIG.

13:47

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I think that that emphasises how important the report that it has brought forward is. Very often, when it has wanted to criticise us as an opposition, it has criticised us. It does not take a political position in this; it listens to its members and it acts. The BMA goes on to say in this report that the NHS in Wales has 'a non-listening culture' that

Brif Weinidog, rwy'n credu bod hynny'n pwysleisio pa mor bwysig yw'r adroddiad y mae wedi ei gyhoeddi. Yn aml iawn, pan ei fod wedi bod eisiau ein beirniadu ni fel gwrthblaid, mae wedi ein beirniadu ni. Nid yw'n cymryd safbwynt gwleidyddol yn hyn o beth; mae'n gwrando ar ei haelodau ac mae'n gweithredu. Mae'r BMA yn mynd ymlaen i ddweud yn yr adroddiad hwn bod gan y GIG yng Nghymru ddiwylliant o beidio â gwrando sydd

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'is a widespread problem across NHS institutions and poses a significant threat to patient safety.... The current arrangements for raising concerns do little to reassure doctors that they can voice a concern without reproach'.

yn broblem gyffredin ar draws sefydliadau'r GIG ac sy'n fygythiad sylweddol i ddiogelwch cleifion....Ychydig iawn y mae'r trefniadau presennol ar gyfer codi pryderon yn ei wneud i dawelu meddyliau meddygon y gallant leisio pryder heb gerydd.

First Minister, when is your Government going to create a culture within the NHS where doctors' concerns can be listened to and can be acted on, and patient safety and clinical excellence are at the forefront of thinking, rather than taking sanctions against people who highlight these problems?

Brif Weinidog, pryd mae eich Llywodraeth yn mynd i greu diwylliant yn y GIG lle y gellir gwrando a gweithredu ar bryderon meddygon, a lle mae diogelwch cleifion a rhagoriaeth glinigol yn flaenllaw ym meddyliau pobl, yn hytrach na chyflwyno cosbau yn erbyn pobl sy'n tynnu sylw at y problemau hyn?

13:48

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

They are. When I came to live in Cardiff, I lived in a house with six medical students and I knew a lot of medical students then, which means that I know a lot of consultants and GPs now. I spoke to a few of them over the weekend, and not one of them agreed with the comment that was made. Not one. I am impressed by an organisation that calls for an inquiry into its own members, which is exactly what the BMA has done, but I think that it is important that the BMA does two things: first of all, it should be consistent in what it says and, secondly, where it has concerns, it might want to address those concerns to the Government first, rather than putting them in the media.

Maen nhw. Pan ddeuthum i fyw yng Nghaerdydd, roeddwn i'n byw mewn tŷ gyda chwe myfyriwr meddygol ac roeddwn i'n adnabod llawer o fyfyrwyr meddygol bryd hynny, sy'n golygu fy mod i'n adnabod llawer o ymgynghorwyr a meddygon teulu nawr. Siaradais â rhai ohonynt nhw yn ystod y penwythnos, ac nid oedd yr un ohonynt yn cytuno â'r sylw a wnaed. Dim un ohonynt. Mae sefydliad sy'n galw am ymchwiliad i'w aelodau ei hun yn rhywbeth trawiadol iawn, a dyna'n union yr hyn y mae'r BMA wedi ei wneud, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod y BMA yn gwneud dau beth: yn gyntaf oll, dylai fod yn gyson yn yr hyn y mae'n ei ddweud ac, yn ail, lle mae ganddo bryderon, efallai y dylai hysbysu'r Llywodraeth am y pryderon hynny yn gyntaf, yn hytrach na'u cyhoeddi yn y cyfryngau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>It is the usual flippancy and arrogance that we see from this First Minister. Here is a comprehensive report that is looking at the NHS in its entirety. As I said, it is an organisation that, when it felt the need to criticise us as a party or any of the other parties in this institution, has criticised and offered the view that it saw fit for the Welsh NHS. It has brought forward a review that says that an independent inquiry is required to look into all aspects of the Welsh NHS. It has highlighted that the Welsh NHS faces imminent meltdown. It has highlighted how doctors feel that sanctions will be taken against them when they raise concerns. Perhaps that is part of the problem in the Princess of Wales Hospital in your constituency and why it is facing so many problems. When, First Minister, will you bring forward such an independent inquiry? As I said in my opening remarks, you are prepared to listen to some clinical advice, but when it does not suit you, you are not prepared to listen to what is good for the NHS in Wales.</p>	<p>Dyma'r ysmaldod a'r haerllugrwydd arferol a welwn gan y Prif Weinidog hwn. Dyma adroddiad cynhwysfawr sy'n edrych ar y GIG yn ei gyfanrwydd. Fel y dywedais, mae'n sefydliad, pryd yr oedd yn teimlo'r angen i'n beirniadu ni fel plaid neu unrhyw un o'r pleidiau eraill yn y sefydliad hwn, sydd wedi beirniadu a mynegi'r farn yr oedd yn credu oedd yn briodol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae wedi cyhoeddi adolygiad sy'n dweud bod angen ymchwiliad annibynnol i ystyried pob agwedd ar y GIG yng Nghymru. Mae wedi amlygu bod y GIG yng Nghymru ar fin wynebu argyfwng difrifol yn fuan. Mae wedi tynnu sylw at sut mae meddygon yn teimlo y bydd cosbau yn cael eu cymryd yn eu herbyn pan fyddant yn codi pryderon. Efallai fod hynny'n rhan o'r broblem yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn eich etholaeth chi a pham mae'n wynebu cynifer o broblemau. Pryd, Brif Weinidog, wnech chi gyflwyno ymchwiliad annibynnol o'r fath? Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, rydych chi'n barod i wrando ar rywfaent o gyngor clinigol, ond pan nad yw'n cyd-fynd â'ch dibenion, nid ydych chi'n barod i wrando ar yr hyn sydd o les i'r GIG yng Nghymru.</p>
13:50	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	Senedd.tv Fideo Video
	<p>If the leader of the opposition has evidence of doctors in my own hospital being suppressed in some way, let him bring it forward without making cheap political points and allegations that are not based, in any way, in evidence.</p>	<p>Os oes gan arweinydd yr wrthblaid dystiolaeth o feddygon yn fy ysbyty fy hun yn cael eu ffrwyno mewn rhyw ffordd, gadewch iddo ei chyflwyno heb wneud pwyntiau gwleidyddol rhad drwy honiadau nad ydynt wedi eu seilio, mewn unrhyw ffordd, ar dystiolaeth.</p>
13:50	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Are we in court at the moment?</p>	<p>A ydym ni yn y llys ar hyn o bryd?</p>
13:50	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	Senedd.tv Fideo Video
	<p>There is no point in shouting. He shouts a lot and says very little. That is the way that he is. [Laughter.] The reality of the situation is this: his party has been described as fundamentally dishonest by the BMA. Why should we disbelieve it in that regard? Let us not be naive about this: there are pay discussions taking place at the moment. The BMA says that it wants to be listened to. Why, then, has it not appeared at any of the pay negotiations on behalf of its members at any time? Not a single meeting. It has been invited to discuss the pay and terms and conditions of its members, but it has not on one occasion turned up to discuss those terms and conditions and pay. We are prepared to listen to the BMA, but we would prefer it if it were consistent, that it turned up to talk to us rather than using the media as a megaphone.</p>	<p>Nid oes unrhyw bwynt mewn gweiddi. Mae'n gweiddi llawer ac yn dweud ychydig iawn. Dyna ei ffordd. [Chwerthin.] Gwirionedd y sefyllfa yw hyn: dywedodd y BMA bod ei blaid yn sylfaenol anonest. Pam na ddylem ni ei gredu yn hynny o beth? Gadewch i ni beidio â bod yn naif ynglŷn â hyn: mae trafodaethau cyflog yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Mae'r BMA yn dweud ei fod eisiau gwrandawriad. Pam, felly, nad yw wedi ymddangos yn unrhyw un o'r trafodaethau cyflog ar ran ei aelodau ar unrhyw adeg? Dim un cyfarfod. Fe'i gwahoddiwyd i drafod cyflog a telerau ac amodau ei aelodau, ond nid yw wedi dod hyd yn oed unwaith i drafod y telerau ac amodau a'r cyflog hynny. Rydym ni'n barod i wrando ar y BMA, ond byddai'n well gennym pe byddai'n gyson, pe byddai'n dod i siarad â ni yn hytrach na defnyddio'r cyfryngau fel megaffon.</p>
13:51	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We now move back to the questions on the agenda. Question 3 is from Antoinette Sandbach.</p>	<p>Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar yr agenda nawr. Daw Cwestiwn 3 gan Antoinette Sandbach.</p>

Canser y Coluddyn

Bowel Cancer

13:51 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
3. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chanser y coluddyn yng Nghymru? OAQ(4)1839(FM) *3. Will the First Minister provide an update on Welsh Government plans to tackle bowel cancer in Wales? OAQ(4)1839(FM)*

13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Our plans to tackle all forms of cancer are set out in the cancer delivery plan. With bowel cancer, early diagnosis is essential, which is why we have a proactive screening programme.
Nodir ein cynlluniau i fynd i'r afael â phob math o ganser yn y cynllun cyflawni ar gyfer canser. O ran canser y coluddyn, mae diagnosis cynnar yn hanfodol, a dyna pam mae gennym raglen sgrinio ragweithiol.

13:51 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
According to information from Bowel Cancer UK, only three health boards in Wales have undergone accreditation for their endoscopy units by the joint advisory group for gastroenterology. My local health board, Betsi Cadwaladr University Local Health Board, is not among this number. As this accreditation aims to assess units on clinical quality and patient experience, do you share my concerns that over half of the health boards in Wales have not gained this accreditation? What encouragement will your Government be placing on Betsi and fellow health boards to become accredited at the earliest possible opportunity?
Yn ôl gwybodaeth gan Bowel Cancer UK, dim ond tri bwrdd iechyd yng Nghymru sydd wedi cael achrediad ar gyfer eu hunedau endosgopi gan y grŵp cynghori ar y cyd ar gyfer gastroenteroleg. Nid yw fy mwddd iechyd lleol i, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, ymhlith y rhain. Gan mai nod yr achrediad hwn yw asesu unedau ar ansawdd clinigol a phrofiad y claf, a ydych chi'n rhannu fy mhryderon bod mwy an hanner y byrddau iechyd yng Nghymru dad ydynt wedi ennill yr achrediad hwn? Pa anogaeth fydd eich Llywodraeth yn ei rhoi i Betsi a byrddau iechyd eraill i fod wedi eu hachredu ar y cyfle cyntaf posibl?

13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Across our nation, I know that the Minister announced in March an additional £4 million to reduce waiting times for diagnostic tests. That was made. On 1 August, Betsi Cadwaladr was allocated £448,000 to be used to accelerate the reduction in waiting times in other diagnostic tests and endoscopies to a maximum of eight weeks, to improve its position. That improvement is expected by the end of March next year, at the latest. I can assure the Member that progress is being monitored on a monthly basis.
Ar draws ein cenedl, gwn fod y Gweinidog wedi cyhoeddi £4 miliwn ychwanegol ym mis Mawrth i leihau amseroedd aros am brofion diagnostig. Gwnaethpwyd hynny. Ar 1 Awst, dyrannwyd £448,000 i Betsi Cadwaladr i'w ddefnyddio i gyflymu'r lleihad i amseroedd aros am brofion ac endosgopiau diagnostig eraill i uchafswm o wyth wythnos, i wella ei sefyllfa. Disgwylir y gweliant hwnnw erbyn diwedd mis Mawrth y flwyddyn nesaf, fan bellaf. Gallaf sicrhau'r Aelod bod cynnydd yn cael ei fonitro bob mis.

Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cwm Cynon)

Public Transport (Cynon Valley)

13:52 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
4. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghwm Cynon? OAQ(4)1836(FM) *4. What action is the Welsh Government taking to improve public transport services in the Cynon Valley? OAQ(4)1836(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We are committed to improving public transport accessibility in all of the Valleys. Some actions include, for example, the A470 bus corridor improvements being developed under the metro phase 1 funding programme, but also in the negotiations on the new franchise.
Rydym ni wedi ymrwmo i wella hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus ym mhob un o'r Cymoedd. Mae rhai camau'n cynnwys, er enghraifft, y gwelliannau i goridau bysiau'r A470 yn cael eu datblygu dan raglen ariannu cam 1 metro, ond hefyd yn y trafodaethau ar y fasnachfrait newydd.

13:53

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Over recent months, I have continued to be contacted by constituents who are unhappy with the Valley Lines rail services between Cynon Valley and Cardiff. Quite often trains are late, they are still very cramped and sometimes they are in poor condition. This is totally unacceptable. I know that, last week, there was some discussion during your question time on the future rail franchise arrangements. What impact do you think these poor experiences will have on the awarding of any future rail franchise in Wales? In addition, what work will be done as part of the south Wales metro project, which you mentioned, to make sure that we get the travelling conditions for passengers right?

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae etholwyr sy'n anffodlon â gwasanaethau rheilffordd Valley Lines rhwng Cwm Cynon a Chaerdydd wedi parhau i gysylltu â mi. Mae trenau'n hwyr yn aml iawn, maen nhw'n dal i fod yn gyfyng iawn ac weithiau maen nhw mewn cyflwr gwael. Mae hyn yn gwbl annerbyniol. Rwy'n gwybod, yr wythnos diwethaf, y bu rhywfaint o drafodaeth yn ystod eich sesiwn gwestiynau ar y trefniadau masnachfaint rheilffyrdd ar gyfer y dyfodol. Pa effaith ydych chi'n meddwl y bydd y profiadau gwael hyn yn ei chael ar ddyfarnu unrhyw fasnachfaint rheilffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol? Hefyd, pa waith fydd yn cael ei wneud yn rhan o brosiect metro de Cymru, a grybwyllwyd gennych, i wneud yn siŵr ein bod yn cael yr amodau teithio ar gyfer teithwyr yn iawn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Member raises a perfectly valid point. The reality is that we are stuck with the franchise arrangements that were made under a previous arrangement. They have not consistently served the people of Wales well. We want to ensure, in the next franchise, that there are frequent services, that the rolling stock is of sufficient quality, and that there are more frequent services. You will have heard the Minister for Economy, Science and Transport's enthusiasm for the south Wales metro project. Moving that forward will mean that people from the Cynon Valley and from Aberdare—and all our Valleys communities—should see better, cleaner, faster and more frequent transport.

Mae'r Aelod yn codi pwynt cwbl ddilys. Y gwir amdani yw ein bod ynghlwm i drefniadau masnachfaint a wnaed dan drefniant blaenorol. Nid ydynt wedi gwasanaethu pobl Cymru yn dda yn gyson. Rydym ni eisiau sicrhau, yn y fasnachfaint nesaf, y ceir gwasanaethau rheolaidd, bod y cerbydau o ansawdd digonol, a bod gwasanaethau amlach. Byddwch wedi clywed brwdfrydedd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am brosiect metro de Cymru. Bydd datblygu hwnnw'n golygu y dylai pobl o Gwm Cynon ac o Aberdâr—a'n holl gymunedau yn y Cymoedd—weld cludiant gwell, glanach, cyflymach ac amlach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the metro project, on which you just closed your answer to that question, is a vitally important part of the transport infrastructure for the future in south Wales. There have been intense discussions between you and the Welsh office. What is your take at the moment as to how those discussions are progressing, and what can we look forward to in the future?

Brif Weinidog, mae'r prosiect metro, y soniasoch amdano wrth gloi eich ateb i'r cwestiwn yna, yn rhan hanfodol bwysig o'r seilwaith trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol yn ne Cymru. Bu trafodaethau dwys rhyngoch chi a'r Swyddfa Gymreig. Beth yw eich safbwynt chi ar hyn o bryd o ran sut mae'r trafodaethau hynny yn datblygu, a beth allwn ni edrych ymlaen ato yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

There have been no discussions with the Welsh office—I can promise him that. It is the Wales Office. Secondly, I can say that the discussions have proceeded with the Department for Transport. They do not go via an intermediary with the Welsh office—Wales Office. I have done it myself now. There we are; it is one all. The issue is this: I have noticed a difference in tone with the new occupant of the Wales Office, the Secretary of State, and I welcome that. He has said that he is looking to see a solution, which we all want to see—a solution that is fair and that delivers—and it is the hope of all involved, now that we are close to a solution, that we will see the project delivered.

Ni fu unrhyw drafodaethau gyda'r Swyddfa Gymreig—gallaf addo hynny iddo. Swyddfa Cymru yw hi. Yn ail, gallaf ddweud bod y trafodaethau wedi parhau gyda'r Adran Drafnidiaeth. Nid ydynt yn mynd trwy gyfryngwr gyda'r Swyddfa Gymreig—Swyddfa Cymru. Rwyf wedi ei wneud fy hun nawr. Dyna ni; mae'r cwbl yn un. Y mater yw hyn: rwyf wedi sylwi ar wahaniaeth mewn naws gyda phreswlydd newydd Swyddfa Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, ac rwy'n croesawu hynny. Mae wedi dweud ei fod yn chwilio am ateb, yr ydym i gyd eisiau ei weld—ateb sy'n deg ac yn cyflawni—a gobaith pawb sy'n ymwneud â'r mater, nawr ein bod yn agos at ateb, yw y byddwn yn gweld y prosiect yn cael ei ddarparu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If I can echo the comments made previously, people in the Valleys must see day-to-day improvements from any investment in rail. First Minister, in 2011 Ieuan Wyn Jones, as Deputy Minister for transport in the previous Welsh Government, announced plans to reopen the rail passenger line between Aberdare and Hirwaun. This service was closed 50 years ago and the closure has meant the loss of an important transport link for people in the Cynon Valley. While preparatory steps were taken by Ieuan Wyn Jones, his office term came to an end shortly after that. There appears to have been very little development in progressing this passenger service in the three years that have passed since then. Can you offer any hope to the people of the Cynon Valley that this service will be reinstated or is it deemed not to be a priority for your Government now?

Os gallaf adleisio'r sylwadau a wnaed yn flaenorol, mae'n rhaid i bobl yn y Cymoedd weld gwelliannau o ddydd i ddydd o unrhyw fuddsoddiad yn y rheilffyrdd. Brif Weinidog, cyhoeddodd Ieuan Wyn Jones yn 2011, fel Dirprwy Weinidog trafndiaeth yn Llywodraeth flaenorol Cymru, gynlluniau i ailagor y rheilffordd i deithwyr rhwng Aberdâr a Hirwaun. Caewyd y gwasanaeth hwn 50 mlynedd yn ôl ac mae ei gau wedi golygu colli cyswllt trafndiaeth pwysig i bobl yng Nghwm Cynon. Er y cymerwyd camau paratoadol gan Ieuan Wyn Jones, daeth tymor ei swydd i ben yn fuan wedyn. Mae'n ymddangos mai prin iawn fu'r datblygiad o ran symud y gwasanaeth hwn i deithwyr ymlaen yn y tair blynedd sydd wedi mynd heibio ers hynny. A allwch chi gynnis unrhyw obaith i bobl Cwm Cynon y bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ailgyflwyno neu a ystyrir nad yw'n flaenoriaeth i'ch Llywodraeth bellach?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I think that Ieuan was Deputy First Minister, rather than Deputy Minister for transport, in fairness to him. But, the point is a fair one. It has been right to say that we have seen progress on the railways. We saw the opening of the Fishguard and Goodwick station and the extension of services there. We are seeing, of course, improvements in the line between Wrexham and Saltney junction and we will, of course, continue to review further reopenings in the future. The line is still there, of course, because it was serving Tower colliery. This is something that we will keep under review because we have a good record of reopening railway lines, whether it is the Vale of Glamorgan line or the Ebbw valley line. Many Members who have been here since 1999 will remember that it was almost impossible to travel north-south by train in Wales without a long layover in Shrewsbury, but now we have a two-hourly service. We want to see the quality—I know what people are going to say—of the rolling stock improved in the future—that much is true—and greater consistency within the service. So, we have a good record in reopening railway lines and we will always look to open up new lines—

Rwy'n credu mai Dirprwy Brif Weinidog, oedd Ieuan yn hytrach na Dirprwy Weinidog trafndiaeth, er tegwch iddo. Ond, mae'r pwynt yn un teg. Mae wedi bod yn iawn dweud ein bod ni wedi gweld cynnydd ar y rheilffyrdd. Gwelsom agoriad gorsaf Abergwaun ac Wdiga chynyddu gwasanaethau yno. Rydym ni'n gweld, wrth gwrs, gwelliannau i'r rheilffordd rhwng cyffordd Wrecsam a Saltney a byddwn, wrth gwrs, yn parhau i adolygu ailagoriadau pellach yn y dyfodol. Mae'r rheilffordd yn dal i fod yno, wrth gwrs, gan ei bod yn gwasanaethu pwll glo'r Tower. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w adolygu gan fod gennym hanes da o ailagor rheilffyrdd, boed yn rheilffordd Bro Morgannwg neu reilffordd Glyn Ebwy. Bydd llawer o Aelodau sydd wedi bod yma ers 1999 yn cofio ei bod bron yn amhosibl teithio o'r gogledd i'r de ar y trên yng Nghymru heb aros am gyfnod hir yn yr Amwythig, ond mae gennym wasanaeth bob dwy awr erbyn hyn. Rydym ni eisiau gweld ansawdd—rwy'n gwybod beth mae pobl yn mynd i'w ddweud—y cerbydau yn gwella yn y dyfodol—mae cymaint â hynny'n wir—a mwy o gysondeb yn y gwasanaeth. Felly, mae gennym hanes da o ran ailagor rheilffyrdd a byddwn yn ceisio agor rheilffyrdd newydd bob amser—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, this was on the Cynon Valley.

Lywydd, cwestiwn am Gwm Cynon oedd hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

[Continues.]—where that is possible, particularly examining the line between Aberdare and Hirwaun.

[Yn parhau.]—pan fo hynny'n bosibl, gan archwilio'r rheilffordd rhwng Aberdâr a Hirwaun yn benodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Returning to the Aberdare to Cardiff line, First Minister, a number of stations on that line had their platforms extended back in 2008 to accommodate six-car trains, as part of a £13 million investment, which you described as 'futureproofing' the network. Can you tell us, now that we are six years into the future, when we can anticipate seeing some of those six-car trains on that very overcrowded service?

I ddychwelyd at reilffordd Aberdâr i Gaerdydd, Brif Weinidog, ehangwyd platfformau nifer o orsafoedd ar y rheilffordd honno yn ôl yn 2008 i wneud lle ar gyfer trenau chwe cherbyd, yn rhan o fuddsoddiad o £13 miliwn, a ddisgrifiwyd gennych fel paratoi'r rhwydwaith ar gyfer y dyfodol. A allwch chi ddweud wrthym, gan ein bod ni chwe blynedd i'r dyfodol erbyn hyn, pryd y gallwn ni ddisgwyl gweld rhai o'r trenau chwe cherbyd hynny yn y gwasanaeth hynod orlawn hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I would like to see that start in 2018 when the new franchise begins. From our point of view, we would prefer to see the devolution of the necessary powers, with a fair and equitable funding settlement from the UK Government, so that we are able to specify and procure the next franchise. We cannot do that at the moment acting on our own. We would like to see more than £4 million put in for additional peak Valley carriages, including, of course, Aberdare services. However, it would certainly be helpful if the franchising arrangements were wholly devolved, together with the funding. That is not the case at the moment.

Hoffwn weld hynny'n dechrau yn 2018 pan fydd y fasnachfrait newydd yn dechrau. O'n safbwynt ni, byddai'n well gennym weld y pwerau angenrheidiol yn cael eu datganoli, gyda setliad ariannu teg a chyfartalgan Lywodraeth y DU, fel y gallwn nodi a chaffael y fasnachfrait nesaf. Ni allwn wneud hynny ar hyn o bryd yn gweithredu ar ein pennau ein hunain. Byddem yn hoffi gweld mwy na £4 miliwn yn cael ei roi i mewn ar gyfer cerbydau ar adegau prysur yn y Cymoedd, gan gynnwys, wrth gwrs, gwasanaethau Aberdâr. Fodd bynnag, byddai'n sicr yn ddefnyddiol pe byddai'r trefniadau masnachfrait yn cael eu datganoli'n llwyr, ynghyd â'r cyllid. Nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Credyd Cynhwysol

Universal Credit

13:58

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y mae cynllun credyd cynhwysol Llywodraeth y DU yn ei chael ar bobl yng Nghymru? OAQ(4)1848(FM)

5. What assessment has the Welsh Government made of the impact that the UK Government's universal credit scheme is having on people in Wales? OAQ(4)1848(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

In July, we published the latest research by the Institute for Fiscal Studies, which suggests that universal credit will lead to an annual loss of income in Wales of at least £40 million. We are also monitoring statistics on the numbers affected by universal credit.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd y gwaith ymchwil diweddaraf gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid gennym, sy'n awgrymu y bydd credyd cynhwysol yn arwain at golled flynyddol o incwm yng Nghymru o £40 miliwn o leiaf. Rydym hefyd yn monitro ystadegau ar y niferoedd sy'n cael eu heffeithio gan gredyd cynhwysol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. I am sure that you are aware of the Wales TUC Saving our Safety Net campaign on the five-week benefits wait facing newly unemployed workers under universal credit. I am sure you would agree with me that this is too long a wait for someone who has lost their job and who is struggling. We know that this will hit 15,000 people in Wales every month, including some 500 of my constituents, and we should also be mindful of Trussell Trust figures showing that a third of people using food banks already cite benefit delays as the reason for their referral. First Minister, will you join the growing chorus of opposition to this move by personally lobbying in the UK Government to reverse its decision on the five-week wait? Will you also join me in encouraging Welsh people to support the TUC petition against this very unfair policy?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o ymgyrch Saving our Safety Net TUC Cymru ar yr arhosiad o bum wythnos am fudd-daliadau sy'n wynebu gweithwyr sydd newydd gael eu gwneud yn ddi-waith dan greddyd cynhwysol. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi bod hyn yn arhosiad rhy hir i rywun sydd wedi colli ei swydd ac sy'n cael trafferth ymdopi. Rydym yn gwybod y bydd hyn yn taro 15,000 o bobl yng Nghymru bob mis, gan gynnwys tua 500 o'm hetholwyr i, a dylem hefyd fod yn ystyriol o ffigurau Ymddiriedolaeth Trussell sy'n dangos bod traean o bobl sy'n defnyddio banciau bwyd eisoes yn nodi oediadau mewn budd-daliadau fel y rheswm am eu hatgyfeiriad. Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â'r llais cynyddol o wrthwynebiad i'r symudiad hwn drwy lobio'n bersonol yn Llywodraeth y DU i wrthdroi ei phenderfyniad ar yr arhosiad o bum wythnos? A wnewch chi hefyd ymuno â mi i annog pobl Cymru i gefnogi deiseb y TUC yn erbyn y polisi hynod annheg hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I will give my full support to that. I can assure the Member that the Minister for Communities and Tackling Poverty is now considering the detail of this change. Of course, it will be our position, as a Government, to fight anything that leads to unfairness, particularly for those on the lowest incomes in our society.</p>	<p>Byddaf yn rhoi fy nghefnogaeth lawn i hynny. Gallaf sicrhau'r Aelod bod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ystyried manylion y newid hwn ar hyn o bryd. Wrth gwrs, ein safbwynt ni, fel Llywodraeth, fydd ymladd yn erbyn unrhyw beth sy'n arwain at annhegwch, yn enwedig i'r rhai sy'n derbyn yr incymau isaf yn ein cymdeithas.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:00	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>On the subject of welfare, will the First Minister advise if any study has been made of the potential impact on Wales of Labour plans to cut the value of child benefit should they win the next election?</p>	<p>Ar bwnc lles, a wnaiff y Prif Weinidog ein hysbysu pa un a wnaed unrhyw astudiaeth o'r effaith bosibl ar Gymru oherwydd cynlluniau Llafur i dorri gwerth budd-dal plant pe byddent yn ennill yr etholiad nesaf?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:00	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>There are no plans to cut the value of child benefit.</p>	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau i dorri gwerth budd-dal plant.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:00	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Rhan o'r newidiadau i'r drefn fudd-daliadau yw'r dreth lloffydd, sy'n gymaint o fwrn i gymaint o bobl. A yw'r Llywodraeth wedi gwneud astudiaeth i weld faint o bobl sydd wedi cael eu heffeithio ac wedi gorfod symud oherwydd y dreth hon, a beth yw'r gost a'r golled i Gymru o'r dreth arbennig hon?</p>	<p>Part of the changes to the benefits system is the bedroom tax, which is such a burden for so many people. Has the Government undertaken a study to see how many people have been affected by having to move house because of this tax, and what is the cost and the loss to Wales because of this tax?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:00	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Nid oes ffigurau gennyf ar gyfer hynny, ond, wrth ystyried yr hyn yr wyf yn ei weld yn fy etholaeth i, rwy'n gweld pobl yn gorfod talu rhagor, achos ni allant symud mor rhwydd â hynny. Mae rhyw fath o feddwl yn Llundain bod hynny'n rhywbeth rhwydd i'w wneud, ond nid yw. Wrth gwrs, rwy'n falch dros ben bod fy mhleid i, ar lefel y Deyrnas Unedig, wedi dweud y byddwn yn cael gwared ar y dreth hon.</p>	<p>I have no specific figures on that, but, considering what I see in my constituency, I see people having to pay more, because it is not that easy for them to move. There is an assumption in London that that is an easy thing to do, but it is not. Of course, I am very pleased that my own party at the UK level has made it clear that we will abolish this tax.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Canserau Plant		Child Cancers	
14:01	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thrin canserau plentyn?</i> OAQ(4)1838(FM)</p>	<p><i>6. Will the First Minister outline the Welsh Government's policy in relation to the treatment of child cancers?</i> OAQ(4)1838(FM)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Our 'National Standards for Children with Cancer aged 0 to 15 years' provides a foundation for NHS Wales to plan and deliver effective high-quality services for children.</p>	<p>Mae ein 'Safonau Cenedlaethol ar gyfer Plant â Chanser rhwng 0 a 15 oed' yn cynnig sail i GIG Cymru gynllunio a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel effeithiol ar gyfer plant.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:01 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
As you are probably aware, this month is national childhood cancer awareness month, which is why many of us across the Chamber are wearing gold ribbons, hoping that these ribbons will become synonymous with child cancer. In that context, how do you respond to the recently bereaved parents in Mold who wrote to me stating that there is so much that needs to be done to raise awareness of childhood cancer but there is very little funding that goes towards the research of childhood cancer?

Fel y gwyddoch mae'n siŵr, y mis hwn yw mis cenedlaethol ymwybyddiaeth o ganser ymhlith plant, a dyna pam mae llawer ohonom ar draws y Siambr yn gwisgo rhubanau aur, gan obeithio y bydd y rhubanau hyn yn dod yn gyfystyr â chanser plant. Yn y cyd-destun hwnnw, sut ydych chi'n ymateb i'r rhieni sydd wedi dioddef profedigaeth yn yr Wyddgrug yn ddiweddar a ysgrifennodd ataf yn dweud bod cymaint y mae angen ei wneud i godi ymwybyddiaeth o ganser ymhlith plant, ond mai prin yw'r arian sy'n mynd tuag at ymchwilio i ganser ymhlith plant?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I cannot begin to imagine what they are going through, first of all. I am sure I speak for all in this Chamber when I offer our deepest feelings to them. I am pleased at the fact that, in Wales, all children are seen within the target time. In terms of awareness, I think the Member has a point, in the sense that most parents would not think that their child would get cancer, and, as a result, would tend to look for other reasons why a child is ill. That is why it is important to raise awareness, and I thank the Member for doing that today, so that parents do seek medical help where that is needed. We know that, with lots of cancers, and leukaemia is one example—acute lymphoblastic leukaemia is one example where the cure rate has increased immensely over the past 20 years. However, as with all leukaemias, early discovery is vital because leukaemia is an illness that weakens people and weakens children. The more robust children are to be able to have the treatment for leukaemia, the better their prospects. I look forward to—as he has mentioned, this month is a month of awareness—seeing awareness being raised, if I can put it that way, for what is a very important issue.

Ni allaf ddechrau dychmygu'r hyn maen nhw'n mynd drwyddo, yn gyntaf oll. Rwy'n siŵr fy mod yn siarad ar ran pawb yn y Siambr hon pan fyddaf yn cynnig ein cydymdeimlad llwyrâ â nhw. Rwy'n falch o'r ffaith, yng Nghymru, bod pob plentyn yn cael ei weld o fewn yr amser targed. O ran ymwybyddiaeth, rwy'n meddwl bod gan yr Aelod bwynt, yn yr ystyr na fyddai'r rhan fwyaf o rieni yn credu y byddai eu plentyn yn cael canser, ac, o ganlyniad, byddent yn tueddu i chwilio am resymau eraill pam mae eu plentyn yn sâl. Dyna pam mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth, ac rwy'n diolch i'r Aelod am wneud hynny heddiw, fel bod rhieni yn gofyn am gymorth meddygol pan fo angen hynny. Gwyddom, gyda llawer o fathau o ganser, ac mae lewcmia yn un enghraifft—mae lewcmia lymffoblastig aciwt yn un enghraifft lle mae'r gyfradd wella wedi cynyddu'n aruthrol dros yr 20 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, fel gyda phob lewcmia, mae ei ddarganfod yn gynnar yn hanfodol gan fod lewcmia yn salwch sy'n gwanhau pobl ac yn gwanhau plant. Y cryfaf y gall plant fod i gael y driniaeth ar gyfer lewcmia, y gorau yw eu rhagolygon. Edrychaf ymlaen—fel y soniodd, mae'r mis yma'n fis codi ymwybyddiaeth—at weld ymwybyddiaeth yn cael ei chodi, os caf ei roi felly, o'r hyn sy'n fater pwysig iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Adroddiad Andrews

The Andrews Report

14:03 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu adroddiad Andrews? OAQ(4)1833(FM)

7. Will the First Minister make a statement on the implementation of the Andrews report? OAQ(4)1833(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. A 'Trusted to Care' steering group has been established to oversee and drive implementation of all the recommendations within the report. Work is under way to ensure the quality and safety of care provided to our frail elderly population, and to ensure that that is what, indeed, they receive, wherever they are in Wales.

Gwnaf. Sefydlwyd grŵp llywio 'Ymddiried mewn Gofal' i oruchwylio a sicrhau gweithredu yr holl argymhellion yn yr adroddiad. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i'n poblogaeth henoed bregus, ac i sicrhau mai dyna, yn wir, maen nhw'n ei dderbyn, ble bynnag y maen nhw yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:04 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, First Minister. You will know that around 15 nurses, I think, have now been suspended from the Princess of Wales Hospital as a result of actions leading from that report and other reasons. The Andrews report makes it quite clear that other professionals, including management, were responsible for some of the shortcomings identified in that report. Can you tell me why it is only nurses that are being singled out in this way? What action is being taken against other people who have been identified as causing this problem?
- Diolch ichi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod bod tua 15 o nyrsys, rwy'n credu, wedi cael eu gwahardd o Ysbyty Tywysoges Cymru bellach o ganlyniad i gamau gweithredu yn arwain o'r adroddiad hwnnw a rhesymau eraill. Mae adroddiad Andrews yn ei gwneud yn gwbl eglur bod gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys rheolwyr, yn gyfrifol am rai o'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw. A allwch chi ddweud wrthyf pam mai dim ond nyrsys sy'n cael eu cosbi yn y modd hwn? Pa gamau sy'n cael eu cymryd yn erbyn pobl eraill y nodwyd eu bod wedi achosi'r broblem hon?
- 14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- As the Member will be aware, the management has changed since those difficult days that nobody can defend, quite frankly. I am certainly sure about the fact that, for example, when it comes to complaints, they are now being dealt with in a proper fashion. Whereas, to put it bluntly, in the past, they were not being dealt with in sufficient time or at all, and that was one of the findings that was made. However, what I can say is that we have established a steering group, which had its first meeting on 29 July, and, of course, spot checks have been carried out; some 70 wards in 20 hospitals across Wales were visited between 15 June and 30 July. The steering group will now, of course, take the report forward.
- Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mae'r rheolwyr wedi newid ers y dyddiau anodd hynny na all unrhyw un eu hamddiffyn, a dweud y gwir. Rwy'n sicr yn siŵr ynglŷn â'r ffaith, er enghraifft, pan ddaw i gwynion, eu bod yn derbyn sylw mewn ffordd briodol erbyn hyn. Tra, i siarad yn blaen, yn y gorffennol, nad oeddent yn cael sylw mewn da bryd neu o gwbl, a dyna oedd un o'r canfyddiadau a wnaethpwyd. Fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud yw ein bod wedi sefydlu grŵp llywio, a gafodd ei gyfarfod cyntaf ar 29 Gorffennaf, ac, wrth gwrs, mae archwiliadau ar hap wedi eu cynnal; ymwelwyd â thua 70 o wardiau mewn 20 o ysbytai ledled Cymru rhwng 15 Mehefin a 30 Gorffennaf. Bellach, wrth gwrs, bydd y grŵp llywio yn bwrw ymlaen â'r adroddiad.
- 14:05 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, recommendation 3 of the Andrews report highlighted the need for the board to:
- 'identify clear steps to generate a culture of care built on more creative public involvement in the setting and monitoring of standards'.
- Brif Weinidog, amlygodd argymhelliad 3 adroddiad Andrews yr angen i'r bwrdd:
- 'nodi camau clir i greu diwylliant gofal sydd wedi'i adeiladu ar ymgysylltu'n fwy creadigol â'r cyhoedd wrth bennu a monitro safonau'.
- Instead of introducing the concerns clinics as suggested, the board went with establishing an internal professional standards taskforce, which would tie in with the whistleblowing policy. Given the British Medical Association's recent concerns regarding the whistleblowing policy, saying that the NHS does not welcome criticisms or complaints as it stands, will you look at this professional standards taskforce within Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, and look to see whether it is encouraging whistleblowing and generating a culture of care built on public involvement, or, as I fear, achieving quite the opposite and ensuring that whistleblowing is perhaps kept to a minimum?
- Yn hytrach na chyflwyno'r cymorthfeydd pryderon fel yr awgrymwyd, penderfynodd y bwrdd sefydlu tasglu safonau proffesiynol mewnol, a fyddai'n cyd-fynd â'r polisi datgelu camarfer. O ystyried pryderon diweddar Cymdeithas Feddygol Prydain ynghylch y polisi datgelu camarfer, gan ddweud nad yw'r GIG yn croesawu beirniadaeth neu gwynion fel y mae ar hyn o bryd, a wnewch chi edrych ar y tasglu safonau proffesiynol hwn ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac edrych i weld a yw'n annog datgelu camarfer a chreu diwylliant o ofal sy'n seiliedig ar gynnwys y cyhoedd, neu, fel rwy'n ofni, yn gwneud y gwrthwyneb llwyr a sicrhau bod cyn lleied o ddatgelu camarfer â phosibl?
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I think that the Member raises an important point. I will ask the Minister to write to him in answer to that question to provide him with the reassurance that he requires.
- Rwy'n meddwl bod yr Aelod yn codi pwynt pwysig. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu ato i ateb y cwestiwn yna i roi'r sicrwydd sydd ei angen arno.

14:06

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, back in June, your colleague, the Minister for health, told me that his officials have regular quality and delivery meetings with each NHS organisation in order to monitor performance, and that they are supplemented by six-monthly joint executive team meetings between the Welsh Government and NHS organisation executives. He added that quality and safety are key features of these meetings. Are you satisfied that, at the moment, Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board understands when exactly your Government expects it to deliver the necessary changes? Can you give me an example here today of what the consequences will be if it does not deliver on those changes that are exemplified in the report?

Brif Weinidog, yn ôl ym mis Mehefin, dywedodd eich cydweithiwr, y Gweinidog Iechyd, wrthyf fod ei swyddogion yn cael cyfarfodydd ansawdd a darpariaeth rheolaidd gyda phob sefydliad y GIG er mwyn monitro perfformiad, a'u bod yn cael eu hategu gan gyfarfodydd tîm gweithredol ar y cyd bob chwe mis rhwng swyddogion gweithredol Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG. Ychwanegodd fod ansawdd a diogelwch yn nodweddion allweddol o'r cyfarfodydd hyn. A ydych chi'n fodlon bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar hyn o bryd, yn deall pryd yn union y mae eich Llywodraeth yn disgwyl iddo gyflawni'r newidiadau angenrheidiol? A allwch chi roi enghraifft i mi yma heddiw o beth fydd y canlyniadau os na fydd yn cyflawni'r newidiadau hynny y rhoddir enghreifftiau ohonynt yn yr adroddiad?

14:07

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It will be expected to deliver; the Minister for health has made that clear to it. If there is no delivery—this is true of any local health board—or insufficient delivery, then there are consequences as far as personnel, as far as that board is concerned. However, I do not expect things to get to that position. I would expect the board, having considered very carefully, I know, what the Andrews report has said, to take the action that is required.

Bydd disgwyl iddo gyflawni; mae'r Gweinidog Iechyd wedi gwneud hynny'n eglur iddo. Os na fydd cyflawni—mae hyn yn wir am unrhyw fwrdd Iechyd lleol—neu gyflawniad annigonol, yna ceir canlyniadau o ran personél, ar gyfer y bwrdd hwnnw. Fodd bynnag, nid wyf yn disgwyl i bethau gyrraedd y sefyllfa honno. Byddwn yn disgwyl i'r bwrdd, ar ôl ystyried yn ofalus iawn, rwy'n gwybod, yr hyn y mae adroddiad Andrews wedi ei ddweud, gymryd y camau sy'n ofynnol.

Comisiynydd i Bobl Anabl yng Nghymru

A Disability Commissioner for Wales

14:07

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r angen i sefydlu swydd comisiynydd pobl anabl yng Nghymru? OAQ(4)1840(FM)

8. What assessment has the First Minister made of the need to establish the office of a disability commissioner for Wales? OAQ(4)1840(FM)

14:07

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, this is a question, I know, that the Member has raised on more than one occasion here in the past. May I say that the appointment of a commissioner was not seen as a priority by those who attended our consultation events on the framework for action on independent living? They wanted, rather, to see a strong focus on strengthening the voice of disabled people themselves so that they could have greater choice and control over the services that they receive. So, the emphasis is on ensuring that they have a stronger voice, rather than, at this stage, the creation of the post of commissioner.

Wel, mae hwn yn gwestiwn, rwy'n gwybod, y mae'r Aelod wedi ei godi ar fwy nag un achlysur yma yn y gorffennol. A gaf i ddweud nad ystyriwyd bod penodi comisiynydd yn flaenoriaeth gan y rhai a fynychodd ein digwyddiadau ymgynghori ar y fframwaith ar gyfer gweithredu ynglŷn â byw'n annibynnol? Yn hytrach, roedden nhw eisiau gweld pwyslais cryf ar gryfhau llais pobl anabl eu hunain fel y gallent gael mwy o ddewis a rheolaeth dros y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn. Felly, mae'r pwyslais ar sicrhau bod ganddynt lais cryfach, yn hytrach nag, ar hyn o bryd, creu swydd comisiynydd.

14:08 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you for that answer. I keep getting different answers to this question. One of your former Cabinet members has recently stated that there was no demand for such an appointment; he is not there now. However, I can inform him that, of the 12 leading organisations that I have contacted that support the needs of persons with disabilities, 11 have expressed their support in writing for a disability commissioner. I do not believe that you are saying that they are wrong; I do not believe that you are saying that they do not know what they are talking about. What do I believe is that you need to rethink your stance. Please stand up for disabled people in Wales and act now.

Diolch i chi am yr ateb yna. Rwy'n cael gwahanol atebion i'r cwestiwn hwn drwy'r amser. Mae un o'ch cyn-aelodau Cabinet wedi dweud yn ddiweddar nad oes galw am benodiad o'r fath; nid yw ef yno erbyn hyn. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrtho, o'r 12 o sefydliadau blaenllaw yr wyf i wedi cysylltu â nhw sy'n cefnogi anghenion pobl ag anableddau, bod 11 wedi mynegi eu cefnogaeth yn ysgrifenedig i gomisiynydd pobl anabl. Nid wyf yn credu eich bod yn dweud eu bod yn anghywir; nid wyf yn credu eich bod yn dweud nad ydynt yn deall yr hyn maen nhw'n siarad amdano. Yr hyn yr wyf yn ei gredu yw bod angen i chi ailystyried eich safbwynt. Safwch dros bobl anabl yng Nghymru a gweithredwch nawr.

14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I am not saying that they are wrong, and I am not saying that they do not know what they are talking about. The point that I make is that this was not something that featured strongly in the consultation that took place. I think that the first thing that we need to do is to make sure that people have their voices strengthened as individuals; I think that that is where the focus has to be at this moment in time. Of course, if a strong case is made for a commissioner, it is something that we will always take into consideration.

Nid wyf yn dweud eu bod yn anghywir, ac nid wyf yn dweud nad ydynt yn deall yr hyn maen nhw'n siarad amdano. Y pwynt rwy'n ei wneud yw nad oedd hyn yn rhywbeth a glywyd yn gryf yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd. Rwy'n meddwl mai'r peth cyntaf y mae angen i ni ei wneud yw gwneud yn siŵr bod lleisiau pobl fel unigolion yn cael eu cryfhau; rwy'n meddwl mai dyna lle mae'n rhaid canolbwyntio ar hyn o bryd. Wrth gwrs, os caiff achos cryf ei wneud dros gael comisiynydd, mae'n rhywbeth y byddwn bob amser yn ei gymryd i ystyriaeth.

14:09 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I would like to put on record my support for the post of a disability commissioner. I think that it is something that Wales could do and innovate with. However, will you accept that that commissioner's role would not just be in providing a voice for disabled people, but could also encourage better working between health and social services, where there are many barriers that, unfortunately, have consequences for disabled people?

Hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth i'r swydd comisiynydd pobl anabl. Rwy'n meddwl ei fod yn rhywbeth y gallai Cymru ei wneud a bod yn arloesol ag ef. Fodd bynnag, a wnewch chi dderbyn mai nad rhoi llais i bobl anabl fyddai unig swyddogaeth y comisiynydd, ond y gallai hefyd annog gwell gweithio mewn partneriaeth rhwng maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, lle ceir nifer o rwystrau sydd, yn anffodus, yn arwain at ganlyniadau i bobl anabl?

14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

If there were to be such a post created in future, then, of course, there would be a debate as to what the powers and responsibilities of that commissioner would be. I think that all of us accept that the interface between health and social care has been a difficult one for many, many years and we know that there are proposals that have been put forward as to how to deal with that. However, for the time being, as I said to the Member on the Plaid benches, the priority is to strengthen the voice of individual disabled people, and, then, once that is done to a satisfactory level, perhaps other things can be considered after that.

Pe byddai swydd o'r fath yn cael ei chreu yn y dyfodol, yna, wrth gwrs, byddai trafodaeth ynghylch beth fyddai pwerau a chyfrifoldebau'r comisiynydd. Rwy'n credu bod pob un ohonom yn derbyn bod y rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn un anodd ers blynyddoedd lawer ac rydym yn gwybod bod cynigion wedi'u cyflwyno o ran sut i ymdrin â hynny. Fodd bynnag, am y tro, fel y dywedais wrth yr Aelod ar feinciau Plaid Cymru, y flaenoriaeth yw cryfhau llais pobl anabl unigol, ac, yna, ar ôl gwneud hynny i lefel foddhaol, efallai y gellir ystyried pethau eraill wedyn.

Cynrychioli Buddiannau Cymru

14:10 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

9. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn o fewn cyrff traws-Brydeinig a rhyngwladol? OAQ(4)1842(FM)

9. How does the Welsh Government ensure that Welsh interests are fully represented in UK-wide and international bodies? OAQ(4)1842 (FM)

- 14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae Cymru yn cael ei chynrychioli ar lefel weinidogol neu swyddogol ar nifer o gyrff traws-Brydeinig a rhyngwladol, a'n nod, wrth gwrs, yw sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu.
Wales is represented at ministerial or official level on a number of UK-wide and international bodies, and our aim, of course, is to ensure that Welsh interests are promoted and protected.
- 14:10 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Brif Weinidog, roedd nifer ohonom yn ymweld â'r OECD ym Mharis yn ddiweddar fel rhan o waith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac roedd nifer ohonom yn siomedig nad oedd cynrychiolaeth o Gymru ar baneli arbenigol o fewn yr OECD. Hefyd, oherwydd mai dirprwyeth y Deyrnas Gyfunol sy'n cyflawni'r gwaith ar ran Ynysoedd Prydain, nid oedd gwybodaeth am, na dealltwriaeth o, bolisiau yng Nghymru, ond, yn hytrach, adlewyrchiad o bolisiau Lloegr yn unig. Felly, a ydych yn barod i edrych ar y sefyllfa hon wrth ystyried yr holl newidiadau a'r trafodaethau ynghylch cyfansoddiad y Deyrnas Gyfunol?
First Minister, a number of us visited the OECD in Paris recently as part of the work of the Children and Young People Committee, and a number of us were disappointed that there was not any representation from Wales on specialist panels within the OECD. Also, because it is the United Kingdom delegation that does the work on behalf of the UK, there was not any information about or understanding of policy in Wales, but rather a reflection of English policies only. So, are you willing to look at this situation in considering all the changes and discussions that are taking place regarding the constitution of the UK?
- 14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rwy'n credu bod hwnnw yn bwynt teg. Fodd bynnag, a gaf i ddweud hefyd bod cyfarfodydd wedi cymryd lle rhwng Gweinidogion a swyddogion yr OECD? Fe gwrddodd, er enghraifft, y Gweinidog iechyd â dirprwy ysgrifennydd yr OECD ym mis Ebrill, ac roedd y cyn Weinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi bod yn rhan o fforwm yr OECD ym mis Mai. Felly, mae yna ran i ni yng Nghymru, ond, wrth gwrs, fel rhan o'r trafodaethau ynghylch y cyfansoddiad newydd a'r undeb newydd, bydd yn rhaid i ni ystyried beth yw rôl y Llywodraethau datganoledig ar gyrff rhyngwladol.
I think that is a fair point. However, may I also say that meetings have taken place between Ministers and officials from the OECD? The Minister for health, for example, met with the deputy secretary of the OECD in April and the former for Minister for Natural Resources and Food had been part of the OECD forum in May. So, we in Wales are playing our part, but, of course, as part of the negotiations on the new constitution and the new union we will have to consider what the role of the devolved Governments is on international bodies.
- 14:12 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, now that every UK political leader has accepted your long-standing call for a constitutional convention, is it the Welsh Government's intention to consider perhaps preparing a paper on what the parameters of that constitutional convention should be? Possibly, it could be a paper on the Welsh Government's view on what the nature of or the options for that sort of UK-wide reform should be.
Brif Weinidog, nawr bod pob arweinydd gwleidyddol yn y DU wedi derbyn eich galwad hirhoedlog am gonfensiwn cyfansoddiadol, a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ystyried paratoi papur ar yr hyn y dylai ffiniau'r confensiwn cyfansoddiadol hwnnw fod efallai? O bosibl, gallai fod yn bapur ar farn Llywodraeth Cymru ar yr hyn y dylai natur neu'r dewisiadau ar gyfer y math hwnnw o ddiwygio ledled y DU fod.
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes, it is something that we are giving consideration to. As I said to Members earlier on, it is essential that a constitutional convention is seen as representing all of our four nations. I have noticed that we now are four nations—a family of nations, as the terminology has it—and, because we are a family of four nations, it would make no sense if the discussion on the convention was not inclusive of all four nations. So, my hope is that we will see the convention process move forward and that the four Governments can sit together and agree a way forward, because, to put it bluntly, what has been happening over 15 years is that devolution has been seen in isolation in Scotland, Wales and Northern Ireland; there have been conversations in three different rooms. Now the time has come to have the conversation in one room in order to provide Wales with the strong identity it needs as an equal partner within a strong UK.
Ydy, mae'n rhywbeth yr ydym ni'n rhoi ystyriaeth iddo. Fel y dywedais wrth yr Aelodau'n gynharach, mae'n hanfodol y gwelir bod confensiwn cyfansoddiadol yn cynrychioli pob un o'n pedair cenedl. Rwyf wedi sylwi ein bod yn bedair cenedl erbyn hyn—yn deulu o genhedloedd, yn ôl y derminoleg—a, gan ein bod ni'n deulu o bedair cenedl, ni fyddai'n gwneud unrhyw synnwyr pe na byddai'r drafodaeth ar y confensiwn yn cynnwys pob un o'r pedair cenedl. Felly, fy ngobaith yw y byddwn yn gweld y broses confensiwn yn symud ymlaen ac y gall y pedair Llywodraeth eistedd gyda'i gilydd a chytuno ar ffordd ymlaen, oherwydd, i siarad yn blaen, yr hyn sydd wedi bod yn digwydd dros 15 mlynedd yw bod datganoli wedi ei ystyried ar wahân yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon; bu sgysiau mewn tair gwahanol ystafell. Mae'r amser wedi dod erbyn hyn i gael y sgwrs mewn un ystafell er mwyn rhoi'r hunaniaeth gref sydd ei hangen arni i Gymru fel partner cyfartal o fewn Teyrnas Unedig gref.

14:13 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
In terms of international bodies, First Minister, could you outline how your administration collaborates with UK Trade and Investment, the global entrepreneur programme and the SIRIUS programme?
O ran cyrff rhyngwladol, Brif Weinidog, a allech chi amlinellu sut mae eich gweinyddiaeth yn cydweithio gyda Masnach a Buddsoddi y DU, y rhaglen entrepreneuriaid byd-eang a rhaglen SIRIUS?

14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)
We have very good links with the UKTI now. I think that it is fair to say that they have grown dramatically since 2011. Whenever I have travelled to other countries, UKTI has been immensely helpful, in terms of the contacts that it has created. There are parts of the world where we need our own representation, because they are major investors in Wales, but our representatives work with UKTI in any event, as I am sure the Member would expect. However, I am satisfied that the working relationship is good, and it is certainly of advantage to us to be able to draw on the expertise of the UKTI in markets where historically we have had little presence.
Mae gennym gysylltiadau da iawn gyda'r UKTI nawr. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud eu bod wedi tyfu'n sylweddol ers 2011. Pryd bynnag yr wyf wedi teithio i wledydd eraill, mae UKTI wedi bod yn hynod gynorthwyol, o ran y cysylltiadau y mae wedi eu creu. Ceir rhannau o'r byd lle mae angen ein cynrychiolaeth ein hunain arnom, oherwydd eu bod yn fuddsoddwyr mawr yng Nghymru, ond mae ein cynrychiolwyr yn gweithio gydag UKTI beth bynnag, fel yr wyf yn siŵr y byddai'r Aelod yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, rwy'n fodlon bod y berthynas waith yn dda, ac mae'n sicr o fantais i ni allu elwa ar arbenigedd yr UKTI mewn marchnadoedd lle mai prin fu ein presenoldeb yn hanesyddol.

Diwygio Lles (Dyffryn Clwyd)

Welfare Reform (Vale of Clwyd)

14:14 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith y mae rhaglen ddiwygio lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar gymunedau yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)1843(FM) [Fideo](#) [Video](#)
10. Will the First Minister make a statement on the impact of the UK Government's welfare reform programme on communities in the Vale of Clwyd? OAQ(4)1843(FM)

14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)
I am deeply concerned about the Vale of Clwyd and Denbighshire. Our research suggests that Denbighshire is the eighth hardest hit local authority area in Wales, with an average loss higher than the Wales average.
Rwy'n bryderus iawn am Ddyffryn Clwyd a Sir Ddinbych. Mae ein gwaith ymchwil yn awgrymu mai Sir Ddinbych yw'r wythfed ardal awdurdod lleol yr effeithwyd arni fwyaf yng Nghymru, gyda cholled gyfartalog sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.

14:14 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Thank you for that, First Minister. To echo what my colleague Lynne Neagle said about the delayed benefits that are occurring and the TUC's campaign, may I say that I fully support that? Many people in my constituency—as you say, we are the eighth hardest hit—will now be amazed that Denbighshire County Council is looking to close its welfare rights unit as part of its financial management, due to what it perceives to be the worst settlement that it has had from the Welsh Government. It fails to recognise that every £1 that a welfare rights unit fetches back into the person's pocket generates more income locally and will therefore be of benefit to it. Will you as a Government look to see what you can do to ensure that welfare advice services and services like that are maintained within the structures, so that people can access some advice to mitigate the loss of those services? [Fideo](#) [Video](#)
Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog. I adleisio'r hyn a ddywedodd fy nghydweithiwr Lynne Neagle ynglŷn â'r oedi sy'n digwydd o ran budd-daliadau ac ymgyrch y TUC, a gaf i ddweud fy mod i'n llwyr gefnogi hynny? Mae llawer o bobl yn fy etholaeth i—fel y dywedwch, ni yw'r wythfed o ran yr ardaloedd yr effeithwyd arnynt fwyaf—wedi eu syfrdanu erbyn hyn bod Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu cau ei uned hawliau lles yn rhan o'i reolaeth ariannol, o ganlyniad i'r hyn y mae'n ei gredu yw'r setliad gwaethaf y mae wedi ei gael gan Lywodraeth Cymru. Mae'n methu â chydabod bod pob £1 y mae uned hawliau lles yn ei rhoi yn ôl ym mhoced yr unigolyn yn cynhyrchu mwy o incwm yn lleol ac felly y bydd o fudd iddo. A wnewch chi fel Llywodraeth edrych i weld beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau cyngor lles a gwasanaethau felly yn cael eu cynnal o fewn y strwythurau, er mwyn i bobl gael mynediad at rywfaint o gyngor i liniaru colled y gwasanaethau hynny?

- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I understand that Denbighshire has taken the decision to cut funding to its welfare rights unit. That is, of course, a matter for it. However, I will say that, at a time when people are in greatest need of help and support, it is important that any level of government prioritises the needs of those people. That is something that we would certainly do as a Government, and we would encourage others to do the same.
- 14:15 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Earlier this month, I chaired a meeting of the cross-party group on disability in north Wales, at which one of the speakers was Denbighshire's corporate equalities officer. We also heard about a wide range of employment services from both the Department for Work and Pensions and Remploy in Wales. What action are you and the Welsh Government taking to work with agencies such as those that I mentioned to remove the barriers to employment that restrict life choices for disabled people so that they, too, can be independent and equal in society?
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Member will know, of course, that the employment support grant was put in place after the decision was made to close the Remploy factories around Wales, and that has helped an immense number of people to get into work. Certainly, they would not be in that position were it not for the support that has been provided to them by us as a Government.
- 14:16 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Dywedasoeh yn eich ateb i Aelod Dyffryn Clwyd fod yn rhaid i bawb wneud yr ymdrech mwyaf posibl i gefnogi'r bobl sydd angen cefnogaeth yn yr hinsawdd sydd ohoni. Pam felly fod eich plaid chi wedi cyhoeddi eich bod am osod cap ar fudd-daliadau plant?
- 14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rwy'n falch y byddwn yn codi'r 'minimum wage', y byddwn yn cael gwared ar y dreth lloffttydd, fel y'i galwyd gan Alun Ffred, neu'r dreth ystafelloedd gwely, neu beth bynnag yr ydych am ei alw, ac y byddwn yn sicrhau bod pobl yn teimlo bod unrhyw wellhad i'r economi yn rhywbeth sy'n berthnasol iddynt hwy. Nid felly y mae pobl yn meddwl ar hyn o bryd, ac rwy'n falch bod fy mhlaidd i wedi gwneud yr addewidion hynny i helpu'r bobl sydd angen help.
- Diwygio Lles** **Welfare Reform**
- 14:17 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
11. Pa wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael oddi wrth Lywodraeth y DU am effaith diwygio lles? OAQ(4)1849(FM)
- 11. What information does the Welsh Government receive from the UK Government about the impact of welfare reform? OAQ(4)1849(FM)*

- 14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
In general, the analytical information that we receive is published on the DWP website. That includes assessments, statistics and research reports.
Yn gyffredinol, mae'r wybodaeth ddadansoddol a dderbyniwn yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hynny'n cynnwys asesiadau, ystadegau ac adroddiadau ymchwil.
- 14:17 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, I had a very serious case in my constituency recently, where a constituent who was being transferred from one benefit to another had had absolutely no benefit whatsoever since July and had had to pawn their jewellery in order to survive. Such cases, I fear, are not isolated, and I wondered what response you might be able to get from the Secretary of State on this matter, because my letters go unanswered.
Brif Weinidog, roedd gen i achos difrifol iawn yn fy etholaeth yn ddiweddar, lle nad oedd etholwr a oedd yn cael ei drosglwyddo o un budd-dal i un arall wedi cael budd-dal o gwbl ers mis Gorffennaf ac wedi gorfod gwystlo ei emwaith er mwyn ymdopi. Nid yw achosion o'r fath, rwy'n ofni, yn brin, ac roeddwn i'n meddwl tybed pa ymateb y gallech chi ei gael gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y mater hwn, gan nad wyf yn cael ateb i'm llythyrau i.
- 14:18 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I would be more than happy, of course, for the Member to write to me, and I would then be more than happy to bring the concerns of her constituent to the attention of the Secretary of State and to await his response.
Byddwn yn fwy na hapus, wrth gwrs, i'r Aelod ysgrifennu ataf i, a byddwn yn fwy na hapus wedyn i dynnu sylw'r Ysgrifennydd Gwladol at bryderon ei hetholwr ac i ddisgwyl am ei ymateb.
- 14:18 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, universal credit was brought in so as to reduce administration costs, and it is very sad indeed if certain issues like that outlined by Jenny Rathbone are indeed happening. Will you undertake to work with the UK Government—with the Secretary of State—but also, importantly, with local authorities, which, as Ann Jones so eloquently said earlier, are not being given the right support from your Government to support people to receive the benefits they need?
Brif Weinidog, cyflwynwyd credyd cynhwysol er mwyn lleihau costau gweinyddol, ac mae'n drist iawn yn wir os bydd materion penodol fel yr un a amlinellwyd gan Jenny Rathbone yn digwydd mewn gwirionedd. A wnewch chi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU—gyda'r Ysgrifennydd Gwladol—ond hefyd, yn bwysig, gydag awdurdodau lleol, nad ydynt, fel y dywedodd Ann Jones mor huawdl yn gynharach, yn derbyn y gefnogaeth gywir gan eich Llywodraeth i gefnogi pobl i gael y budd-daliadau sydd eu hangen arnynt?
- 14:19 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I do wonder whether I entered a parallel universe there for a second, because, as perhaps the Member will be aware, it is his Government in London that has introduced this, and not us. He may also be aware—indeed, he seems to accept—that hardship is being caused, and I welcome the refreshing honesty. I think that the comments about fundamental dishonesty do not apply to him, certainly not today. I welcome that.
Rwy'n meddwl tybed a wnes i gamu i fyddysawd cyfochrog am eiliad yn y fan yna, oherwydd, fel efallai y bydd yr Aelod yn gwybod, ei Lywodraeth ef yn Llundain sydd wedi cyflwyno hyn, ac nid ni. Efallai ei fod hefyd yn ymwybodol—yn wir, mae'n ymddangos ei fod yn derbyn—bod caledi yn cael ei achosi, ac rwy'n croesawu'r gonestrwydd newydd hwn. Nid wyf yn credu bod y sylwadau am anonestrwydd sylfaenol yn berthnasol iddo ef, yn sicr nid heddiw. Rwy'n croesawu hynny.

I am intrigued by his comment that the whole purpose of universal credit is to cut the costs of administration. The whole point of universal credit, I was told, was to help people. Apparently, that is no longer the case. We have that admission on record this afternoon. However, I can assure the Member for Monmouth that we will do all that we can in order to help those people whose lives are being slowly destroyed by the party that he represents.
Rwy'n chwilfrydig am ei sylw mai holl bwrpas credyd cynhwysol yw torri costau gweinyddol. Holl bwrpas credyd cynhwysol, fe'm hysbyswyd, oedd helpu pobl. Mae'n debyg nad yw hynny'n wir bellach. Mae gennym y cyfaddefiad hwnnw ar y cofnod y prynhawn yma. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Aelod dros Fynwy y byddwn yn gwneud popeth y gallwn er mwyn helpu'r bobl hynny y mae eu bywydau'n cael eu dinistrio'n araf gan y blaid y mae'n ei chynrychioli.
- 14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Suzy Davies to ask the urgent question.
Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Suzy Davies i ofyn y cwestiwn brys.

14:20 **Cwestiwn Brys: Adrannau Brys Gorlawn**

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar flocio gwelyau ac adrannau brys gorlawn, yn dilyn yr achos trasig o fenyw a fu farw wrth aros mewn ambiwlans y tu allan i Ysbyty Treforys? EAQ(4)0482(HSS)

Urgent Question: Emergency Department Overcrowding

Will the Minister make a statement on bed blocking and emergency department overcrowding, following the tragic death of a woman while waiting in an ambulance outside Morryston Hospital? EAQ(4)0482(HSS)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:20 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Bedblocking is not a term in use within the Welsh NHS. Across Wales, delayed transfers of care have fallen steadily over the last 10 years. A formal joint investigation is being conducted by Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board and the Welsh Ambulance Services NHS Trust into the circumstances surrounding the death of Mrs Sonia Powell last week, the results of which will be made public and shared with the family. I echo the condolences expressed to them by the First Minister earlier this afternoon.

Nid yw blocio gwelyau yn derm a ddefnyddir yn y GIG yng Nghymru. Ledled Cymru, mae oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gostwng yn gyson dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae ymchwiliad ffurfiol ar y cyd yn cael ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i amgylchiadau marwolaeth Mrs Sonia Powell yr wythnos diwethaf, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi a'u rhannu gyda'r teulu. Ategef y cydymdeimlad a fynegwyd atynt gan y Prif Weinidog yn gynharach y prynhawn yma.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:20 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister, and I am sure that the whole Assembly would wish to express our condolences to the family of Sonia Powell. It is hard enough to lose a loved one, but the circumstances of her death have excited great anger and confusion at a time when any family would be seeking peace and time to grieve. There are questions to be answered about whether Mrs Powell should have been moved from Baglan hospital, which I hope that the LHB ambulance inquiry will deal with. Beyond that, you are faced yet again, Minister, with a question about bedblocking—and it is a term that we all understand in this Chamber—and ambulance queues. Mike Collins, the Welsh Ambulance Services NHS Trust's director of service delivery, said that delays of patient transfers from ambulances to accident and emergency departments were the trust's biggest concern. Can you tell me, Minister, why the relationship between health boards and social services is still not functioning well enough to make significant progress on this, and why would you still resist a review of the NHS in Wales, as supported by the British Medical Association and called for by this party, when such a review could really help to illuminate progress on this?

Diolch ichi am yr ateb yna, Weinidog, ac rwy'n siŵr y byddai'r Cynulliad cyfan yn dymuno mynegi ein cydymdeimlad â theulu Sonia Powell. Mae'n ddigon anodd colli rhywun annwyl, ond mae amgylchiadau ei marwolaeth wedi cyffroi dicter a dryswch mawr ar adeg pan fyddai unrhyw deulu yn dymuno cael heddwch ac amser i alaru. Mae cwestiynau i'w hateb ynghylch pa un a ddylai Mrs Powell fod wedi cael ei symud o ysbyty Baglan, yr wyf yn gobeithio y bydd ymchwiliad ambiwlans y BILL yn rhoi sylw iddo. Y tu hwnt i hynny, rydych yn cael eich wynebu unwaith eto, Weinidog, gan gwestiwn ynghylch blocio gwelyau—ac mae'n derm yr ydym ni i gyd yn ei ddeall yn y Siambr hon—a chiwiau ambiwlans. Dywedodd Mike Collins, cyfarwyddwr darpariaeth gwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, mai'r oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys i adrannau damweiniau ac achosion brys oedd pryder mwyaf yr ymddiriedolaeth. A allwch chi ddweud wrthyf, Weinidog, pam nad yw'r berthynas rhwng byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n ddigon da o hyd i wneud cynnydd sylweddol ar hyn, a pham fyddech chi'n dal i wrthwynebu adolygiad o'r GIG yng Nghymru, fel a gefnogir gan Gymdeithas Feddygol Prydain ac y galwyd amdano gan y blaid hon, pan allai adolygiad o'r fath wir helpu i oleuo cynnydd ar hyn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:21

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are questions to be asked and those will be resolved as part of the formal joint investigation. Bedblocking is not a term used in the Welsh NHS because it is a derogatory term. It implies that patients are to blame for being in a hospital bed when they do not need to be, and I will not use it and neither should the Member. As far as the relationships between the social services departments and local health boards are concerned, I met last week with all local authorities that operate within the Abertawe Bro Morgannwg area. I was assured and reassured to hear of the close working relationships that have developed within the western bay partnership, relationships which have been assisted by the extra investment in intermediate care facilities. That is a result of investment made by this Government.

Mae cwestiynau i'w gofyn a bydd y rheini'n cael eu hateb yn rhan o'r ymchwiliad ffurfiol ar y cyd. Nid yw blocio gwelyau yn derm a ddefnyddir yn y GIG yng Nghymru gan ei fod yn derm difriol. Mae'n awgrymu mai cleifion sydd ar fai am fod mewn gwely ysbyty pan nad oes angen iddyn nhw fod yno, ac ni wnaef ei ddefnyddio ac ni ddylai'r Aelod wneud hynny ychwaith. O ran y berthynas rhwng yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd lleol, cefais gyfarfod yr wythnos diwethaf gyda phob awdurdod lleol sy'n gweithredu yn ardal Abertawe Bro Morgannwg. Fe'm sicrhawyd ac fe'm calonogwyd o glywed am y berthynas waith agos sydd wedi datblygu ym mhartneriaeth bae'r gorllewin, perthynas sydd wedi ei chynorthwyo gan y buddsoddiad ychwanegol mewn cyfleusterau gofal canolraddol. Mae hynny o ganlyniad i fuddsoddiad a wnaed gan y Llywodraeth hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would also like to offer my sincere condolences to the family of my constituent, Mrs Sonia Powell, and to reflect on what I understand to be the concerns expressed by some members of the family over the amount of media coverage received. Will you agree with me, Minister, that the most important thing here is that a thorough and in-depth investigation is undertaken into all of the circumstances of this matter, and while this must not be rushed, I am sure that the family will want to know the facts of the matter at the earliest possible opportunity? Has the health board given you any indication of a timescale, please?

Hoffwn innau hefyd estyn fy nghydymdeimlad diffuant i deulu fy etholwr, Mrs Sonia Powell, ac i fyfyrion ar yr hyn yr wyf yn ei ddeall yw'r pryderon a fynegwyd gan rai aelodau o'r teulu o ran faint o sylw a dderbyniwyd yn y cyfryngau. A wnewch chi gytuno â mi, Weinidog, mai'r peth pwysicaf yma yw bod ymchwiliad trylwyr a manwl yn cael ei gynnal i holl amgylchiadau'r mater hwn, ac er na ddylid rhuthro hyn, rwy'n siŵr y bydd y teulu'n dymuno darganfod ffeithiau'r mater ar y cyfle cyntaf posibl? A yw'r bwrdd iechyd wedi rhoi unrhyw arwydd o amserlen i chi, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I entirely agree with Mrs Thomas on the importance of the investigation and its importance to the family. I thank her as the local Member for having shared some of those family concerns with me, and I know that she is attending very carefully to what she can do to help them to meet those needs. There is no timetable as yet for the conclusion of the investigation, but, as soon as it is complete, it will be shared with the family as well as with the public more widely.

Rwyf yn cytuno'n llwyr â Mrs Thomas ar bwysigrwydd yr ymchwiliad a'i bwysigrwydd i'r teulu. Diolchaf iddi fel yr Aelod lleol am rannu rhai o bryderon y teulu gyda mi, ac rwy'n gwybod ei bod yn rhoi sylw gofalus iawn i'r hyn y gall ei wneud i'w helpu i ddiwallu'r anghenion hynny. Nid oes amserlen hyd yn hyn ar gyfer diwedd yr ymchwiliad, ond, cyn gynted ag y bydd wedi ei gwblhau, bydd yn cael ei rannu gyda'r teulu yn ogystal â'r cyhoedd yn ehangach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, would like to show sympathy to the family of Mrs Powell. However, the accounts given by the family and the chief executive and chair of ABMU appear to be at odds. The family says that there was no need to move Mrs Powell from Neath Port Talbot Hospital, and claim that, upon arrival at Morriston, a doctor told three relatives that there was no more that they could have done for her there than at Neath Port Talbot. This is a hospital, as you will know, Minister, that was built under the private finance initiative at a huge cost, and we have seen services downgraded there. What comes across loud and clear to me, Minister, is that we need to make sure that services are held at that hospital. Why did Mrs Powell need to be transferred, Minister? Are you satisfied that it was done for the right reasons?

Hoffwn innau, hefyd, gydymdeimlo â theulu Mrs Powell. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr adroddiadau a roddwyd gan y teulu a phrif weithredwr a chadeirydd PABM yn gwrthddweud ei gilydd. Mae'r teulu yn dweud nad oedd angen symud Mrs Powell o Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, ac yn honni, ar ôl cyrraedd Treforys, bod meddyg wedi dweud wrth dri pherthynas nad oedd mwy y gallent fod wedi ei wneud iddi yno nag yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hwn yn ysbyty, fel y gwyddoch, Weinidog, a adeiladwyd dan y fenter cyllid preifat am gost enfawr, ac rydym ni wedi gweld gwasanaethau'n cael eu hisraddio yno. Yr hyn sy'n cael ei gyfleu'n eglur i mi, Weinidog, yw bod angen i ni sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal yn yr ysbyty hwnnw. Pam oedd yn rhaid i Mrs Powell gael ei symud, Weinidog? A ydych chi'n fodlon y gwnaed hynny am y rhesymau iawn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the issues that the Member raises illustrate exactly why it is important to have a full, formal and joint investigation in which the legitimate issues she raises will get the consideration they need and the proper answers that they require.

Wel, mae'r materion y mae'r Aelod yn eu codi yn dangos yn union pam mae'n bwysig cael ymchwiliad llawn, ffurfiol ac ar y cyd lle bydd y materion dilys y mae hi'n eu codi yn cael y sylw sydd ei angen arnynt a'r atebion priodol sydd eu hangen ar eu cyfer.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I just start by associating myself with the condolences offered to the family of Mrs Sonia Powell? This is a terrible time for them and, clearly, the publicity cannot be helping them. Minister, I do not want to go into the details of that particular case because, clearly, we need to see the outcome of the inquiry into it. However, I am concerned by reports in the local press about the pressure that Morryston's emergency department is under. Reports are that, in August, only 77% of patients were seen within the target time of four hours and that more than 100 patients had to wait more than 12 hours to receive the appropriate care. May I ask what assurances you have had from ABMU about how these particular issues are being addressed and how it is responding to the need to meet the targets that have been set for it?

A gaf i ddechrau trwy ategu'r cydymdeimlad a gynigiwyd i deulu Mrs Sonia Powell? Mae hwn yn amser ofnadwy iddy nhw ac, yn amlwg, ni all y cyhoeddusrwydd fod yn eu helpu. Weinidog, nid wyf eisiau trafod manylion yr achos penodol hwnnw, oherwydd, yn amlwg, mae angen i ni weld canlyniad yr ymchwiliad iddo. Fodd bynnag, mae adroddiadau yn y wasg leol am y pwysau sydd ar adran achosion brys Treforys yn peri pryder i mi. Dywed yr adroddiadau mai dim ond 77% o gleifion gafodd eu gweld yn unol â'r amser targed o bedair awr ym mis Awst, ac y bu'n rhaid i fwy na 100 o gleifion aros mwy na 12 awr i dderbyn y gofal priodol. A gaf i ofyn pa sicrwydd yr ydych chi wedi ei dderbyn gan PABM o ran sut mae'r materion penodol hyn yn derbyn sylw a sut y mae'n ymateb i'r angen i fodloni'r targedau a osodwyd ar ei gyfer?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Peter Black is absolutely right that Morryston Hospital A&E department is a major department, and it is always very busy, with a considerable flow of patients to it. Across Wales, half the patients who attend a major A&E department in Wales are seen, treated and discharged in less than two hours. As the First Minister said in answering earlier questions, there are examples—and Morryston is a good example of this—where patients are held for longer than that in an A&E department so that extra tests can be carried out, so that an assessment of someone's needs can be carried out by a senior clinician, always with the aim of seeing whether that person can be returned home rather than be admitted. Performance at the hospital has improved over the past 12 months, and there is a real focus by those responsible both for its management and for the clinical care that people get, to ensure that that improvement continues.

Mae Peter Black yn llygad ei le bod adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Treforys yn adran fawr, ac mae bob amser yn brysur iawn, gyda llif sylweddol o gleifion iddi. Ar draws Cymru, mae hanner y cleifion sy'n mynd i adran damweiniau ac achosion brys fawr yng Nghymru yn cael eu gweld, eu trin a'u rhyddhau o fewn llai na dwy awr. Fel y dywedodd y Prif Weinidog wrth ateb cwestiynau cynharach, ceir enghreifftiau—ac mae Treforys yn enghraifft dda o hyn—lle mae cleifion yn cael eu cadw am gyfnod hwy na hynny mewn adran damweiniau ac achosion brys fel y gall profion ychwanegol gael eu gwneud, fel y gall asesiad o anghenion rhywun gael ei gynnal gan glinigydd uwch, gyda'r nod bob amser o weld a oes modd i'r person hwnnw gael ei ddychwelyd adref yn hytrach na chael ei dderbyn i'r ysbyty. Mae perfformiad yn yr ysbyty wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, a cheir gwir bwyslais gan y rhai sy'n gyfrifol am ei reoli ac am y gofal clinigol y mae pobl yn ei dderbyn, ar gyfer sicrhau bod y gwelliant hwnnw'n parhau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, would like to associate myself with the sympathy that has been expressed to this lady's family. Minister, unfortunately, we have a situation in Wales where our unscheduled care services are under immense pressure. Regrettably, ambulances are queuing regularly outside many accident and emergency departments, not just in south Wales but in every single part of the country. What action are you taking to improve the unscheduled care system and, in the short term, while community services are extended and improved, to increase the capacity within our hospitals to deal with the demands that appear at hospital front doors?

Hoffwn innau hefyd ategu'r cydymdeimlad a fynegwyd i deulu'r wraig hon. Weinidog, yn anffodus, mae gennym sefyllfa yng Nghymru lle mae ein gwasanaethau gofal heb eu trefnu dan bwysau aruthrol. Yn anffodus, mae ambiwlansys yn ciwio'n rheolaidd y tu allan i lawer o adrannau damweiniau ac achosion brys, nid yn unig yn ne Cymru, ond ym mhob un rhan o'r wlad. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i wella'r system gofal heb ei drefnu ac, yn y tymor byr, tra bod gwasanaethau cymunedol yn cael eu hehangu a'u gwella, i gynyddu gallu yn ein hysbytai i ymdrin â'r galw sy'n ymddangos wrth ddrysau ffrynt ysbytai?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is quite wrong in his assertion that ambulances are queuing regularly outside hospitals in every part of the country. That is simply factually untrue. There are places—[Interruption.] There are specific examples, that is absolutely true, but that is not the assertion that he made. He made the assertion that ambulances were queuing regularly—and that is the phrase he used, 'queuing regularly'—in all parts of Wales. That is not true. It is simply not the case. In Morriston, for example, handovers of more than an hour have fallen by 82%, compared with March 2013. There was a 50% reduction in the number of patients waiting for over an hour between August last year and August this year, and 70% of patients coming to Morriston are handed over within 15 minutes. Now, we do need to do more because the performance of the ambulance service clearly does depend upon its ability to discharge patients that it brings to a hospital to an A&E department. The A&E department needs, where appropriate, to be able to discharge patients into the rest of the hospital. It is a whole-system issue, and we need to get flow across it all. Over the last winter, the performance of the system here in Wales improved on every single measure that we make of it compared with the year before. There is more that we need to do. We have to build on those achievements, and that is what we are determined to do.

Mae'r Aelod yn gwbl anghywir yn ei haeriad fod ambiwlansys yn ciwio y tu allan i ysbytai yn rheolaidd ym mhob rhan o'r wlad. Mae hynny, yn syml, yn ffeithiol anghywir. Ceir manau—[Torri ar draws.] Ceir enghreifftiau penodol, mae hynny'n hollol wir, ond nid dyna'r haeriad a wnaeth. Gwnaeth yr haeriad bod ambiwlansys yn ciwio'n rheolaidd—a dyna'r ymadrodd a ddefnyddiodd, 'ciwio'n rheolaidd'—ym mhob rhan o Gymru. Nid yw hynny'n wir. Yn syml, nid yw hynny'n wir. Yn Nhreforys, er enghraifft, mae trosglwyddiadau o fwy nag awr wedi gostwng gan 82%, o'i gymharu â Mawrth 2013. Bu gostyngiad o 50% yn nifer y cleifion a oedd yn aros dros awr rhwng mis Awst y llynedd a mis Awst eleni, a chaiff 70% o gleifion sy'n dod i Dreforys eu trosglwyddo o fewn 15 munud. Nawr, mae angen i ni wneud mwy gan fod perfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn amlwg yn dibynnu ar ei allu i ryddhau cleifion y mae'n dod â nhw i'r ysbyty i adran damweiniau ac achosion brys. Mae angen i adran damweiniau ac achosion brys, pan fo hynny'n briodol, allu rhyddhau cleifion i mewn i weddill yr ysbyty. Mae'n fater system gyfan, ac mae angen i ni gael llif ar draws y cyfan. Yn ystod y gaeaf diwethaf, llwyddodd perfformiad y system yma yng Nghymru i wella ar bob un mesur yr ydym ni'n ei wneud ohoni o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae mwy y mae angen i ni ei wneud. Mae'n rhaid i ni adeiladu ar y llwyddiannau hynny, a dyna yr ydym ni'n benderfynol o'i wneud.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. We now move to the business statement and I call on the Minister, Jane Hutt.

Diolch i chi, Weinidog. Symudwn nawr at y datganiad busnes a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Business Statement and Announcement

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Llywydd, I have two changes to report to this week's business. The Business Committee has agreed to schedule motions to elect Members to committees after this business statement and announcement, and, later today, the Minister for Public Services will make a statement on reforming local government. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Lywydd, mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau ar ôl y datganiad a chyhoeddiad busnes hwn, ac, yn ddiweddarach heddiw, bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud datganiad ar ddiwygio llywodraeth leol. Mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:30 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Leader of the house, is it possible to have a statement from the Minister for health in respect of the management of Abertawe Bro Morgannwg hospital? In remarks that the First Minister made in his response to questions, he said that now that there was a new management team, we were in a new era and that the old issues had been consigned to the past with the removal of the management team that was in place at that time. We are all aware that the two previous directors general of the Welsh NHS came from ABMU, and I think that it is important that we understand exactly the thinking of the Welsh Government. Does it place the blame and fault on the previous management at ABMU, or is it a wider issue and that we, therefore, should be guided by the principles of Professor Andrews's report and, ultimately, an independent inquiry into the health service here in Wales?
- Arweinydd y tŷ, a yw hi'n bosibl i gael datganiad gan y Gweinidog iechyd ar reolaeth Ysbyty Abertawe Bro Morgannwg? Yn y sylwadau a wnaeth y Prif Weinidog yn ei ymateb i gwestiynau, dywedodd fod tîm rheoli newydd erbyn hyn, ein bod mewn cyfnod newydd a bod yr hen broblemau wedi cael eu gadael yn y gorffennol ar ôl cael gwared ar y tîm rheoli a oedd yno ar y pryd. Rydym ni i gyd yn gwbl ymwybodol bod dau gyfarwyddwr cyffredinol blaenorol y GIG yng Nghymru wedi dod o PABM, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn deall union feddylfryd Llywodraeth Cymru. A yw'n rhoi'r bai ar y rheolwyr blaenorol yn PABM, neu a yw'n fater ehangach ac y dylem ni, felly, gael ein harwain gan egwyddorion adroddiad yr Athro Andrews ac, yn y pen draw, y dylid cynnal ymchwiliad annibynnol i'r gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru?
- 14:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, the Minister for health is taking forward and monitoring very carefully the implementation of the Andrews report. I, in fact, visited the Princess of Wales Hospital, and we are talking about that hospital in this respect in terms of management issues. I visited it myself only last week and met with the staff and the multidisciplinary teams who are now changing practice in that hospital as a result of the Andrews report. That is where the action has been taken in terms of management.
- Yn amlwg, mae'r Gweinidog iechyd yn datblygu ac yn monitro gweithrediad adroddiad Andrews yn ofalus iawn. A dweud y gwir, ymwelais i ag Ysbyty Tywysoges Cymru, ac rydym ni'n trafod yr ysbyty hwnnw yn y cyswllt hwn o ran materion rheoli. Ymwelais ag ef fy hun dim ond yr wythnos diwethaf, gan gyfarfod â'r staff a'r timau amlddisgyblaeth sydd bellach yn newid arfer yn yr ysbyty hwnnw o ganlyniad i adroddiad Andrews. Dyna lle mae'r camau wedi eu cymryd o ran rheoli.
- 14:31 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- ITV Wales is today reporting that the cost of the trial closure of junction 41 in Port Talbot has exceeded £800,000—a figure that it obtained through a freedom of information request. A local Labour councillor has already tweeted me today saying that this decision should be scrapped. Can we have an updated statement from the Minister for Economy, Science and Transport on whether this is necessary and whether this plan can be axed, as local people are suffering from the consequences of the junction closure?
- Mae ITV Cymru yn adrodd heddiw bod cost y prawf o gau cyffordd 41 ym Mhort Talbot wedi mynd dros £800,000—ffigur ai dderbyniwyd trwy gais rhyddid gwybodaeth. Mae cynghorydd Llafur lleol eisoes wedi anfon trydar ataf heddiw yn dweud y dylid diddymu'r penderfyniad hwn. A allwn ni gael y datganiad diweddaraf gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o ran pa un a yw hyn yn angenrheidiol ac a ellir dileu'r cynllun hwn, gan fod pobl leol yn dioddef o ganlyniadau cau'r gyffordd?
- 14:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, this is being monitored very carefully and we have had some very good responses in terms of the impact. I am sure that local people and local businesses want to hear not only that, but that we are also making full use of that crucial stretch of the M4.
- Yn amlwg, mae hyn yn cael ei fonitro'n ofalus iawn ac rydym ni wedi cael rhai ymatebion da iawn o ran yr effaith. Rwy'n siŵr bod pobl leol a busnesau lleol eisiasu clywed nid yn unig hynny, ond ein bod hefyd yn gwneud defnydd llawn o'r darn hanfodol hwnnw o'r M4.
- 14:32 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- On 12 August, I wrote to the then Minister for natural resources to receive an update on the implementation of sections 19 and 22 of the Commons Act 2006. On 18 August, I wrote to the then Minister for local government on a separate matter. Five weeks later, I have yet to receive a reply. I would be grateful if you could facilitate a response and comment on whether you are aware of any delay in the process of providing replies to correspondence.
- Ar 12 Awst, ysgrifennais at y Gweinidog cyfoeth naturiol i dderbyn diweddariad ar weithrediad adrannau 19 a 22 Deddf Tiroedd Comin 2006. Ar 18 Awst, ysgrifennais at y Gweinidog llywodraeth leol ar y pryd ar fater ar wahân. Bum wythnos yn ddiweddarach, nid wyf byth wedi cael ateb. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech hwyluso ymateb a gwneud sylwadau ar ba un a ydych chi'n ymwybodol o unrhyw oedi yn y broses o ddarparu atebion i ohebiaeth.

14:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Minister is here today and will hear this point. I ask Russell George to update me, as Minister for government business, so that I can share this with the Minister.

Gwn fod y Gweinidog yma heddiw a bydd yn clywed y pwynt hwn. Gofynnaf i Russell George roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi, fel Gweinidog busnes y Llywodraeth, fel y gallaf rannu hyn gyda'r Gweinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for two statements, with the first on rheumatoid arthritis. We understand that there are 30,000 rheumatoid arthritis sufferers across Wales. This is a disease that responds well to early diagnosis, where intervention within a 12-week window of opportunity will enable people to stay in work and be productive. However, we understand, from a 'meet the patient' event that was held just before recess, that there is nothing on the Welsh Government website regarding musculoskeletal conditions. We need a more consistent approach across Wales with clear and measurable targets.

Galwaf am ddau ddatganiad, y cyntaf ar arthritis gwynegol. Rydym yn deall bod 30,000 o bobl yn dioddef o arthritis gwynegol ledled Cymru. Mae hwn yn glefyd sy'n ymateb yn dda i ddiagnosis cynnar, lle bydd ymyrraeth o fewn cyfnod o 12 wythnos yn galluogi pobl i aros yn y gwaith a bod yn gynhyrchiol. Fodd bynnag, rydym ni'n deall, o ddiwyddiad 'cwrdd â'r claf' a gynhaliwyd ychydig cyn y toriad, nad oes unrhyw beth ar wefan Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyflyrau cyhyrsgerbydol. Mae angen dull mwy cyson ledled Cymru arnom, gyda thargedau eglur a mesuradwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, and finally, I call for a statement following last week's launch of the ASH Wales report on illegal tobacco in Wales, which found that Wales has one of the largest illegal tobacco markets compared with each of the English regions; that a quarter of Welsh smokers buy illegal tobacco; and that almost 60% of them buy at least once a month. We saw examples of good practice where similar problems have been identified in north-east England, which has significantly reduced the use of illegal tobacco. A statement would be welcomed, indicating how the Welsh Government, having now discovered this unfortunate news, may build on the good practice elsewhere to address this.

Yn ail, ac yn olaf, galwaf am ddatganiad yn dilyn lansiad yr wythnos ddiwethaf o adroddiad ASH Cymru ar dybaco anghyfreithlon yng Nghymru, a ganfu fod gan Gymru un o'r marchnadoedd mwyaf o dybaco anghyfreithlon o'i gymharu â phob un o ranbarthau Lloegr; bod chwarter ysmygwyr Cymru yn prynu tybaco anghyfreithlon; a bod bron i 60% ohonynt yn prynu o leiaf unwaith y mis. Gwelsom enghreifftiau o arfer da lle mae problemau tebyg wedi eu nodi yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, sydd wedi lleihau'r defnydd o dybaco anghyfreithlon yn sylweddol. Byddai datganiad yn cael ei groesawu, yn nodi sut y gallai Llywodraeth Cymru, ar ôl darganfod y newyddion anffodus hyn bellach, adeiladu ar yr arfer da mewn manau eraill i fynd i'r afael â hyn.

14:34 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that Mark Isherwood is aware of the clear clinical pathways in terms of treatment and support for those people suffering from rheumatoid arthritis. Of course, he has the opportunity to raise these issues with the Minister, in terms of his response to oral questions.

Gwn fod Mark Isherwood yn ymwybodol o'r llwybrau clinigol eglur o ran triniaeth a chefnogaeth i'r bobl hynny sy'n dioddef o arthritis gwynegol. Wrth gwrs, ceir cyfle iddo godi'r materion hyn gyda'r Gweinidog, o ran ei ymateb i gwestiynau llafar.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that your point on legal highs does take us to the substance misuse delivery plan for 2013-15, which includes—as I am sure you know, Mark Isherwood—a number of specific actions about raising awareness, as well as about improving our ability to respond to these new substances, which we know of as 'legal highs'. However, it is a challenging and a fast-moving area, as you are aware, and we remain committed to tackling the issue.

Credaf fod eich pwynt ynghylch cyffuriau cyfreithlon yn mynd â ni at y cynllun cyflawni ar gamddefnyddio sylweddau ar gyfer 2013-15, sy'n cynnwys—fel rwy'n siŵr eich bod yn gwybod, Mark Isherwood—nifer o gamau gweithredu penodol ar godi ymwybyddiaeth, yn ogystal â gwella ein gallu i ymateb i'r sylweddau newydd hyn, yr ydym yn eu hadnabod fel 'cyffuriau cyfreithlon'. Fodd bynnag, mae'n faes heriol sy'n newid yn gyflym, fel y gwyddoch, ac rydym ni'n parhau i fod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r mater.

14:35 **Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Unless there are any objections, I propose that the motions are grouped for debate and voted on together. I call on a member of the Business Committee to move the motions.

Motion to Elect Members to Committees

Oni bai bod unrhyw wrthwynebiadau, cynigïaf fod y cynigion yn cael eu grwpio ar gyfer dadl ac y dylid pleidleisio arnynt gyda'i gilydd. Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynig y cynigion.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig NDM5575 Rosemary Butler

Motion NDM5575 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol John Griffiths (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Rebecca Evans (Llafur).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects John Griffiths (Labour) as a member of the Children, Young People and Education Committee in place of Rebecca Evans (Labour).

Cynnig NDM5576 Rosemary Butler

Motion NDM5576 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:

(i) Alun Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Leighton Andrews (Llafur);

(i) Alun Davies (Labour) as a member of the Communities, Equality and Local Government Committee in place of Leighton Andrews (Labour);

(ii) Gwenda Thomas (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Jenny Rathbone (Llafur).

(ii) Gwenda Thomas (Labour) as a member of the Communities, Equality and Local Government Committee in place of Jenny Rathbone (Labour).

Cynnig NDM5577 Rosemary Butler

Motion NDM5577 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Alun Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Julie James (Llafur).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Alun Davies (Labour) as a member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee in place of Julie James (Labour).

Cynnig NDM5578 Rosemary Butler

Motion NDM5578 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:

(i) Jeff Cuthbert (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle David Rees (Llafur);

(i) Jeff Cuthbert (Labour) as a member of the Enterprise and Business Committee in place of David Rees (Labour);

(ii) Gwenda Thomas (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Julie James (Llafur).

(ii) Gwenda Thomas (Labour) as a member of the Enterprise and Business Committee in place of Julie James (Labour).

Cynnig NDM5579 Rosemary Butler

Motion NDM5579 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:

(i) Jeff Cuthbert (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Gwyn Price (Llafur);

(i) Jeff Cuthbert (Labour) as a member of the Environment and Sustainability Committee in place of Gwyn Price (Labour);

(ii) Jenny Rathbone (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Julie James (Llafur).

(ii) Jenny Rathbone (Labour) as a member of the Environment and Sustainability Committee in place of Julie James (Labour).

Cynnig NDM5580 Rosemary Butler

Motion NDM5580 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:

(i) Alun Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Leighton Andrews (Llafur);

(i) Alun Davies (Labour) as a member of the Health and Social Care Committee in place of Leighton Andrews (Labour);

(ii) John Griffiths (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Rebecca Evans (Llafur).

(ii) John Griffiths (Labour) as a member of the Health and Social Care Committee in place of Rebecca Evans (Labour).

14:35 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Cynigiad y cynigion.

I move the motions.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motions. Does any Member object? There are no objections; therefore, the motions are agreed, in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynigion. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau; felly, derbynnir y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motions agreed in accordance with Standing Order 12.36.

14:36 **Datganiad: Canlyniad Refferendwm yr Alban a'i Oblygiadau ar gyfer Cymru**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the First Minister.

Statement: The Outcome of the Scottish Referendum and Implications for Wales

Galwaf ar y Prif Weinidog.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Thank you, Llywydd. I would like to take this opportunity to update Members on developments since last Thursday, when the people of Scotland affirmed their wish to remain part of the United Kingdom. There is time, of course, to debate these matters fully tomorrow, so my statement today is brief.

Diolch, Lywydd. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiadau ers dydd lau diwethaf, pan gadarnhaodd pobl yr Alban eu dymuniad i aros yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Bydd amser, wrth gwrs, i drafod y materion hyn yn llawn yfory, felly datganiad byr sydd gennyf heddiw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I spoke to the Prime Minister on Friday, and I told him how much I, along with most Members of this Assembly, welcomed the positive choice that the people of Scotland had made to remain part of the United Kingdom. However, it is fair to say that the status quo has gone; events in Scotland have swept it away, and there can be no going back to the way things were.

Siaradais â Phrif Weinidog y DU ddydd Gwener, a dywedais wrtho gymaint yr oeddwn i, ynghyd â'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad hwn, yn croesawu dewis cadarnhaol pobl yr Alban i aros yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'n deg dweud bod y status quo wedi mynd; mae'r digwyddiadau yn yr Alban wedi'i ysgubo i ffwrdd, ac ni ellir troi'n ôl at y ffordd yr oedd pethau'n arfer bod.

I made clear to the Prime Minister, once again, how vital it was that the future of the UK is developed through a process involving all members of the UK family. That does not mean that we cannot move forward on devolution proposals for the different countries. However, we must move on from short-term, sticking-plaster solutions to whatever may be the controversy of the day. There must now be a wider process to draw up a settlement reflecting the aspirations of all of the UK's constituent nations. It is time for our constitution to be put on a coherent footing.

Fe'i gwnes yn glir i Brif Weinidog y DU, unwaith eto, pamor allweddol yw hi fod dyfodol y DU yn cael ei ddatblygu drwy broses sy'n cynnwys pob aelod o deulu'r DU. Nid yw hynny'n golygu na allwn symud ymlaen ar gynigion datganoli i'r gwahanol wledydd. Fodd bynnag, rhaid inni symud ymlaen o atebion tymor byr, dros dro i beth bynnag yw dadl y dydd. Yn awr, rhaid sicrhau proses ehangach i lunio setliad sy'n adlewyrchu dyheadau holl genhedloedd cyfansoddol y DU. Mae'n bryd rhoi sail gydlynol i'n cyfansoddiad.

I can do no better than echo the words of Lord Nick Bourne, in that we have to look at all parts of the United Kingdom, because change in one affects the position in all the others. Wales's position in all this has been clear and consistent. We have a platform for reform, founded on an all-party consensus. Full implementation of Silk 1, including fair funding for Wales and the removal of the lockstep, would do a great deal to pave the way for further reform. We then want to see swift implementation of Silk 2, and, as we said in our response on Silk 2, we stand ready to consider other proposals that may be on the table for Scotland, because they must be offered to Wales too, in line with the presumption of devolution where practicable. That is our starting point. We can then consider whether they are right for Wales.

The Prime Minister said on Friday that he wants a balanced settlement, which is fair to people in Scotland, as well as to everyone in Wales, in England and in Northern Ireland. He said that he wants Wales to be at the heart of that debate. Llywydd, I will hold him to that promise.

14:38

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do thank the First Minister for his very, very brief statement this afternoon. It does just talk in generality, and I think that he is looking towards tomorrow's debate to flesh out other proposals. That debate has been tabled by one of the opposition parties; it is quite ironic, really, that the Government could not come forward with a fuller statement. However, I am sure that I will read more in the press, when the First Minister gives his briefings, although he does choose not to enter into a debate with the other leaders when the opportunity does arise, as we have seen in the last three debates that were put on last week.

I agree entirely with the sentiment that the First Minister has put forward, and also with the credit that he pays to Nick Bourne for his analysis of the situation, in that you have to look at it in the whole, and not just in isolation, as has been the historical precedent when it comes to looking at devolution in these islands—looking at Scotland in isolation, looking at Wales, looking at Northern Ireland, and, ultimately, leaving out the largest part in these islands, which is, obviously, England.

I would like to put some questions to the First Minister. I would be grateful to hear how he sees the Welsh Government going on to inform the process that was set in motion by the Prime Minister last Friday. Obviously, there is a Cabinet committee, under the chairmanship of William Hague, and I would be grateful to know whether he has had any discussions about how the Welsh Government will have an input into that process.

Ni allaf wneud yn well nag adleisio geiriau'r Arglwydd Nick Bourne: rhaid inni edrych ar bob rhan o'r Deyrnas Unedig, gan fod newid mewn un rhan yn effeithio ar y sefyllfa ym mhob rhan arall. Mae sefyllfa Cymru yn hyn i gyd wedi bod yn glir ac yn gyson. Mae gennym lwyfan ar gyfer diwygio, sydd wedi'i seilio ar gonsensws trawsbleidiol. Byddai gweithredu Silk 1 yn llawn, gan gynnwys cyllid teg i Gymru a chael gwared ar y cam cloi, yn gwneud llawer iawn i baratoi'r ffordd ar gyfer diwygio pellach. Yna, hoffem weld Silk 2 yn cael ei weithredu'n gyflym, ac, fel y dywedasom yn ein hymateb i Silk 2, rydym yn barod i ystyried cynigion eraill a allai fod ar y bwrdd ar gyfer yr Alban, oherwydd rhaid eu cynnig i Gymru hefyd, yn unol â'r rhagdybiaeth o ddatganoli lle y bo hynny'n ymarferol. Dyna ein man cychwyn. Yna gallwn ystyried a ydynt yn iawn i Gymru.

Dywedodd Prif Weinidog y DU ddydd Gwener ei fod o blaid setliad cytbwys, sy'n deg i bobl yn yr Alban, yn ogystal ag i bawb yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dywedodd yr hoffai i Gymru fod wrth galon y ddadl honno. Lywydd, fe'i daliaf at yr addewid hwnnw.

Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad byr iawn, iawn y prynhawn yma. Siarad cyffredinol ydyw, ac rwyf yn meddwl ei fod yn edrych ymlaen at y ddadl yfory er mwyn rhoi cnawd ar esgyrn cynigion eraill. Un o'r gwrthbleidiau a gyflwynodd y ddadl honno; mae'n eithaf eironig, mewn gwirionedd, na allai'r Llywodraeth gyflwyno datganiad llawnach. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr y byddaf yn darllen mwy yn y wasg, pan fydd y Prif Weinidog yn rhoi ei sesiynau briffio, er ei fod yn dewis peidio â chael dadl â'r arweinwyr eraill pan ddaw'r cyfle, fel y gwelsom yn y tair dadl ddiwethaf a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf.

Cytunaf yn llwyr â'r farn y mae'r Prif Weinidog wedi'i chyflwyno, a hefyd â'r clod y mae'n ei roi i Nick Bourne am ei ddadansoddiad o'r sefyllfa, gan fod yn rhaid ichi edrych ar y darlun llawn, nid dim ond ar y sefyllfa ar ei phen ei hun, oherwydd dyna yw'r cynsail hanesyddol o ran edrych ar ddatganoli yn yr ynysoedd hyn—edrych ar yr Alban ar ei phen ei hun, edrych ar Gymru, edrych ar Ogledd Iwerddon, ac, yn y pen draw, hepgor y rhan fwyaf o'r ynysoedd hyn, sef, yn amlwg, Lloegr.

Hoffwn ofyn rhai cwestiynau i'r Prif Weinidog. Byddai'n dda gennyf glywed sut y mae'n gweld Llywodraeth Cymru'n mynd ymlaen i lywio'r broses a gychwynnwyd gan Brif Weinidog y DU ddydd Gwener diwethaf. Wrth gwrs, mae pwyllgor Cabinet wedi'i sefydlu, dan gadeiryddiaeth William Hague, a byddai'n dda gennyf gael gwybod a yw wedi cael unrhyw drafodaethau ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at y broses honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would also like to know whether he agrees—I think I have heard him say this—that there is no automatic read-over; that what goes up to Scotland is necessarily essential for Wales, because, obviously, we are quite different in that the economy is far more interlinked with our relationships across Offa's Dyke. On public services in particular, there is a huge dependency, especially for people in mid Wales regarding district general hospital use. So, while it might well be welcome to consider the proposals that are on offer to Scotland, there is no automatic read-over—just because Scotland is getting it, Wales should automatically see that as the ultimate solution to some of the issues that we want to address here.

Does the First Minister also believe that there does need to be a rebalancing of the MP representation and role if there is to be this collective change that is talked about among the leaders in Westminster and political parties across the United Kingdom, whether they are in Northern Ireland, Scotland or Wales? There does seem to be this collective will now to address this issue. Therefore, is it the First Minister's opinion that there will inevitably be a rebalancing of the role of MPs from Wales, Scotland and Northern Ireland in whatever parliament emerges in Westminster?

Could I also commend the work that Stephen Crabb has done so far on this particular issue? He has led from the front in making sure that Wales's voice is heard in all of these negotiations. I commend his initiative to pull together the parliamentary leaders in Westminster from the Welsh parties' representation bodies there and, ultimately, have a meeting to see where there is common ground. I did put that proposition to the First Minister last week during First Minister's questions and he very kindly threw it straight back in my face. It is regrettable that there is not such a will to work across party divides in this institution, but I stand ready to work across those party divides because, ultimately, if we can find common ground and work on common principles—and there will be areas where we disagree—ultimately, our voice will be that much louder in the discussions and negotiations that take place in the next six, seven or eight months.

Hoffwn wybod hefyd a yw'n cytuno—rwyf yn meddwl fy mod wedi'i glywed yn dweud hyn—nad yw'n dilyn yn awtomatig fod yr hyn sy'n mynd i fyny i'r Alban o reidrwydd yn hanfodol i Gymru, oherwydd, yn amlwg, rydym yn eithaf gwahanol gan fod mwy o gydblecthu o lawer rhwng yr economi a'n cysylltiadau ar draws Clawdd Offa. O ran gwasanaethau cyhoeddus yn arbennig, mae dibyniaeth aruthrol, yn enwedig i bobl yn y canolbarth, ynglŷn â defnyddio ysbytai cyffredinol dosbarth. Felly, er y gallai fod yn dda o beth ystyried y cynigion sy'n cael eu cynnig i'r Alban, nid yw'n dilyn yn awtomatig—ni ddylai Cymru ystyried yn awtomatig, oherwydd bod yr Alban yn cael rhywbeth, mai dyna'r ateb yn y pen draw i rai o'r materion yr hoffem roi sylw iddynt yma.

A yw'r Prif Weinidog yn credu hefyd fod angen ailgioriannu cynrychiolaeth a swyddogaeth ASau os ceir y newid ar y cyd hwn y sonnir amdano ymhlith yr arweinwyr yn San Steffan a phleidiau gwleidyddol ledled y Deyrnas Unedig, p'un a ydynt yn yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru? Mae'n ymddangos fod ewyllys ar y cyd yn awr i ymdrin â'r mater hwn. Felly, a yw'r Prif Weinidog o'r farn ei bod yn anochel y bydd yn rhaid ailgioriannu swyddogaethau Aelodau Seneddol o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ym mha bynnag senedd a ddaw yn San Steffan?

A gaf fi hefyd ganmol gwaith Stephen Crabb hyd yma ar y mater penodol hwn? Mae wedi arwain o'r tu blaen wrth sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed yn y trafodaethau hyn i gyd. Cymeradwyaf ei fenter wrth ddwyn ynghyd arweinwyr seneddol cyrff cynrychiolaeth y pleidiau Cymreig yn San Steffan ac, yn y pen draw, i gynnal cyfarfod i weld lle mae tir cyffredin. Cynigiais hynny i'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog ac roedd cystal â'i daflu'n syth yn ôl yn fy wyneb. Mae'n anffodus nad oes ewyllys o'r fath i weithio ar draws rhaniadau rhwng y pleidiau yn y sefydliad hwn, ond rwyf fi'n barod i weithio ar draws y rhaniadau hynny rhwng pleidiau oherwydd, yn y pen draw, os gallwn ddod o hyd i dir cyffredin a gweithio ar egwyddorion cyffredin—a byddwn yn anghytuno mewn rhai meysydd—yn y pen draw, bydd ein llais gymaint â hynny'n uwch yn y trafodaethau a'r negodiadau a gynhelir yn y chwech, saith neu wyth mis nesaf.

14:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I do not think that the offer had been made by the Secretary of State last week; I certainly was not aware of it. In that respect, he is ahead of his own Prime Minister. That much I am prepared to concede.

May I say that what has been proposed thus far—

Nid wyf yn credu bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnig hynny'r wythnos diwethaf; yn sicr, nid oeddwn i'n ymwybodol o hynny. Yn hynny o beth, mae ar y blaen i'w Brif Weinidog ei hun. Rwyf yn barod i addef cymaint â hynny.

A gaf fi ddweud bod yr hyn sydd wedi'i gynnig hyd yma—

14:42

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I made the offer. Are you deaf or something?

Fi wnaeth y cynnig. A ydych yn fyddar neu rywbeth?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I am not deaf. I can hear what you are saying, even from here. You do not need a microphone. [Laughter.]

What I can say is that the response of the UK Government and the Prime Minister has been woefully inadequate. Setting up a Cabinet sub-committee: what kind of a response is that? It is a constitutional convention that we want, not a sub-committee set up in Westminster where we are all supplicants called upon to give evidence to that committee. That is precisely what almost lost Scotland and that is why the Prime Minister must learn. I believe that he is capable of doing that, and that is why the Prime Minister must learn. It is no good having a Cabinet sub-committee of the Westminster Cabinet to look at constitutional arrangements for the whole of the UK at the drop of a hat. It has to be done properly, and that has been the problem over the past 15 years—it has not been done properly.

There needs to be a proper convention and it needs proper representation from all of the Governments, not just from one. It has to look at all of the issues and the issue of MPs and their distribution. I concede that to him, but this has to be done over time, as it cannot be done overnight. Also, it is not simply a case of saying, 'Well, let us have English votes for English laws'. That does not work. I have used the example where, if a Bill were taken through the House of Commons that had the effect of privatising large parts of the English NHS, it would not mention Wales at all. Nevertheless, if there were to be a reduction in Department of Health spending as a result, it would have an effect on Wales, Scotland and Northern Ireland. Does that mean then that it is, in effect, an English Bill? Clearly not. It is not quite as easy as that, to simply say, 'English votes for English laws'. That is simply a throwaway line.

I will ask the Prime Minister to look at this properly. If we are going to rebalance the UK constitution, it cannot be done by a sub-committee and it cannot be done in a week or in a few months; it has to be done properly. I welcome what the Secretary of State for Wales has said and I welcome his initiative in terms of drawing together those from different parties. I stand ready to work with different parties in this Chamber. I invite the leader of the opposition to state his views tomorrow. Where does he stand on all of this? He will have the chance tomorrow, so I think it is fair to give him advance warning of this now. Where does he stand? Does he support the convention? [Interruption.] He can have a chance tomorrow. Will he work with other parties? What is his view on the Cabinet sub-committee that is being set up? Does he support the principle of equality of the four nations within the UK? Does he accept the principle of further devolution in Wales? Yes, he is right to say that powers need not be absolutely identical, but the method of devolution, the structure of devolution and the offer have to be identical. He is right to say that we are different, but we are not second best. I invite him to lay that ghost to rest in the debate tomorrow.

Nid wyf yn fyddar. Gallaf glywed yr hyn yr ydych yn ei ddweud, hyd yn oed oddi yma. Nid oes angen meicroffon arnoch. [Chwerthin.]

Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod ymateb Llywodraeth a Phrif Weinidog y DU wedi bod yn druenus o annigonol. Sefydlu is-bwyllgor Cabinet: pa fath o ymateb yw hynny? Confensiwn cyfansoddiadol sydd ei eisiau arnom, nid is-bwyllgor wedi'i sefydlu yn San Steffan sy'n galw arnom i gyd fel erfynwyr i roi tystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw. Dyna'n union sut y bu bron iddynt golli'r Alban a dyna pam y mae'n rhaid i Brif Weinidog y DU ddysgu. Rwyf yn credu y gall wneud hynny, a dyna pam y mae'n rhaid i Brif Weinidog y DU ddysgu. Nid oes diben cael is-bwyllgor i Gabinet San Steffan i edrych ar drefniadau cyfansoddiadol ar gyfer y DU gyfan ar fymrwyl. Rhaid gwneud hynny'n iawn, a dyna lle bu'r broblem dros y 15 mlynedd diwethaf—nid yw wedi'i wneud yn iawn.

Mae angen confensiwn priodol ac mae arno angen cynrychiolaeth briodol o bob Llywodraeth, nid dim ond o un. Rhaid iddo edrych ar yr holl faterion ac ar fater yr ASau a'u dosbarthiad. Rwyf yn cyfaddef hynny, ond rhaid gwneud hyn dros amser; ni ellir ei wneud dros nos. Hefyd, nid yw'n fater o ddim ond dweud, 'Wel, gadewch inni bleidleisio yn Lloegr ar gyfreithiau Lloegr'. Nid yw hynny'n gweithio. Rwyf wedi defnyddio'r enghraifft lle, pe bai Bil yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin a fyddai'n preifateiddio rhannau helaeth o'r GIG yn Lloegr, ni fyddai'n sôn am Gymru o gwbl. Serch hynny, pe bai'n arwain at leihad yng ngwariant yr Adran Iechyd, byddai'n effeithio ar Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. A yw hynny'n golygu ei fod, i bob pwrpas, yn Fil ar gyfer Lloegr? Nac ydyw, yn amlwg. Nid yw mor hawdd â dweud, yn syml, 'pleidleisio yn Lloegr ar gyfreithiau Lloegr'. Dim ond geiriau ffwrdd-â-hi yw'r rheiny.

Gofynnaf i Brif Weinidog y DU edrych ar hyn yn iawn. Os ydym yn mynd i ailgioriannu cyfansoddiad y DU, ni all is-bwyllgor wneud hynny ac ni ellir ei wneud mewn wythnos neu mewn rhai misoedd; rhaid ei wneud yn iawn. Rwyf yn croesawu'r hyn y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi'i ddweud ac yn croesawu ei fenter o ran dwyn ynghyd bobl o wahanol bleidiau. Rwyf yn barod i weithio gyda gwahanol bleidiau yn y Siambur hon. Rwyf yn gwahodd arweinydd yr wrthblaid i ddatgan ei farn yfory. Beth yw ei safbwynt yn hyn o beth? Caiff gyfle yfory, felly rwyf yn meddwl ei bod yn deg rhoi rhybudd ymlaen llaw o hyn iddo'n awr. Beth yw ei safbwynt? A yw o blaid y confensiwn? [Torri ar draws.] Caiff gyfle yfory. A wnaiff weithio gyda phleidiau eraill? Beth yw ei farn am yr is-bwyllgor Cabinet sy'n cael ei sefydlu? A yw o blaid cydraddoldeb pedair cenedl y DU mewn egwyddor? A yw'n derbyn egwyddor datganoli pellach yng Nghymru? Ydy, mae'n iawn i ddweud nad oes angen i'r pweraw fod yn union yr un fath, ond rhaid i'r dull datganoli, y strwythur datganoli a'r cynnig fod yn union yr un fath. Mae'n iawn i ddweud ein bod yn wahanol, ond nid ydym yn eilradd. Rwyf yn ei wahodd i dawelu'r si honno yn y ddatganiad yfory.

We are on the verge of times that we have not seen before. There is a general acceptance that the UK cannot stay as it is, because Scotland showed that last week. It was by a whisker—it was not an unequivocal vote; far from it. It was by a whisker that Scotland stayed within the union. If action is not taken to rebalance the union, to create a new union, Scotland will leave in time, and that is something that those of us on these benches would greatly regret.

Rydym ar drothwy cyfnod na welwyd mo'i debyg o'r blaen. Derbynnir yn gyffredinol na all y DU aros fel y mae, oherwydd dangosodd yr Alban hynny'r wythnos diwethaf. Trwch blewyn oedd ynddi—nid oedd yn bleidlais ddiamwys o bell ffordd. O drwch blewyn yr arhosodd yr Alban yn yr undeb. Oni chymerir camau i ailgoriannu'r undeb, i greu undeb newydd, bydd yr Alban yn gadael rywbyrd, ac mae hynny'n rhywbeth y byddem ni ar y meinciau hyn yn gresynu'n fawr ato.

14:45

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The First Minister proposed a constitutional convention, I think, over two years ago. He has restated today that it is essential that changes to the constitution are not taken in isolation and that every part of the UK should be part of this, and that every part of the UK should have an equal voice. Could he give us his views about how we will ensure that, even if we are at the table, we will have an equal voice?

Cynigiodd y Prif Weinidog gonfensiwn cyfansoddiadol, rwyf yn meddwl, dros ddwy flynedd yn ôl. Mae wedi datgan unwaith eto heddiw ei bod yn hanfodol nad ystyrir y newidiadau i'r cyfansoddiad ar eu pen eu hunain ac y dylai pob rhan o'r DU fod yn rhan o hyn, ac y dylai pob rhan o'r DU gael llais cyfartal. A wnaiff roi ei farn ynghylch sut y byddwn yn sicrhau, hyd yn oed os ydym wrth y bwrdd, y bydd gennym lais cyfartal?

The second question is: does he think that this constitutional convention would include reform of the House of Lords? I have been involved in several unsuccessful attempts to reform the House of Lords. The nearest one was under Robin Cook, where we lost by a couple of votes. I know that the Prime Minister is expressing concern about Welsh MPs voting on English matters, but we have, in the House of Lords, people who are not elected at all voting on issues that are very important to us. Does he see the constitutional convention embracing the House of Lords?

Yr ail gwestiwn yw hyn: a yw'n credu y byddai'r confensiwn cyfansoddiadol hwn yn cynnwys diwygio Tŷ'r Arglwyddi? Rwyf wedi bod yn rhan nifer o ymdrechion aflwyddiannus i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi. Roedd yr un agosaf dan Robin Cook, lle y collasom o bleidlais neu ddwy. Gwn fod Prif Weinidog y DU yn mynegi pryder am Aelodau Seneddol Cymru'n pleidleisio ar faterion yn Lloegr, ond mae gennym, yn Nhŷ'r Arglwyddi, bobl nad ydynt wedi'u hethol o gwbl yn pleidleisio ar faterion sy'n bwysig iawn i ni. A yw'n rhagweld y bydd y confensiwn cyfansoddiadol yn cynnwys Tŷ'r Arglwyddi?

Finally, the issue of the voting age came up in the Scottish referendum. Would he see a decision on a future voting age also being debated in the constitutional convention and the convention reaching a conclusion?

Yn olaf, codwyd mater yr oedran pleidleisio yn refferendwm yr Alban. A fyddai'n rhagweld penderfyniad ar yr oedran pleidleisio yn y dyfodol hefyd yn cael ei drafod yn y confensiwn cyfansoddiadol ac y byddai'r confensiwn yn dod i gasgliad?

14:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I thank the Member for her comments. What is needed is a sensible and calm way forward, with no more knee-jerk reactions, no more examples of Prime Ministers swearing at their own party—[Laughter.]—but there it is, and no more examples of vows given in haste to Scotland. Those vows, in my view, have to be kept to regardless, because they have been given, and that is that. No conditions can be attached to them subsequently.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Yr hyn sydd ei angen yw ffordd synhwyrol a digynnwrf ymlaen, heb ddim mwy o ymatebion mympwyol, dim mwy o enghreifftiau o Brif Weinidogion yn rhegi ar eu plaid eu hunain—[Chwerthin.]—ond dyna ni, a dim mwy o enghreifftiau o roi addewidion ar frys i'r Alban. Rhaid cadw at yr addewidion hynny beth bynnag, yn fy marn i, oherwydd maent wedi'u rhoi, a dyna ddiwedd arni. Ni ellir rhoi amodau ynghlwm wrthynt yn ddiweddarach.

I have sympathy with what the Member has said about the House of Lords. She will know that I have, in times past, suggested that the House of Lords, at the very least—it might, perhaps, be an elected upper chamber—could be territorialised, so that there is proper representation from Wales there. That would be similar, but not exactly the same, as the American Senate, which tries to balance out the population differences within states with geographical representation in an upper house.

Rwyf yn cydymdeimlo â'r hyn a ddywedodd yr Aelod am Dŷ'r Arglwyddi. Bydd yn gwybod fy mod, yn y gorffennol, wedi awgrymu y gellid tiriogaethu Tŷ'r Arglwyddi, o leiaf—â siambr uchaf etholedig, o bosibl—fel bod cynrychiolaeth briodol o Gymru yno. Byddai hynny'n debyg, ond nid yn union yr un fath, â Senedd America, sy'n ceisio cadw cydbwysedd rhwng y gwahaniaethau yn y poblogaethau o fewn taleithiau, â chynrychiolaeth ddaearyddol mewn tŷ uwch.

She is a long-standing supporter of votes for 16-year-olds. I think that the time has come for that now. I was, I must confess, sceptical about it, but we have seen it work in Scotland. I think that, now that it has happened in Scotland, there is no logical argument that it should not happen across the UK in every election. Therefore, my view on that, I confess, has changed; I suspect that I now take the same position as her.

Mae hi'n gefnogwr ers tro byd i bleidleisiau i rai 16 mlwydd oed. Credaf ei bod yn bryd gwneud hynny yn awr. Roeddwn, rhaid imi gyfaddef, yn amheus ynghylch y peth, ond rydym wedi ei weld yn gweithio yn yr Alban. Credaf yn awr, ar ôl iddo ddigwydd yn yr Alban, nad oes dadl resymegol na ddylai ddigwydd ledled y DU ym mhob etholiad. Felly, mae fy marn ynglŷn â hynny, rwyf yn cyfaddef, wedi newid; nid wyf yn amau nad wyf bellach o'r un farn â hi.

14:48

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Prime Minister has said that he wants to see Wales at the heart of the debate, but he is yet to elaborate on that point. It is also the case that, although we have had his statement today, we are yet to see specific details on the First Minister's vision, or, at least, any vision that goes beyond the structure of devolution that is broadly agreed in this Chamber. It would be helpful if the Prime Minister were to issue a statement of intent as soon as possible regarding the UK Government's position on the Wales Bill, in light of recent developments. That Bill, I would argue, is too weak in this new context—second class, even—and I wonder if the First Minister agrees with that point.

I also seek clarity on one of the answers that the First Minister gave earlier regarding a possible joint position by the parties in this Assembly. Is it his intention to seek an agreed cross-party position here before entering into joint negotiations with the UK Government, or is he of the view that each party should pursue unilateral positions? For information, Plaid Cymru has today published detailed proposals as to what can be done to improve our settlement straight away, before the UK general election, and I would invite you, First Minister, to consider those proposals and to indicate whether or not you intend to publish proposals of your own. If you do, Plaid Cymru is ready and prepared to give our commitment to trying to work to find areas of common agreement between us.

The First Minister says that he wants the swift implementation of Silk 2. I would be grateful for clarification as to which elements he is referring to and what exactly he means by 'swift'. Specifically, does his definition of 'swift' mean by or during the next Assembly term?

It would be helpful for clarification on some points of principle. Does the First Minister support the devolution of criminal justice to Wales? Does he believe that now is the time to seek powers over corporation tax, particularly if and when that lever is made available to Scotland? Does he believe that the electoral arrangements for the National Assembly should be a matter for the National Assembly alone? What is the First Minister's idea of a balanced settlement for the UK as a whole? Does fair funding amount to £150 million per year, or should it be more? If it is more than that, can the First Minister tell us how much per year it would amount to for him to consider our funding settlement to be fair? Finally, does the First Minister acknowledge the risk of Wales being on par with the devolved English regions if new arrangements do not more closely resemble a new settlement for Scotland?

Mae Prif Weinidog y DU wedi dweud yr hoffai weld Cymru wrth galon y ddadl, ond nid yw wedi ymhelaethu ar y pwynt hwnnw eto. Mae hefyd yn wir, er ein bod wedi cael ei ddatganiad heddiw, nad ydym eto wedi gweld manylion penodol gweledigaeth y Prif Weinidog, neu, o leiaf, unrhyw weledigaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r strwythur datganoli y cytunir yn gyffredinol arno yn y Siambr hon. Byddai'n ddefnyddiol pe bai Prif Weinidog y DU yn cyhoeddi datganiad o fwriad cyn gynted ag y bo modd ynglŷn â safbwynt Llywodraeth y DU ar Fil Cymru, yng ngoleuni datblygiadau diweddar. Mae'r Bil hwnnw, byddwn yn dadlau, yn rhy wan yn y cyd-destun newydd hwn—yn eilradd, hyd yn oed—a tybed a yw'r Prif Weinidog yn cytuno â'r pwynt hwnnw?

Rwyf hefyd yn ceisio eglurder ar un o'r atebion a roddodd y Prif Weinidog yn gynharach ynghylch safbwynt ar y cydposibl gan y pleidiau yn y Cynulliad hwn. A yw'n fwriad ganddo geisio sicrhau safbwynt trawsbleidiol ar y cyd yma cyn dechrau negodi ar y cyd â Llywodraeth y DU, ynteu a yw o'r farn y dylai pob plaid geisio safbwyntiau unochrog? Er gwybodaeth, mae Plaid Cymru heddiw wedi cyhoeddi cynigion manwl ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i wella ein setliad ar unwaith, cyn etholiad cyffredinol y DU, a byddwn yn eich gwahodd, Brif Weinidog, i ystyried y cynigion hynny ac i ddweud a ydych yn bwriadu cyhoeddi eich cynigion eich hun ai peidio. Os ydych, mae Plaid Cymru yn barod ac yn fodlon i roi ymrwymiad i geisio gweithio i ddog o hyd i feysydd lle rydym yn gytûn.

Mae'r Prif Weinidog yn dweud yr hoffai i Silk 2 gael ei weithredu'n gyflym. Byddwn yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch pa elfennau y mae'n cyfeirio atynt a beth yn union y mae'n ei olygu wrth 'cyflym'. Yn benodol, a yw ei ddiffiniad o 'cyflym' yn golygu erbyn neu yn ystod tymor nesaf y Cynulliad?

Byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ar rai pwyntiau o egwyddor. A yw'r Prif Weinidog o blaid datganoli cyfiawnder troseddol i Gymru? A yw'n credu mai nawr yw'r amser i geisio pwerau dros dreth gorfforaeth, yn ewedig os bydd hynny ar gael i'r Alban a phan y bydd ar gael? A yw'n credu y dylai trefniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol fod yn fater i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unig? Beth yw syniad Prif Weinidog o setliad cytbwys i'r DU gyfan? A yw cyllid teg yn golygu £150 miliwn y flwyddyn, ynteu a ddylai fod yn fwy? Os yw'n fwy na hynny, a all y Prif Weinidog ddweud wrthym pa swm y flwyddyn y byddai'n ei ystyried yn setliad cyllido teg inni? Yn olaf, a yw'r Prif Weinidog yn cydnabod y risg y gallai Cymru fod ar yr un lefel â rhanbarthau datganoledig Lloegr os nad yw'r trefniadau newydd yn edrych yn debychach i setliad newydd i'r Alban?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There were a number of questions there. I cannot speak for the Prime Minister, of course. I do not think that anyone now defends the lockstep, in any event. The Secretary of State for Wales does not defend it either. That is bound to go, I would suggest, from the Wales Bill.

The leader of Plaid Cymru asked what scope there might be for a common position. I hope that we could reach a common position. She asked me what my view was in terms of the way forward. I will repeat to her what I said earlier: implementation of Part 1 of Silk, beyond the Wales Bill—in other words, the full implementation—and the implementation of Part 2 of Silk, which would take us beyond the next general election; that much is true. I am not a fan of cherry picking. I think that there should be full implementation within the timescales identified, of course, in Silk Part 2. Also, there is the need to address Wales's underfunding. The Holtham commission said £300 million. It may have changed a little since then, but I would not expect it to have changed a lot. So, £300 million is the ballpark figure that we will be talking about, not £150 million.

In terms of other issues of devolution, on criminal justice, the answer is 'yes, in principle'. A timetable is outlined for that in Part 2 of Silk. Corporation tax is not a recommendation of Silk, but I do take the view that what is on offer to Scotland should be offered to Wales. We need to look at the tax system as a whole. For example, the key will be to see flexibility in the tax system for Wales, Scotland and Northern Ireland, while at the same time maintaining a redistributive element of the tax. It will mean, for example, that we have a standard level of income tax across the whole of the UK—a solidarity tax, in effect—that is redistributable. Then, of course, it is for each administration to decide how much it wants to add on top, what the bands might be, and what tax credits might be made available. All these things now come into play. They go beyond Silk—I accept that—but if we are going to have a proper, cohesive, holistic approach, these are all things that need to be examined.

I agree entirely that the electoral arrangements of this place should be in the hands of this place. I have said that. I would prefer to see, for example, a two-thirds majority needed for fundamental changes. I would not want to see wholesale changes in the electoral system or in constituencies carried through this Chamber by a majority of one. I do not think that that would be right, in terms of the future. On a balanced settlement, we will not know that until we see what the conclusions of the convention might be. It would mean, for example, at the very least, guaranteeing the place of this body in the UK constitution, removing the ability of Westminster to abolish it without its own consent, removing the veto that the Secretary of State has over Bills, and having greater balance within the different Governments within the UK.

Roedd nifer o gwestiynau yno. Ni allaf siarad ar ran Prif Weinidog y DU, wrth gwrs. Nid wyf yn credu bod neb bellach yn amddiffyn y cam cloi, beth bynnag. Nid yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n ei amddiffyn chwaith. Mae hynny'n sicr o fynd, byddwn yn awgrymu, o Fil Cymru.

Gofynnodd arweinydd Plaid Cymru faint o le a allai fod ar gyfer safbwynt cyffredin. Rwyf yn gobeithio y gallem gyrraedd safbwynt cyffredin. Gofynnodd imi beth oedd fy marn o ran y ffordd ymlaen. Dywedaf eto wrthi'r hyn a ddywedais yn gynharach: gweithredu Rhan 1 Silk, y tu hwnt i Fil Cymru—mewn geiriau eraill, ei gweithredu'n llawn—a gweithredu Rhan 2 Silk, a fyddai'n mynd â ni y tu hwnt i'r etholiad cyffredinol nesaf; mae hynny'n wir. Nid wyf yn hoff o ddewis a dethol. Rwyf yn meddwl y dylid eu gweithredu'n llawn o fewn yr amserlenni a nodwyd, wrth gwrs, yn Rhan 2 Silk. Hefyd, mae angen rhoi sylw i danariannu Cymru. Dywedodd comisiwn Holtham £300 miliwn. Efallai ei fod wedi newid ychydig ers hynny, ond ni fyddwn yn disgwyl iddo fod wedi newid rhyw lawer. Felly, £300 miliwn yw'r ffigur bras y byddwn yn siarad amdano, nid £150 miliwn.

O ran materion eraill yn ymwneud â datganoli, o ran cyfiawnder troseddol, yr ateb yw 'ie, mewn egwyddor'. Mae amserlen wedi'i hamlinellu ar gyfer hynny yn Rhan 2 Silk. Nid yw treth gorfforaeth yn un o argymhellion Silk, ond rwyf o'r farn y dylai'r hyn sy'n cael ei gynnal i'r Alban gael ei gynnal i Gymru. Mae angen inni edrych ar y system dreth yn ei chyfanrwydd. Er enghraifft, yr hyn a fydd yn allweddol fydd sicrhau hyblygrwydd yn y system dreth ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gadw elfen aiddosbarthu'r dreth ar yr un pryd. Bydd yn golygu, er enghraifft, fod gennym lefel safonol o dreth incwm ledled y DU—treth undod, i bob pwrpas—y gellir ei hailddosbarthu. Yna, wrth gwrs, mater i bob gweinyddiaeth fydd penderfynu faint y mae am ei ychwanegu ar ben hynny, y bandiau posibl, a pha greydau treth a allai fod ar gael. Mae angen ystyried yr holl bethau hynny'n awr. Maent yn mynd y tu hwnt i Silk—rwyf yn derbyn hynny—ond os ydym am sicrhau ymagwedd briodol, gydlynol, gyfannol, mae angen archwilio'r pethau hyn i gyd.

Cytunaf yn llwyr y dylai trefniadau etholiadol y lle hwn fod yn nwylo'r lle hwn. Rwyf wedi dweud hynny. Byddai'n well gennyf weld, er enghraifft, fod angen mwyafrif o ddwy ran o dair i wneud newidiadau sylfaenol. Ni hoffwn weld newidiadau ar raddfa eang i'r system etholiadol nac i etholaethau'n cael eu derbyn drwy'r Siambr hon â mwyafrif o un. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n iawn, o ran y dyfodol. O ran setliad cytbwys, ni fyddwn yn gwybod hynny hyd nes inni weld casgliadau'r confensiwn. Byddai'n golygu, o leiaf, er enghraifft, warantu lle'r corff hwn yng nghyfansoddiad y DU, cael gwared ar allu San Steffan i'w ddiddymu heb ei ganiatâd ei hun, cael gwared ar feto'r Ysgrifennydd Gwladol dros Filiau, a sicrhau gwelf cydbwysedd o fewn y gwahanol Lywodraethau yn y DU.

She asked about the English regions. I could not anticipate the English regions having the same powers as us. For example, I just cannot see a situation where they would want to have primary law-making powers. I think that that is probably unlikely in the English regions, although there is no doubt that there is a call—stronger in some parts than others—for greater control of regional issues; I have sympathy with that. I think that the leader of the opposition is right when he says that the issue with England is unresolved. It is not an issue that is easy to resolve either, but that is why, of course, we need to have a convention process where these matters can be addressed by all four administrations, to get to a conclusion that will last, and not something that has to be revisited year after year, with conversations that take place in three different rooms.

Gofynnodd am ranbarthau Lloegr. Nid wyf yn rhagweld y byddai gan ranbarthau Lloegr yr un pwerau â ni. Er enghraifft, nid wyf yn rhagweld sefyllfa lle byddai arnynt eisiau pwerau deddfu sylfaenol. Rwyf yn meddwl bod hynny'n annhebygol yn ôl pob tebyg yn rhanbarthau Lloegr, er nad oes amheuaeth bod galwad—yn gryfach mewn rhai rhannau nag eraill—am fwy o reolaeth dros faterion rhanbarthol; rwyf yn cydymdeimlo â hynny. Credaf fod arweinydd yr wrthblaid yn iawn wrth ddweud bod y mater o ran Lloegr heb ei ddatrys. Nid yw'n fater sy'n hawdd ei ddatrys ychwaith, ond dyna pam, wrth gwrs, y mae angen proses gonfensiwn arnom lle gall pob un o'r pedair gweinyddiaeth roi sylw i'r materion hyn, er mwyn dod i gasgliad a fydd yn para, ac nid rhywbeth y mae'n rhaid ailedrych arno flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan gynnal sgysysiau mewn tair ystafell wahanol.

14:55

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I begin by thanking the First Minister for his statement this afternoon, and by saying that it is quite clear—perhaps it was clear even before the result, with the publication of the now-famous vow—that the status quo was never going to be an option.

Would the First Minister agree that any changes to the devolution settlement in Wales must offer greater clarity, greater stability and greater accountability than we have previously enjoyed? Would he also agree that the Silk commission, Part 1 and Part 2, that included representation from across the political spectrum and, importantly, representation from people outside the political spectrum, is the blueprint on which we can base any negotiations with the Westminster Government?

In saying that you are looking for the swift implementation of Silk Part 2, what discussions have you had, as First Minister, with the Prime Minister, regarding the establishment of a joint UK Government and Welsh Government implementation group, as recommended in Silk Part 2? Silk said that it should be established by November of this year, to begin to lay the ground for transfers of power. If you have not done so to date, will you be pursuing the establishment of that joint committee? Do you consider that there are parts of Silk Part 2 that could be included in the Wales Bill currently before the UK Parliament? If you do, what are they? You said that you were willing to look at powers beyond Silk Part 2 and, in answer to the leader of Plaid Cymru, you have begun to outline what some of those are. However, you have said that, just because they are offered to you, that does not mean that you want them. How will you assess whether they are in Wales's interest, as you state in your statement? Is that a matter just for you, as First Minister? Is that a matter for the Welsh Labour Party? Or is it your intention that there should be some wider debate about whether those powers are fit for Wales or not?

Finally, would you acknowledge that, for some in Wales, Government from Cardiff is no more dear to them or near to them than Government from Westminster previously was? What opportunity is there now to look at devolution beyond Cardiff, to the different parts of Wales that would often think that Cardiff is remote from them and does not necessarily reflect their unique cultures and ways of life?

Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma, a thrwy ddweud ei bod yn eithaf clir—efallai ei bod yn glir hyd yn oed cyn y canlyniad, gyda chyhoeddi'r adduned sydd bellach yn enwog—nad oedd y status quo byth yn mynd i fod yn opsiwn.

A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i'r setliad datganoli yng Nghymru gynnig mwy o eglurder, mwy o sefydlogrwydd a mwy o atebolrwydd nag yr ydym wedi'u cael o'r blaen? A fyddai hefyd yn cytuno mai comisiwn Silk, Rhan 1 a Rhan 2, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol ac, yn bwysig, gynrychiolaeth o bobl y tu allan i'r sbectrwm gwleidyddol, yw'r glasbrint y gallwn seilio unrhyw drafodaethau â Llywodraeth San Steffan arno?

Wrth ddweud yr hoffech i Ran 2 Silk gael ei gweithredu'n gyflym, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael, fel Prif Weinidog Cymru, â Phrif Weinidog y DU, ynglŷn â sefydlu grŵp gweithredu ar y cyd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, fel yr argymhellir yn Rhan 2 Silk? Dywedodd Silk y dylid ei sefydlu erbyn mis Tachwedd eleni, i ddechrau gosod y tir ar gyfer trosglwyddo grym. Os nad ydych wedi gwneud hynny eto, a fyddwch yn ceisio sefydlu'r cydbwyllgor hwnnw? A ydych o'r farn bod rhannau o Ran 2 Silk y gellid eu cynnwys ym Mil Cymru sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd? Os ydych, pa rannau? Dywedasoeh eich bod yn barod i edrych ar bwerau y tu hwnt i Ran 2 Silk ac, mewn ateb i arweinydd Plaid Cymru, rydych wedi dechrau amlinellu beth yw rhai o'r rheiny. Fodd bynnag, rydych wedi dweud nad yw'r ffaith eu bod yn cael eu cynnig ichi'n golygu bod eu heisiau arnoch. Sut y byddwch yn asesu a ydynt er budd Cymru, fel y nodwch yn eich datganiad? Ai mater i chi'n unig, fel Prif Weinidog, yw hynny? A yw'n fater i Blaid Lafur Cymru? Ynteu a ydych yn bwriadu cael dadl ehangach ynghylch a yw'r pwerau hynny'n addas i Gymru ai peidio?

Yn olaf, a fydddech yn cydnabod nad yw rhai pobl yng Nghymru'n fwy hoff o'r Llywodraeth yng Nghaerdydd nag yr oeddent o Lywodraeth San Steffan o'r blaen? Pa gyfle sydd yn awr i edrych ar ddatganoli'r tu hwnt i Gaerdydd, i wahanol rannau o Gymru a fyddai'n aml yn meddwl bod Caerdydd yn bell oddi wrthynt ac nad yw o reidrwydd yn adlewyrchu eu diwylliannau a'u ffyrdd o fyw unigryw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I entirely agree with the comments made by the leader of the Welsh Liberal Democrats about the need for greater clarity and accountability. Clarity is something that the present settlement does not give us, and that must be addressed. In terms of Silk Part 2, the difficulty is, of course, that the UK Government has not yet formally committed to any part of Silk Part 2. It is said that this is a matter that must be resolved after the general election, but she did mention areas that might be taken forward earlier. My view, for example, is that the reserved powers model, which is uncontroversial, as far as I can see, might be taken forward as part of the current Wales Bill, rather than as part of Part 2. It will take some work, but the template is there with regard to Scotland; it is not something that is unknown to the legal draughters.

It is not a matter for me personally to decide, of course, what powers are appropriate for Wales; it is a matter for the Government to consider and for the Assembly to debate. That much is true. However, where there are examples of powers being offered without sufficient financial cover, clearly it is an area of which we have to be weary. Members will have heard me say many times in this Chamber that I would not want to see income tax powers devolved unless underfunding was addressed, for the simple reason that my suspicion would be that, if we were to return to the issue of our underfunding and we had tax-varying powers, the answer would be, 'Raise your own money'. So, the base has to be firm before it can be built on, and that has to be dealt with. Further devolution—absolutely true. Williams provides the opportunity for us to do that. I have said in the Chamber that I would want to see further powers devolved to local authorities that are able to implement those powers. I think that what is proposed, and there are a number of proposals at the moment for the merger or reorganisation of local government, will give us the opportunity to consider the devolution of powers more locally, as part of the process of reshaping local government in Wales.

Cytunaf yn llwyr â'r sylwadau a wnaeth arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am yr angen am fwy o eglurder ac atebolrwydd. Mae eglurder yn rhywbeth nad yw'r setliad presennol yn ei roi inni, a rhaid rhoi sylw i hynny. O ran Rhan 2 Silk, yr anhawster, wrth gwrs, yw nad yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n ffurfiol eto i unrhyw ran o Ran 2 Silk. Dywedir bod hwn yn fater y mae'n rhaid ei ddatrys ar ôl yr etholiad cyffredinol, ond cyfeiriodd at feysydd y gellid bwrw ymlaen â hwy'n gynt. Fy marn i, er enghraifft, yw y gellid bwrw ymlaen â'r model pwerau neilltuedig, nad yw'n ddadleuol, cyhyd ag y gallaf weld, fel rhan o'r Bil Cymru presennol, yn hytrach nag fel rhan o Ran 2. Bydd angen rhywfaint o waith, ond mae'r templed yno o ran yr Alban; nid yw'n rhywbeth sy'n newydd i'r drafftwyf cyfreithiol.

Nid fy lle i'n bersonol yw penderfynu, wrth gwrs, pa bwerau sy'n briodol i Gymru; mae hynny'n fater i'r Llywodraeth ei ystyried ac i'r Cynulliad ei drafod. Mae hynny'n wir. Fodd bynnag, lle ceir enghreifftiau o bwerau'n cael eu cynnig heb ddigon o arian i dalu amdanynt, mae'n amlwg yn faes lle mae'n rhaid inni fod yn ofalus. Bydd yr Aelodau wedi fy nghlywed yn dweud droeon yn y Siambr hon na hoffwn weld datganoli pwerau treth incwm oni bai bod sylw wedi'i roi i danariannu, am y rheswm syml y byddwn yn amau, pe baem yn dychwelyd at fater ein tanariannu a bod gennym bwerau amrywio trethi, mai'r ateb fyddai, 'Codwch eich arian eich hun'. Felly, rhaid cael sylfaen gadarn cyn y gellir adeiladu arni, a rhaid rhoi sylw i hynny. Rhagor o ddatganoli—hollol wir. Mae Williams yn rhoi cyfle inni i wneud hynny. Rwyf wedi dweud yn y Siambr yr hoffwn weld rhagor o bwerau'n cael eu datganoli i awdurdodau lleol sy'n gallu gweithredu'r pwerau hynny. Rwyf yn meddwl y bydd yr hyn a gynigir, ac mae nifer o gynigion ar hyn o bryd ar gyfer uno neu ad-drefnu llywodraeth leol, yn rhoi cyfle inni i ystyried datganoli pwerau'n fwy lleol, fel rhan o'r broses o ail-lunio llywodraeth leol yng Nghymru.

First Minister, the most important aspect of the discussions, the debates and the constitutional convention is that what ultimately develops must not be a party stitch-up—an agreement by the parties for their convenience—but has to be something that actually engages with the people. If people do not feel ownership of a new system, then they will not respect it and we will have the same disengagement process that we have had with Westminster. Do you have any views as to what sort of process should take place and how that process could seek to engage and harness some of the momentum that we have seen, particularly among some of the young people—the 16-year-olds—who were so vocal during the recent Scottish referendum?

Brif Weinidog, yr agwedd bwysicaf ar y trafodaethau, y dadleuon a'r confensiwn cyfansoddiadol yw bod yn rhaid i'r hyn sy'n datblygu yn y pen draw beidio â bod yn gytundeb gan y pleidiau er cyfleustra iddynt hwy eu hunain; rhaid iddo fod yn rhywbeth sydd mewn gwirionedd yn ymgysylltu â'r bobl. Os nad yw pobl yn teimlo perchnogaeth dros system newydd, ni fyddant yn ei pharchu a chawn yr un broses ymddieithrio ag a gawsom â San Steffan. A oes gennych unrhyw farn ynghylch pa fath o broses a ddylai ddigwydd a sut y gallai'r broses honno geisio ymgysylltu a harneisio rhywfaint o'r momentwm yr ydym wedi'i weld, yn enwedig ymysg rhai o'r bobl ifanc—y rhai 16 mlwydd oed—a oedd mor llafar yn ystod referendwm diweddar yr Alban?

15:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First of all, I do not believe that the issue of powers and the issue of structure need to be intertwined. What the convention should do is look at the structure of the constitution, and the powers should run parallel. I would be very wary of part 2 being wrapped up in a constitutional convention, because I think that that would delay the implementation of part 2, and I am sure that that is something that Members would not want to see.

With regard to how the process is taken forward, the first thing that is essential is that there is a meeting or series of meetings between the four Governments. It is not good enough for Westminster to be doing something and for everyone else having to feed in their views. Those days are gone. That is the old union; we are talking about the new union now. Then, there will need to be put in place a standing executive and a convention will need to be established along with its membership. That convention will then need to go out, take views as widely as possible, including those of all age groups, and come back with recommendations for the four Governments to agree—with support, I would hope, from the four institutions, this Assembly included. Simply saying 'Westminster will decide' and 'Westminster will impose' is not good enough. If we are going to have a lasting settlement—and those of us who want to see the union stay together want to see that lasting settlement—it has to be agreed by all the nations of the UK.

Yn gyntaf oll, nid wyf yn credu bod pwerau a strwythur yn faterion y mae angen eu cydblethu. Yr hynny dylai'r confensiwn ei wneud yw edrych ar strwythur y cyfansoddiad, a dylai'r pwerau redeg ochr yn ochr. Byddwn yn wyliadwrus iawn o lapio rhan 2 mewn confensiwn cyfansoddiadol, oherwydd credaf y byddai hynny'n peri oedi o ran gweithredu rhan 2, ac rwyf yn siŵr bod hynny'n rhywbeth na fyddai'r Aelodau'n hoffi ei weld yn digwydd.

O ran sut i fwrw ymlaen â'r broses, y peth cyntaf sy'n allweddol yw cynnal cyfarfod neu gyfres o gyfarfodydd rhwng y pedair Llywodraeth. Nid yw'n ddigon da bod San Steffan yn gwneud rhywbeth a phawb arall yn gorfod rhoi eu barn. Mae'r dyddiau hynny wedi mynd. Dyna'r hen undeb; rydym yn sôn am yr undeb newydd yn awr. Yna, bydd angen sefydlu gweithrediaeth sefydlog a sefydlu confensiwn ynghyd â'i aelodaeth. Yna, bydd angen i'r confensiwn hwnnw fynd allan, casglu safbwyntiau mor eang â phosibl, gan gynnwys rhai gan bob grŵp oedran, a dod yn ôl ag argymhellion i'r pedair Llywodraeth gytuno arnynt—gyda chymorth, byddwn yn gobeithio, gan y pedwar sefydliad, gan gynnwys y Cynulliad hwn. Nid yw'n ddigon da dweud 'bydd San Steffan yn penderfynu' a 'bydd San Steffan yn pennu'. Os ydym am gael setliad sy'n para—ac mae'r rheini ohonom sydd am weld yr undeb yn aros gyda'i gilydd am weld setliad sy'n para—rhaid i holl wledydd y DU gytuno arno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ddweud wrth y Prif Weinidog, beth bynnag oedd y safbwynt a gymeroch ar refferendwm yr Alban yr wythnos diwethaf, mae unrhyw ddigwyddiad democrataidd a oedd yn ymwneud ag 85% o'r boblogaeth yn pleidleisio—dros 5.3 miliwn o bobl, a phobl ifanc 16 ac 17 oed yn pleidleisio am y tro cyntaf—yn dangos yn glir fod hwn yn fater y mae pobl yn poeni amdano ac yn ymddiddori ynddo? Roedd yn llwyddiant a dylwn longyfarch Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol hefyd, am ganiatáu i rywbeth mor agored a democrataidd i gymryd lle yn heddychlun. Nid yw'n digwydd ym mhob rhan o'r byd. Mae'r penderfyniad wedi'i wneud nawr, a'r eironi mwyaf yw bod yr hyn sy'n cael ei gynnig bellach i'r Alban yn ateb nad oedd ar y papur pleidleisio, sef 'devo max'. Dyna beth sy'n cael ei gynnig neu sydd angen cael ei gynnig, o leiaf, i Gymru. Rwy'n cytuno â'r Prif Weinidog fod yn rhaid inni gael yr un cynnig, er nad ydym bob tro yn mynd i ymwneud ag ef yn yr un ffordd.

May I tell the First Minister, whatever the stance you took on the Scottish referendum last week, any democratic event that involved 85% of the population voting—more than 5.3 million people, and young people at 16 and 17 years of age voting for the very first time—shows clearly that this is an issue that people are concerned about and are interested in? It was a success and we should congratulate the Scottish Government as well as the UK Government, for allowing such an open and democratic process to take place peacefully. That does not happen in all parts of the world. The decision has now been taken, and the greatest irony is that what is being proposed now for Scotland is a solution that was not on the ballot paper, namely devo max. That is what is being proposed, or should be proposed at least, for Wales. I agree with the First Minister that we have to have that same offer, although we will not necessarily deal with powers in exactly the same way.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gofynnaf iddo ymhelaethu tipyn bach mwy ar yr hyn y mae wedi'i alw'n 'home rule', neu 'ymreolaeth', i ddefnyddio hen eirfa Plaid Cymru. Wrth gwrs, pan drafodwyd 'home rule' am y tro cyntaf ganrif yn ôl yn 'election address' cyntaf Keir Hardie, er enghraifft, yr hyn ydoedd oedd cael senedd i'r Alban, senedd i Gymru, senedd i Lwerddon, senedd i Loegr, senedd i Ganada, a senedd i Dde Affrica hefyd, gyda San Steffan yn troi'n senedd ymerodrol dros y cyfan oll. Nid oedd pwrpas yno i Aelodau Lloegr bleidleisio o gwbl ar faterion yn ymwneud â Chymru a Lloegr, nag ar faterion yn ymwneud â'r Deyrnas Gyfunol. Hynny yw, yr ateb tymor hir i'r broblem hon yw naill ai senedd i Loegr neu ddatganoli rhanbarthol yn Lloegr. Nid yw'n ddigon da i Aelodau Seneddol Lloegr feddwl y gallant gau allan pobl yr Alban neu bobl Cymru rhag pleidleisio ar y materion hyn ac wedyn cadw'r hawl i bleidleisio eu hunain ar bethau sy'n ymwneud â Chymru. Rydych chi eich hunain wedi sôn am yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth iechyd.

A ydych chi hefyd yn credu bod 'home rule' yn golygu ein bod wedi mynd heibio Silk bellach? Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi disgrifio Silk rhan 1 a 2 fel 'blueprint'. I mi, dylai Silk bellach fod yn 'done deal'. Dylem dderbyn beth sy'n digwydd o dan Silk—dyna yw cynsail y cyfansoddiad newydd y byddwn yn ei adeiladu. Yn y cyddestun hwnnw, a wneuch ailystyried eich ymlyniad i refferendwm ar un rhan yn unig o Silk, sef y busnes codi trethi neu amrywio trethi? Byddai'n llawer gwell gen i, os oes refferendwm o gwbl, gynnig refferendwm cyfan i bobl Cymru ar y materion ymreolaeth hyn. Byddai'n llawer mwy cyffrous i'w wneud ar y cyfan oll yn hytrach nag un agwedd o ddatganoli pellach sy'n digwydd.

Y cwestiwn olaf hoffwn ofyn ichi, sy'n gwestiwn i'r Deyrnas Gyfunol gyfan, yw: os ydym yn mynd i wneud y broses hon, os ydym yn mynd i ailffurfio'r berthynas rhwng y gwahanol genhedloedd sy'n ffurfio'r Deyrnas Gyfunol, onid yw'n bwysig bod hynny i gyd yn cael ei ysgrifennu i lawr mewn cyfansoddiad ysgrifenedig?

I ask him to expand upon what he has described as 'home rule', or 'ymreolaeth' in the old terminology of Plaid Cymru. Of course, when home rule was first discussed a century ago in Keir Hardie's first election address, for example, what it meant was to have a parliament for Scotland, a parliament for Wales, a parliament for Ireland, a parliament for England, a parliament for Canada, and a parliament for South Africa, with Westminster becoming an imperial parliament for the whole of the empire. Members from England had no role in voting on issues relating to England and Wales, or issues relating to the UK. So, the long-term solution to this is either to have a parliament for England, or to have regional devolution for England. It is not good enough for Members of Parliament in England to exclude Scottish or Welsh people from voting on these issues and then retain the right for themselves to vote on issues relating to Wales. You yourself have talked about what is happening in the health service.

Do you also believe that home rule means that we have now gone beyond Silk? The leader of the Liberal Democrats has described Silk parts 1 and 2 as a blueprint. To me, Silk should now be a done deal. We should accept what is happening in terms of Silk—that is the foundation for the new constitution that we are to build. In that context, will you reconsider your commitment to a referendum on one part of Silk only, namely the issue of tax raising or tax varying powers? I would prefer, if there is to be a referendum at all, to offer a comprehensive referendum to the people of Wales on these issues of home rule. It would be far more exciting to take it all comprehensively than to actually look at one aspect of further devolution.

The final question that I would like to ask you, which is a question for the whole of the UK, is: if we are to undertake this process, and if we are to reform the relationship between the various nations making up the United Kingdom, is it not important that that is all written down in a written constitution?

15:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Byddai'n rhwyddach ei ysgrifennu i lawr, mae hynny'n wir. Os oes rhaid gwneud hynny—. Mae mantais mewn cael cyfansoddiad nad yw'n ysgrifenedig, er mwyn iddo allu newid ac ymdopi â phethau sy'n newid yn glou yn y byd. Rydym wedi gweld fod manteision ac anfanteision yn America o gael cyfansoddiad ysgrifenedig, ond mae'n rhywbeth i'w ystyried.

It would be easier to write it down, that is true. If we must do that—. There is an advantage in having a non-written constitution, so that it can adapt and cope with swift changes in the world. We have seen that there are pros and cons in America of having a written constitution, but it is something to consider.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ynglŷn â threthi, mae'r sefyllfa wedi newid yn gyfan gwbl. Mae argymhellion yn Silk 1, ond rydym nawr yn gwybod bydd yr Alban yn cael llawer mwy o gynnis na'r hyn yr oedd pobl yn ei feddwl mis yn ôl. Rhaid inni ailystyried beth mae hynny'n ei feddwl i Gymru yn ôl yr addewid sydd wedi cael ei wneud. Mae'n bwysig symud ymlaen gyda'r Bil i gael gwared ar y 'lockstep'. Ond, rwy'n dod nôl i'r pwynt ei fod yn bwysig ystyried pwerau trethi dros y Deyrnas Unedig yn gyfan gwbl, yn lle dweud 'Caiff yr Alban hwn a chaiff Cymru hwn'. Na. Man a man eistedd lawr a gofyn, 'Reit, beth yw strwythur trethi'r Deyrnas Unedig?' A ydym yn mynd i gael un dreth y bydd pawb yn ei thalu ac a fydd yn cael ei rhoi lle mae'r angen, ac wedyn pwerau ar ben hynny? Mae'n rhaid i hynny gael ei ystyried. Neu, a ydym yn mynd i gael system sy'n hollol wahanol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig? Nid wyf yn credu bod hynny'n gwneud llawer o synnwyr yn y tymor hir.

Beth, felly, yw 'home rule'? I fi, gwarant o ddatganoli ydyw; sicrhau bod y lle hwn yn rhywbeth sy'n barhaol; sicrhau ein bod yn deall bod pwerau Cymru o dan reolaeth pobl Cymru a bod pobl Cymru yn dewis bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig; a sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn rheoli rhai pethau fel amddiffyn, y ffin, ac yn y blaen, yn lle bod Cymru'n trio gwneud hynny'n gyfan gwbl ar ei phen ei hun—mae hynny'n rhywbeth byddai'n rhan o annibyniaeth, ac nid wyf o blaid annibyniaeth. Y neges mae'n rhoi yw ein bod i gyd i gyd yn bartneriaid yn y Deyrnas Gyfunol ac nad yw pob pŵer dan haul yn San Steffan—bod pwerau gyda phobl Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon na ellir eu cymryd oddi wrthynt. Mae hynny'n un diffiniad o 'home rule'. Mae'n rhywbeth roedd Keir Hardie yn hoff iawn ohono—roedd hefyd yn un a oedd yn hoff iawn o hybu'r mudiad dirwest, ond nid wyf yn credu y bydd hynny'n rhan o'n manifesto ni yn yr etholiad cyffredinol. Rydym yn dod yn ôl i'r lle yr oeddem yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a rhaid inni sicrhau bod y ddatganoli yn symud ymlaen er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng y pedair cenedl yn y Deyrnas Unedig ac, i fi, i gryfhau'r Deyrnas Unedig hefyd.

As regards taxation, the situation has changed completely. These recommendations are in Silk 1, but we now know that Scotland will have a much better offer than people imagined they would get even a month ago. We must reconsider what that means for Wales according to the promises that have been made. It is important to move forward with the Bill to eliminate the lockstep. But, I come back to the point that it is important to consider taxation powers across the United Kingdom as a whole, instead of saying, 'Scotland can have this and Wales can have that'. No. We might as well sit down and ask, 'Right, what is the taxation structure of the United Kingdom?' Are we going to have one tax that everyone will pay and which will go to the point of need, and then powers in addition to that? That must be considered. Or, are we to have a totally distinct system in each part of the United Kingdom? I do not believe that that makes much sense in the long term.

What, therefore, does home rule mean? To me, it is a guarantee of devolution; ensuring that this place is a permanent structure; ensuring that we understand that the powers of Wales are under the control of the people of Wales and that the people of Wales choose to be part of the United Kingdom; and ensuring that the United Kingdom will control some things, such as defence, the border, and so on, instead of Wales trying to do it entirely on its own—that is something that would be part of an independence model, and I am not in favour of that. The message it should convey is that we are all partners in the United Kingdom and that not every power under the sun should reside at Westminster—the people of England, Wales, Scotland and Northern Ireland should have powers that cannot be taken from them. That is one definition of home rule. It is something that Keir Hardie was very fond of—he was also very fond of promoting the temperance movement, but I do not think that that will be part of our manifesto at the general election. We come back to where we were in the nineteenth century and we have to ensure that the debate moves forward in order to strengthen the relationship between the four nations of the United Kingdom and, to me, in order to strengthen the United Kingdom also.

15:08

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

I welcome the statement by the First Minister. I agree with the First Minister that we need a constitutional convention. Like many others, I am glad that lots of other people have now caught up. I, like many others in this Chamber, have called consistently for a change to the reserved powers model and for the full implementation of Silk parts 1 and 2, which I hope will now occur.

I have three questions. Does the First Minister agree that we cannot continue with asymmetric devolution based upon the original Spanish-type model; that we need to involve everyone in a conversation regarding how devolution should work; and that the English question cannot be ignored, but it also cannot be solved by creating first and second-class Members of the Westminster Parliament?

Rwyf yn croesawu'r datganiad gan y Prif Weinidog. Rwyf yn cytuno â'r Prif Weinidog fod angen confensiwn cyfansoddiadol arnom. Fel llawer un arall, rwyf yn falch bod llawer o bobl eraill erbyn hyn yn cytuno. Rwyf fi, fel llawer un arall yn y Siambr hon, wedi galw'n gyson am newid i'r model pwerau a gadwyd ac am weithredu rhannau 1 a 2 Silk yn llawn, ac rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n digwydd yn awr.

Mae gennyf dri chwestiwn. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno na allwn barhau â datganoli anghymesur yn seiliedig ar y model Sbaenaidd gwreiddiol; bod angen inni gynnwys pawb mewn sgwrs ynglŷn â sut y dylai datganoli weithio; ac na ellir anwybyddu'r cwestiwn yn Lloegr, ond na ellir ei ddatrys ychwaith drwy greu Aelodau o'r dosbarth cyntaf a'r ail ddsbarth yn Senedd San Steffan?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

In terms of asymmetry, I am not convinced that there should be no asymmetry at all in terms of powers, but there should be no asymmetry in terms of structure. That is the important thing. Therefore, it follows that the model for home rule or devolution should be the same across the four nations.

I also believe that it is important that we are able to keep our United Kingdom together while, at the same time, recognising the strong identities of the nations that are within the UK; I think that the convention will enable us to do that. However, as I have said, it is exceptionally important that the convention itself is seen as representative of all four nations.

O ran anghymesuredd, nid wyf yn argyhoeddedig na ddylai fod dim anghymesuredd o gwbl o ran pwerau, ond ni ddylai fod anghymesuredd o ran strwythur. Dyna'r peth pwysig. Felly, mae'n dilyn y dylai'r model ar gyfer ymreolaeth neu ddatganoli fod yr un fath ar draws y pedair gwlad.

Rwyf hefyd yn credu ei bod yn bwysig inni allu cadw ein Teyrnas Unedig gyda'i gilydd gan gydnabod, ar yr un pryd, hunaniaeth gref y cenhedloedd sydd yn y DU; rwyf yn credu y bydd y confensiwn yn ein galluogi i wneud hynny. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi'i ddweud, mae'n eithriadol o bwysig bod y confensiwn ei hun yn cael ei weld yn cynrychioli pob un o'r pedair gwlad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:10

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the debate around the Scottish referendum has galvanised Scotland as a country. I think that it has also reinvigorated the debate in Wales and across the UK. Post the 'no' vote, people in Wales want to know what will change here.

You rightly state the way forward with regard to new powers for Wales, the Wales Bill, Silk and beyond, and that fair funding must now be delivered. However, do you also agree that the debate around the Scottish referendum was also very much about economic and social reform, equality across the UK, the distribution of UK Government jobs and UK Government agency jobs, help for infrastructure projects, help with inward investment and help to grow companies in Wales and across the UK? In short, First Minister, do you agree that what we now need is a fundamental and speedy redistribution of power and wealth to Wales and across the UK?

Brif Weinidog, mae'r ddadl ynglŷn â refferendwm yr Alban wedi deffro'r Alban fel gwlad. Credaf ei bod hefyd wedi rhoi bywyd newydd i'r ddadl yng Nghymru a ledled y DU. Ar ôl y bleidlais 'na', mae ar bobl yng Nghymru eisiau gwybod beth fydd yn newid yma.

Rydych yn iawn i nodi'r ffordd ymlaen o ran pwerau newydd i Gymru, Bil Cymru, Silk a thu hwnt, a bod yn rhaid darparu cyllid teg yn awr. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno hefyd fod y ddadl ynghylch refferendwm yr Alban hefyd i raddau helaeth yn ymwneud â diwygio economaidd a chymdeithasol, cydraddoldeb ar draws y DU, dosbarthiad swyddi Llywodraeth y DU a swyddi asiantaethau Llywodraeth y DU, cymorth i brosiectau seilwaith, cymorth gyda mewnfuddsoddi a chymorth i dyfu cwmnïau yng Nghymru a ledled y DU? Yn gryno, Brif Weinidog, a ydych yn cytuno mai'r hyn sydd ei angen arnom yn awr yw aiddosbarthu grym a chyfoeth yn sylfaenol ac yn gyflym i Gymru a ledled y DU?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:11

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I thank the Member for those comments. I noticed that the second part of the pledge that was given on the front page of the 'Daily Record' talked about an equitable distribution of resources across the UK; that is something that I support. It would mean, of course, that Wales would get the Holtham share—if I can put it that way—of funding that many in the Chamber, across the parties, have called for.

We should bear in mind that we benefit in Wales from UK institutions that are based here—the Driver and Vehicle Licensing Agency being one of the most obvious and the Office for National Statistics in Newport. However, it is important that power and wealth are devolved. There is a perception that too much is concentrated in London, and that is as true of parts of England as it is of Scotland, Wales and Northern Ireland. We see it expressed in votes for parties that are able to gather the votes of people who feel disaffected, and that is a lesson for all of us in the Chamber.

Diolch i'r Aelod am y sylwadau hynny. Sylwais fod ail ran yr addewid a roddwyd ar dudalen flaen y 'Daily Record' yn sôn am ddsbarthu adnoddau'n deg ledled y DU; mae hynny'n rhywbeth yr wyf o'i blaid. Byddai'n golygu, wrth gwrs, y byddai Cymru'n cael cyfran Holtham—os caf ei roi felly—o gyllid y mae llawer yn y Siambr, ar draws y pleidiau, wedi galw amdani.

Dylem gofio ein bod yn elwa yng Nghymru o sefydliadau'r DU sydd wedi eu lleoli yma—yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau yw un o'r rhai mwyaf amlwg a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod grym a chyfoeth yn cael eu datganoli. Mae canfyddiad bod gormod wedi'i grynhoi yn Llundain, ac mae hynny'r un mor wir am rannau o Loegr ag y mae am yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweld ei fynegi mewn pleidleisiau dros bleidiau sy'n gallu casglu pleidleisiau pobl sy'n teimlo wedi'u dadrithio, ac mae hynny'n wers i bob un ohonom yn y Siambr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

That is why it is so important that not only do we see the strengthening of Scotland, Wales and Northern Ireland in terms of powers, but that we see that devolution of power away from London into regions of England that feel distant from London, and have felt, I suspect, slightly isolated from a debate that has taken place solely, it has appeared to them, with regard to Scotland. It comes back to the point that, in order to deal with their concerns, and to get a holistic solution, we need that constitutional convention.

Dyna pam y mae mor bwysig nid yn unig ein bod yn gweld cryfhau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon o ran pwerau, ond ein bod yn gweld datganoli grym o Lundain i ranbarthau Lloegr sy'n teimlo'n bell o Lundain, ac sydd wedi teimlo, rwyf yn amau, wedi'u hynysu braidd oddi wrth ddadl a oedd, iddynt hwy, fel petai'n digwydd yng nghydestun yr Alban yn unig. Mae'n dod yn ôl at y pwynt bod angen y confensiwn cyfansoddiadol hwnnw arnom er mwyn ymdrin â'u pryderon hwy a sicrhau ateb cyfannol.

15:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:13 **Datganiad: Lansio'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Statement: Launch of the White Paper on the Collection and Management of Devolved Taxes in Wales

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Earlier this year, we announced that the Welsh Government would bring forward a legislative programme for tax devolution. The programme would include specific Bills for replacement stamp duty and landfill taxes in Wales to be introduced after the next Assembly elections. In the short term, however, it would introduce legislation to establish the administrative arrangements for tax collection and management in Wales. I am, therefore, today publishing a White Paper on proposals for the collection and management of devolved Welsh taxes.

This will be the first Welsh tax legislation in modern times and it is both historic and significant for Wales. Uniquely for the Welsh Government and National Assembly, we will have the ability to develop taxes that are shaped to the needs, circumstances and priorities of Wales.

This historic change has, of course, come about as a result of the work of the Holtham commission and, subsequently, the findings of the first report of the Silk commission on fiscal powers, which were endorsed by all parties in the Assembly. The UK Government has agreed to most of the recommendations for financial reform.

The Wales Bill, currently before the Westminster Parliament, sets out new fiscal powers for Wales, including powers to borrow for capital investment and powers in relation to taxation. Alongside the borrowing powers and wider tax-raising powers, the Wales Bill provides for the introduction of new Welsh taxes to replace UK stamp duty land tax and UK landfill tax.

Yn gynharach eleni, cyhoeddasom y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer datganoli treth. Byddai'r rhaglen yn cynnwys Biliau penodol i gyflwyno trethi newydd yn lle'r dreth stamp newydd a threthi tirlenwi yng Nghymru ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad. Yn y tymor byr, fodd bynnag, byddai'n cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu'r trefniadau gweinyddol ar gyfer casglu a rheoli treth yng Nghymru. Rwyf heddiw, felly, yn cyhoeddi Papur Gwyn ar gynigion ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig Cymru.

Hon fydd y ddeddfwriaeth dreth gyntaf yng Nghymru yn yr oes fodern ac mae'n hanesyddol ac yn arwyddocaol i Gymru. Yn unigryw i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, bydd gennym y gallu i ddatblygu trethi sydd wedi'u llunio ar gyfer anghenion, amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru.

Mae'r newid hanesyddol hwn wedi digwydd, wrth gwrs, o ganlyniad i waith comisiwn Holtham ac, wedi hynny, ganfyddiadau adroddiad cyntaf comisiwn Silk ar bwerau ariannol, a gymeradwywyd gan bob plaid yn y Cynulliad. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno â'r rhan fwyaf o'r argymhellion ar gyfer diwygio ariannol.

Mae Bil Cymru, sydd gerbron Senedd San Steffan ar hyn o bryd, yn amlinellu pwerau ariannol newydd i Gymru, gan gynnwys pwerau i fenthycu ar gyfer buddsoddi cyfalaf a phwerau sy'n ymwneud â threthu. Ochr yn ochr â'r pwerau benthyca a'r pwerau codi trethi ehangach, mae Bil Cymru'n darparu ar gyfer cyflwyno trethi Cymreig newydd yn lle treth dir treth stamp y DU a threth tirlenwi'r DU.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In developing legislative proposals for new Welsh taxes, I am keen to hear from stakeholders and seek a wide range of views, starting with this White Paper. The tax collection and management powers should rightly be understood in the context of the specific taxes that they will be used to collect. So, in the spring of 2015, we will consult further on the key options for specific Welsh taxes to replace stamp duty land tax and landfill tax.

The new taxes we develop will be grounded in the tax principles I have set out previously. They will be fair to businesses and individuals who pay them. They will be simple, with clear rules that seek to minimise compliance and administration costs. They will support growth and jobs, and that, in turn, will help to tackle poverty. They will provide stability and certainty for taxpayers.

Alongside this consultation, I am working closely with my tax advisory group, which includes tax experts, business representatives, social partners and other key organisations, such as the Bevan Foundation. In the course of developing our tax collection and management policy, we have looked at other approaches in the UK and sources from internationally recognised specialists in this field. We have concluded that we will seek change where it would make collection more efficient, effective and responsive to Welsh needs.

The legislation on tax collection and management will need to provide a clear and strong governance framework for the administration of our taxes. It should set out the arrangements for collecting and managing taxes and the arrangements for taxpayer appeals and the administration of justice. In this White Paper, I am setting out our proposals.

In establishing a tax administrative function fit for Wales, we have given specific consideration to the need for holding and protecting individual taxpayers' information, and ensuring that the collection and management of taxes should be operationally separate from Government Ministers—an approach that is consistent with international best practice. We therefore propose establishing a new corporate body, the Welsh revenue authority. The powers for tax collection and management will be vested in the new body. The authority will be legally responsible for the efficient and effective collection and management of Welsh taxes, have the appropriate separation on operational matters from Welsh Ministers, and be accountable for its performance to this Assembly. In this White Paper, we propose establishing processes and procedures to protect Welsh taxpayers and their rights in the full and proper payment of taxes.

Although the Welsh revenue authority will have the responsibility for tax collection and management, it will not necessarily undertake all aspects of tax administration itself. I am considering a range of options for how this important function could be undertaken, and responses to this consultation will help inform future decision making.

Wrth ddatblygu cynigion deddfwriaethol ar gyfer trethi Cymreig newydd, rwyf yn awyddus i glywed gan randdeiliaid a cheisio amrywiaeth eang o safbwyntiau, gan ddechrau gyda'r Papur Gwyn hwn. Mae'n briodol deall y pwerau casglu a rheoli trethi yng nghyd-destun y trethi penodol y'u defnyddir i'w casglu. Felly, yng ngwanwyn 2015, byddwn yn ymgynghori ymhellach ar yr opsiynau allweddol ar gyfer trethi penodol i Gymru yn lle treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi.

Bydd y trethi newydd a ddatblygwn yn seiliedig ar yr egwyddorion treth yr wyf wedi'u nodi o'r blaen. Byddant yn deg i fusnesau ac i unigolion sy'n eu talu. Byddant yn syml, â rheolau clir sy'n ceisio lleihau costau cydymffurfio a gweinyddu. Byddant yn cefnogi twf a swyddi, a bydd hynny, yn ei dro, yn helpu i drechu tlodi. Byddant yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rwyf yn gweithio'n agos gyda'm grŵp cynghori ar dreth, sy'n cynnwys arbenigwyr treth, cynrychiolwyr busnes, partneriaid cymdeithasol a chyrrff allweddol eraill, megis Sefydliad Bevan. Wrth ddatblygu ein polisi casglu a rheoli treth, rydym wedi edrych ar ymagweddau eraill yn y DU a fffynonellau gan arbenigwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol yn y maes hwn. Rydym wedi dod i'r casgliad y byddwn yn ceisio newid lle gellir casglu trethi'n fwy effeithlon, effeithiol ac ymatebol i anghenion Cymru.

Bydd angen i'r ddeddfwriaeth ar gasglu a rheoli trethi ddarparu fframwaith llywodraethu clir a chryf ar gyfer gweinyddu ein trethi. Dylai nodi'r trefniadau ar gyfer casglu a rheoli trethi a'r trefniadau ar gyfer apelïadau trethdalwyr a gweinyddu cyfiawnder. Yn y Papur Gwyn hwn, rwyf yn amlinellu ein cynigion.

Wrth sefydlu swyddogaeth gweinyddu trethi sy'n addas i Gymru, rydym wedi ystyried yn benodol fod angen cadw a diogelu gwybodaeth trethdalwyr unigol, a sicrhau bod casglu a rheoli trethi wedi'u gwahanu o safbwynt gweithredol oddi wrth Weinidogion y Llywodraeth—ymagwedd sy'n gyson ag arferion gorau rhyngwladol. Felly, rydym yn cynnig sefydlu corff corfforaethol newydd, awdurdod refeniw Cymru. Bydd y pwerau i gasglu a rheoli treth wedi'u breinio yn y corff newydd. Bydd yr awdurdod yn gyfreithiol gyfrifol am gasglu a rheoli trethi Cymru'n effeithlon ac yn effeithiol, bydd wedi'i wahanu'n briodol o safbwynt materion gweithredol oddi wrth Weinidogion Cymru, ac yn atebol am ei berfformiad i'r Cynulliad hwn. Yn y Papur Gwyn hwn, rydym yn cynnig sefydlu prosesau a gweithdrefnau i amddiffyn trethdalwyr Cymru a'u hawliau wrth iddynt dalu trethi'n llawn ac yn briodol.

Er mai awdurdod refeniw Cymru fydd yn gyfrifol am gasglu a rheoli trethi, ni fydd o reidrwydd yn ymgymryd â phob agwedd ar weinyddu trethi ei hun. Rwyf yn ystyried ystod o opsiynau ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth bwysig hon, a bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

The payment of tax is essential to the funding of our public services. We will make the payment of devolved Welsh taxes as easy as possible and assist people to voluntarily pay any taxes that are due. We will also establish a taxpayers' charter to clarify the expectations of the revenue authority and the Welsh taxpayer and provide the basis of a constructive relationship. The charter will be borne out of consultation with stakeholders and the people of Wales, and it will be reviewed and reported on regularly.

A minority of people attempt to evade paying tax, which is illegal, and there are those who seek to avoid paying tax. Tax evasion and avoidance can give people an unfair advantage over those who pay their taxes. Furthermore, it reduces the amount of money available to fund public services. That is unacceptable, and we will establish robust arrangements to prevent that from happening.

Our consultation seeks views on actions that might be taken to promote and encourage tax compliance and tackle non-compliance. Options include whether to adopt a wide approach to anti-avoidance, similar to that to be undertaken in Scotland, or a narrow approach focused on anti-abuse, similar to the existing UK approach. We are also seeking views on a proposed approach to criminal enforcement.

The consultation also seeks a steer from stakeholders on the value of a pay-first principle and the conditions under which that might be appropriate. Views expressed will help inform further consideration of whether this issue is dealt with in the proposed collection and management legislation or is dealt with in the tax-specific legislation that will follow.

I am actively encouraging people and organisations alike to offer their views and engage with us to help shape the regime for future Welsh taxes. I want to hear views on how our tax regime can be fair, simple and clear and provide stability and certainty for taxpayers, while ensuring the prompt and appropriate payment of taxes to the benefit of all those in Wales, and how the arrangements we establish now can also retain flexibilities to enable us to respond to future needs and opportunities.

Finally, I wanted to make the point that we can learn much from our own tax history, and I am grateful to the Law School at Bangor University for unearthing details of ancient Welsh taxes. In the thirteenth century, Llywelyn ap Gruffudd imposed a tax of 3 pence 'on each great beast', which particularly troubled the people of Arfon—especially because he did so without consulting the people or securing their consent. My approach to developing Welsh taxes in the twenty-first century will, I hope, not raise such grievances and will ensure the people of Arfon are not troubled once more.

Mae talu trethi'n hanfodol er mwyn ariannu ein gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i dalu trethi datganoledig Cymru ac yn helpu pobl i dalu unrhyw drethi sy'n ddyledus yn wirfoddol. Byddwn hefyd yn sefydlu siarter trethdalwyr i egluro disgwyliadau'r awdurdod refeniw a threthdalwyr Cymru ac i ddarparu sylfaen ar gyfer perthynas adeiladol. Bydd y siarter yn seiliedig ar ymgynghori â rhanddeiliaid ac â phobl Cymru, a bydd yn destun adolygiadau ac adroddiadau rheolaidd.

Mae lleiafrif o bobl yn ceisio efnegu talu treth, sy'n anghyfreithlon, ac mae rhai sy'n ceisio osgoi talu treth. Mae efnegu ac osgoi talu treth yn gallu rhoi mantais annheg i bobl dros y rheini sy'n talu eu trethi. Ar ben hynny, mae'n golygu bod llai o arian ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hynny'n annerbyniol, a byddwn yn sefydlu trefniadau cadarn i atal hynny rhag digwydd.

Mae ein hymgyngoriad yn gwahodd sylwadau ar y camau y gellid eu cymryd i hybu ac i annog cydymffurfio o ran treth ac i ymdrin â diffyg cydymffurfio. Mae'r dewisiadau'n cynnwys mabwysiadu ymagwedd eang yn erbyn osgoi talu treth, yn debyg i'r hyn a wneir yn yr Alban, neu ymagwedd gul sy'n canolbwyntio ar atal camddefnyddio, yn debyg i ymagwedd y DU ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn ceisio barn am ymagwedd arfaethedig tuag at orfodi troseddol.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio arweiniad gan rhanddeiliaid ynglŷn â gwerth egwyddor talu-yn-gyntaf ac o dan ba amodau y gallai hynny fod yn briodol. Bydd y safbwyntiau a fynegir yn helpu i lywio ystyriaeth bellach ynglŷn ag a ddylid ymdrin â'r mater hwn yn y ddeddfwriaeth casglu a rheoli arfaethedig ynteu a ddylid ymdrin ag ef yn y ddeddfwriaeth benodol i dreth a fydd yn dilyn.

Rwyf yn mynd ati i annog pobl a sefydliadau fel ei gilydd i gynnig eu barn ac ymgysylltu â ni i helpu i lunio'r drefn ar gyfer trethi Cymru yn y dyfodol. Hoffwn glywed safbwyntiau ynghylch sut y gall ein cyfundrefn dreth fod yn deg, yn syml ac yn glir a chynnig sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr, a sicrhau ar yr un pryd y caiff trethi eu talu'n brydlon ac yn briodol er budd pawb yng Nghymru, a sut y gall y trefniadau yr ydym yn eu sefydlu yn awr hefyd aros yn hyblyg er mwyn ein galluogi i ymateb i anghenion a chyfleoedd y dyfodol.

Yn olaf, roeddwn am ddweud y gallwn ddysgu llawer o'n hanes ni ein hunain o ran treth, ac rwyf yn ddiolchgar i Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor am ddod o hyd i fanylion am drethi hynafol Cymru. Yn y drydedd ganrif ar ddeg, gosododd Llywelyn ap Gruffudd dreth o 3 ceiniog 'ar bob anifail mawr', a oedd yn destun pryder arbennig i bobl Arfon—yn enwedig gan ei fod wedi gwneud hynny heb ymgynghori â'r bobl na sicrhau eu caniatâd. Rwyf yn gobeithio na fydd fy ffordd i o ddatblygu trethi yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain yn esgor ar gwynion o'r fath ac y bydd yn sicrhau na chaiff pobl Arfon eu poeni unwaith eto.

Minister, we in the Welsh Conservatives fully support you in not wanting to tax the great beasts of Arfon, Gwent, or any of the other historic kingdoms of Wales. I thank the Minister for her statement launching this White Paper on the collection and management of devolved taxes, certain of which, as you have said—stamp duty and landfill tax—will be with us very shortly, in the wake of the Silk commission.

You have argued today that a Revenue Scotland-type model is the best way to proceed. I have to say, Minister, that I agree with you that this does look like the best solution. It is certainly a better option than the Minister delving directly into individuals' tax affairs across Wales. I am sure that you do not have either the time or the inclination to do that. So, a Revenue Scotland-type model is probably the best way ahead. On that basis, how will you ensure that the new authority is as efficient as possible and delivers maximum value for money for the taxpayer? How will you make sure that the new body conforms to the Nolan principles of transparency in public life? Specifically, how will the embryonic board of the new body be chosen in the first instance, ensuring adequate breadth of experience?

As I understand it, it will be up to the new WRA how it collects tax—whether it uses HM Revenue and Customs, delegates to local authorities, or sets up something entirely new. I think that that is the right approach, by the way, given that ability, but it is clearly a large responsibility for a brand-new body, so how will you make sure that we see a smooth transition to the new arrangement and how will you monitor it so that any problems in the tax-collection system can be dealt with straight away? I am sure that you would agree with me that the worst outcome would be a loss of face in the new office in the early days and doubts over its integrity. So, there will be problems, we all accept that—that is a natural part of the course—but how will you make sure that these problems are effectively dealt with?

This is clearly uncharted territory for the Assembly. We have very little experience beyond local authorities when it comes to the challenges of collecting taxes, but, as you mentioned—and 'Scotland' has been the buzzword this week—Scotland is clearly some way ahead of us in this area, with a number of new taxes coming in next year. Have you held discussions with the Scottish Executive and are you staying in close contact with your opposite numbers in Scotland to make sure that we use its best practice and that we avoid some of the pitfalls that it will undoubtedly have experienced? This is a very tight timescale, First Minister—finance Minister, rather; I elevated you there—2018 is not far away. Are you confident that this can be met, and not just met, but that the system that we will have in place by 2018 will be robust and effective? If you will pardon the pun, we really cannot afford to get this wrong, as I am sure you are aware.

Weinidog, rydym ni Geidwadwyr Cymru'n eich cefnogi'n llwyr yn eich bwriad i beidio â threthu anifeiliaid mawr Arfon, Gwent, nac unrhyw un o'r teyrnasoedd hanesyddol eraill yng Nghymru. Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad i lansio'r Papur Gwyn hwn ar gasglu a rheoli trethi datganoledig, y bydd rhai ohonynt, fel y dywedaso—treth stamp a threth tirlenwi—gyda ni'n fuan iawn, yn sgil comisiwn Silk.

Rydych wedi dadlau heddiw mai model tebyg i Refeniw'r Alban yw'r ffordd orau o symud ymlaen. Rhaid imi ddweud, Weinidog, fy mod yn cytuno â chi ei bod yn ymddangos mai dyna'r ateb gorau. Mae'n sicr yn ddewis gwell na bod y Gweinidog yn ymchwilio'n uniongyrchol i faterion treth unigolion ledled Cymru. Rwyf yn siŵr nad oes gennych mo'r amser na'r awydd i wneud hynny. Felly, mae'n debyg mai model tebyg i Refeniw'r Alban yw'r ffordd orau ymlaen. Ar sail hynny, sut y byddwch yn sicrhau bod yr awdurdod newydd mor effeithlon ag y bo modd ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr? Sut y byddwch yn sicrhau bod y corff newydd yn cydymffurfio ag egwyddorion Nolan o ran tryloywder mewn bywyd cyhoeddus? Yn benodol, sut y caiff bwrdd embryonig y corff newydd ei ddewis yn y lle cyntaf, gan sicrhau ehangder digonol o brofiad?

Yn ôl a ddeallaf, Awdurdod Refeniw Cymru fydd yn penderfynu sut y bydd yn casglu trethi—a fydd yn defnyddio Cyllid a Thollau EM, yn dirprwyo'r gwaith i awdurdodau lleol, neu'n sefydlu rhywbeth hollol newydd. Rwyf yn meddwl mai dyna'r ffordd iawn, gyda llaw, o ystyried bod y gallu hwnnw yno, ond mae'n amlwg yn gyfrifoldeb mawr i gorff newydd sbon, felly sut y byddwch yn sicrhau ein bod yn gweld trosglwyddiad llyfn i'r trefniadau newydd a sut y byddwch yn ei fonitro fel y gellir ymdrin ag unrhyw broblemau yn y system casglu trethi ar unwaith? Rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno â mi mai'r canlyniad gwaethaf fyddai colli enw da'r swyddfa newydd yn y dyddiau cynnar ac amheumon ynglŷn â'i huniondeb. Felly, bydd problemau, rydym i gyd yn derbyn hynny—mae'n rhan naturiol o gwrs pethau—ond sut y byddwch yn sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol â'r problemau hyn?

Mae hyn, wrth gwrs, yn dir newydd i'r Cynulliad. Ychydig iawn o brofiad sydd gennym y tu hwnt i awdurdodau lleol o heriau casglu trethi, ond, fel y soniasoch—ac mae'r Alban wedi bod yn bwnc llosg yr wythnos hon—mae'r Alban yn amlwg gryn bellter o'n blaenau yn hyn o beth, a bydd yn cyflwyno nifer o drethi newydd y flwyddyn nesaf. A ydych wedi cynnal trafodaethau â Gweithrediaeth yr Alban ac a ydych yn cadw mewn cysylltiad agos â'ch cymheiriaid yn yr Alban i wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio arfer gorau'r Alban a'n bod yn osgoi rhai o'r peryglon y bydd yn ddi-os wedi cael profiad ohonynt? Mae hon yn amserlen dynn iawn, Brif Weinidog—Weinidog Cyllid, yn hytrach; fe'ch dyrchefais chi—nid yw 2018 yn bell i fwrdd. A ydych yn hyderus y gellir cyflawni hyn, ac nid dim ond cyflawni, ond y bydd y system a fydd ar waith gennym erbyn 2018 yn gadarn ac yn effeithiol? Os maddeuwch y geiriau mwys, ni allwn fforddio gwneud hyn yn anghywir, fel yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod.

Very finally, but importantly—perhaps most importantly—you touched on tax evasion and tax avoidance. You rightly pointed out that evasion is illegal and avoidance is highly undesirable. We clearly need to have robust arrangements to deal with this. What type of mechanisms do you envisage will achieve a tight and robust tax evasion and avoidance policy? We must avoid any suggestion down the line that a new body here in Wales could come to be seen as a soft touch: yes light touch and yes transparent, but soft touch definitely not. Scotland's key priority has been ensuring the robustness of its tax policy and I am sure that you would agree with us in the Welsh Conservatives that you need to make sure that the system here is equally as robust as, if not better than, what we have at the moment.

Yn olaf, ond yn bwysig—efallai'n bwysicaf oll—cyfeiriasoch at efadu trethi ac osgoi trethi. Roeddech yn gywir wrth ddweud bod efadu'n anghyfreithlon a bod osgoi'n hynod annymunol. Mae'n amlwg bod arnom angen trefniadau cadarn i ymdrin â hyn. Pa fath o ddulliau ydych chi'n rhagweld fydd yn sicrhau polisi tynn a chadarn ar efadu ac osgoi trethi? Rhaid inni osgoi unrhyw awgrym yn nes ymlaen y gallai corff newydd yma yng Nghymru dddod i gael ei weld fel corff meddal: corff ysgafn ei gyffyrddiad a thryloyw, ie, ond yn bendant nid un meddal. Bu sicrhau cadernid ei pholisi treth yn flaenoriaeth allweddol i'r Alban ac rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno â ni Geidwadwyr Cymru fod angen ichi wneud yn siŵr bod y system hon yr un mor gadarn â'r un sydd gennym ar hyn o bryd, os nad yn well.

15:24

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Nick Ramsay, the finance spokesperson for the Welsh Conservatives, both for his welcoming comments and for asking key questions in terms of the role and place of the Welsh revenue authority. It will be a new legally constituted public body. It will be established as a non-ministerial department and it will be accountable to the Assembly for its performance, which is a key point to reflect on today, and, of course, the powers of tax collection and management will be vested in the Welsh revenue authority. Clearly, this ensures that we will be embracing transparency in terms of the Nolan principles, as Nick Ramsay has pointed out.

If you look at the model, it is consistent with international best practice and it matches existing HMRC practice and that proposed for Scotland. It is important that we recognise that there has to be a relationship between Ministers and the Welsh revenue authority and a relationship between the Welsh revenue authority and the Assembly. It will be accountable to the Assembly, and, of course, the Welsh revenue authority will be audited by the Auditor General for Wales and the Wales Audit Office. It is very important that we look at the question of who collects and manages devolved taxes, and that we use this opportunity for consultation over the coming weeks and months, because we have not decided—this is the point of the consultation—how the new Welsh taxes will be collected. We are consulting on a number of approaches. We might have different collectors and different collection methods appropriate for each tax. The priority is that we have to have a system that is fair, effective and efficient. Through the Wales Bill, we can enter into agreement with HMRC to collect and administer devolved taxes. We are exploring possible arrangements in terms of collection and management options, but we are looking very closely at what has happened in Scotland. Indeed, I have to thank the Minister for finance for Scotland, John Swinney, and his officials. Over the months leading up to the point when the Wales Bill was introduced, we have been paving the way and preparing the way for these important new opportunities.

Diolch i Nick Ramsay, llefarydd cyllid Ceidwadwyr Cymru, am ei sylwadau croesawgar ac am ofyn cwestiynau allweddol ynglŷn â swyddogaeth a lle awdurdod referniw Cymru. Bydd yn gorff cyhoeddus newydd â chyfansoddiad cyfreithiol. Caiff ei sefydlu fel adran anweinidogol a bydd yn atebol i'r Cynulliad am ei berfformiad, sy'n bwynt allweddol i'w gofio heddiw, ac, wrth gwrs, caiff y pwerau casglu a rheoli treth eu breinio yn awdurdod referniw Cymru. Wrth gwrs, mae hyn yn sicrhau y byddwn yn cofleidio tryloywder o ran egwyddorion Nolan, fel y mae Nick Ramsay wedi'i nodi.

Os edrychwch ar y model, mae'n gyson ag arfer gorau rhyngwladol ac yn cyd-fynd ag arfer presennol Cyllid a Thollau EM a'r hyn a gynigir ar gyfer yr Alban. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod angen perthynas rhwng Gweinidogion ac awdurdod referniw Cymru a pherthynas rhwng awdurdod referniw Cymru a'r Cynulliad. Bydd yn atebol i'r Cynulliad, ac, wrth gwrs, bydd awdurdod referniw Cymru'n cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar bwy sy'n casglu ac yn rheoli trethi datganoledig, a'n bod yn defnyddio'r cyfle hwn i ymgynghori yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, oherwydd nid ydym wedi penderfynu—dyna yw diben yr ymgynghoriad—sut y caiff trethi newydd Cymru eu casglu. Rydym yn ymgynghori ar nifer o ddulliau. Efallai y bydd gennym wahanol gasglwyr a gwahanol ddulliau casglu sy'n briodol i bob treth. Y flaenoriaeth yw bod yn rhaid inni sicrhau system sy'n deg, yn effeithiol ac yn effeithlon. Drwy Fil Cymru, gallwn ffurfio cytundeb â Chyllid a Thollau EM i gasglu a gweinyddu trethi datganoledig. Rydym yn ymchwilio i drefniadau posibl o ran opsiynau casglu a rheoli, ond rydym yn edrych yn ofalus iawn ar yr hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban. Yn wir, rhaid imi ddiolch i Weidog cyllid yr Alban, John Swinney, a'i swyddogion. Yn ystod y misoedd hyd at adeg cyflwyno Bil Cymru, rydym wedi bod yn braenaru'r tir ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer y cyfleoedd newydd pwysig hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sure that people will want to look at the ways in which Revenue Scotland is taking forward its responsibilities for tax administration. It is delegating its tax collection to other Scottish public bodies. The Scottish Environment Protection Agency, for example, will collect the Scottish landfill tax. So, I can assure Nick Ramsay of our close engagement, and I hope that Members, and I am sure that the Finance Committee, will be interested in following this up as well.

You raised the point about tax avoidance, and I think that we need to look at this in terms of learning the lessons and consulting openly on possible approaches to tax avoidance. This provides us with an opportunity to look at whether we want to have an anti-avoidance rule or a general anti-abuse rule. We obviously have a lot of evidence, and the experts bring us the evidence about options, but I think that we need to make this as open and transparent as possible to enable people to contribute to this, and consulting widely on the possible approach to tax avoidance is part of that. For example, that could include a disclosure of tax avoidance schemes, which is known as the DOTAS rule. However, I think that we can take this forward in light of responses to this consultation.

Finally, I am confident in our timescale. I am confident in our preparations. I am confident that now, with this consultation launch today, we can move forward so that I can introduce legislation next July.

Rwyf yn siŵr y bydd pobl yn awyddus i edrych ar y ffyrdd y mae Cyllid yr Alban yn datblygu ei gyfrifoldebau dros weinyddu treth. Mae'n dirprwyo ei waith casglu trethi i gyrff cyhoeddus eraill yn yr Alban. Asiantaeth Amddiffyn yr Amgylchedd yr Alban, er enghraifft, fydd yn casglu treth tirlenwi'r Alban. Felly, gallaf sicrhau Nick Ramsay ein bod yn ymgysylltu'n agos, ac rwyf yn gobeithio y bydd gan yr Aelodau, ac rwyf yn siŵr y bydd gan y Pwyllgor Cyllid, ddiddordeb mewn mynd ar drywydd hyn hefyd.

Codasoch y pwynt am osgoi treth, a chredaf fod angen inni edrych ar hyn o safbwynt dysgu'r gwersi ac ymgynghori'n agored ar ymagweddau posibl at osgoi treth. Mae hyn yn gyfle inni i ystyried a ydym am gael rheol yn erbyn osgoi ynteu rheol gyffredinol yn erbyn camddefnyddio. Mae gennym lawer o dystiolaeth, wrth gwrs, ac mae'r arbenigwyr yn dod â'r dystiolaeth ynglŷn ag opsiynau atom, ond credaf fod angen inni wneud hyn mor agored a thryloyw ag y bo modd er mwyn galluogi pobl i gyfrannu at hyn, ac mae ymgynghori'n eang ar yr ymagwedd bosibl tuag at osgoi treth yn rhan o hynny. Er enghraifft, gallai hynny gynnwys datgelu cynlluniau osgoi treth, a elwir yn rheol DOTAS. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl y gallwn fwrw ymlaen â hyn yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Yn olaf, rwyf yn hyderus ynghylch ein hamserlen. Rwyf yn hyderus ynghylch ein paratodau. Rwyf yn hyderus y gallwn yn awr, drwy lansio'r ymgynghoriad heddiw, symud ymlaen fel y gallaf gyflwyno deddfwriaeth fis Gorffennaf nesaf.

15:28

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I very much welcome the statement? A universally true statement is that all change costs money, at least in the short term. We need to minimise the cost of collection of any taxes devolved to the Welsh Government. For the collection of taxes such as landfill tax and stamp duty land tax, local authorities with a successful record of collecting council tax would appear to be the best option, and I would urge the Minister to give serious thought to that. With any other devolved tax, the cheapest and most efficient way of collecting it must be the one chosen. Does the Minister agree that we need to maximise the percentage of each tax that we collect, but also minimise the cost of collection, and that that must be our priority?

A gaf fi groesawu'r datganiad yn fawr iawn? Datganiad sy'n gyffredinol wir yw bod pob newid yn costio arian, o leiaf yn y tymor byr. Mae angen inni leihau cost casglu unrhyw drethi a ddatganolir i Lywodraeth Cymru. O ran casglu trethi megis y dreth tirlenwi a threth dir y dreth stamp, mae'n debyg mai awdurdodau lleol sydd â hanes llwyddiannus o gasglu'r dreth gyngor yw'r dewis gorau, a byddwn yn annog y Gweinidog i ystyried hynny o ddifrif. Gydag unrhyw dreth ddatganoledig arall, rhaid dewis y ffordd rataf a mwyaf effeithlon o'i chasglu. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod angen inni sicrhau'r ganran uchaf bosibl o bob treth a gasglwn, ond hefyd gadw'r costau casglu mor isel â phosibl, a bod yn rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth inni?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:29

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges for that question. I think the issue about costs in terms of tax collection and management is very relevant and pertinent, because we have to make sure that our Welsh revenue authority is effective, efficient and authoritative as an organisation. For example, one of the issues that we are looking at the moment with the UK Government is who is going to pay for the costs of establishing and running a new Welsh devolved collection and management regime. That is something for which we are estimating costs at the moment. What is absolutely clear is that we have to maximise the revenue from our new and what will be reformed taxes, I am sure, as we move into consultation next spring, in terms of options for reforming stamp duty land tax and landfill tax. The importance of the revenue stream is key in terms of building our economy and prospects for growth and jobs.

Diolch i Mike Hedges am y cwestiwn hwnnw. Rwyf yn meddwl bod costau casglu a rheoli treth yn berthnasol ac yn gymwys iawn, oherwydd rhaid inni wneud yn siŵr bod ein hawdurdod refeniw Cymru'n sefydliad effeithiol, effeithlon ac awdurdodol. Er enghraifft, un o'r materion yr ydym yn edrych arnynt ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y DU yw pwy sy'n mynd i dalu am gost sefydlu a chynnal cyfundrefn ddatganoledig newydd Cymru ar gyfer casglu a rheoli. Rydym yn amcangyfrif costau hynny ar hyn o bryd. Yr hyn sy'n hollol amlwg yw bod yn rhaid inni wneud y gorau o'r refeniw o'n trethi newydd a fydd wedi'u diwygio, rwyf yn siŵr, wrth inni symud i mewn i ymgynghoriad y gwanwyn nesaf, o ran opsiynau ar gyfer diwygio treth dir y dreth stamp a threth tirlenwi. Mae pwysigrwydd y llif refeniw'n allweddol o ran adeiladu ein heconomi a rhagolygon ar gyfer twf a swyddi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n croesawu'r datganiad heddiw gan y Gweinidog. Y sôn yn wreiddiol gan y Llywodraeth oedd mai'r bwriad oedd creu trysorlys i Gymru. Bellach, mae datganiad heddiw yn sôn am gorff dipyn llai ei ddylanwad, sef awdurdod refeniw Cymru, ond corff cwbl angenrheidiol. Nid yw'r trethi sy'n mynd i gael eu datganoli hyd yn hyn—y dreth dirlenwi a'r dreth dir—yn ateb holl wendidau cyllidol Cymru wrth gwrs. Cam bach iawn yw hwn ond cam pwysig. Pan fyddwn ni yn cymryd rhagor o bwerau a chyfrifoldebau ariannol fel gwlad, bydd rhaid i ni sefydlu trysorlys go iawn, neu gorff tebyg a fydd yn gallu rhoi arweiniad i'r Llywodraeth, i'r Cynulliad ac i bobl Cymru ar y sefyllfa gyllidol ac effaith polisiâu'r Llywodraeth arni. Dyna lle rydym angen bod os ydym am fod yn gyfrifol, mewn ffordd ystyrlon, am ddatblygu'n economi a'n gwlad. Yn y cyfamser, rydym yn cymryd y cam bychan hwn, er ei fod yn gam pwysig. Mae'r Alban wrthi'n sefydlu ei gorff yntau, Revenue Scotland, ac felly gofynnaf i chi pa wersi yr ydych wedi'u dysgu o'r Alban gan ein bod yn gwybod eich bod wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion y Llywodraeth yno.

A gaf hefyd gyfeirio at y sefyllfa a fydd yn bodoli ar ôl sefydlu'r corff? Bydd rhai trethdalwyr yng Nghymru o bosibl â dau gorff yn gyfrifol am gasglu eu trethi neu ran o'u trethi. Sut y byddwch chi, felly, yn sicrhau bod trethdalwyr yn ymwybodol o fodolaeth yr awdurdod refeniw Cymreig, ac a ydych yn rhagweld unrhyw broblemau yn codi o gael dau gorff felly yn gyfrifol am gasglu'r trethi? A fydd rhaid i rai pobl lenwi dwy ffurflen? Dyna rai o'r cwestiynau.

Gwnaethoch gyfeirio at Llywelyn ap Gruffydd, Llywelyn Fawr, a oedd yn wleidydd praff o Arfon, wrth gwrs. Ni wn a oedd y trethi yr oedd ef yn eu gosod yn deg nac yn berthnasol i ni, ond yn sicr, roedd ei arweiniad gwleidyddol cadarn a di-ofn yn rhywbeth y gallem ni yng Nghymru ddysgu oddi wrtho. Gallaf eich sicrhau chi fod amryw o fwystfilod yn dal i gerdded mynyddoedd Arfon o hyd. [Chwerthin.] Diolch i adran y gyfraith Prifysgol Bangor am ei gwaith arloesol ym maes y gyfraith ac yn y cyfeiriad hwn.

I welcome the statement today by the Minister. The talk from the Government originally was that its intention was to create a treasury for Wales. By now, today's statement talks about a much less influential body, namely the Welsh revenue authority, but it is still a totally vital body. The taxes that are to be devolved to date—the landfill tax and the land tax—will not be a panacea for all of Wales's financial weaknesses, of course. This is a very small step but an important one. When we do gain greater financial powers and responsibilities as a country, we will have to establish a real treasury, or a similar body that can give guidance to the Government, the Assembly and to the people of Wales on the fiscal position and the impact of Government policies on it. That is where we need to be if we are to be responsible, in a meaningful way, for developing our economy and our country. In the interim, we are taking this small but important step. Scotland is in the process of establishing its own body, Revenue Scotland, and so I ask you which lessons you have learned from Scotland, as we know that you have been in contact with Government officials there.

May I also refer to the situation that will exist after the establishment of the body? Some taxpayers in Wales will possibly have two bodies responsible for collecting their taxes or part of their taxes. How, therefore, will you ensure that taxpayers are aware of the existence of the Welsh revenue authority, and do you anticipate any problems arising from having two such bodies responsible for tax collection? Will some people have to complete two forms? Those are some of my questions.

You referred to Llywelyn ap Gruffydd, Llywelyn the Great, who was an astute politician from Arfon, of course. I do not know whether the taxes that he levied were fair or relevant to us, but certainly his firm and fearless political leadership is something that we in Wales could certainly learn from. I can assure you that a number of great beasts are roaming the hills of Arfon still. [Laughter.] I thank the law school at Bangor University for its pioneering work in the field of the law and in this direction, too.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. I am sure that I have encountered some of those great beasts in Arfon as well. It is very important that we look to the history and engage. In fact, I know that the law school in Bangor University wants to engage with us. We want to have consultation to try to bring about the kind of interest that we should stimulate on this important development. I am sure that this is something on which we can engage young people as well, through education in schools, and indeed into further and higher education.

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Rwyf yn siŵr fy mod wedi dod ar draws rhai o'r anifeiliaid mawr hynny yn Arfon hefyd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar yr hanes ac yn ymgysylltu. Yn wir, gwn fod ysgol y gyfraith ym Mhrifysgol Bangor yn awyddus i ymgysylltu â ni. Rydym am ymgynghori i geisio creu'r math o ddiddordeb y dylem ei ysgogi yn y datblygiad pwysig hwn. Rwyf yn siŵr bod hyn yn rhywbeth y gallwn ymgysylltu â phobl ifanc yn ei gyloch hefyd, drwy addysg mewn ysgolion, ac yn wir i mewn i addysg bellach ac uwch.

One of the points that is important from Alun Ffred Jones's question as Plaid Cymru's finance spokesperson is the question of how this fits in with the whole spectrum of development of a Welsh treasury. This is about a body that is going to be responsible for one part of our new functions and powers operationally: tax collection and management. We need that, and we have to have that, I would say, as part of the developing Welsh treasury function, as the Treasury in Whitehall has Her Majesty's Revenue and Customs to collect its taxes and manage them. It is very important, as I have already said in response to questions, that this is a non-ministerial department. It will sit alongside the wider developments—which, of course, I will be reporting to—in terms of the treasury role, as well as the role of Government, as opposed to the role of the Assembly, and the role of whichever Government is in power, in terms of the policies around taxation and the reform of the taxes that are going to be devolved to us. So, this is a very operational part of the development of implementing our new powers.

Now, as I have said already, I have taken a great deal of evidence and have worked closely with my colleagues in Scotland. In fact, officials from the Scottish Government came to see us only very recently. In fact, I met the head of Revenue Scotland, and she was able to comment on where they are, and on how they are progressing, as well as to give us some of their views about who should collect taxes, and what opportunities there were for them in terms of the way forward. I have already given some indication of the different public bodies. For example, Registers of Scotland will collect the new land and building transactions tax, which is the reformed stamp duty land tax. We do not have the same bodies or arrangements, so we need to look at this in terms of our opportunities.

So, I do believe that this is a vital part of the machinery, if you like, of a newly strengthened Government, in terms of our devolved fiscal powers, and we have got to get it right. I very much welcome the strong support for the consultation that is being launched today. I think that we will, of course, learn from those great leaders who had those responsibilities, even though perhaps they were not very popular at the time, in terms of the tax on the great beast.

15:37

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I also welcome this consultation, Minister? I think that this is a very important and historic step forward in terms of the National Assembly, and the role that we have within Welsh politics. Can I also agree with you that I would not want to see us taxing the great beasts of Arfon? Nor would I want you to follow the example of Peter the Great of Russia, who imposed a tax on beards, in the hope of encouraging his subjects to be more westward-looking in their outlook.

Un o'r pwyntiau sy'n bwysig yng nghwestiwn Alun Ffred Jones fel llefarydd cyllid Plaid Cymru yw sut y mae hyn yn cyd-fynd â sbectrwm cyfan datblygu trysorlys Cymru. Mae hyn yn ymwneud â chorff a fydd yn gyfrifol am un rhan o'n swyddogaethau a'n pwerau newydd o safbwynt gweithredol: casglu a rheoli trethi. Mae arnom angen hynny, a rhaid inni gael hynny, byddwn yn dweud, fel rhan o swyddogaeth trysorlys Cymru sy'n datblygu, fel y mae gan y Trysorlys yn Whitehall Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gasglu a rheoli ei drethi. Mae'n bwysig iawn, fel yr wyf eisoes wedi'i ddweud wrth ateb cwestiynau, fod hon yn adran anweinidogol. Bydd yn mynd law yn llaw â'r datblygiadau ehangach—y byddaf, wrth gwrs, yn adrodd arnynt—o ran swyddogaeth y trysorlys, yn ogystal â swyddogaeth y Llywodraeth, yn hytrach na swyddogaeth y Cynulliad, a swyddogaeth pa bynnag Lywodraeth sydd mewn grym, o ran y polisiau sy'n ymwneud â threthiant a diwygio'r trethi a ddatganolir inni. Felly, mae hyn yn rhan weithredol iawn o ddatblygiad gweithredu ein pwerau newydd.

Yn awr, fel y dywedais eisoes, rwyf wedi cymryd llawer iawn o dystiolaeth ac wedi gweithio'n agos gyda'm cydweithwyr yn yr Alban. Yn wir, daeth swyddogion o Lywodraeth yr Alban i'n gweld yn ddiweddar iawn. Yn wir, cyfarfûm â phennaeth Refeniw'r Alban, a rhoddod hi sylwadau am ble y maent, ac am y cynnydd y maent yn ei wneud, yn ogystal â rhoi inni rai o'i safbwyntiau ynghylch pwy ddylai gasglu trethi, a pha gyfleoedd a oedd iddo o ran y ffordd ymlaen. Rwyf eisoes wedi rhoi rhyw syniad o'r gwahanol gyrrff cyhoeddus. Er enghraifft, bydd Cofrestrï'r Alban yn casglu'r dreth trafodion tir ac adeiladu newydd, sef treth dir y dreth stamp ar ei newydd wedd. Nid oes gennym yr un cyrff na'r un trefniadau, felly mae angen inni edrych ar hyn o ran ein cyfleoedd ni.

Felly, credaf fod hyn yn rhan hanfodol o beirianwaith, os mynnwch, Llywodraeth sydd newydd ei chryfhau, o ran ein pwerau ariannol datganoledig, ac mae'n rhaid inni wneud hyn yn iawn. Rwyf yn croesawu'n fawr y gefnogaeth gref i'r ymgynghoriad sy'n cael ei lansio heddiw. Credaf y byddwn, wrth gwrs, yn dysgu oddi wrth yr arweinwyr mawr hynny a gafodd y cyfrifoldebau hynny, hyd yn oed os nad oeddent yn boblogaidd iawn ar y pryd, o ran y dreth ar anifeiliaid mawr.

A gaf finau hefyd groesawu'r ymgynghoriad hwn, Weinidog? Credaf fod hwn yn gam pwysig a hanesyddol iawn ymlaen o ran y Cynulliad Cenedlaethol, a'n swyddogaeth o fewn gwleidyddiaeth Cymru. A gaf fi hefyd gytuno â chi na fyddwn yn dymuno ein gweld yn trethu anifeiliaid mawr Arfon? Ni hoffwn ychwaith ichi ddilyn esiampl Pedr Fawr o Rwsia, a osododd dreth ar farfau, gan obeithio annog ei ddeiliaid i edrych yn fwy gorllewinol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have just a couple of questions on the statement, Minister. Can you give us an idea about the timetable in terms of introducing the Bill on this particular issue, once the consultation has come to the end? In terms of the appointments to the board, can you tell us what sort of expertise you are envisaging would be required by applicants for that, and where do you envisage finding the people to sit on this board? What process will be undertaken in terms of the appointment of the board, once this is under way?

15:37

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Peter Black, the Welsh Liberal Democrat finance spokesperson, for his questions. I think that Peter the Great came to mind in terms of his history books. A tax on beards—yes, I can see that there are a few beards around the Chamber. However, I think that, in many ways, these are quite important historical points, where we can perhaps engage the public, and, I am sure, engage those who have a particular interest in terms of the future of this, in this discussion.

You ask important questions. As I think I have already said, this is a White Paper so I aim to bring the legislation forward in July of next year. In terms of the chair and board members, of course they will be public appointments, subject to the Nolan principles. Members will be subject to maximum terms of office, as we do with other non-executive directors. Appointments will be made by the Welsh Government. We have stuck to the board model, rather than have commissioners, because the board model is the model that is widely used in Wales for Welsh public bodies, and it does represent good practice. However, of course, the non-executive directors, as board members, will be able to hold the executive to account. I am sure that there will be responses to the consultation on this, in terms of the governance.

I think that it is important to recognise that we secured a change from the draft Wales Bill to the Bill that was introduced in Parliament, a change that enables us to make provision for our Welsh revenue authority to be staffed by civil servants. I think that this, of course, is going to help to enable us to move forward in terms of appointments and to establish the importance of the status and expertise of this Welsh revenue authority.

15:40

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like others on all sides of the Chamber, Minister, I would like to welcome the statement that you have made this afternoon and also the proposals that you are making in the White Paper. I think that there will be widespread welcome for the establishment of a revenue body in the way that you describe. However, may I seek your assurance and your reassurance, perhaps, Minister, that we are not simply going to approach the design and creation of a tax function within Government as an administrative function? From my point of view, I think that it is important that we see it as a political function as well, and that we see this as an opportunity to drive further social, economic and environmental change in Wales.

Mae gennyf rai cwestiynau am y datganiad, Weinidog. A allwch roi syniad inni am yr amserlen o ran cyflwyno'r Bil ar y mater arbennig hwn, unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben? O ran y penodiadau i'r bwrdd, a allwch ddweud wrthym pa fath o arbenigedd yr ydych yn rhagweld y byddai ei angen ar ymgeiswyr ar gyfer hynny, a ble'r ydych yn rhagweld y dewch o hyd i'r bobl i eistedd ar y bwrdd hwn? Pa broses a fydd yn cael ei chynnal o ran penodi'r bwrdd, unwaith y bydd hyn yn mynd rhagddo?

Diolch i Peter Black, llefarydd cyllid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, am ei gwestiynau. Credaf ei fod wedi sylwi ar Pedr Fawr yn ei lyfrau hanes. Treth ar farfau—ie, gallaf weld bod ambell i farf o gwmpas y Siambr. Fodd bynnag, credaf fod y rhain, mewn sawl ffordd, yn bwyntiau hanesyddol eithaf pwysig, lle gallwn efallai ymgysylltu â'r cyhoedd, ac, rwyf yn siŵr, symbylu'r rheini sydd â diddordeb arbennig yn nyfodol hyn, yn y drafodaeth hon.

Rydych yn gofyn cwestiynau pwysig. Fel yr wyf yn meddwl fy mod wedi'i ddweud eisoes, Papur Gwyn yw hwn, felly fy nod yw ceisio cyflwyno'r ddeddfwriaeth ym mis Gorffennaf y flwyddyn nesaf. O ran y cadeirydd ac aelodau'r bwrdd, wrth gwrs byddant yn benodiadau cyhoeddus, yn amodol ar egwyddorion Nolan. Bydd gan yr Aelodau uchafswm cyfnod yn y swydd, fel cyfarwyddwyr anweithredol eraill. Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y penodiadau. Rydym wedi cadw at fodel bwrdd, yn hytrach na chael comisiynwyr, gan mai model bwrdd yw'r model sy'n cael ei ddefnyddio'n eang yng Nghymru ar gyfer ein cyrff cyhoeddus, ac mae'n sicrhau arfer da. Fodd bynnag, wrth gwrs, bydd y cyfarwyddwyr anweithredol, fel aelodau o'r bwrdd, yn gallu dwyn y weithrediaeth i gyfrif. Rwyf yn siŵr y cawn ymatebion i'r ymgynghoriad yn hyn o beth, o safbwynt llywodraethu.

Credaf ei bod yn bwysig cydnabod ein bod wedi sicrhau newid o'r Bil Cymru drafft i'r Bil a gyflwynwyd yn y Senedd, newid sy'n ein galluogi i ganiatáu i awdurdod refeniw Cymru gael ei staffio gan weision sifil. Rwyf yn credu y bydd hyn, wrth gwrs, yn helpu i'n galluogi i symud ymlaen o ran penodiadau ac i sefydlu pwysigrwydd statws ac arbenigedd awdurdod refeniw Cymru.

Fel eraill ar bob ochr i'r Siambr, Weinidog, hoffwn innau groesawu'r datganiad yr ydych wedi'i wneud y prynhawn yma a hefyd y cynigion yr ydych yn eu gwneud yn y Papur Gwyn. Credaf y bydd croeso eang i sefydlu corff refeniw yn y ffordd a ddisgrifiwch. Fodd bynnag, a gaf fi ofyn am eich sicrwydd ac am dawelwch meddwl, o bosibl, Weinidog, nad ydym, yn syml, yn mynd i geisio cynllunio a chreu swyddogaeth dreth o fewn y Llywodraeth fel swyddogaeth weinyddol? O'm safbwynt i, credaf ei bod yn bwysig ein bod yn ei gweld fel swyddogaeth weinyddol yn ogystal, a'n bod yn gweld cyfle yma i sbarduno mwy o newid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I notice with regard to the tax principles that you have set out in the statement and in the White Paper that you do not refer to sustainability. I hope that we will be able to develop new and different forms of taxation—and certainly, the field of taxation that is being devolved at the moment gives us significant scope to do this—that will drive behavioural change and further sustainability within the tax system. I hope also that we will look at other regional and sub-national Governments across the world for examples of where this is happening. I held a meeting last year with the Government of Québec, which has introduced a whole suite of new environmental taxes and is changing the way it collects taxes in order to meet its climate change responsibilities and in order to meet its desire to see that province of Canada become a more sustainable place to be. So, I hope that we will see this as a way that we can develop new policy and new ways of creating a fair taxation system and a taxation system that drives further change across our society.

Sylwaf o ran yr egwyddorion treth yr ydych wedi'u nodi yn y datganiad ac yn y Papur Gwyn nad ydych yn cyfeirio at gynaliadwyedd. Rwyf yn gobeithio y gallwn ddatblygu ffurfiau newydd a gwahanol ar drethiant—ac yn sicr, mae'r maes trethiant sy'n cael ei ddatganoli ar hyn o bryd yn rhoi cyfle arwyddocaol inni i wneud hyn—a fydd yn sbarduno newid ymddygiad a mwy o gynaliadwyedd o fewn y system dreth. Rwyf yn gobeithio hefyd y byddwn yn edrych ar Lywodraethau rhanbarthol ac is-genedlaethol eraill ledled y byd i gael enghreifftiau o le mae hyn yn digwydd. Cynhaliais gyfarfod y llynedd â Llywodraeth Québec, sydd wedi cyflwyno cyfres o drethi amgylcheddol newydd ac sy'n newid y ffordd y mae'n casglu trethi er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau o ran newid yn yr hinsawdd ac er mwyn bodloni ei hawydd i weld y dalaith honno yng Nghanada'n dod yn lle mwy cynaliadwy i fod ynddo. Felly, rwyf yn gobeithio y byddwn yn gweld hyn fel ffordd y gallwn ddatblygu polisi newydd a ffordd newydd o greu system drethiant deg a system drethiant sy'n sbarduno newid pellach ar draws ein cymdeithas.

15:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Alun Davies for that question and for making the point and recognising that this is a very operational part of the process, and of the progress that we are making in terms of devolution and transferring these powers to Wales. They are powers for a purpose. They are powers in order to make sure that we have taxes that are relevant and appropriate to the needs of Wales. It is interesting that, in Scotland, they did it a slightly different way around. They started with a consultation on the replacement and reform of stamp duty, land tax and landfill tax, and they are now moving onto this tax collection and management part. I think that, arguably, we need to get the operational side right. It might sound less interesting on the street corner than what we are going to do about something that will not just improve housing policy and access but our environmental policies and taxes that respond to that. So, this is something where I think the consultation will bring out those points about sustainable development and the opportunities with a reformed landfill tax. I know that there will be clear opportunities and a strong response from the public and environmental agencies as well as Assembly Members on these points.

Diolch i Alun Davies am y cwestiwn hwnnw ac am wneud y pwynt a chydnabod bod hyn yn rhan weithredol iawn o'r broses, ac o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud o ran datganoli a throsglwyddo'r pwerau hyn i Gymru. Pwerau at bwrpas yw'r rhain. Maent yn bwerau er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym drethi sy'n berthnasol ac yn briodol i anghenion Cymru. Mae'n ddiddorol eu bod, yn yr Alban, wedi gwneud hynny mewn ffordd ychydig yn wahanol. Dechreuodd yr Alban gydag ymgynghoriad am ddisodli a diwygio'r dreth stamp, y dreth dir a'r dreth tirlenwi, ac mae'n awr yn symud ymlaen at y rhan hon sef casglu a rheoli trethi. Credaf fod lle i ddadlau bod angen inni gael yr ochr weithredol yn iawn. Efallai fod hyn yn swnio'n llai diddorol ar gornel y stryd na'r hyn yr ydym yn mynd i'w wneud am rywbeth a fydd nid yn unig yn gwella polisi tai a mynediad ond ein polisiau a'n trethi amgylcheddol sy'n ymateb i hynny. Felly, mae hyn yn rhywbeth lle'r wyf yn credu y bydd yr ymgynghoriad yn amlygu'r pwyntiau hynny am ddatblygu cynaliadwy a'r cyfleoedd o ran treth tirlenwi ddiwygiedig. Gwn y bydd cyfleoedd clir ac ymateb cryf gan y cyhoedd ac asiantaethau amgylcheddol yn ogystal ag Aelodau'r Cynulliad ar y pwyntiau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:43 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in your written statement in June, I think it was, you were very, very specific about the date that the White Paper would be published. In fact, I think that you said 16 September. It took us all by surprise that you would be so specific. I wonder whether you would tell us whether there was a reason for the delay because, of course, things have changed rapidly in this last week and it seems that all these things may be up for reconsideration and there may be other more substantial taxes given to us. So, are you mindful of the changing landscape, and will your proposal be flexible enough in the event of greater and more appropriate tax powers being transferred, bearing in mind that the First Minister said earlier that he is pushing for equal treatment with any offer that is made to Scotland?

Weinidog, yn eich datganiad ysgrifenedig ym mis Mehefin, rwyf yn meddwl, roeddech yn benodol iawn, iawn am ddyddiad cyhoeddi'r Papur Gwyn. Yn wir, rwyf yn meddwl eich bod wedi dweud 16 Medi. Roedd yn syndod inni i gyd ichi fod mor benodol. Tybed a wnewch chi ddweud wrthym a oedd rheswm am yr oedi oherwydd, wrth gwrs, mae pethau wedi newid yn gyflym dros yr wythnos ddiwethaf ac mae'n ymddangos y gallai fod angen ailystyried yr holl bethau hyn ac efallai y rhoddir trethi eraill mwy sylweddol inni. Felly, a ydych yn ymwybodol o'r tirlun sy'n newid, ac a fydd eich cynnig yn ddigon hyblyg os caiff pwerau trethu mwy a mwy priodol eu trosglwyddo, a chofio bod y Prif Weinidog wedi dweud yn gynharach ei fod yn gwrthio i gael triniaeth sy'n gyfartal ag unrhyw gynnyg a wneir i'r Alban?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

My other question relates to the costs of setting up a separate body for Wales. Normally, of course, where matters are devolved, there are resources to accompany the functions that are transferred. So, can you give us any detail on what resources are being made available with the devolution of these functions?

Mae fy nghwestiwn arall yn ymwneud â chostau sefydlu corff ar wahân i Gymru. Fel arfer, wrth gwrs, lle mae materion wedi'u datganoli, ceir adnoddau i gyd-fynd â'r swyddogaethau sy'n cael eu trosglwyddo. Felly, a allwch roi manylion inni am ba adnoddau a fydd ar gael o ganlyniad i ddatganoli'r swyddogaethau hyn inni?

15:45

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Jocelyn Davies for those questions. Indeed, yes, we did have a target time of 16 September. Of course, a very important event was happening on 18 September. That was a factor that influenced our decision to move it forward to today, 23 September, in order for us to take stock and to not in any way get in the way of the events of last week. I think that that was an appropriate decision.

Diolch i Jocelyn Davies am y cwestiynau hynny. Ie, yn wir, ein targed oedd 16 Medi. Wrth gwrs, roedd digwyddiad pwysig iawn yn digwydd ar 18 Medi. Roedd hwnnw'n ffactor a ddylanwadodd ar ein penderfyniad i'w symud ymlaen at heddiw, 23 Medi, er mwyn inni ystyried pethau a pheidio mewn unrhyw ffordd â mynd ar draws digwyddiadau'r wythnos diwethaf. Rwyf yn meddwl bod hwnnw'n benderfyniad priodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is very important, as I said in my statement, leading up to the publication of the White Paper, that we need to ensure—and this will come through the consultation, I know—that we retain flexibilities to enable us to respond to future needs and opportunities. It is important that we are tested on that in terms of the scope for those flexibilities for future prospects. So, on the resourcing issue, I have responded in brief to that in terms of the costs. We do not have an estimate of costs at this stage, but I do believe—I have raised this with the chief secretary—that with the transfer of powers, there should be a transfer of resources to assist with administration costs. Some of the costs will depend on how people respond to this White Paper on tax collection and management. It will, possibly, be more costly in terms of which direction we take on anti-avoidance work and other issues, such as the appeals and tribunals process, and issues around cost will come from the decisions we take about who collects and manages Welsh taxes. So, I would hope that I could get to the point where, in the spring next year, we will be able to publish full details on cost at the appropriate time. However, in terms of the timing, this regime needs to be up and running by April 2018.

Mae'n bwysig iawn, fel y dywedais yn fy natganiad, cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, bod angen inni sicrhau—a bydd hyn yn dod drwy'r ymgynghoriad, rwyf yn gwybod—ein bod yn cadw'r hyblygrwydd i'n galluogi i ymateb i anghenion a chyfleoedd yn y dyfodol. Mae'n bwysig ein bod yn cael ein profi ar hynny o safbwynt cwmplas yr hyblygrwydd hwnnw o ran rhagolygon y dyfodol. Felly, o ran darparu adnoddau, rwyf wedi ymateb yn fyr i hynny o ran y costau. Nid oes gennym amcangyfrif o gostau ar hyn o bryd, ond rwyf yn credu—rwyf wedi codi hyn gyda'r prif ysgrifennydd—y dylid, wrth drosglwyddo pwerau, drosglwyddo adnoddau i gynorthwyo â chostau gweinyddol. Bydd rhai o'r costau'n dibynnu ar sut y mae pobl yn ymateb i'r Papur Gwyn ar gasglu a rheoli trethi. Bydd, o bosibl, yn fwy costus o ran ein cyfeiriad ar waith gwrth-osgoi a materion eraill, megis y broses apeliadau a thribiwnlysoedd, a bydd materion ynghylch costau'n deillio o'r penderfyniadau a wnawn ynghylch pwy sy'n casglu ac yn rheoli trethi Cymru. Felly, rwyf yn gobeithio y gallaf gyrraedd man lle y byddaf, yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf, yn gallu cyhoeddi manylion llawn am gostau ar yr adeg briodol. Fodd bynnag, o ran yr amseru, mae angen i'r drefn hon fod yn weithredol erbyn mis Ebrill 2018.

15:47

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:47

Datganiad: Diwygio Llywodraeth Leol

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Statement: Reforming Local Government

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, in the White Paper, 'Reforming Local Government', which we published in July, my predecessor set out our overall approach to taking forward the recommendations of the Commission on Public Service Governance and Delivery in respect of the merger of local authorities. The White Paper explained how we planned to implement the commission's proposals in respect of voluntary mergers, with a Bill to be introduced into the Assembly in January 2015, giving Ministers the powers to merge authorities who wished to join together voluntarily.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:47.

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Our objective is to see new voluntary merged authorities in place by April 2018. Those authorities who agree to merge voluntarily would not face elections in May 2017 but would have the terms of existing councillors extended until May 2018. Shadow authorities would be established by October 2017.

We said in the White Paper that authorities wishing to merge voluntarily should submit expressions of interest by November. Last week, I wrote to local authority leaders with our invitation to principal local authorities in Wales to submit proposals for voluntary merger, otherwise known as the prospectus. In the voluntary merger prospectus, I confirmed that we want those expressions of interest by 28 November. Fully developed cases for merger would then be submitted by June 2015.

The Commission on Public Service Governance and Delivery said that we should incentivise those mergers and, as a Government, we have agreed. After the provisional local government settlement for 2015-16 is announced, I hope to say more about the funds available to assist with voluntary mergers.

We are offering a unique opportunity to the willing. They get a chance to determine their own future as well as to form the building blocks for a new form of local government that will be created through collective ambition and practical action. Local authorities who wish to end uncertainty for their staff and the wider public will be urgently considering how best they can come together with neighbouring authorities to deliver services on a more strategic and sustainable basis. The status quo is not an option.

Llywydd, yn y Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol', a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf, nododd fy rhagflaenydd ein dull cyffredinol o fwrw ymlaen ag argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus o ran uno awdurdodau lleol. Roedd y Papur Gwyn yn egluro sut yr oeddem yn bwriadu gweithredu cynigion y comisiwn o ran uno gwirfoddol, gyda Bil i gael ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Ionawr 2015, yn rhoi pwerau i Weindogion i uno awdurdodau a oedd yn dymuno ymuno â'i gilydd yn wirfoddol.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:47.

Ein nod yw gweld awdurdodau cyfunedig gwirfoddol newydd ar waith erbyn Ebrill 2018. Ni fyddai'r awdurdodau hynny sy'n cytuno i uno yn wirfoddol yn wynebu etholiadau ym mis Mai 2017 ond yn cael ymestyn telerau cynghorwyr presennol hyd at fis Mai 2018. Byddai awdurdodau cysgodol yn cael eu sefydlu erbyn mis Hydref 2017.

Dywedasom yn y Papur Gwyn y dylai awdurdodau sy'n dymuno uno yn wirfoddol gyflwyno datganiadau o ddiddordeb erbyn mis Tachwedd. Yr wythnos diwethaf, ysgrifennais at arweinwyr awdurdodau lleol gyda'n gwahoddiad i brif awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol, a elwir hefyd ym prospectws. Yn y prospectws uno gwirfoddol, cadarnheais ein bod eisiau'r datganiadau hynny o ddiddordeb erbyn 28 Tachwedd. Yna byddai achosion datblygedig llawn ar gyfer uno yn cael eu cyflwyno erbyn mis Mehefin 2015.

Dyweddod y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y dylem gymell y cyfuniadau hynny ac, fel Llywodraeth, rydym wedi cytuno. Wedi i'r setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2015-16 gael ei gyhoeddi, rwy'n gobeithio dweud mwy am y cyllid fydd ar gael i gynorthwyo gydag uno gwirfoddol.

Rydym yn cynnig cyfle unigryw i'r rhai sy'n fodlon. Maent yn cael cyfle i benderfynu ar eu dyfodol eu hunain yn ogystal â ffurfio blociau adeiladu ar gyfer ffurf newydd ar lywodraeth leol a fydd yn cael ei chreu drwy uchelgais ar y cyd a gweithredu ymarferol. Bydd awdurdodau lleol sy'n dymuno rhoi terfyn ar ansicrwydd ar gyfer eu staff a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ystyried ar frys y ffordd orau y gallant ddod at ei gilydd gydag awdurdodau cyfagos i ddarparu gwasanaethau ar sail fwy strategol a chynaliadwy. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn opsiwn.

We recognise the value of front-line local authority services, and today I want to thank the many thousands of public service workers who deliver those front-line services. Later this year, I will be bringing forward proposals for a non-statutory public service staff commission to assist in the transition process, as I discussed with the Wales TUC and leading unions representing public sector workers last week. I expect all local authorities proposing voluntary mergers to hold formal discussions with their recognised trade unions.

As colleagues will be aware, the Commission on Public Service Governance and Delivery set out an analysis of our public services that made sobering reading. The commission said that there was poor and patchy performance in a number of areas of service delivery and wide variations in efficiency. The case for change was detailed and compelling. This Government accepted that case.

Local government cannot continue to operate as it has done. Neither is the current configuration of 22 local authorities sustainable. There will be change, voluntary or not. We know that existing problems facing local government in Wales are likely to be compounded by the worsening financial situation and increased demand for certain services.

In Wales, we have protected local government from the worst of the spending cuts. Over the past five years, spending per head on local services in England has decreased by around 7% in cash terms, while in Wales it has increased by 3%. Our analysis indicates that spending by local government in Wales per head of population is approximately £327 higher in 2014-15 than in England. The Institute for Fiscal Studies estimated that the local government settlement in England, after adjusting for rates retention, reduced by 9.5% in real terms over the period of 2010-11 to 2013-14. This was around twice the reduction in Wales. Yet the average band D council tax bill for Wales in 2014-15 is £193 lower than in England.

I do not underestimate the scale of the challenge facing us or suggest we can deal with it overnight. Our task is significant, but will be progressed at pace and with vigour. I come to this portfolio with an absolute commitment to deliver the change we need and to make sure that that change is profound and sustainable.

These are not easy times for local government. Continuing to provide services in the current configuration, salami-slicing more efficiencies and cutting services in isolation is not sustainable. However, this is also a time of great opportunity to make fundamental and lasting change that will create modern and effective local government, and we will seize that. We have been clear about the need for reform and are putting in place the measures to support that. I will be driving this agenda forward vigorously and look forward to a constructive, willing and engaged response from local government.

Rydym yn cydnabod gwerth gwasanaethau awdurdodau lleol rheng flaen, a heddiw rwyf am ddiolch i'r miloedd lawer o weithwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu'r gwasanaethau rheng flaen hynny. Yn ddiweddarach eleni, byddaf yn cyflwyno cynigion ar gyfer comisiwn staff gwasanaethau cyhoeddus anstatudol i gynorthwyo yn y broses bontio, fel y trafodais gyda TUC Cymru a'r undebau sy'n cynrychioli gweithwyr y sector cyhoeddus yr wythnos diwethaf. Rwy'n disgwyl i bob awdurdod lleol sy'n cynnig uno gwirfoddol gynnal trafodaethau ffurfiol gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig.

Fel y bydd cydweithwyr yn ymwybodol, nododd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ddadansoddiad o'n gwasanaethau cyhoeddus a oedd yn peri cryn bryder o'i ddarllen. Dywedodd y comisiwn fod perfformiad gwael ac anghyson mewn nifer o feysydd o gyflwyno gwasanaeth ac amrywiadau eang o ran effeithlonrwydd. Mae'r achos dros newid yn fanwl a chymhellol. Derbyniodd y Llywodraeth hon yr achos hwnnw.

Ni all llywodraeth leol barhau i weithredu fel y mae wedi bod yn ei wneud. Nid yw'r cyfluniad presennol o 22 awdurdod lleol yn gynaliadwy. Bydd newid, yn wirfoddol neu beidio. Gwyddom fod problemau presennol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru yn debygol o gael eu dwysáu oherwydd y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu a mwy o alw am rai gwasanaethau.

Yng Nghymru, rydym wedi amddiffyn llywodraeth leol rhag y gwaethaf o'r toriadau gwariant. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae gwariant y pen ar wasanaethau lleol yn Lloegr wedi gostwng oddeutu 7% mewn termau arian parod, tra ei fod wedi cynyddu gan 3% yng Nghymru. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod gwariant gan lywodraeth leol yng Nghymru fesul pen o'r boblogaeth tua £327 yn uwch yn 2014-15 nag yn Lloegr. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif bod y setliad i lywodraeth leol yn Lloegr, ar ôl addasu ar gyfer cadw ardrethi, wedi gostwng gan 9.5% mewn termau real dros y cyfnod o 2010-11 i 2013-14. Roedd hyn tua dwywaith y gostyngiad yng Nghymru. Er hynny, mae'r bil treth gyngor band D cyfartalog ar gyfer Cymru yn 2014-15 £193 yn is nag yn Lloegr.

Nid wyf yn bychanu maint yr her sy'n ein hwynebu, nac yn awgrymu y gallwn ni ymdrin â hynny dros nos. Mae ein tasg yn sylweddol, ond bydd yn cael ei symud ymlaen ar gyflymder ac yn egniol. Rwy'n dod i'r portffolio hwn gydag ymrwymiad llwyr i gyflawni'r newid y mae ei angen arnom ac i wneud yn siŵr bod y newid hwnnw yn llwyr ac yn gynaliadwy.

Nid yw hwn yn gyfnod hawdd i lywodraeth leol. Nid yw parhau i ddarparu gwasanaethau yn y cyfluniad presennol, gan wneud toriadau tameidiog ar gyfer mwy o effeithlonrwydd a thorri gwasanaethau ar wahân yn gynaliadwy. Fodd bynnag, mae hwn hefyd yn gyfnod o gyfle gwych i wneud newid sylfaenol a pharhaol a fydd yn creu llywodraeth leol fodern ac effeithiol, a byddwn yn manteisio ar hynny. Rydym wedi bod yn glir am yr angen am ddiwygio ac rydym wrthi'n sefydlu'r mesurau i gefnogi hynny. Byddaf yn sbarduno'r agenda hon yn ei blaen yn egniol ac yn edrych ymlaen at ymateb adeiladol, parod ac ymgysylltiedig gan lywodraeth leol.

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, may I congratulate Leighton Andrews AM on his new portfolio role for public services? I think that it is fair to say that you are now the third Minister in the three years that I have been elected as an Assembly Member to take on the mantle of local government. I think that it is also fair to say that, as I stand here today, local government in Wales is in rather chaotic disarray.

How do we sort the problems that we have? You have mentioned how we actually spend considerably more on local government in Wales than we do in England, but you, in your own statement, make mention of where we have seen significant failings: in efficiency, transparency and accountability. Quite frankly, there has been a feeling across Wales that there has been very poor leadership from the Welsh Government in terms of leading local government at these very difficult times. So, one thing that I hope is that you bring a strength of purpose to this role, a really radical approach and strength of leadership and delivery, because we have not only elected members, but thousands of very hard-working front-line staff across Wales, who, since the Williams commission report was published at the beginning of the year, have felt very let down by this Welsh Government.

As I move through your statement, you talk about how

'authorities wishing to merge voluntarily should submit expressions of interest by November.'

Strangely enough, in February of this year, Conwy County Borough Council and Denbighshire County Council were quite emphatic about not wanting to merge. Here we are now, in September, and it seems that discussions are now taking place with an amber light to go ahead to consider discussions. I am not aware whether other authorities are so far advanced, but let me just talk about Conwy County Borough Council. You talk about the prospectus that you have sent out. Having looked at the agenda for last Thursday, when this was discussed, I cannot see any mention of this prospectus as part of the actual discussions. You are expecting local authorities to merge, but it is almost a case of they go now or be pushed into it. There is this sort of fear now among local authorities. Do you actually believe, Minister, that local authorities can actually make a statement of intent and certainly make the feeling known in November with a view to having the business plans drawn up in 2015? I would also mention that there has been a lack of transparency, certainly in my own local authority, on fairly routine sort of delivery projects. At what stage do our actual residents and electors become engaged in this process, and how can you ensure that transparency and openness is actually driven through this process? I would certainly expect any local authority seeking to merge with another authority to have a fully costed out benefit appraisal and evaluation. Is that conceivable by November? I do not think so.

Yn gyntaf oll, hoffwn longyfarch Leighton Andrews AC ar ei rôl bortffolio newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus? Credaf ei bod yn deg dweud eich bod bellach y trydydd Gweinidog yn ystod y tair blynedd ers i mi gael fy ethol fel Aelod Cynulliad i wisgo mantell llywodraeth leol. Credaf ei bod hefyd yn deg dweud, wrth i mi sefyll yma heddiw, bod llywodraeth leol yng Nghymru mewn llanast anhrefnus braidd.

Sut ydym ni'n mynd i ddatrys y problemau sydd gennym? Rydych chi wedi sôn am sut yr ydym mewn gwirionedd yn gwario cryn dipyn yn fwy ar lywodraeth leol yng Nghymru nag yr ydym yn ei wneud yn Lloegr, ond rydych chi, yn eich datganiad eich hun, yn sôn am lle'r ydym wedi gweld methiannau sylweddol: o ran effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd. A dweud y gwir, bu teimlad ledled Cymru y bu arweiniad gwael iawn gan Lywodraeth Cymru o ran arwain llywodraeth leol yn y cyfnod anodd iawn hwn. Felly, un peth yr wyf yn ei obeithio yw eich bod yn dod â phenderfyniad i'r swyddogaeth hon, ymagwedd wirioneddol radical a chryfder arweiniad a chyflawni, oherwydd nid yn unig aelodau etholedig sydd gennym, ond miloedd o staff rheng flaen sy'n gweithio'n galed iawn ledled Cymru, sydd, ers cyhoeddi adroddiad comisiwn Williams ddechrau'r flwyddyn, wedi teimlo eu bod wedi cael eu siomi'n fawr iawn gan y Llywodraeth Cymru hon.

Wrth i mi fynd drwy eich datganiad, rydych yn siarad am sut y

dylai awdurdodau sy'n dymuno uno'n wirfoddol gyflwyno datganiadau o ddiddordeb erbyn mis Tachwedd.

Yn rhyfedd iawn, ym mis Chwefror eleni, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn eithaf pendant nad oeddent yn dymuno uno. Dyma ni yn awr, ym mis Medi, ac mae'n ymddangos bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda golau melyn i fynd ymlaen i ystyried trafodaethau. Nid wyf yn ymwybodol o ba un a yw awdurdodau eraill wedi mynd mor bell, ond gadewch i mi siarad dim ond am Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Rydych yn sôn am y prosbectws yr ydych wedi ei anfon allan. Ar ôl edrych ar yr agenda ar gyfer dydd lau diwethaf, pan drafodwyd hyn, ni allaf weld unrhyw sôn am y prosbectws hwn fel rhan o'r trafodaethau gwirioneddol. Rydych yn disgwyl i awdurdodau lleol uno, ond mae bron yn achos o'u bod yn mynd yn awr neu gael eu gwrthio i mewn iddo. Mae'r math hwn o ofn bellach ymysg awdurdodau lleol. A ydych chi wir yn credu, Weinidog, y gall awdurdodau lleol mewn gwirionedd wneud datganiad o friad ac yn sicr wneud eu teimladau yn hysbys ym mis Tachwedd gyda'r bwriad o gael y cynlluniau busnes wedi'u llunio yn 2015? Rwyf hefyd am grybwyll y bu diffyg tryloywder, yn sicr yn fy awdurdod lleol fy hun, ar fath gweddol arferol o brosiectau cyflenwi. Ar ba gam mae ein trigolion a'n hetholwyr yn dod yn rhan o'r broses hon mewn gwirionedd, a sut y gallwch chi sicrhau bod tryloywder a bod yn agored yn cael eu sbarduno mewn gwirionedd drwy'r broses hon? Byddwn yn sicr yn disgwyl i unrhyw awdurdod lleol sy'n ceisio uno ag awdurdod arall i gael arfarniad a gwerthusiad o fuddion wedi'i gostio'n llawn. A yw hynny'n bosibl erbyn mis Tachwedd? Dydw i ddim yn credu.

You then talk about setting up a public service staff commission to assist in the transition process. Clearly, that has had the thumbs-up from the Wales TUC and leading unions representing public sector workers, but I am more concerned about the workers themselves. How have you decided who is going to be on this commission?

To actually reduce the number of councillors, you will have to work, obviously, with the boundary commission. Again, it will have to slice up and change wards around by this time in 2015. I will just give you a quote from some of the talks that are going on with Conwy County Borough Council. It states here, about some of the advantages:

'There would be more opportunities for the councils to control their own destiny...One fewer set of elections would give more time and greater stability to plan the merger'.

It then goes on to discuss some of the disadvantages:

'The proposed Shadow Authority, established in October 2017, would have over 100 councillors, with a Cabinet of no more than 10.... Managing this would be a real challenge.... If Denbighshire and Conwy managed to fall out during the process the reputational damage would be enormous and the culture of the new council, established in April...would get off to a very bad start, not to mention the wasted effort and money up to that point'.

It then goes on to say,

'The Welsh Government's financial planning can appear chaotic, so there must be a risk that any promises of funding and support, offered to encourage voluntary merger, would not be honoured'.

Minister, clearly you have quite a few obstacles to overcome, but it would help here today if you would actually respond to some of the queries that I raise genuinely on behalf of our hard-working council tax payers, our residents and our hard-working front-line staff across all of our authorities in Wales.

Yna, rydych yn siarad am sefydlu comisiwn staff gwasanaethau cyhoeddus i gynorthwyo yn y broses pontio. Yn amlwg, mae hynny wedi ei gymeradwyo gan TUC Cymru a'r undebau sy'n cynrychioli gweithwyr y sector cyhoeddus, ond rwy'n pryderu mwy am y gweithwyr eu hunain. Sut ydych chi wedi penderfynu pwy sy'n mynd i fod ar y comisiwn hwn?

I leihau nifer y cynghorwyr mewn gwirionedd, bydd yn rhaid i chi weithio, yn amlwg, gyda'r comisiwn ffiniau. Unwaith eto, bydd yn rhaid i chi hollti a newid wardiau erbyn yr adeg hon yn 2015. Rwyf am roi dyfyniad o rai o'r trafodaethau sy'n digwydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i chi. Mae'n nodi yma, ynglŷn â rhai o'r manteision:

Byddai mwy o gyfleoedd i'r cynghorau reoli eu tynged eu hunain ... Byddai un gyfres yn llai o etholiadau yn rhoi mwy o amser a mwy o sefydlogrwydd i gynllunio'r uno.

Yna, mae'n mynd ymlaen i drafod rhai o'r anfanteision:

Byddai gan yr Awdurdod Cysgodol arfaethedig, a fyddai'n cael ei sefydlu ym mis Hydref 2017, dros 100 o gynghorwyr, gyda Chabinet o ddim mwy na 10 Byddai rheoli hyn yn her wirioneddol Pe byddai Sir Ddinbych a Chonwy'n llwyddo i ffraeo yn ystod y broses byddai'r niwed i enw da yn enfawr a byddai diwylliant y cyngor newydd, a fyddai'n cael ei sefydlu ym mis Ebrill ... yn cael cychwyn gwael iawn, heb sôn am yr ymdrech ac arian a wastraffwyd hyd at y pwynt hwnnw.

Yna, mae'n mynd ymlaen i ddweud,

Gall cynllunio ariannol Llywodraeth Cymru ymddangos yn anhrefnus, felly mae'n rhaid bod perygl na fyddai unrhyw addewidion o gyllid a chefnogaeth, a gynigir i annog uno gwirfoddol, yn cael eu hanrhydeddu.

Weinidog, yn amlwg mae gennych gryn dipyn o rwystroau i'w goresgyn, ond byddai o gymorth yma heddiw pe byddech yn ymateb i rai o'r cwestiynau yr wyf yn eu codi'n ddiffuant ar ran ein talwyr treth gyngor gweithgar, ein trigolion a'n staff rheng flaen sy'n gweithio'n galed ledled ein holl awdurdodau yng Nghymru.

15:58

Leighton Andrews [Bywgraffiad Biography](#)

I start by thanking the Conservative spokesperson for her kind remarks at the beginning. She said that local government in Wales was in chaotic disarray, but the structure of local government in Wales was determined by her party some 20 years ago.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i lefarydd y Ceidwadwyr am ei sylwadau caredig ar y dechrau. Dywedodd fod llywodraeth leol yng Nghymru mewn llanast anhrefnus, ond cafodd strwythur llywodraeth leol yng Nghymru ei bennu gan ei phlaid hi tua 20 mlynedd yn ôl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The issue, I think, for leadership in local government at the present time lies with the leaders of the local authorities. They have the opportunity in front of them now to lead by example. I hope that authorities, such as Conwy and Denbighshire, will bring forward proposals for voluntary merger. They have a timescale, as I have said—28 November—for the submission of the expressions of interest, and then final proposals to us in June next year. I think that that gives considerable time for transparency, public scrutiny, debate locally, discussion with the workforce and with trades unions, and every opportunity there to tease out the issues that may be of concern to them.

In respect of the staff commission, as I said, I will bring forward further proposals in relation to that. We have not, at this stage, determined who should sit on that. We have ideas as to the kind of skill sets we need, but we will bring those proposals forward in due course.

The Member asks me to be radical; I am very happy to be radical. [Laughter.]

16:00

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a gaf eich llongyfarch ar ddychwelyd i Lywodraeth, i'r Cabinet, ac ar eich dyrchafu i'r swydd arbennig hon? Gallaf eich sicrhau nad oes fawr o amheuaeth yn y Siambur hon y byddwch yn radical ac y byddwch yn benderfynol.

A gaf ofyn cwestiwn yn gyntaf ichi ynglŷn â'r amserlen rydych wedi'i gosod? Rydych wedi gosod rhyw fath o amserlen i'r cynghorau hynny a fydd yn penderfynu un o'n wirfoddol. Beth am y cynghorau hynny na fydd yn gwneud hynny'n wirfoddol? A oes gennych amcangyfrif o'r math o amserlen a fydd yn wynebu'r cynghorau hynny, a rhyw fath o darged o ran pryd y byddwn yn cyrraedd sefyllfa lle bydd llywodraeth leol wedi ei diwygio'n gyfan gwbl yng Nghymru? Yn y cyd-destun hwnnw, a oes gennych ryw gymaint o bryderon ynglŷn â'r ffaith bod rhai cynghorau'n mynd i symud yn unol ag un drefn amseryddol a chynghorau eraill yn symud yn unol â threfn amseryddol arall?

O ran yr arian a fydd ar gael i gynorthwyo â'r broses hon, er y gellid dadlau yn y pen draw y bydd diwygio trefn llywodraeth leol yng Nghymru yn arwain at arbedion, bydd yn rhaid cael buddsoddiad ariannol yn y lle cyntaf, wrth gwrs, er mwyn sicrhau bod hyn yn mynd yn ei flaen. Rydych wedi dweud y bydd arian ar gael, ond nid ydych wedi cyfeirio at swm o arian. A ydych yn gwbl hyderus y bydd yr arian hwnnw ar gael yn eich cyllideb chi? Roeddech yn ddiweddar yn bryderus iawn ynglŷn â'r rhagolygon o ran toriadau i gyllideb llywodraeth leol, gan gefnogi deiseb a oedd yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod y gyllideb honno'n cael ei diogelu a gwrthwynebu'r toriad o 4.5% a oedd yn cael ei gynnig. A ydych yn dal i gynnal y safbwynt honno ac yn benderfynol o sicrhau na fydd toriad yn y gyllideb a fydd ar gael i lywodraeth leol yng Nghymru?

Mae'r mater, rwy'n meddwl, ar gyfer arweinyddiaeth mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd yn gorwedd gydag arweinwyr yr awdurdodau lleol. Mae'r cyfle o'u blaenau yn awr i arwain drwy esiampl. Rwy'n gobeithio y bydd awdurdodau, megis Conwy a Sir Ddinbych, yn cyflwyno cynigion ar gyfer un o gwirfoddol. Mae ganddynt amserlen, fel yr wyf wedi ei ddweud—28 Tachwedd—ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb, a chynigion terfynol wedyn i ni ym mis Mehefin y flwyddyn nesaf. Credaf fod hynny'n rhoi cryn dipyn o amser ar gyfer tryloywder, craffu cyhoeddus, trafod yn lleol, trafodaeth gyda'r gweithlu a chydag undebau llafur, a phob cyfle drwy hynny i dynnu sylw at y materion a allai fod yn achosi pryder iddynt.

O ran y comisiwn staff, fel y dywedais, byddaf yn cyflwyno cynigion pellach mewn cysylltiad â hynny. Nid ydym, ar hyn o bryd, wedi penderfynu pwy ddylai eistedd arno. Mae gennym syniadau ynghylch y math o setiau sgiliau sydd eu hangen arnom, ond byddwn yn dod â'r cynigion hyn gerbron maes o law.

Mae'r Aelod yn gofyn i mi i fod yn radical; rwy'n hapus iawn i fod yn radical. [Chwerthin.]

Minister, may I congratulate you on your return to Government, to the Cabinet, and on your elevation to this particular role? I can assure you that there is very little doubt in this Chamber that you will be radical and that you will be determined.

May I first ask you a question on the timetable that you have set out? You have set out some sort of timetable for those councils that will decide to merge voluntarily. What about those councils that will not do so voluntarily? Do you have an estimate of the kind of timescale that will face those councils, and some sort of target on when we will get to a position where local government will have been reformed in its entirety in Wales? In that context, do you have any concerns about the fact that some councils will move in accordance with one timetable and that others will adopt an alternative timetable?

In terms of the money that will be available to assist in this process, although it could be argued ultimately that reforming local government in Wales will lead to savings, there will have to be financial investment in the first place, of course, to ensure that this proceeds. You did say that there will be money available, but you did not refer to any particular sum of money. Are you entirely confident that funding will be available in your budget? You recently expressed some concern about forecasts of cuts to local authority budgets, and you supported a petition that called on the Government to ensure that that budget was safeguarded and opposed the proposed cut of 4.5%. Do you still hold that view and are you determined to ensure that there is no cut in the budget available to local government in Wales?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Weinidog, yr hyn sydd yn pryderu llawer o bobl, os ydym yn symud at system dau drac—lle bydd rhai cynghorau yn uno yn wirfoddol, ac eraill, fel y dywedwch, os nad ydynt yn gwneud hynny'n wirfoddol, yn cael eu gorfodi i wneud hynny; neu o leiaf dywedoch y byddant yn uno, yn wirfoddol neu beidio—yw y bydd hynny'n golygu, mewn gwirionedd, ein bod yn cael ein gadael am beth amser gyda threfn sy'n anghybwys yng Nghymru ac y bydd hynny'n arwain at broblemau pellach.

Rydym yn croesawu'r hyn rydym wedi'i glywed gennych y prynhawn yma, ond rydym yn edrych ymlaen at glywed llawer iawn mwy o fanylion a fydd yn rhoi'r darlun cyfan inni ynglŷn â sut yn union y gallwn fynd ati i sicrhau'r gwasaethau mwyaf effeithiol a mwyaf effeithlon i bobl Cymru.

16:04

Leighton Andrews [Bywgraffiad Biography](#)

Dechreuaf drwy ddiolch iddo am ei eiriau caredig.

I look forward to engaging with him on these issues over the next few months.

The issue that he raises about the twin track, as he put it, for mergers has been very clear since the beginning of this process, since the original publication of the Williams commission report, and was confirmed in the White Paper published by my predecessor in the summer. I think that it is very clear that there is an opportunity here for local authorities, with leadership, to move forward on the basis of voluntary merger. We know that some are in active discussions on that and that some have chosen to rule that out, and the consultation on the White Paper is still under way. There are discussions going on within different political parties as to the future structure of local government in Wales. I am not sure that there are many in this Chamber who really think that the current configuration of 22 local authorities in Wales is the perfect one for which they would strive. In the longer term, we will of course be looking to a new map for local government in Wales. There is a map set out with a number of different proposals by the Williams commission.

Our timescale for subsequent mergers, if I can put it like that, will depend on further legislation. We have said in the White Paper and explained that our plan would be to publish a further Bill in due course for discussion—a draft—and for any fundamental legislation to be followed through after the 2016 election. There is a clear timescale here, but there are clear advantages for those authorities that would wish to pursue the voluntary route. In respect of the funding that is available—I am not at all clear what he was referring to in respect of a petition; perhaps he would like to tell me more about that outside the Chamber—yes, I am confident that there will be funding available to assist the process of voluntary mergers. As I said in the statement just now, I hope to be able to say rather more about that once we have published the provisional local government settlement.

Minister, what concerns many people, if we are to move to a two-track system—with some councils merging voluntarily and others, as you say, if they do not do so voluntarily, being required to do so; or at least you said that they will merge, voluntarily or otherwise—is that that will mean, in reality, that we will be left for a lengthy period of time with a system that is imbalanced in Wales, and that that will lead to further problems.

We welcome what we have heard from you this afternoon, but we look forward to hearing far more detail that will give us the whole picture as to how exactly we can ensure that the most effective and most efficient services are in place for the people of Wales.

I begin by thanking him for his kind words.

Rwy'n edrych ymlaen at ymgysylltu ag ef ar y materion hyn yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Mae'r mater y mae'n ei godi am y llwybr dau drac, fel y mae'n ei alw, ar gyfer uno wedi bod yn glir iawn ers dechrau'r broses hon, ers cyhoeddi adroddiad comisiwn Williams gyntaf, ac fe'i cadarnhawyd yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd yn yr haf. Rwy'n meddwl ei bod yn glir iawn bod cyfle yma i awdurdodau lleol, gydag arweiniad, i symud ymlaen ar sail un gwirfoddol. Gwyddom fod rhai yn cynnal trafodaethau gweithredol ar hynny a bod rhai wedi dewis diystyru hynny, ac mae'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn dal i fynd yn ei flaen. Mae trafodaethau yn mynd ymlaen o fewn gwahanol bleidiau gwleidyddol ynghylch strwythur llywodraeth leol yn y dyfodol yng Nghymru. Rwy'n amau bod llawer yn y Siambr hon sydd wir yn credu mai'r cyfluniad presennol o 22 awdurdod lleol yng Nghymru yw'r un perffaith y byddent yn dadlau drosto. Yn y tymor hwy, byddwn wrth gwrs yn edrych ar fap newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Mae map wedi'i nodi gyda nifer o wahanol gynigion gan gomisiwn Williams.

Mae ein hamserlen ar gyfer uno dilynol, os caf ei roi felly, yn dibynnu ar ddeddfwriaeth ychwanegol. Rydym wedi dweud yn y Papur Gwyn ac wedi egluro mai ein cynllun ni fyddai cyhoeddi Bil arall maes o law ar gyfer trafodaeth—drafft—ac i unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei rhoi ar waith ar ôl etholiad 2016. Mae amserlen glir yma, ond mae manteision clir ar gyfer yr awdurdodau hynny a fyddai'n dymuno dilyn y llwybr gwirfoddol. O ran y cyllid sydd ar gael—nid wyf yn glir o gwbl at beth yr oedd yn cyfeirio mewn cysylltiad â deiseb; efallai y byddai'n hoffi dweud mwy wrthyf am hynny y tu allan i'r Siambr—ydw, rwy'n hyderus y bydd arian ar gael i gynorthwyo'r broses o uno gwirfoddol. Fel y dywedais yn y datganiad gynnu, rwy'n gobeithio gallu dweud dipyn mwy am hynny ar ôl i ni gyhoeddi'r setliad llywodraeth leol dros dro.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I formally congratulate you on your return to the ministerial office, Minister. I would welcome a voluntary merger. It would be a great example of what exactly happens. The commission on public service governance believes that the only cost of reorganisation would be the redundancy cost of senior staff, and that that would be paid back within two to three years. My experience of the last local government reorganisation was of huge ICT costs, due to incompatibility and some of the servers not being big enough. I also had experience of staff relocation costs, where staff were moved from one office to another. We have also had job evaluation since then. It is probably true to say that, in most neighbouring authorities, staff doing the same job are paid at different rates. That would also have to be addressed.

In England, job losses at Birmingham council are now expected to exceed the losses from the closure of Longbridge. What is happening in England is an almost complete destruction of local government. I feel very sad for people in England that great services and great councils like Birmingham—. It became a great council under the Conservative administration of the great Joe Chamberlain, who was one of the foremost local government figures of the nineteenth century; he brought about municipal development in Birmingham to make it one of the foremost cities in Britain. The current Conservative Government is in the process of destroying it.

I have three questions for you, Minister. Do you recognise the costs that occurred last time and do you believe they can be ignored or will not exist this time? Secondly, many of the commission's proposals do not require legislation. I think that there are 64 of them and I counted 54 that did not require any legislation at all; I may be wrong. Are you going to publish a programme for how those that do not require legislation are going to be implemented? The third question is: if a merged council exists, will it have exactly the same band D council tax or will it keep the council tax from its predecessor authorities?

Rwy'n eich llongyfarch yn ffurfiol ar ddychwelyd i'r swyddfa weinidogol, Weinidog. Byddwn yn croesawu uno gwirfoddol. Byddai'n enghraifft wych o'r hyn yn union sy'n digwydd. Mae'r comisiwn ar lywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yn credu mai'r unig gost o ad-drefnu fyddai cost diswyddo staff uwch, ac y byddai hynny'n cael ei dalu yn ôl o fewn dwy neu dair blynedd. Fy mhrofiad i o'r ad-drefnu llywodraeth leol diwethaf oedd o gostau TGCh enfawr, o ganlyniad i anghydnawsedd a rhai o'r gweinyddion ddim yn ddigon mawr. Rwyf hefyd wedi cael profiad o gostau adleoli staff, pan fo staff yn cael eu symud o un swyddfa i'r llall. Rydym hefyd wedi cael gwerthuso swyddi ers hynny. Mae'n debyg ei bod yn wir dweud, yn y rhan fwyaf o awdurdodau cyfagos, bod staff sy'n gwneud yr un gwaith yn cael eu talu ar gyfraddau gwahanol. Byddai'n rhaid mynd i'r afael â hynny hefyd.

Yn Lloegr, erbyn hyn mae disgwyl i golledion swyddi yng nghyngor Birmingham fod yn fwy na'r colledion o gau Longbridge. Yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr yw dinistrio llwyr bron ar lywodraeth leol. Rwy'n teimlo'n drist iawn dros bobl yn Lloegr fod gwasanaethau gwych a chynghorau gwych fel Birmingham—. Daeth yn gyngor mawr o dan weinyddiaeth Geidwadol yr anfarwol Joe Chamberlain, a oedd yn un o ffigurau mwyaf blaenllaw llywodraeth leol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; efe a gyflwynodd datblygiad trefol yn Birmingham i'w gwneud yn un o'r dinasoedd mwyaf blaenllaw ym Mhrydain. Mae'r Llywodraeth Geidwadol bresennol yn y broses o'i dinistrio.

Mae gennyf dri chwestiwn i chi, Weinidog. A ydych chi'n cydnabod y costau a ddigwyddodd y tro diwethaf ac a ydych chi'n credu y gellir eu hanwybyddu neu na fyddant yn bodoli y tro hwn? Yn ail, mae llawer o gynigion y comisiwn nad ydynt angen deddfwriaeth. Rwy'n credu bod 64 ohonynt ac rwyf wedi cyfrif 54 nad oedd angen unrhyw ddeddfwriaeth o gwbl; Efallai fy mod yn anghywir. A ydych chi'n mynd i gyhoeddi rhaglen ar gyfer sut y mae'r rhai nad ydynt angen deddfwriaeth yn mynd i gael eu rhoi ar waith? Y trydydd cwestiwn yw: os yw cyngor unedig yn bodoli, a fydd ganddo yn union yr un dreth gyngor band D neu a fydd yn cadw'r dreth gyngor o'r awdurdodau a'i rhagflaenodd?

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I thank my colleague the Member for Swansea East for his kind remarks. He has, throughout this process, been a critical friend of the proposals from the Government. I am well aware of his knowledge of the previous local government reorganisation and his observations on that.

Unwaith eto, rwy'n diolch i fy nghydweithiwr yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe am ei sylwadau caredig. Mae ef, drwy gydol y broses hon, wedi bod yn ffrind beirniadol o'r cynigion gan y Llywodraeth. Rwyf yn ymwybodol iawn o'i wybodaeth am yr ad-drefnu llywodraeth leol blaenorol a'i sylwadau ar hynny.

I think that he would accept, with me, that there are many things that have changed in the world of information and communications technology in the last 20 years, not least the cloud-based systems that allow storage to operate at a much lower cost than was true then. There will, I am sure, be some issues of incompatibility, but some of those issues are not quite the same as they were. Indeed, one of the advantages of new technologies is that they make it easier for local authorities to reduce the need for certain kinds of buildings, to reduce their overall estate costs—as I saw in Monmouthshire yesterday—and the use of technology creatively will, I hope, be a means of reducing some of those costs. Nevertheless, there will be costs, and we need to work through what those are, and he fairly makes the point about job evaluations as well.

He rightly commented on the alarming situation in parts of England in respect of local government. I illustrated in my opening statement how, in Wales, we have sought to protect local government against the worst of the cuts, and have done better, of course, here in Wales than in England. I was interested in his historical exploration of the development of local government in Birmingham. One of the things that I have been looking for in these last 10 days is a useful one-volume history of the development of local government in Wales, but various academics in Cardiff University whom I have consulted tell me that there is no such volume, so this may have to be developed in future. No doubt, we will introduce a new area of academic study as a result of this exercise.

He asked about the commission's proposals that do not depend on legislation. Obviously, the First Minister made a statement overall on the Williams commission proposals in the summer. We are working through, at the moment, those recommendations on a detailed basis, and he is absolutely right to identify that there are a number of proposals within the report—a number of recommendations—that do not require legislation, and I will bring forward, I suspect, a further statement on that in due course. In respect of the impact on council tax, that, of course, is one of the issues that we will need to consider in the context of any incentivisation of voluntary mergers.

16:12

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I also welcome you, Minister, on your return to front-line politics? [Interruption.] Well, your return to the Cabinet, then. It is not yet clear whether your remit for public services involves saving Cardiff City Football Club, but I am sure that you will embrace that if you put your mind to it.

Rwy'n meddwl y byddai'n derbyn, gyda mi, bod llawer o bethau wedi newid ym myd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn yr 20 mlynedd diwethaf, yn enwedig y systemau cwmwl sy'n caniatáu storio i weithredu ar gost llawer is nag oedd yn wir bryd hynny. Fe fydd rwy'n siŵr, rai materion o anghydnawsedd, ond mae rhai o'r materion hynny nad ydynt yn hollol yr un fath ag yr oeddent. Yn wir, un o fanteision technolegau newydd yw eu bod yn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol leihau'r angen am fathau penodol o adeiladau, i leihau eu costau ystâd cyffredinol—fel y gwelais yn Sir Fynwy ddoe—a bydd defnyddio technoleg yn greadigol, rwy'n gobeithio, yn fodd o leihau rhai o'r costau hynny. Serch hynny, bydd costau, ac mae angen i ni weithio drwy beth yw'r rheini, ac mae'n gwneud y pwynt ynghylch gwerthusiadau swyddi yn deg hefyd.

Roedd yn iawn i wneud sylwadau ar y sefyllfa frawychus mewn rhannau o Loegr ynglŷn â llywodraeth leol. Dangosais yn fy natganiad agoriadol sut, yng Nghymru, yr ydym wedi ceisio amddiffyn llywodraeth leol rhag y gwaethaf o'r toriadau, ac wedi gwneud yn well, wrth gwrs, yma yng Nghymru nag yn Lloegr. Roedd gennyf ddiddordeb yn ei archwiliad hanesyddol o ddatblygiad llywodraeth leol yn Birmingham. Un o'r pethau yr wyf wedi bod yn chwilio amdano yn y 10 diwrnod diwethaf yw hanes un-gyfrol defnyddiol o ddatblygiad llywodraeth leol yng Nghymru, ond mae nifer o academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd yr wyf wedi ymgynghori â nhw yn dweud wrthyf nad oes cyfrol o'r fath ar gael, felly efallai y bydd yn rhaid i hyn gael ei ddatblygu yn y dyfodol. Yn ddiaw, byddwn yn cyflwyno maes astudio newydd academiaidd o ganlyniad i'r ymarfer hwn.

Gofynnodd am gynigion y comisiwn nad ydynt yn dibynnu ar deddfwriaeth. Yn amlwg, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad cyffredinol am gynigion comisiwn Williams yn yr haf. Rydym yn gweithio, ar hyn o bryd, drwy'r argymhellion hynny yn fanwl, ac mae'n hollol iawn i nodi bod nifer o gynigion yn yr adroddiad—nifer o argymhellion—nad ydynt angen deddfwriaeth, a byddaf yn cyflwyno, rwy'n credu, datganiad pellach am hynny maes o law. O ran yr effaith ar y dreth gyngor, mae hynny, wrth gwrs, yn un o'r materion y bydd angen i ni eu hystyried yng nghydedstun unrhyw gymell ar uno gwirfoddol.

A gaf innau hefyd eich croesawu chi, Weinidog, ar ddychwelyd i wleidyddiaeth rheng flaen? [Torri ar draws.] Wel, dychwelyd i'r Cabinet, ynteu. Nid yw'n glir eto a yw eich cylch gwaith ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn golygu achub Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, ond rwy'n siŵr y byddwch yn cofleidio hynny, os byddwch yn rhoi eich meddwl ar waith.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have a number of questions on your statement, Minister, in particular around the financial incentive, to which you have referred, and on which you indicated that you will provide more detail once the draft local government settlement has been published. On the source of funding for that financial incentive, is it your intention to top-slice the local government funding settlement revenue support grant, or is there new money available that can be applied to that particular incentive, in terms of encouraging councils to go forward with these voluntary mergers? In particular—I am thinking of Swansea, Powys and Carmarthenshire here, none of which will be able to apply for this incentive because, of course, it is the Government's intention that they do not merge with another authority—will they end up effectively funding the incentive for other councils to merge, or will they have an incentive for carrying on as usual? I think that that is quite an important question, particularly for those three authorities.

In terms of the document that you have published, the 'Invitation to Principal Local Authorities in Wales to Submit Proposals for Voluntary Merger', I am a bit puzzled, in a sense, by the hoops through which these authorities have to jump. As I understand it, the councils applying for voluntary merger will need to effectively put together a business case to the Welsh Government to proceed with that voluntary merger. Given that the mergers that they are being asked to proceed with are ones that have already been set out in the Williams commission report, which the Welsh Government is intending to press ahead with anyway, as part of legislation, presumably in the next Assembly, why is it that the councils then have to make a case to do what you want them to do anyway? If they do not meet the criteria that you set out for voluntary merger, and you reject that case, how do they then get to a state of readiness for the mandatory merger that they will then be required to make after the next Assembly elections? When you come to bring your mandatory mergers forward for those councils that are left, will you carry out a process similar to this for each merger that you will be imposing, to ensure that the same sort of scrutiny being applied to these councils will apply to the Welsh Government proposals after the next Assembly elections?

Mae gennyf nifer o gwestiynau ar eich datganiad, Weinidog, yn enwedig ynghylch y cymhelliad ariannol, yr ydych wedi cyfeirio ato, pan oeddech yn nodi y byddwch yn rhoi mwy o fanylion ar ôl i'r setliad llywodraeth leol drafft gael ei gyhoeddi. Ar y ffynhonnell gyllid ar gyfer y cymhelliad ariannol, a yw'n fwrriad gennych frigidorri grant cynnal reffeniwr setliad cyllid llywodraeth leol, neu a oes arian newydd ar gael y gellir ei gymhwyso i'r cymhelliad penodol hwnnw, o ran annog cynghorau i fynd ymlaen gyda'r uno gwirfoddol hwn? Yn benodol—rwy'n meddwl am Abertawe, Powys a Sir Gaerfyrddin yma, na fydd yr un ohonynt yn gallu gwneud cais am y cymhelliad hwn oherwydd, wrth gwrs, bwriad y Llywodraeth yw nad ydynt yn uno gydag awdurdod arall—a fyddant yn y pen draw i bob pwrpas yn ariannu'r cymhelliad ar gyfer cynghorau eraill i uno, neu a fydd ganddynt gymhelliad i fynd ymlaen fel arfer? Credaf fod hwnnw'n gwestiwn eithaf pwysig, yn enwedig ar gyfer y tri awdurdod hyn.

O ran y ddogfen yr ydych wedi'i chyhoeddi, y 'Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru i Gyflwyno Cynigion ar gyfer Uno Gwirfoddol', rwyf braidd yn ddryslyd, ar ryw ystyr, gan y cylchoedd y mae'n rhaid i'r awdurdodau hyn neidio drwyddynt. Yn ôl a ddeallaf, bydd angen i'r cynghorau sy'n gwneud cais am uno gwirfoddol gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru i fynd ymlaen â'r uno gwirfoddol. O gofio bod yr uno y gofynnir iddynt symud ymlaen ag ef eisoes wedi ei nodi yn adroddiad comisiwn Williams, ac y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen ag ef beth bynnag, yn rhan o ddeddfwriaeth, yn ôl pob tebyg yn y Cynulliad nesaf, pam felly mae'n rhaid i'r cynghorau gyflwyno achos i wneud yr hyn yr ydych chi'n dymuno iddynt ei wneud beth bynnag? Os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yr ydych yn eu pennu ar gyfer uno gwirfoddol, a'ch bod chi'n gwrthod yr achos hwnnw, sut maent wedyn yn cyrraedd cyflwr o fod yn barod ar gyfer yr uno gorfodol y bydd wedyn yn ofynnol iddynt ei wneud ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad? Pan fyddwch yn dod â'ch uno gorfodol ymlaen ar gyfer y cynghorau hynny sydd ar ôl, a fyddwch yn cyflawni proses debyg i hon ar gyfer pob uno y byddwch yn ei fynnu, er mwyn sicrhau bod yr un math o graffu sy'n berthnasol i'r cynghorau hyn yn berthnasol i gynigion Llywodraeth Cymru ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad?

16:15

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I thank the Liberal Democrat spokesperson for his kind remarks. I had not considered that the future of Cardiff City Football Club lay within my portfolio, but I have to say that it is currently under the excellent management capability of Daniel Gabbidon and my constituent, Scott Young, of the Rhondda. I look forward to progress under their leadership.

I start by referring to what the Member asked about—any possible funding for voluntary mergers. He asked whether there would be a top-slice of the local government settlement. It will not surprise him to hear that I will be making no further comments on the funding available to local government until we publish the provisional local government settlement in due course.

Unwaith eto, diolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei sylwadau caredig. Nid oeddwn wedi ystyried bod dyfodol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn rhan o fy mhortffolio, ond mae'n rhaid i mi ddweud ei fod ar hyn o bryd dan allu rheoli ardderchog Daniel Gabbidon a fy etholwr, Scott Young, o'r Rhondda. Rwy'n edrych ymlaen at wella o dan eu harweinyddiaeth.

Dechreuaf drwy gyfeirio at yr hyn y gofynnodd yr Aelod amdano—unrhyw gyllid posibl ar gyfer uno gwirfoddol. Gofynnodd a fyddai brigdorri ar y setliad llywodraeth leol. Ni fydd yn syndod iddo glywed na fyddaf yn gwneud unrhyw sylwadau pellach ar y cyllid sydd ar gael i lywodraeth leol hyd nes y byddwn yn cyhoeddi'r setliad llywodraeth leol dros dro maes o law.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

He asked about the kind of powers that would be necessary to—. Actually, I thought that I had misheard him at one point; I thought that he had said 'the Swansea powers over Carmarthen', but he said 'Swansea, Powys and Carmarthen'. I think that there are a number of issues that we have to work through in respect of a number of different authorities; I do not want to get into the detail of those at this present time.

He says that he is surprised that we are placing what he called hoops in the way of authorities that wish to come forward with voluntary merger proposals. I think that we, of course, have a responsibility to the public in those authorities, and to the staff of those local authorities, to ensure that any merger proposals that are brought forward are viable and that sensible planning has been undertaken.

Of course, as he will appreciate, we are proposing to bring forward legislation in the new year to facilitate the voluntary mergers. The legislation post-election would be in respect of other mergers within local government subsequent to that—what he called mandatory mergers. Clearly, there would need to be proper scrutiny of any proposals that are brought forward. However, at this stage, what I am seeking to do is encourage the leadership of local government to look at the potential that voluntary mergers might have for their authorities and their public.

Gofynnodd am y math o bwerau a fyddai'n angenrheidiol i —. A dweud y gwir, roeddwn yn meddwl fy mod wedi ei gam-glywed ef ar un adeg; roeddwn yn meddwl ei fod wedi dweud 'pwerau Abertawe dros Gaerfyrddin', ond 'Abertawe, Powys a Chaerfyrddin' dywedodd ef. Rwyf yn meddwl bod nifer o faterion y mae'n rhaid inni weithio trwyddynt o ran nifer o wahanol awdurdodau; Dydw i ddim eisiau mynd i mewn i fanylion y rheini ar hyn o bryd.

Dywed ei fod yn synnu ein bod yn gosod yr hyn a elwir yn gylchoedd yn ffordd yr awdurdodau sy'n dymuno cyflwyno cynigion uno gwirfoddol. Credaf, wrth gwrs, bod gennym gyfrifoldeb i'r cyhoedd yn yr awdurdodau hynny, ac i staff yr awdurdodau lleol hynny, i sicrhau bod unrhyw gynigion i uno sy'n cael eu dwyn ymlaen yn hyfyw a bod cynllunio synhwyrol wedi ei wneud.

Wrth gwrs, fel y bydd yn gwerthfawrogi, rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth yn y flwyddyn newydd i hwyluso'r uno gwirfoddol. Byddai'r ddeddfwriaeth ar ôl etholiad ynglŷn ag uno arall o fewn llywodraeth leol ar ôl hynny—yr hyn a alwyd ganddo yn uno gorfodol. Yn amlwg, byddai angen cael craffu priodol ar unrhyw gynigion a gaiff eu cynnig. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, yr hyn yr wyf yn ceisio ei wneud yw annog arweinyddiaeth llywodraeth leol i edrych ar y potensial y gallai uno gwirfoddol ei gael ar gyfer eu hawdurdodau a'u cyhoedd.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have taken the designated time on this, but I am keen to give everyone a chance. There is just one minute now if I call you to put your question. I call on Alun Davies.

Rydym wedi treulio'r amser dynodedig ar hyn, ond rwy'n awyddus i roi cyfle i bawb. Un funud yn unig sydd ar ôl nawr os byddaf yn eich galw i roi eich cwestiwn. Galwaf ar Alun Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:17 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for that welcome. Like others, I congratulate the Minister on his appointment, and I wish him well with his new responsibilities; I am sure that he will be moving forward with due speed.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am y croeso yna. Fel eraill, rwy'n llongyfarch y Gweinidog ar ei benodiad, a dymunaf yn dda iddo gyda'i gyfrifoldebau newydd; rwy'n siŵr y bydd yn symud ymlaen gyda chyflymder dyledus.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

May I press him a little further on the financial package that he has described in terms of incentivising voluntary mergers? Speaking to my own local authority in Blaenau Gwent, I know that it is exploring different options at the moment. However, it needs more certainty about what the financial situation will be and the sort of help and support that the Welsh Government is able to provide for it. It is thinking in terms of anything from redundancy payments through to the equalisation of council tax levels, to ensure that we are able to move forward as speedily as possible with agreed mergers with the minimum of disruption, to enable us to see those savings and the improvement in services that we all want to see. It will be a partnership between individual local authorities and the Welsh Government, and I hope that the Welsh Government will see itself as a positive part of that partnership—providing practical help and support, but also the financial measures that I have outlined.

A gaf fi bwysu arno ychydig ymhellach ar y pecyn ariannol y mae wedi'i ddisgrifio yn nhermau cymell uno gwirfoddol? Wrth siarad â fy awdurdod lleol fy hun ym Mlaenau Gwent, rwy'n gwybod ei fod yn archwilio gwahanol ddewisiadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae angen mwy o sicrwydd arno ynghylch yr hyn fydd y sefyllfa ariannol a'r math o gymorth a chefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn gallu eu darparu ar ei gyfer. Mae'n meddwl yn nhermau unrhyw beth o daliadau diswyddo hyd at gydraddoli lefelau'r dreth gyngor, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu symud ymlaen mor gyflym ag y bo modd gyda'r cyfuniadau y cytunwyd arnynt gyda chyn lleied o darfu â phosibl, i'n galluogi i weld yr arbedion hynny a'r gwelliant mewn gwasanaethau yr ydym i gyd yn dymuno eu gweld. Bydd hon yn bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol unigol a Llywodraeth Cymru, ac rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gweld ei hun fel rhan gadarnhaol o'r bartneriaeth honno—yn darparu cymorth a chefnogaeth ymarferol, ond hefyd y mesurau ariannol yr wyf wedi'u hamlinellu.

- 16:18 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Again, I thank my colleague the Member for Blaenau Gwent for his kind remarks at the outset. I say to him that I met a number of local government leaders in meetings last week and one of those that I met was the leader of his local authority. I understand very well what he says in respect of some of the challenges that leaderships of local authorities will want to see addressed with regard to the incentivisation packages. He has raised a number of challenges that are in our minds, and I would hope to have more to say about that, as I say, after the provisional local government settlement.
- Unwaith eto, rwy'n diolch i fy nghydweithiwr yr Aelod dros Flaenau Gwent am ei sylwadau caredig ar y dechrau. Rwyf yn dweud wrtho fy mod wedi cwrrdd â nifer o arweinwyr llywodraeth leol mewn cyfarfodydd yr wythnos diwethaf ac un o'r rhai a gyfarfûm oedd arweinydd ei awdurdod lleol ef. Rwyf yn deall yn dda iawn yr hyn y mae'n ei ddweud o ran rhai o'r heriau y bydd arweinyddiaeth awdurdodau lleol am eu gweld yn cael sylw o ran y pecynnau cymhelliant. Mae wedi codi nifer o heriau sydd yn ein meddyliau, a byddwn yn gobeithio cael mwy i'w ddweud am hynny, fel y dywedais, ar ôl y setliad llywodraeth leol dros dro.
- 16:19 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, could you enlighten me as to the number of councillors that you intend to have in these new councils? In Conwy and Denbighshire alone, you are going to have over 100. If you have three, will you have a council of 150 members?
- Weinidog, a allech chi fy ngoleuo ynglŷn â nifer y cynghorwyr yr ydych yn bwriadu eu cael yn y cynghorau newydd hyn? Yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn unig, rydych yn mynd i gael dros 100. Os bydd gennych dri, a fydd gennych gyngor o 150 o aelodau?
- 16:19 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I would think that that was unlikely. Certainly, we have given some consideration to this, as you may recall, in the White Paper. We are currently collating the responses to that White Paper and this may be one of the things that we will have more to say about in due course.
- Byddwn yn meddwl bod hynny'n annhebygol. Yn sicr, rydym wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i hyn, fel y byddwn yn cofio efallai, yn y Papur Gwyn. Ar hyn o bryd rydym yn casglu'r ymatebion i'r Papur Gwyn a gall hyn fod yn un o'r pethau y bydd gennym fwy i'w ddweud amdano maes o law.
- 16:20 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Eight years ago, we were told that the proposed police merger would generate savings that would go straight to front-line services. A sub-committee of this Assembly found that, contrary to that, it would have run up significant deficits up to 2012. We know that the WLGA commissioned an independent cost-evaluation of merger and we know that the First Minister announced before recess that the Welsh Government would be carrying out a cost-evaluation of the cost of merger. Therefore, what cost-evaluations have been undertaken, prior to pushing ahead with voluntary or mandatory mergers, given the precedent and given the absence to date of any effective and independent cost-evaluation to establish whether this would generate savings, at a time when we need them, rather than additional costs, when local authorities, as you indicate, are already facing significant cuts?
- Wyth mlynedd yn ôl, dywedwyd wrthym y byddai'r uno heddluoedd arfaethedig yn cynhyrchu arbedion a fyddai'n mynd yn syth i wasanaethau rheng flaen. Canfu is-bwyllgor o'r Cynulliad hwn, yn groes i hynny, y byddai wedi creu diffygion sylweddol hyd at 2012. Rydym yn gwybod bod CLILC wedi comisiynu gwerthusiad cost annibynnol o uno a gwyddom fod y Prif Weinidog wedi cyhoeddi cyn y toriad y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad cost o gost uno. Felly, pa werthusiadau cost sydd wedi eu cynnal, cyn bwrw ymlaen gydag uno gwirfoddol neu orfodol, o ystyried y cynsail ac o ystyried diffyg unrhyw werthuso cost effeithiol ac annibynnol hyd yn hyn er mwyn sefydlu a fyddai hyn yn cynhyrchu arbedion, ar adeg pan ein bod eu hangen, yn hytrach na chostau ychwanegol, pan fo awdurdodau lleol, fel y dywedwch, eisoes yn wynebu toriadau sylweddol?
- 16:21 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As proposals come forward for voluntary merger, costs will be a factor that we will be looking at, and we will need to have regard to the overall financial envelope available to us as we process any further developments on merger, subsequently.
- Wrth i gynigion ddod ymlaen ar gyfer uno gwirfoddol, bydd y costau yn ffactor y byddwn yn edrych arno, a bydd angen i ni roi sylw i'r amlen ariannol cyffredinol sydd ar gael i ni wrth i ni brosesu unrhyw ddatblygiadau pellach ar uno, ar ôl hynny.

16:21

Datganiad: Gwasanaethau Cynghori—Darparu Cefnogaeth Ymarferol i Bobl yr Effeithir Arnynt gan y Camau i Ddiwygio Lles

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Statement: Advice Services— Providing Practical Support to People Affected by Welfare Reform

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:21

Lesley Griffiths

[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

This statement is to update Members on how we are alleviating the effects of welfare reform on individuals and families in Wales through independent and not-for-profit advice services.

In his statement to this Assembly in July, the then Deputy Minister for Tackling Poverty stated that welfare reform is the biggest barrier to tackling poverty here in Wales. I could not agree more. However, my focus today is not on barriers, but on what we do to overcome these challenges.

In the 'Tackling Poverty Action Plan 2012-2016', we talk about the different levers we can use as a Government to help people out of poverty. Advice services are one of those levers, offering a lifeline to so many of our most vulnerable people. As we all know very well, the people most affected by welfare reform are those who were already vulnerable, already stretched and already struggling to make ends meet.

Through the ministerial task and finish group on welfare reform, we commissioned research to better understand how the changes being imposed by Westminster are affecting people here in Wales. Let us remind ourselves of some of the headline findings of this research. The average annual loss per working-age adult in Wales is estimated to be around £500 in 2015-16 alone. Combined with the impact of other changes, losses could be even higher for some people. There is evidence to suggest that such cutbacks in support are making some people, those both in and out of work, more vulnerable to debt and eviction. Other knock-on effects may include shortage of necessities, such as food, heating and electricity, and worsening health problems.

Mae'r datganiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn â sut yr ydym yn lliniaru effeithiau diwygio lles ar unigolion a theuluoedd yng Nghymru trwy wasanaethau cyngor annibynnol a dielw.

Yn ei ddatganiad i'r Cynulliad hwn ym mis Gorffennaf, dywedodd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi ar y pryd mai diwygio lles yw'r rhwystr mwyaf i drechu tlodi yma yng Nghymru. Ni allwn gytuno mwy. Fodd bynnag, nid yw fy mhwyslais heddiw ar rwystrau, ond ar yr hyn yr ydym yn ei wneud i oresgyn yr heriau hyn.

Yn y 'Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi 2012-2016', rydym yn siarad am y gwahanol ddulliau y gallwn eu defnyddio fel Llywodraeth i helpu pobl allan o dlodi. Mae gwasanaethau cynghori yn un o'r dulliau hynny, gan gynnig achubiaeth i gynifer o'n pobl fwyaf agored i niwed. Fel yr ydym i gyd yn gwybod yn dda iawn, y bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan ddiwygio lles yw'r rhai a oedd eisoes yn agored i niwed, a oedd eisoes dan bwysau ac eisoes yn cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd.

Drwy'r grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar ddiwygio lles, rydym yn comisiynu ymchwil i ddeall yn well sut mae'r newidiadau sy'n cael eu gosod gan San Steffan yn effeithio ar bobl yma yng Nghymru. Gadewch inni atgoffa'n hunain o rai o brif ganfyddiadau'r ymchwil hwn. Amcangyfrifir bod y golled flynyddol gyfartalog i bob oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru oddeutu £500 yn 2015-16 yn unig. Ynghyd ag effaith newidiadau eraill, gallai'r colledion fod hyd yn oed yn uwch ar gyfer rhai pobl. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod toriadau o'r fath mewn cymorth yn gwneud rhai pobl, y rhai mewn gwaith ac allan o waith, yn fwy agored i ddyled a chael eu troi allan. Gall sgîl-ffeithiau ar eraill gynnwys prinder angenrheidiau, megis bwyd, gwres a thrydan, a phroblemau iechyd yn gwaethygu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

As a Government, we are committed to supporting free and independent advice services to support these people, as their need for information and advice can only increase. Last week, I issued a written statement announcing a further £2 million to support front-line advice services on some of the very issues that are becoming more common as a result of welfare reform. Advice providers are reporting a spike in demand for advice relating to disability living allowance, personal independence payments and benefit sanctions, for example. We have to ensure that our advice services are in a position to help individuals on all of these issues. It is important that we invest in these services because they can play an important preventative role. Not only are they there to offer support to people when they run into serious difficulty, it is also important that people feel they can turn to these services before things spiral out of control. They are there to empower individuals with the knowledge and information they need to stop situations from reaching breaking point, to make the right decisions for themselves and their families, and to act now with the support of others who will not judge them.

We have learned from Welsh Government commissioned research that the groups more likely to bear the brunt of the changes in the benefits system include people with protected characteristics. Those around the poverty line, non-working lone parents and workless couples with children are also likely to be affected. This view is strongly echoed by the independent advice providers forum and in other reports, for example, the recently published Citizens Advice Cymru report on the impact of welfare reform in Wales.

We need to understand what impact these services are having on people. We are measuring a number of things, including benefit take-up. Raising household income is important as part of our wider efforts to tackle poverty in Wales. A key element of the Better Advice: Better Lives scheme, delivered through Citizens Advice, is to support families with disabled children. In 2013-14, this service helped to support 2,159 families with disabled children, with over £2.9 million in confirmed benefit gains.

In these times of shrinking budgets and severe cuts in funding for advice services, our focus on outcomes must intensify. The Welsh Government has announced a new grant scheme for front-line services this year, aimed at tackling poverty and mitigating the impact of welfare reform and on measuring the difference these services will make in this respect. Through our delivery partners, we will not only know how many people have been helped by these services, we will also have a clearer sense of how these services have increased people's income, the amount of personal debt reduced by these interventions, and the percentage of homelessness cases prevented by these services.

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i gefnogi gwasanaethau cyngor am ddim ac annibynnol i gefnogi'r bobl hyn, gan na all eu hangen am wybodaeth a chyngor wneud dim heblaw cynyddu. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi £2 filiwn ychwanegol i gefnogi gwasanaethau cynghori rheng flaen ar rai o'r union faterion sy'n dod yn fwy cyffredin o ganlyniad i ddiwygio lles. Mae darparwyr cyngor yn adrodd cynnydd sydyn yn y galw am gyngor yn ymwneud â lwfans byw i'r anabl, taliadau annibyniaeth bersonol a chosbau budd-daliadau, er enghraifft. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein gwasanaethau cynghori mewn sefyllfa i gynorthwyo unigolion ar bob un o'r materion hyn. Mae'n bwysig ein bod yn buddsoddi yn y gwasanaethau hyn oherwydd gallant chwarae rhan ataliol bwysig. Nid yn unig y maent yno i gynnig cefnogaeth i bobl pan fyddant yn mynd i drafferthion difrifol, mae hefyd yn bwysig bod pobl yn teimlo y gallant droi at y gwasanaethau hyn cyn i bethau fynd allan o reolaeth. Maent yno i rymuso unigolion gyda'r wybodaeth a'r hysbysrwydd sydd eu hangen arnynt i atal sefyllfaoedd rhag cyrraedd torbwynt, i wneud y penderfyniadau cywir ar eu cyfer nhw eu hunain a'u teuluoedd, ac i weithredu yn awr gyda chefnogaeth eraill na fyddant yn eu barnu.

Rydym wedi dysgu o ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru bod y grwpiau sy'n fwy tebygol o ddwyn baich y newidiadau yn y system fudd-daliadau yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r rhai o gwmpas y llinell dlodi, rhieni unigol nad ydynt yn gweithio a chyplau heb waith â phlant hefyd yn debygol o gael eu heffeithio. Mae'r farn hon yn cael ei hadleisio'n gryf gan y fforwm darparwyr cyngor annibynnol ac mewn adroddiadau eraill, er enghraifft, adroddiad Cyngor ar Bopeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar effaith y diwygiadau lles yng Nghymru.

Mae angen i ni ddeall pa effaith y mae'r gwasanaethau hyn yn ei chael ar bobl. Rydym yn mesur nifer o bethau, gan gynnwys manteisio ar fudd-daliadau. Mae codi incwm y cartref yn bwysig fel rhan o'n hymdrechion ehangach i drechu tlodi yng Nghymru. Elfen allweddol o'r cynllun Cyngor Da: Bywyd Da, a ddarperir drwy Cyngor ar Bopeth, yw cefnogi teuluoedd sydd â phlant anabl. Yn 2013-14, helpodd y gwasanaeth hwn i gefnogi 2,159 o deuluoedd gyda phlant anabl, gyda thros £2.9 mewn enillion budd-dal wedi'u cadarnhau.

Yn y cyfnod hwn o grebachu cyllidebau a'r toriadau difrifol yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori, mae'n rhaid i'n pwyslais ar ganlyniadau ddwysau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun grant newydd ar gyfer gwasanaethau rheng flaen eleni, gyda'r nod o drechu tlodi a lliniaru effaith diwygio lles ac ar fesur y gwahaniaeth y bydd y gwasanaethau hyn yn ei wneud yn hyn o beth. Drwy ein partneriaid cyflenwi, byddwn nid yn unig yn gwybod faint o bobl sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaethau hyn, ond byddwn hefyd yn cael ymdeimlad cliriach o sut y mae'r gwasanaethau hyn wedi cynyddu incwm pobl, swm y ddyled bersonol a gafodd ei lleihau drwy'r ymyraethau hyn, a'r ganran o achosion digartrefedd a ataliwyd gan y gwasanaethau hyn.

As well as the 'what', we need to be mindful of the 'how', because how these services are delivered matters a great deal when we are trying to reach out to people with disabilities and people with particular access needs. A multichannel approach is, therefore, essential, so we are supporting face-to-face advice, telephone advice and home visiting, where required, so that no-one feels excluded from using these services. We are investing significantly in face-to-face advice this financial year because we know that, in this way, we can be more effective in reaching socially and financially excluded people, people with protected characteristics and people with mental health issues. As far as is possible, we will cater for every eventuality and scenario.

Much of what I have talked about relates to the front-line services that we as a Government are committed to supporting, with the aim of offering practical support to people in the face of welfare reform. There is also work afoot to bring about longer term improvements in advice services, stemming from the advice services review and relating to our longer term strategy and vision for advice services in Wales. We need to rethink the way in which these services are planned and delivered in Wales, and we plan to do this by bringing together key players and stakeholders in the form of a national advice network.

Instead of advice delivered in a piecemeal fashion, I am keen to see an advice network develop in Wales that can respond to people's individual needs in an integrated way and guide them towards longer term solutions. This can be achieved through stronger and more effective referral systems and through greater clarity across the sector about quality standards. Sometimes, there will be a role for credit unions as part of the longer term solution, and it is important that we nurture and develop the link between advice providers and credit unions as we go forward. If we can strengthen the connections between different providers and relevant partners in this way, we can enhance the experience of service users and respond quickly to address the underlying and root causes of poverty and financial exclusion.

The Welsh Government is doing all it can to ensure that help is at hand for people who need support with their benefit entitlements, with managing and repaying their debt, or in situations where they may be at risk of losing their home. Our support for advice services is one clear example of how Government can make a real difference to people's lives, at a very practical and personal level.

Yn ogystal â'r 'beth', mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r 'sut', oherwydd mae'r ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu yn bwysig iawn pan ein bod yn ceisio estyn allan at bobl ag anabledau a phobl ag anghenion mynediad penodol. Mae dull aml-sianel, felly, yn hanfodol, felly rydym yn cefnogi cyngor wyneb yn wyneb, cyngor dros y ffôn ac ymweld â'r cartref, pan fo angen, fel nad oes unrhyw un yn teimlo ei fod yn cael ei eithrio rhag defnyddio'r gwasanaethau hyn. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn cyngor wyneb yn wyneb y flwyddyn ariannol hon oherwydd ein bod yn gwybod, drwy wneud hynny, y gallwn ni fod yn fwy effeithiol o ran cyrraedd pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn ariannol, pobl â nodweddion gwarchoddedig a phobl â phroblemau iechyd meddwl. Cyn belled ag y bo'n bosibl, byddwn yn darparu ar gyfer pob posibilrwydd a sefyllfa.

Mae llawer o'r hyn yr wyf wedi sôn amdano yn ymwneud â'r gwasanaethau rheng flaen yr ydym fel Llywodraeth wedi ymrwymo i'w cefnogi, gyda'r nod o gynnis cefnogaeth ymarferol i bobl yn wyneb diwygio lles. Mae gwaith hefyd ar y gweill i sicrhau gwelliannau tymor hwy yn y gwasanaethau cynghori, yn deillio o'r adolygiad o wasanaethau cynghori ac yn ymwneud â'n strategaeth a'n gweledigaeth tymor hwy ar gyfer gwasanaethau cynghori yng Nghymru. Mae angen ailystyried y modd y caiff y gwasanaethau hyn eu cynllunio a'u darparu yng Nghymru, ac rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy ddod â chwaraewyr a rhanddeiliaid allweddol ynghyd ar ffurf rhwydwaith cyngor cenedlaethol.

Yn hytrach na chyngor a ddarperir mewn ffordd dameidiog, rwy'n awyddus i weld rhwydwaith cynghori yn datblygu yng Nghymru a all ymateb i anghenion unigol pobl mewn modd integredig a'u tywys tuag at atebion tymor hwy. Gellir cyflawni hyn drwy systemau atgyfeirio cryfach a mwy effeithiol a thrwy fwy o eglurder ar draws y sector am safonau ansawdd. Weithiau, bydd swyddogaeth i undebau credyd fel rhan o'r ateb tymor hwy, ac mae'n bwysig ein bod yn meithrin a datblygu'r cyswllt rhwng darparwyr cyngor ac undebau credyd wrth inni symud ymlaen. Os gallwn ni gryfhau'r cysylltiadau rhwng gwahanol ddarparwyr a phartneriaid perthnasol yn y modd hwn, gallwn wella profiad defnyddwyr gwasanaethau ac ymateb yn gyflym i fynd i'r afael ag achosion gwaelodol a sylfaenol tldi ac allgáu ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod cymorth wrth law ar gyfer pobl sydd angen cefnogaeth gyda'u hawliau budd-daliadau, gyda rheoli ac ad-dalu eu dyled, neu mewn sefyllfaoedd lle y gallant fod mewn perygl o golli eu cartref. Mae ein cymorth ar gyfer gwasanaethau cynghori yn un enghraifft glir o sut y gall y Llywodraeth wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl, ar lefel ymarferol a phersonol iawn.

Thanks for your statement. Rather than trade statistics, which I could do, over the impact on people's incomes and livelihoods delivered by different Governments, I will focus on the core of the statement. You referred to the written statement that you issued last week, announcing funding to support front-line advice services, and particularly £1.3 million for Citizens Advice Cymru and Shelter Cymru to deliver specialist advice on welfare benefits, housing and debt. Clearly, these are both excellent organisations with a wide reach, reaching into virtually every community in Wales and beyond.

You also said that, instead of advice delivered in a piecemeal fashion, you are keen to see an advice network develop in Wales that can respond to people's individual needs in an integrated way. What discussions, therefore, have you had with AdviceUK, the UK's largest support network for free, independent advice centres, which has 24 member organisations in Wales? I declare that two of my daughters work for one of those social enterprises. It says that it has worked with the Welsh Government on proposals arising from the recommendations in the Welsh Government's advice services review, but none of the members is listed as having received any funding in this statement, despite the fact that many of them are highly efficient and are very quick to provide a very person-centred service in terms of debt and welfare advice, especially in an emergency when someone may be facing court proceedings or other desperate timelines. The bodies that you have commissioned may have long waiting lists that prevent that sort of immediacy in delivery.

One of the key issues, as you know, relating to welfare and unemployment is disability. The Access to Work scheme provides practical help for disabled people in employment. It is a UK Government scheme under past and present Governments, so this is not a party political point. What engagement has the Welsh Government had with the current Department for Work and Pensions' internal review of Access to Work? It says that it is speaking to stakeholders and has held focus meetings in London, Sheffield and Wales. It is also contributing to the Work and Pensions Committee's inquiry into Access to Work, which has been running in parallel, and which is partly in response. Again, I declare that one of my daughters has made a submission to the inquiry, which has been accepted, and, I believe, has been published, because of her reliance on Access to Work to enable her to pursue her professional career.

Diolch am eich datganiad. Yn hytrach na chyfnewid ystadegau, y gallwn ei wneud, dros yr effaith ar incwm a bywoliaeth pobl a ddarperir gan wahanol Lywodraethau, rwyf am ganolbwyntio ar galon y datganiad. Cyfeiriasoch at y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gennych yr wythnos diwethaf, yn cyhoeddi cyllid i gefnogi gwasanaethau cynghori rheng flaen, ac yn enwedig y £1.3 miliwn i Gyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru i ddarparu cyngor arbenigol ar fudd-daliadau lles, tai a dyled. Yn amlwg, mae'r rhain yn ddau sefydliad rhagorol gyda chyrhaeddiad eang, gan gyrraedd i mewn i bron pob cymuned yng Nghymru a thu hwnt.

Dywedasoch hefyd, yn hytrach na chynghor a ddarperir mewn ffordd dameidiog, eich bod yn awyddus i weld rhwydwaith cynghori yn datblygu yng Nghymru a all ymateb i anghenion unigol pobl mewn ffordd integredig. Pa drafodaethau, felly, yr ydych wedi'u cael gydag AdviceUK, rhwydwaith cymorth mwyaf y DU ar gyfer canolfannau cyngor am ddim, annibynnol, sydd â 24 o sefydliadau sy'n aelodau yng Nghymru? Rwy'n datgan bod gennyf ddwy ferch yn gweithio i un o'r mentrau cymdeithasol hynny. Mae'n dweud ei fod wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynigion sy'n codi o'r argymhellion yn adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau cynghori, ond nid oes yr un o'r aelodau wedi ei restru fel un sydd wedi derbyn unrhyw arian yn y datganiad hwn, er gwaethaf y ffaith fod llawer ohonynt yn hynod effeithlon ac maent yn gyflym iawn i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran dyled a chynghor lles, yn enwedig mewn argyfwng pryd y gall rhywun fod yn wynebu achos llys neu amserlenni anobeithiol arall. Efallai y bydd gan y cyrff yr ydych wedi'u comisiynu restrau aros hir sy'n atal y math hwnnw o unioingrchedd mewn cyflwyno.

Un o'r materion allweddol, fel y gwyddoch, yn ymwneud â lles a diweithdra yw anabledd. Mae'r cynllun Mynediad at Waith yn rhoi cymorth ymarferol i bobl anabl mewn cyflogaeth. Cynllun Llywodraeth y DU o dan Lywodraethau yn y gorffennol a'r presennol yw hwn, felly nid yw hyn yn bwynt gwleidyddol plaid. Pa gysylltiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael gydag adolygiad mewnol yr Adran Gwaith a Phensiynau cyfredol o 'Mynediad at Waith? Mae'n dweud ei fod yn siarad â rhanddeiliaid ac wedi cynnal cyfarfodydd ffocws yn Llundain, Sheffield a Chymru. Mae hefyd yn cyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau i Mynediad at Waith, sydd wedi bod yn rhedeg yn gyfochrog, ac sydd yn rhannol mewn ymateb. Unwaith eto, rwy'n datgan bod un o fy merched wedi gwneud cyflwyniad i'r ymchwiliad, sydd wedi ei dderbyn, ac, rwy'n credu, wedi ei gyhoeddi, oherwydd ei dibyniaeth ar Fynediad i Waith i'w galluogi i ddilyn ei gyrfa broffesiynol.

Reference was made earlier today to universal credit, the new welfare scheme that is being rolled out in Shotton in Wales. As yet, we do not have much data on it on which to base people's subjective opinions. I have a meeting with them, together with the Your Benefits Are Changing campaign, Community Housing Cymru, housing association representatives and the DWP, to discuss what has happened since the implementation of universal credit on a pilot basis, to see whether people are better off, how many people are being helped, and so on. What engagement is the Welsh Government having to ensure that its position on this is dictated entirely by the facts, rather than by people's perceptions, and, perhaps in some cases, your own dogmas?

As a final related point, again on disability, I chaired, as I mentioned earlier in questions, a meeting of the Assembly cross-party group on disability in north Wales earlier this month. Speakers included the DWP partnership manager Wales, a district manager for north and mid Wales and the Remploy employment services director for Wales, as well as Denbighshire County Council's corporate equalities officer. This was not a political gathering; it involved disabled people and organisations representing them, and organisations delivering services. They detailed a range of disability employment services available through them, and that Remploy helped 3,800 people back into work in Wales last year through its 15 branches. Given that these schemes are in place in Wales already, partly using devolved agencies and resources and partly using non-devolved agencies and resources, could you tell us how, in order to tackle the welfare agenda, you are working with these schemes so that we may be better advised as to the basis on which you are making your decisions about them?

Cyfeiriwyd yn gynharach heddiw at gredyd cynhwysol, y cynllun lles newydd sy'n cael ei gyflwyno yn Shotton yng Nghymru. Hyd yn hyn, nid oes gennym fawr o ddata i seilio barn oddrychol pobl arno. Mae gen i gyfarfod â hwy, ynghyd â'r ymgyrch Mae Eich Buddion yn Newid, Cartrefi Cymunedol Cymru, cynrychiolwyr cymdeithasau tai a'r Adran Gwaith a Phensiynau, i drafod yr hyn sydd wedi digwydd ers gweithredu'r credyd cynhwysol ar sail arbrofol, i weld a yw pobl yn well eu byd, faint o bobl sy'n cael cymorth, ac yn y blaen. Pa gysylltiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael i sicrhau bod ei safbwynt ar hyn yn cael ei bennu yn gyfan gwbl gan y ffeithiau, yn hytrach na chan ganfyddiadau pobl, ac, efallai, mewn rhai achosion, eich credoau eich hun?

Fel pwynt cysylltiedig olaf, unwaith eto ar anabledd, cadeiriais, fel y soniais yn gynharach yn ystod cwestiynau, gyfarfod o grŵp trawsbleidiol y Cynulliad ar anabledd yng ngogledd Cymru yn gynharach y mis hwn. Ymhlith y siaradwyr roedd rheolwr partneriaeth Adran Gwaith a Phensiynau Cymru, rheolwr ardal ar gyfer gogledd a chanolbarth Cymru a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cyflogaeth Remploy i Gymru, yn ogystal â swyddog cydraddoldeb corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych. Nid cyfarfod gwleidyddol oedd hwn; roedd yn cynnwys pobl anabl a sefydliadau sy'n eu cynrychioli, a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau. Roeddent yn manylu amrywiaeth o wasanaethau gwaith i'r anabl sydd ar gael drwydynt, a bod Remploy wedi helpu 3,800 o bobl yn ôl i'r gwaith yng Nghymru y llynedd trwy ei 15 o ganghennau. O ystyried bod y cynlluniau hyn wedi'u sefydlu yng Nghymru eisoes, yn rhannol drwy ddefnyddio asiantaethau ac adnoddau datganoledig ac yn rhannol gan ddefnyddio asiantaethau ac adnoddau sydd heb eu datganoli, a allech chi ddweud wrthym sut, er mwyn mynd i'r afael â'r agenda les, yr ydych chi'n gweithio gyda'r cynlluniau hyn er mwyn i ni gael ein cynghori yn well o ran y sail yr ydych yn gwneud eich penderfyniadau yn eu cylch?

16:33

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mark Isherwood for his questions. You referred to any discussions that I had had with AdviceUK, and, from your question, I assumed that it had applied for funding from the specific grant that we are referring to today. Clearly, it is my second week in this job, and I have not had specific discussions with AdviceUK, if it did apply for the grant funding; obviously, as I have picked up this portfolio, I am aware of the organisations that have received the grant funding. It was a pot of money that my predecessor brought forward of £2 million. There were very strict eligibility and appraisal criteria published. I know that the applications put in for the grant were more than double what the fund was; they were more than £4.5 million. There were, I think, 36 applications, of which five were successful. So, if AdviceUK did apply for funding and it was not successful, it will have been done based on very strict criteria and, obviously, not everybody who applied could have the funding.

Diolch i Mark Isherwood am ei gwestiynau. Cyfeiriasoch at unrhyw drafodaethau yr wyf wedi'u cael gydag AdviceUK, ac, o'ch cwestiwn, roeddwn yn tybio ei fod wedi gwneud cais am gyllid gan y grant penodol yr ydym yn cyfeirio ato heddiw. Yn amlwg, hon yw fy ail wythnos yn y swydd hon, ac nid wyf wedi cael trafodaethau penodol gydag AdviceUK, os gwnaeth gais am y cyllid grant; yn amlwg, gan fy mod wedi codi'r portffolio hwn, rwy'n ymwybodol o'r sefydliadau sydd wedi derbyn yr arian grant. Roedd hwn yn bot o arian o £2 filiwn a ddygwyd ymlaen gan fy rhagflaenydd. Roedd meini prawf cymhwysu a gwerthuso llym iawn wedi'u cyhoeddi. Rwy'n gwybod bod y ceisiadau a roddwyd i mewn ar gyfer y grant yn fwy na dwbl beth oedd y gronfa; roeddent yn fwy na £4.5 miliwn. Roedd, rwy'n meddwl, 36 o geisiadau, ac roedd pump ohonynt yn llwyddiannus. Felly, os gwnaeth AdviceUK gais am gyllid ac nid oedd yn llwyddiannus, bydd wedi cael ei wneud yn seiliedig ar feini prawf llym iawn ac, yn amlwg, nid oedd pawb a wnaeth gais yn gallu cael y cyllid.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You asked about what work is being undertaken and what discussions there have been with the DWP. My officials obviously work very closely with the DWP and one thing that we did as a Welsh Government to mitigate as best we could the impact of welfare reform, and in order that we as Ministers could learn about it, was to set up the ministerial task and finish group on welfare reform, which Jeff Cuthbert, my predecessor, chaired. There were six Ministers attending those meetings so you can see that it was extremely high level, and it is very important for us as Ministers to understand the impact that welfare reform is having on individuals in Wales. You then referred to the pilot scheme that is being carried out in Carl Sargeant's constituency in Shotton. We are having regular reports regarding this at that meeting. I am not quite sure of the date of the next meeting, but, certainly, we are going to continue that because I think that it is very important that we discuss what is going on. You referred to my dogma; well, I would refer to your and your party's ideology on that subject.

In relation to your cross-party group, as you say, it is very good to bring people together, including, obviously, people such as disabled people who have those protected characteristics. It is very important that they are able to access our advice services. The grants that have been given out have looked very carefully at what support we can give to people, such as disabled people, with protected characteristics. I know that there is a specific element within the Better Advice Better Lives scheme I mentioned, which is aimed at supporting families with disabled children, for instance. At the other end of the age range, we support Age Cymru in this respect also.

Holasoch am ba waith sy'n cael ei wneud a pha drafodaethau a fu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae fy swyddogion yn amlwg yn gweithio'n agos iawn gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac un peth a wnaethom fel Llywodraeth Cymru i liniaru effaith diwygio lles yn y modd gorau y gallem, ac er mwyn i ni fel Gweinidogion allu dysgu am hynny, oedd sefydlu'r grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar ddiwygio lles, dan gadeiryddiaeth fy rhagflaenydd, Jeff Cuthbert. Roedd chwe Gweinidog yn mynychu'r cyfarfodydd hynny felly gallwch weld ei fod ar lefel uchel iawn, ac mae'n bwysig iawn i ni fel Gweinidogion i ddeall yr effaith y mae diwygio lles yn ei chael ar unigolion yng Nghymru. Yna cyfeiriasoch chi at y cynllun arbrofol sy'n cael ei wneud yn etholaeth Carl Sargeant yn Shotton. Rydym yn cael adroddiadau rheolaidd ynglŷn â hyn yn y cyfarfod hwnnw. Nid wyf yn hollol siŵr o ddyddiad y cyfarfod nesaf, ond, yn sicr, rydym yn mynd i barhau hynny gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn trafod yr hyn sy'n digwydd. Cyfeiriasoch at fy nghredo; wel, byddwn yn cyfeirio at eich ideoleg chi a'ch plaid ar y pwnc hwnnw.

Mewn cysylltiad â'ch grŵp trawsbleidiol, fel y dywedwch, mae'n dda iawn i ddod â phobl at ei gilydd, gan gynnwys, yn amlwg, pobl fel pobl anabl sydd â'r nodweddion gwarchoddedig hynny. Mae'n bwysig iawn eu bod yn gallu cael gafael ar ein gwasanaethau cynghori. Mae'r grantiau sydd wedi eu dosbarthu wedi edrych yn ofalus iawn ar ba gefnogaeth y gallwn ei rhoi i bobl, fel pobl anabl, sydd â nodweddion gwarchoddedig. Gwn fod elfen benodol o fewn y cynllun Cyngor Da Bywyd Da y soniais amdano, sydd â'r nod o gefnogi teuluoedd sydd â phlant anabl, er enghraifft. Ar ben arall yr ystod oedran, rydym yn cefnogi Age Cymru yn hyn o beth hefyd.

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a gaf ddechrau drwy ddymino'n dda i chi wrth i chi ymgymryd â'ch dyletswyddau newydd o fewn y Llywodraeth? A gaf groesawu hefyd y datganiad hwn y prynhawn yma? Rydym i gyd yn gwybod bod unigolion a theuluoedd yng Nghymru fydd yn wynebu sefyllfaoedd ansicr a phryderus iawn, ac argyfyngus yn hanes rhai ohonynt, ac mae'n dda bod asiantaethau ar gael i sicrhau eu bod yn derbyn y cyngor gorau yn y sefyllfaoedd hyn. A gaf ofyn ddau gwestiwn i chi? Rydych yn sôn ar y naill law am bartneriaid fydd yn darparu'r gwasanaethau hyn, ac, ar y llaw arall, am wasanaeth integredig. A ydych yn gallu gwarantu bod gwasanaeth fydd yn cael ei ddarparu drwy bartneriaid yn mynd i fod yn integredig a sut yn union ydych yn mynd i sicrhau hynny? Rydych wedi cyfeirio at rai o'r partneriaid hyn—pobl fel Cyngor ar Bopeth a Shelter Cymru—ac rydym yn gwybod bod y rhain yn asiantaethau sydd â phrofiad eang yn y meysydd lle maent yn cynnig cyngor, ac fe allwn fod yn sicr eu bod yn cynnig y cyngor gorau. Fodd bynnag, yn y gorffennol, mae achosion wedi bod lle nad yw'r cyngor y mae pobl sydd yn wynebu sefyllfaoedd anodd yn ei dderbyn y cyngor gorau, ac y gall hynny arwain at sefyllfa lle mae amgylchiadau'r bobl hynny yn gwaethygu, yn hytrach na gwella. Pa sicrwydd a ydych yn gallu rhoi i ni y bydd yr holl bartneriaid hyn yr ydych yn mynd i'w defnyddio wedi eu gwirio yn gywir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynnig y wybodaeth gywir, bod ganddynt y bobl sydd â'r profiad a'r hyfforddiant i sicrhau hynny, a phe bai achos yn codi lle byddant wedi camarwain pobl, bod modd i'r bobl hynny gael iawndal os ydynt wedi cael eu harwain ar gyfeiliorn drwy gam-gyngor gan rai o'r partneriaid hyn sydd yn darparu'r gwasanaethau hyn ar ran Llywodraeth Cymru? Rwy'n croesawu'r datganiad a hoffwn gael mwy o sicrwydd ynglŷn â sut yn union yr ydych yn mynd i sicrhau'r fath o ddarpariaeth sydd yn angenrheidiol a'i bod o'r safon uchaf.

Minister, may I start by wishing you well as you undertake your new duties within the Government? May I welcome also the statement this afternoon? We all know that there are individuals and families in Wales who are going to be facing situations that are uncertain and very worrying, and emergency situations in the case of some, and it is good that there are agencies available to ensure that they receive the best advice in these situations. May I ask you two questions? You mention on one hand that partners will be providing these services, and, on the other hand, talk about an integrated service. Can you guarantee that a service provided through partners will be integrated, and how exactly are you going to ensure that? You have referred to some of these partners—people such as Citizens Advice and Shelter Cymru—and we know that these are agencies that have wide experience in the fields in which they offer advice, and we can be sure that they are providing the best advice. However, in the past, there have been cases where the advice that people facing difficult situations have had has not been the best advice, and that can lead to a situation where people's circumstances get worse rather than improve. What assurances can you give that all of these partners you are going to use will be checked correctly in order to ensure that they can provide the correct information, that they have the people with the experience and training to ensure that, and that, if an occasion were to arise where they had misled people, those people could have redress if they had been led astray by poor advice from some of these partners who provide these services on behalf of the Welsh Government? I do welcome this statement and I would like to have more assurances about how exactly you are going to ensure the kind of provision that is essential and that it is of the highest standard.

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Rhodri Glyn Thomas, and thank you for your kind words at the beginning. I think that you raise a very important point about ensuring that, when somebody goes for advice, they get the very best possible advice that they can. It is important that people who give that advice are trained in that particular situation. Part of the criteria, looking at the grants that were being awarded from this pot of money, was aimed at that also.

Diolch, Rhodri Glyn Thomas, a diolch i chi am eich geiriau caredig ar y dechrau. Rwy'n meddwl eich bod yn codi pwynt pwysig iawn ynghylch sicrhau, pan fydd rhywun yn mynd i gael cyngor, eu bod yn cael y cyngor gorau posibl y gallant. Mae'n bwysig bod pobl sy'n rhoi'r cyngor yn cael eu hyfforddi yn y sefyllfa benodol honno. Roedd rhan o'r meini prawf, gan edrych ar y grantiau a oedd yn cael eu dyfarnu o'r gronfa hon o arian, yn targedu hynny hefyd.

Clearly, from the advice service review that my predecessor set up, one of the recommendations was that we have this national advice network. I think what that will do is set a direction for implementing some of the longer term change that, I think, is required.

Yn amlwg, o'r adolygiad gwasanaethau cynghori a sefydlodd fy rhagflaenydd, un o'r argymhellion oedd bod gennym y rhwydwaith cyngor cenedlaethol hwn. Rwy'n credu mai'r hyn a fydd hwnnw'n ei wneud fydd gosod cyfeiriad ar gyfer gweithredu rhai o'r newidiadau tymor hwy hynny, sydd, rwy'n meddwl, yn ofynnol.

One of the things that I think we need to do is look at where there are gaps in provision. I am sure that, if you look, you will see that we have tried with the grants to have a geographical spread to make sure that it is not just urban areas that got funding, but that rural areas got it too, but we need to look to see whether there are any gaps. Sharing good practice, I think, is really important—that we are able to look at where good practice is and that we can roll that out across Wales. I think we need to look at opportunities to see whether we can access new funding for streamlined services and for looking at further ideas of bringing forward preventative approaches. As I said in my opening statement, I think it is really important that people can go to these advice services before there is a crisis. I think it is important that we can use it as a preventative approach.

I am taking steps to appoint an independent chair to help steer the work of the network. That is in the very early stages at the moment, but I think they will be able to evaluate the effectiveness of the advice being provided through these services and also see what value is being added, because I think it is important that we know that too.

16:41

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for her statement. I am sure, Minister, you will agree with me that there is nothing to do with dogma in any of the policies or programmes that the Welsh Government is leading on. They are based on cold, hard facts. We know from our own constituents how many of them are being affected in a very cold and hard way. Indeed, this has been reinforced by the recent report from Sheffield Hallam University, and the earlier one from the Institute for Fiscal Studies, which showed that the impact on families across Wales in total will exceed £900 million per annum. That, of course, will have a knock-on effect on the Welsh economy as people's spending power is reduced and, undoubtedly, could well lead to job losses in the private sector, thereby increasing the very problem that we are trying to mitigate.

So, do you agree with me, Minister, that all of these studies show that the priorities of the UK Government are wrong? They are attacking some of the most vulnerable people and it is really important that we in Wales do all that we can to mitigate the worst effects by continuing to support independent advice services. As you say, these will be enhanced by a national network and quality standards to ensure that there is equal provision across Wales and support for the absolute safety net of the discretionary assistance fund and the work that that is doing at the moment, and indeed, welcome the advice services provided by credit unions, as you have said.

Finally, do you agree with me that, in this digital age, it is very important that we make sure that we do all that we can to reduce digital exclusion so that people are able to access advice and services over the internet? That is why the work of Communities 2.0 is particularly important.

Un o'r pethau rwy'n meddwl y mae angen i ni ei wneud yw edrych ar lle mae bylchau yn y ddarpariaeth. Rwy'n siŵr, os byddwch yn edrych, fe welwch ein bod wedi ceisio gyda'r grantiau i gael lledaeniad daearyddol er mwyn sicrhau nad ardaloedd trefol yn unig a gafodd arian, ond bod ardaloedd gwledig wedi ei gael hefyd, ond mae angen i ni edrych i weld a oes unrhyw fylchau. Mae rhannu arfer da, rwy'n meddwl, yn bwysig iawn—ein bod yn gallu edrych ar lle mae arfer da ac y gallwn gyflwyno hynny ledled Cymru. Rwy'n credu bod angen inni edrych ar gyfleoedd i weld a allwn ni gael gafael ar gyllid newydd ar gyfer gwasanaethau symlach ac i edrych ar syniadau eraill o gyflwyno ymagweddau ataliol. Fel y dywedais yn fy natganiad agoriadol, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod pobl yn gallu mynd at y gwasanaethau cynghori hyn cyn bod argyfwng. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn gallu ei ddefnyddio fel dull ataliol.

Rwy'n cymryd camau i benodi cadeirydd annibynnol i helpu i lywio gwaith y rhwydwaith. Mae hynny yn y camau cynnar iawn ar hyn o bryd, ond rwy'n meddwl y byddant yn gallu gwerthuso effeithiolrwydd y cyngor sy'n cael ei ddarparu drwy'r gwasanaethau hyn a hefyd gweld pa werth sy'n cael ei ychwanegu, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig ein bod ninnau'n gwybod hynny hefyd.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Rwy'n siŵr, Weinidog, y byddwch chi'n cytuno â mi nad oes unrhyw beth i'w wneud â chredo yn unrhyw un o'r polisiau na'r rhaglenni y mae Llywodraeth Cymru yn arwain arnynt. Maent yn seiliedig ar ffeithiau oer, caled. Gwyddom o'n hetholwyr ein hunain faint ohonynt sy'n cael eu heffeithio mewn ffordd oer a chaled iawn. Yn wir, mae hyn wedi cael ei atgyfnerthu gan yr adroddiad diweddar gan Brifysgol Sheffield Hallam, a'r un cynharach gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, a oedd yn dangos y bydd yr effaith ar deuluoedd ledled Cymru mewn cyfanswm yn fwy na £900 miliwn y flwyddyn. Bydd hynny, wrth gwrs, yn cael effaith ganlyniadol ar economi Cymru fel y mae grym gwario pobl yn cael ei leihau ac, yn ddi-os, gallai hefyd arwain at golli swyddi yn y sector preifat, a thrwy hynny gynyddu'r union broblem yr ydym yn ceisio ei lliniaru.

Felly, a ydych chi'n cytuno â mi, Weinidog, bod pob un o'r astudiaethau hyn yn dangos bod blaenoriaethau Llywodraeth y DU yn anghywir? Maent yn ymosod ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed ac mae'n bwysig iawn ein bod ni yng Nghymru yn gwneud popeth y gallwn i liniaru'r effeithiau gwaethaf drwy barhau i gefnogi gwasanaethau cynghori annibynnol. Fel y dywedwch, bydd y rhain yn cael eu gwella gan rwydwaith cenedlaethol a safonau ansawdd er mwyn sicrhau bod darpariaeth gyfartal ledled Cymru a chefnogaeth i rwyd ddiogelwch absoliwt y gronfa gymorth dewisol a'r gwaith y mae hynny'n ei wneud ar hyn o bryd, ac yn wir, yn croesawu'r gwasanaethau cynghori a ddarperir gan undebau credyd, fel yr ydych wedi'i ddweud.

Yn olaf, a ydych chi'n cytuno â mi, yn yr oes ddigidol hon, ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i leihau allgáu digidol fel bod pobl yn gallu cael gafael ar gyngor a gwasanaethau dros y rhyngwyd? Dyna pam mae'r gwaith Cymunedau 2.0 yn arbennig o bwysig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I thank Jeff Cuthbert for those questions and I pay tribute to the work that Jeff has done in this area previously.

You are quite right: if Welsh Government dogma means helping our most vulnerable people, then are we not proud to be part of that Government and that party? We are doing all that we can to mitigate the impact of welfare reform. We are not just providing advice services. We have provided £20 million in funding to support the building of one and two-bedroomed affordable homes, for instance, across Wales, because we know that the UK Government has just carried on regardless of the difficulties with the awful bedroom tax.

The point that you make about credit unions is very pertinent. We are coming up to international credit union day and we cannot underestimate the good work that credit unions do.

The digital exclusion question is also very important. That is why, again, it is vital that advice services are provided in a variety of ways: we can work face to face, or via the internet for those people who are digitally included, and you can have telephone conversations, or house visits. I think that, as you can see, more of our public, or local government, services are going digital now, and it is very important that we do all we can. Certainly, I am keen to pursue the Communities 2.0 programme as we go forward.

Ydw. Diolch i Jeff Cuthbert am y cwestiynau yna ac rwy'n talu teyrnged i'r gwaith y mae Jeff wedi ei wneud yn y maes hwn o'r blaen.

Rydych yn llygad eich lle: os yw credo Llywodraeth Cymru yn golygu helpu ein pobl fwyaf agored i niwed, yna onid ydym yn falch o fod yn rhan o'r Llywodraeth a'r blaid honno? Rydym yn gwneud popeth y gallwn i liniaru effaith diwygio lles. Nid darparu gwasanaethau cynghori yn unig yr ydym. Rydym wedi darparu £20 miliwn mewn arian i gefnogi adeiladu cartrefi fforddiadwy un a dwy ystafell wely, er enghraifft, ym mhob rhan o Gymru, oherwydd gwyddom fod Llywodraeth y DU wedi bwrw ymlaen heb ystyried yr anawsterau gyda'r dreth ystafell wely ofnadwy.

Mae'r pwynt a wneuch am undebau credyd yn berthnasol iawn. Rydym yn agosáu at ddydd undeb credyd rhyngwladol ac ni allwn danbriso'r gwaith da y mae undebau credyd yn ei wneud.

Mae'r cwestiwn o allgáu digidol hefyd yn bwysig iawn. Dyna pam, eto, mae'n hanfodol bod gwasanaethau cynghori yn cael eu darparu mewn amrywiaeth o ffyrdd: gallwn weithio wyneb yn wyneb, neu dros y rhyngwyd ar gyfer y bobl hynny sydd wedi'u cynnwys yn ddigidol, a gallwch gael sgysiau dros y ffôn, neu ymweliadau â'ch tŷ. Credaf, fel y gwelwch, fod mwy o'n gwasanaethau cyhoeddus, neu lywodraeth leol, yn mynd yn ddigidol erbyn hyn, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu. Yn sicr, rwy'n awyddus i fynd ar drywydd y rhaglen Cymunedau 2.0 wrth inni symud ymlaen.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I welcome the statement, Minister? I think that the advice services that are in place are absolutely vital, particularly given the commitment in the Labour conference this week that Labour will continue with welfare reform, with the exception, of course, of the bedroom tax. Therefore, the impact of a lot of the reforms that are in place will continue past the next general election, irrespective of who wins it.

Minister, in relation to the national advice network, I am very intrigued by this concept and very pleased to see that this sort of co-ordination is being put in place. Can I ask you for some more details in terms of the sort of programme of work that this network is going to have, its membership and the sort of timetable that it will be working to? Will you be looking to streamline, co-ordinate or better organise advice services across Wales? You have already talked about ensuring that there is a diverse offering of advice services, so how does that fit into the idea of a network that is going to bring those advice services together? How will you ensure that this network will create those diverse services without having any overlap in terms of the provision? What sort of funding will the advice network have to deliver the sort of work that you envisage it doing?

A gaf i groesawu'r datganiad, Weinidog? Rwy'n meddwl bod y gwasanaethau cynghori sydd ar waith yn gwbl hanfodol, yn enwedig o ystyried yr ymrwymiad yng nghynhadledd y Blaid Lafur yr wythnos hon y bydd Llafur yn parhau gyda diwygio lles, ac eithrio, wrth gwrs, y dreth ystafell wely. Felly, bydd effaith llawer o'r diwygiadau sydd wedi eu sefydlu yn parhau y tu draw i'r etholiad cyffredinol nesaf, ni waeth pwy fydd yn ei ennill.

Weinidog, o ran y rhwydwaith cyngor cenedlaethol, rwy'n chwilfrydig iawn ynghylch y cysyniad hwn ac yn falch iawn o weld bod y math hwn o gydgyssylltu yn cael ei roi ar waith. A gaf i ofyn i chi am ychydig mwy o fanylion o ran y math o raglen waith y bydd gan y rhwydwaith hwn, ei aelodaeth a'r math o amserlen y bydd yn gweithio iddi? A fyddwch yn ceisio symleiddio, cydgysylltu neu drefnu gwasanaethau cynghori yn well ar draws Cymru? Rydych eisoes wedi sôn am sicrhau bod cynnig amrywiol o wasanaethau cynghori ar gael, felly sut y mae hynny'n cyd-fynd â'r syniad o rwydwaith sydd yn mynd i ddod â'r gwasanaethau cynghori hynny at ei gilydd? Sut y byddwch chi'n sicrhau y bydd y rhwydwaith hwn yn creu'r gwasanaethau amrywiol hynny heb gael unrhyw orgyffwrdd o ran y ddarpariaeth? Pa fath o gyllid fydd gan y rhwydwaith cyngor i gyflawni'r math o waith yr ydych yn rhagweld y bydd yn ei wneud?

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Peter Black, for those questions. I mentioned in my previous answer that I envisage the network looking at the direction of the implementation of some of the longer-term changes that I think are required. I am looking at the membership and at setting up an independent chair who will help to steer this work. I think that once that person is in post we can have a look at how we take the network forward, how we shape it and, as I said, that will also need to be evaluated to see what that can bring forward.

Diolch i chi, Peter Black, am y cwestiynau yna. Soniais yn fy ateb blaenorol fy mod yn rhagweld y bydd y rhwydwaith yn edrych ar gyfeiriad gweithredu rhai o'r newidiadau tymor hwy sydd eu hangen rwy'n meddwl. Rwy'n edrych ar yr aelodaeth ac ar sefydlu cadeirydd annibynnol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith hwn. Rwy'n credu, pan fydd y person hwnnw yn ei swydd y gallwn gael golwg ar sut yr ydym yn mynd â'r rhwydwaith yn ei flaen, sut yr ydym yn ei siapio ac, fel y dywedais, bydd angen gwerthuso hynny hefyd i weld beth y gall hynny ei gyflwyno.

One of the recommendations of the advice services review was that we have regional advice networks. I am not particularly sure about that at the moment, so I am not going to propose that we ask local authorities to support new regional or local advice networks at this time. I think that it is really important that we do not duplicate things, and there is some good practice out there. Certainly, Carmarthenshire has very good practice, and it would be better to have a look at what Carmarthenshire is doing to see whether we can roll that out across Wales, rather than set up a completely new vehicle, if you like.

Un o argymhellion yr adolygiad gwasanaethau cyngori oedd bod gennym rwydweithiau cyngor rhanbarthol. Nid wyf yn arbennig o siŵr am hynny ar hyn o bryd, felly nid wyf yn mynd i gynnis ein bod yn gofyn i awdurdodau lleol gefnogi rhwydweithiau cyngor rhanbarthol neu leol newydd ar hyn o bryd. Rwyf yn meddwl ei bod yn wirioneddol bwysig nad ydym yn dyblygu pethau, ac mae rhywfaint o arfer da i'w gael. Yn sicr, mae gan Sir Gaerfyrddin arfer da iawn, a byddai'n well i gael golwg ar yr hyn y mae Sir Gaerfyrddin yn ei wneud i weld pa un a allwn ni gyflwyno hynny ar draws Cymru, yn hytrach na sefydlu cerbyd hollol newydd, os mynnwch.

I think that it would be important for the national advice network to set out a broader set of guidelines and principles that can be aspired to, and I would want the national advice network to work very closely with the Welsh Local Government Association and its other contacts specifically in local authorities so that it can build up a picture of what advice services we have across Wales and see whether we have any gaps.

Rwy'n meddwl y byddai'n bwysig i'r rhwydwaith cyngor cenedlaethol osod cyfes ehangach o ganllawiau ac egwyddorion y gellir ceisio eu cyrraedd, a byddwn yn dymuno i'r rhwydwaith cyngor cenedlaethol weithio'n agos iawn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i chysylltiadau eraill yn benodol mewn awdurdodau lleol fel y gall greu darlun o ba wasanaethau cyngori sydd gennym ledled Cymru a gweld pa un a oes gennym unrhyw fylchau.

In relation to funding, as you can imagine, I am currently in budget discussions and having a look at my MEG, or main expenditure group. If we set it up, obviously, we will have to fund it, but I cannot answer that question, particularly at the moment.

Ynglŷn â chyllid, fel y gallwch ddychmygu, rwyf ar hyn o bryd mewn trafodaethau ar y gyllideb ac yn cael golwg ar fy MEG, neu brif grŵp gwariant. Os byddwn yn ei sefydlu, yn amlwg, bydd yn rhaid inni ei ariannu, ond ni allaf ateb y cwestiwn hwnnw, yn enwedig ar hyn o bryd.

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, I want to put on the record that my daughter works for Shelter Cymru, which provides specialist housing advice and has been part of some of the bids to the Welsh Government.

Yn gyntaf oll, rwyf am roi ar y cofnod bod fy merch yn gweithio i Shelter Cymru, sy'n darparu cyngor arbenigol ar dai ac sydd wedi bod yn rhan o rai o'r ceisiadau i Lywodraeth Cymru.

The first point that I want to make is that we just have to reiterate that welfare reform and the cuts to legal aid, and the problems caused by them are clearly the responsibility of the Westminster Government, and they are disproportionately affecting vulnerable people. I think that it is very important to put that clearly on the record and to say where the blame lies.

Y pwyt cyntaf rwyf am ei wneud yw bod yn rhaid i ni ailadrodd bod diwygio lles a'r toriadau i gymorth cyfreithiol, a'r problemau a achosir ganddynt yn amlwg yn gyfrifoldeb i'r Llywodraeth yn San Steffan, ac maent yn effeithio yn anghymesur ar bobl sy'n agored i niwed. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn i roi hynny'n glir ar y cofnod ac i ddweud ble mae'r bai yn gorwedd.

I am very concerned about the advice that my constituents in Cardiff will be able to have in the future, and I am particularly concerned that there has been no Government funding for two agencies, Riverside Advice centre and Adamsdown law centre, both of which are possibly facing closure. Neither of these organisations is in my constituency, but they have been heavily used by my constituents for many years. In fact, they have been pillars in terms of giving general advice and advice on the law in the city of Cardiff for 40 years. They have been developed by the local community and are specialists and experts in their own field. Can the Minister see whether there is anything else that can be done to ensure that my vulnerable constituents, and others throughout Cardiff can have access to organisations that are geared up for their specific needs, which are specialist organisations? Eighty per cent of the referrals to Riverside Advice come from other organisations where people have been first before they are sent on to Riverside. Also, in terms of their language expertise, there is a need to communicate in the language of the person who is seeking help. Both these organisations are experts in this field, so I am dismayed that they have not received any funding from the Welsh Government. I am asking the Minister whether there is anything that she can do to try to help those two organisations to continue to provide the excellent service that they do at the moment.

Rwy'n bryderus iawn am y cyngor y bydd fy etholwyr yng Nghaerdydd yn gallu ei gael yn y dyfodol, ac rwy'n arbennig o bryderus na fu unrhyw arian gan y Llywodraeth ar gyfer dwy asiantaeth, canolfan Cyngor Glan yr Afon a chanolfan gyfreithiol Adamsdown, y ddau ohonynt o bosibl yn wynebu cael eu cau. Nid yw'r naill na'r llall o'r sefydliadau hyn yn fy etholaeth i, ond maent wedi cael eu defnyddio'n helaeth gan fy etholwyr am flynyddoedd lawer. Yn wir, maent wedi bod yn bileri o ran rhoi cyngor cyffredinol a chyngor ar y gyfraith yn ninas Caerdydd am 40 mlynedd. Maent wedi eu datblygu gan y gymuned leol ac maent yn arbenigwyr ac yn awdurdodau yn eu maes eu hunain. A all y Gweinidog weld a oes unrhyw beth arall y gellir ei wneud i sicrhau y gall fy etholwyr sy'n agored i niwed, ac eraill ar hyd a lled Caerdydd gael mynediad at sefydliadau sydd â'r gallu i'w cynorthwyo gyda'u hanghenion penodol, ac sy'n sefydliadau arbenigol? Mae wyth deg y cant o'r atgyfeiriadau i Gyngor Glan yr Afon yn dod o sefydliadau eraill lle mae pobl wedi bod yn gyntaf cyn iddynt gael eu hanfon ymlaen i Lan yr Afon. Hefyd, o ran eu harbenigedd iaith, mae angen cyfathrebu yn iaith y person sy'n ceisio cymorth. Mae'r ddau sefydliad yma yn arbenigwyr yn y maes hwn, felly rwy'n hynod siomedig nad ydynt wedi derbyn unrhyw arian gan Lywodraeth Cymru. Rwy'n gofyn i'r Gweinidog a oes unrhyw beth y gall hi ei wneud i geisio helpu'r ddau sefydliad i barhau i ddarparu'r gwasanaeth rhagorol y maent yn ei ddarparu ar hyn o bryd.

16:50

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for raising this. Jenny Rathbone has also raised this issue with me, about this specific organisation. As I mentioned, it is a limited pot of money. It is £2 million. We did have 36 applications amounting to £4.5 million. Obviously, you are going to have to disappoint some organisations that we, of course, recognise have done excellent work. I will ask my advice services and my equality officials perhaps to go to meet with the organisations to see whether we can discuss the wider picture to see what the specific issues were. Jenny Rathbone has written to me, and I have responded to her, saying that I think that it is important for these organisations that are not successful with their funding to be offered feedback, so I am happy for my officials to give feedback to the organisations.

On the point that you started with, about the UK Government, one thing that I think we have made very clear as a Welsh Government is that we will not plug gaps. We cannot plug gaps. We will do all that we can to assist and help, and I mentioned not just advice services but also the funding that we have provided to build affordable homes, to try to help mitigate the effects of the bedroom tax, but we will not just plug gaps. We cannot afford to do so. We are under difficult budgetary conditions also, but I think that you are absolutely right to point out where the fault is with this system.

Hoffwn ddiolch i Julie Morgan am godi hyn. Mae Jenny Rathbone hefyd wedi codi'r mater hwn gyda mi, am y sefydliad penodol hwn. Fel y soniais, mae'n bot cyfyngedig o arian. Mae'n £2 filiwn. Roedd gennym 36 o geisiadau yn dod i gyfanswm o £4.5 miliwn. Yn amlwg, rydych yn mynd i orfod siomi rhai sefydliadau yr ydym, wrth gwrs, yn cydnabod sydd wedi gwneud gwaith rhagorol. Byddaf yn gofyn i fy ngwasanaethau cynghori a fy swyddogion cydraddoldeb efallai i fynd i gyfarfod â'r sefydliadau i weld a allwn drafod y darlun ehangach i weld beth oedd y materion penodol. Mae Jenny Rathbone wedi ysgrifennu ataf, ac rwyf wedi ymateb iddi hi, gan ddweud fy mod yn credu ei bod yn bwysig i'r sefydliadau hyn nad ydynt yn llwyddiannus gyda'u cyllid i gael cynnig adborth, felly rwy'n hapus i fy swyddogion roi adborth i'r sefydliadau.

O ran eich pwynt dechreuol, am Lywodraeth y DU, un peth rwy'n credu ein bod wedi'i wneud yn glir iawn fel Llywodraeth Cymru yw na fyddwn yn llenwi bylchau. Ni allwn lenwi bylchau. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynorthwyo a helpu, a chrybwyllais nid yn unig gwasanaethau cynghori ond hefyd y cyllid yr ydym wedi'i ddarparu i adeiladu cartrefi fforddiadwy, i geisio helpu i liniaru effeithiau'r dreth ystafell wely, ond ni fyddwn yn llenwi bylchau yn unig. Ni allwn fforddio gwneud hynny. Rydym ninnau dan amodau cyllidebol anodd hefyd, ond rwy'n meddwl eich bod yn llygad eich lle i dynnu sylw at ble mae'r bai gyda'r system hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:52

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will call one more Member. You have just one minute to put your question, please. I call Jenny Rathbone.

Byddaf yn galw un Aelod arall. Mae gennych un funud i roi eich cwestiwn, os gwelwch yn dda. Galwaf ar Jenny Rathbone.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 16:52 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I just want to add to what Julie Morgan has said. My concern is about the fact that these two organisations were actually encouraged by the Government to apply, and indeed to increase the amount that they were asking for. It was therefore very surprising that they then received nothing. When I raised with the First Minister the issue of the lady who had had no benefits whatsoever, it was a good illustration of why these services need to be there. She was ringing all the time to say, 'I haven't had any answers to my question as to why I've not had any benefits', and they were just saying, 'Don't call us; we'll call you'. So, it clearly requires other people to intervene where public services are not meeting their objectives. It was all down to a glitch in their IT systems, unbelievably. Particularly where people do not have access to computers and do not have English as their first language—or even if they speak that language it is very difficult to combat authority if you do not have advanced English language skills—they need services that are physically present that they are able to walk into and say, 'I need help'. I ask you to look again at this, backing up your need for a network.
- Rwyf eisiau ychwanegu at yr hyn y mae Julie Morgan wedi'i ddweud. Rwy'n pryderu ynghylch y ffaith bod y ddau sefydliad wedi cael eu hannog mewn gwirionedd gan y Llywodraeth i wneud cais, ac yn wir i gynyddu faint yr oeddent yn gofyn amdano. Felly, roedd yn syndod mawr wedyn na chawsant unrhyw arian. Pan godais gyda'r Prif Weinidog fater y fenyw nad oedd wedi cael unrhyw fudd-daliadau o gwbl, roedd yn enghraifft dda o pam mae angen i'r gwasanaethau hyn fod ar gael. Roedd hi'n ffonio drwy'r amser i ddweud, 'Nid wyf wedi cael unrhyw atebion i fy nghwestiwn ynghylch pam nad wyf wedi cael unrhyw fudd-daliadau', ac roeddent yn dweud, 'Peidiwch â'n ffonio ni; byddwn ni'n eich ffonio chi'. Felly, mae angen i bobl eraill ymyrryd yn amlwg pan nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni eu hamcanion. Roedd y cyfan oherwydd nam yn eu systemau TG, yn anhygoel. Yn enwedig pan nad oes gan bobl fynediad at gyfrifiaduron ac nad ydynt yn siarad Saesneg fel mamiaith—neu hyd yn oed os ydynt yn siarad yr iaith honno, mae'n anodd iawn i frwydro yn erbyn awdurdod os nad oes gennych sgiliau siarad Saesneg da iawn—mae nhw angen gwasanaethau sy'n bresennol yn gorfforol y gallant gerdded i mewn iddynt a dweud, 'Mae angen help arnaf i'. Gofynnaf ichi edrych eto ar hyn, gan gefnogi eich angen am rwydwaith.
- 16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. You must finish. Trefn. Mae'n rhaid i chi orffen.
- 16:54 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- However, we do need the physical presence in these deprived communities. Fodd bynnag, rydym ni angen presenoldeb corfforol yn y cymunedau difreintiedig hyn.
- 16:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, thank you. I will not reiterate my answer to Julie Morgan, but I think that that is one reason why we need to have integrated advice services. However, it is important that the protected characteristics are represented in the services, and I appreciate what you are saying about providing languages other than English in the organisations. However, as I said, I will ask officials to engage with the two organisations, to have a look at the wider picture. Ie, diolch. Nid wyf am ailadrodd fy ateb i Julie Morgan, ond credaf mai dyna un rheswm pam y mae angen inni gael gwasanaethau cynghori integredig. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cynrychioli yn y gwasanaethau, ac rwy'n gwerthfawrogi'r hyn yr ydych yn ei ddweud ynglŷn â darparu ieithoedd heblaw Saesneg yn y sefydliadau. Fodd bynnag, fel y dywedais, byddaf yn gofyn i swyddogion ymgysylltu â'r ddau sefydliad, i gael golwg ar y darlun ehangach.
- 16:54 **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith: Darpariaethau ar gyfer Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Legislative Consent Memorandum Y on the Infrastructure Bill: Provisions for the Control of Invasive Non-Native Species**
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I call on the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant, to move the motion. Galwaf ar y Gweinidog Adnoddau Naturiol, Carl Sargeant, i gynnig y cynnig.
- Cynnig NDM5533 Alun Davies Motion NDM5533 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Seilwaith, sy'n ymwneud â dileu a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol drwy gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Infrastructure Bill, relating to the eradication and control of invasive non-native species through species control agreements and orders, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

16:54 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call Llyr Gruffydd.

Galwaf yn awr ar Llyr Gruffydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:54 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid yw'n fwiad gan Blaid Cymru i wrthwynebu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, ond yng nghwrs ystyriaethau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd o'r mater, cododd dau bwynt sydd wedi peri ychydig o ofid i mi. Byddwn yn ddiolchgar i chi, Weinidog, pe gallech roi mwy o eglurder i ni ar ddau fater yn benodol.

Plaid Cymru has no intention of opposing this legislative consent motion, but in the course of the Environment and Sustainability Committee's consideration of this issue, two points were raised that have caused me some concern. I would be grateful to you, Minister, if you could give us more clarity on those two issues specifically.

Yn y lle cyntaf, yn y dystiolaeth a gawsom gan NFU Cymru, mynegwyd pryderon mewn perthynas â'r angen i sicrhau nad yw perchnogion a deiliaid sy'n ffeindio'u hunain â rhywogaethau goresgynnol ar eu tir heb unrhyw fai arnynt o gwbl am hynny yn gorfod cwrdd â chostau posibl rheoli'r rhywogaethau hynny. Pa sicrwydd y gallwch chi ei roi y byddant yn cael eu diogelu rhag cwrdd â'r costau hynny mewn sefyllfa o'r fath?

In the first place, in the evidence that we received from NFU Cymru, concerns were expressed in relation to the need to ensure that landowners and holders who find themselves with invasive non-native species on their land without being to blame at all for that will not have to meet the possible costs of controlling those species. What assurance can you give that they will be protected from having to pay those costs in such situations?

Yn ail, ac efallai'n fwy nodedig, roedd tystiolaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cwestiynu ymarferoldeb cymhwyso'r pwerau hyn yng Nghymru oherwydd cyfyngiadau ariannol. Felly, efallai y gallech achub ar y cyfle i esbonio a fyddwch yn rhyddhau mwy o adnoddau i Gyfoeth Naturiol Cymru gwrdd â'r pwerau ychwanegol hyn, neu a fyddwch yn caniatáu iddo hepgor rhyw agwedd o'i waith presennol er mwyn rhyddhau'r capasiti i weithredu'r pwerau newydd hyn.

Secondly, and perhaps more notably, evidence from Natural Resources Wales questioned the feasibility of applying these powers in Wales because of the financial limitations. Therefore, perhaps you could take this opportunity to explain whether you will be releasing further resources to NRW to fulfil its responsibilities under these new powers, or whether you will allow it to cease some aspects of its current activity in order to allow it to enforce these new powers.

Byddwn yn falch iawn pe baech yn rhoi ychydig mwy o eglurder inni ar y ddau fater.

I would be grateful if you could give us some further clarity on those two issues.

16:56 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I thank the Member for his contribution. I can give the Member an assurance as regards third-party activity, provided that the activity of the member in question has not made them the perpetrator by planting such invasive species. Therefore, I hope that that gives confidence to the Member.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Gallaf roi sicrwydd i'r Aelod o ran gweithgaredd trydydd-parti, ar yr amod nad yw gweithgaredd yr aelod dan sylw wedi ei wneud yn droseddwr trwy blannu rhywogaethau ymlledol o'r fath. Felly, rwyf yn gobeithio bod hynny'n rhoi hyder i'r Aelod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On the second point in terms of the finances, this is about a precautionary measure in terms of the ability to legislate in the context of the UK. Invasive species do not recognise political boundaries and therefore we have to be a part of that principled approach to ensuring that we have control over future aspects of invasive non-native species. Therefore, that is why the Bill is being introduced. There is no further provision in terms of finances for NRW for the delivery of this mechanism, but it does provide the tool to activate such legislation, should there be an invasive species somewhere in Wales that we are aware of.

O ran yr ail bwynt o ran y cyllid, mae hyn yn ymwneud â mesur rhagofalus o ran y gallu i ddeddfu yng nghydestun y DU. Nid yw rhywogaethau ymledol yn cydnabod ffiniau gwleidyddol ac felly mae'n rhaid i ni fod yn rhan o'r dull egwyddorol hwnnw i sicrhau bod gennym reolaeth dros agweddau ar rywogaethau anffrodorol goresgynnol yn y dyfodol. Felly, dyna pam y mae'r Bil yn cael ei gyflwyno. Nid oes darpariaeth bellach o ran cyllid i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cyflwyno'r mecanwaith hwn, ond mae yn cynnig yr offeryn i gychwyn deddfwriaeth o'r fath, pe byddai rhywogaeth ymledol rhywle yng Nghymru yr ydym yn ymwybodol ohono.

16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Mae'r cynnig, felly, wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

The Sustainable Development Annual Report 2013-14

The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts.

16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant, i gynnig y cynnig.

I call on the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant, to move the motion.

Cynnig NDM5568 Jane Hutt

Motion NDM5568 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r cynnydd a gyflawnwyd o safbwynt hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2013-14, fel yr amlinellir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Mehefin 2014.

Notes the progress made on promoting sustainable development in 2013-14, as set out in the Welsh Government's Annual Report of the Sustainable Development Scheme, which was laid before the National Assembly for Wales on 23 June 2014.

16:57 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

I am grateful for the opportunity to lead this debate on this year's sustainable development annual report, the first in my new role as Minister for Natural Resources. Taking over this portfolio at this important time in the evolution of sustainable development in Wales is an exciting prospect. Sustainable development provides a framework to help us to meet the challenges that Wales faces and to improve the wellbeing of our citizens, doing things better to create a Wales we want. This is what the report sets out through a selection of positive actions across Government.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i arwain y ddadl hon ar adroddiad blynyddol datblygu cynaliadwy eleni, y cyntaf yn fy swyddogaeth newydd fel y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Mae derbyn y portffolio hwn ar yr adeg bwysig hon yn esblygiad datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn rhywbeth cyffrous. Mae datblygu cynaliadwy yn darparu fframwaith i'n helpu i ymateb i'r heriau sy'n wynebu Cymru ac i wella lles ein dinasyddion, gwneud pethau'n well i greu Cymru yr ydym ei heisiau. Dyma beth y mae'r adroddiad yn nodi drwy detholiad o gamau gweithredu cadarnhaol ar draws y Llywodraeth.

Deputy Presiding Officer, before beginning, I would like to pass on my gratitude to the previous Minister for Communities and Tackling Poverty, who played an important role in driving our sustainable development policy through, notably through the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, which I know Members will have the opportunity to scrutinise closely over the coming months.

Later this week, I will be appearing before the Environment and Sustainability Committee as part of the first phase of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, and although I understand Members' interests, I do not think it fair to make comments about changing the Bill before the committee has finished its consideration of the general principles. For that reason, today, I will be rejecting, not supporting, the first two amendments tabled by the Liberal Democrats.

The summer break, I hope, provided an opportunity to read our account of the Welsh Government's work over the last financial year and the range of measures taken to promote sustainable development as our organising principle.

A key difference to how we have reported this year is by integrating more closely together sustainable development as a core organising principle with the programme for government, the principal plan of this Government. The previous Minister for Communities and Tackling Poverty outlined in December our intention to take this approach, and I am pleased that we are starting to see the fruits of the work of that in this year's report. This gives us a better foundation for future years and should send out a signal of the need to change in the context of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. The report allows us to take a different perspective of the programme for government's actions, by seeing them through a sustainable development lens, providing the fuller picture of our efforts to mainstream sustainable development across the core actions of this Government.

We continue to improve how we report, as we should for such an important mechanism, on explaining the differences we have made. These improvements are intended to give a clearer picture of the positive action and contribution the Welsh Government is making to realise our shared vision for a sustainable Wales. A unique aspect of the sustainable development annual report is the commentary provided by Peter Davies, the non-statutory Commissioner for Sustainable Futures. I met with Peter only this week, one week into post. I hope that Members, in their contributions to the debate today, will acknowledge, as I do, the value that this adds to the report. I welcome the praise he offers by acknowledging the alignment that has been made in the programme for government, as well as examples such as Flying Start and Families First, which show that we are taking early, preventative action to improve the lives of families and communities right across Wales.

Ddirprwy Lywydd, cyn dechrau, hoffwn gyfleu fy niolch i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi blaenorol, a chwaraeodd ran bwysig mewn sbarduno ein polisi datblygu cynaliadwy yn ei flaen, yn bennaf drwy Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y gwn y bydd Aelodau yn cael y cyfle i graffu yn ofalus arno dros y misoedd nesaf.

Yn ddiweddarach yr wythnos hon, byddaf yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn rhan o gam cyntaf y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac er fy mod yn deall buddiannau Aelodau, nid wyf yn credu ei bod yn deg i wneud sylwadau ynglŷn â newid y Bil cyn i'r pwyllgor orffen ei ystyriaeth o'r egwyddorion cyffredinol. Am y rheswm hwnnw, heddiw, byddaf yn gwrthod, nid yn cefnogi, y ddau welliant cyntaf a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol.

Rhoddodd gwyliau'r haf, rwy'n gobeithio, gyfle i ddarllen ein cyfrif o waith Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf a'r ystod o fesurau a gymerwyd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy fel ein hegwyddor drefniadol.

Un gwahaniaeth allweddol i'r ffordd yr ydym wedi adrodd eleni yw drwy integreiddio datblygu cynaliadwy yn agosach fel egwyddor drefnu graidd gyda'r rhaglen lywodraethu, prif gynllun y Llywodraeth hon. Amlinellodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi blaenorol ym mis Rhagfyr ein bwriad i fabwysiadu'r dull hwn, ac rwy'n falch ein bod yn dechrau gweld ffrwyth y gwaith hwnnw yn adroddiad eleni. Mae hyn yn rhoi sylfaen well inni ar gyfer y dyfodol a dylai anfon arwydd o'r angen i newid yng nghyd-destun Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r adroddiad yn ein galluogi i gymryd safbwynt gwahanol o'r rhaglen ar gyfer gweithredoedd llywodraeth, drwy eu gweld drwy lens datblygu cynaliadwy, gan roi darlun llawnach o'n hymdrechion i brif ffrydio datblygu cynaliadwy ar draws camau craidd y Llywodraeth hon.

Rydym yn parhau i wella ein dull o adrodd, fel y dylem ar gyfer mecanwaith mor bwysig, ar esbonio'r gwahaniaethau a wnaed gennym. Bwriad y gwelliannau hyn yw rhoi darlun cliriach o'r gweithredu cadarnhaol a'r cyfraniad y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wireddu ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Cymru gynaliadwy. Agwedd unigryw ar yr adroddiad blynyddol datblygu cynaliadwy yw'r sylwebaeth a ddarparwyd gan Peter Davies, y Comisiynydd anstatudol ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy. Cyfarfûm â Peter dim ond yr wythnos hon, un wythnos i mewn i'r swydd. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau, yn eu cyfraniadau at y ddadl heddiw, yn cydnabod, fel yr wyf i'n ei wneud, y gwerth y mae hyn yn ei ychwanegu at yr adroddiad. Croesawaf y ganmoliaeth y mae'n ei chynnig drwy gydnabod y cysoni sydd wedi ei wneud yn y rhaglen lywodraethu, yn ogystal ag enghreifftiau fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, sy'n dangos ein bod yn cymryd camau cynnar, ataliol i wella bywydau teuluoedd a chymunedau ledled Cymru.

Peter's commentary has also drawn attention to fuel poverty and the need to tackle this as a collective effort. The tackling poverty external advisory group had a clear remit to address fuel poverty as part of the wider Government role. Given the good work that they are doing, I would be reluctant to attempt to reinstate the fuel poverty advisory group, in case it causes unnecessary duplication while at the same time creating a narrower focus. For that reason, I will be objecting to amendment 3 also. Peter quite rightly draws out the issue of developing better indicators to show the progress that Wales is making towards becoming a sustainable nation. We will be looking at these soon as part of the work tied to the Well-being of Future Generations (Wales) Bill.

The next phase of the national conversation for 'The Wales We Want' is to look at measures that matter to people. I will welcome the input of Members and others when we begin this exercise. Peter also makes two recommendations for us to take forward. The first is to formally incorporate and respond to his commentary. On that, we have always attempted to respond positively to his contribution, so I am happy to commit to doing that more explicitly in the future. Given the rigour and challenge provided by Peter's input in improving our work, I hope that Members will welcome that approach.

On the second of Peter's recommendations, I am happy for the Welsh Government to explore, with the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy, how integrated reporting can be applied through our reporting arrangements. This approach looks promising. I hope, over the coming year, we will be able to work with other bodies to develop a framework that is right for us and our partners. This year's annual report sets out a positive picture of how the Welsh Government has fulfilled its duties to promote sustainable development over the past year. There is always more to do and this is a challenge that I look forward to in my new role. I will do so by following the same consensual path of my predecessors, by taking and making sustainable development central to the work of Welsh Government. I hope to work with Members and stakeholders across Wales to achieve this. I welcome the comments of Members on the report today. Diolch yn fawr.

Mae sylwebaeth Peter hefyd wedi tynnu sylw at dlodi tanwydd a'r angen i fynd i'r afael â hyn fel ymdrech ar y cyd. Roedd gan y grŵp cynghori allanol trechu tlodi gylch gwaith clir i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn rhan o swyddogaeth ehangach y Llywodraeth. O ystyried y gwaith da y maent yn ei wneud, byddwn yn amharod i geisio adfer y grŵp cynghori ar dlodi tanwydd, rhag ofn iddo achosi dyblygu diangen ac ar yr un pryd greu pwyslais culach. Am y rheswm hwnnw, byddaf yn gwrthwynebu gwelliant 3 hefyd. Mae Peter yn hollol gywir yn tynnu sylw at y mater o ddatblygu gwell dangosyddion er mwyn dangos y cynnydd y mae Cymru'n ei wneud tuag at fod yn genedl gynaliadwy. Byddwn yn edrych ar y rhain cyn bo hir yn rhan o'r gwaith ynghlwm â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Cam nesaf y sgwrs genedlaethol ar gyfer 'Y Gymru a Garem' yw edrych ar fesurau sydd o bwys i bobl. Byddaf yn croesawu mewnbwn Aelodau ac eraill pan fyddwn yn dechrau'r ymarfer hwn. Mae Peter hefyd yn gwneud dau argymhelliad i ni eu datblygu. Y cyntaf yw ymgorffori yn ffurfiol ac ymateb i'w sylwebaeth. O ran hynny, rydym bob amser wedi ceisio ymateb yn gadarnhaol i'w gyfraniad, felly rwy'n fodlon ymrwymo i wneud hynny'n fwy penodol yn y dyfodol. O ystyried y trylwyredd a'r her a ddarperir gan fewnbwn Peter o ran gwella ein gwaith, rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n croesawu'r ymagwedd honno.

Ar yr ail o argymhellion Peter, rwy'n hapus i Lywodraeth Cymru archwilio, gyda'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, sut y gellir cymhwyso adrodd integredig drwy ein trefniadau adrodd. Mae'r dull hwn yn edrych yn addawol. Rwy'n gobeithio, dros y flwyddyn i ddod, y byddwn yn gallu gweithio gyda chyrrff eraill i ddatblygu fframwaith sy'n iawn i ni a'n partneriaid. Mae adroddiad blynyddol eleni yn amlinellu darlun cadarnhaol o sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei dyletswyddau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy dros y flwyddyn diwethaf. Mae mwy i'w wneud bob amser ac mae hon yn her yr wyf yn edrych ymlaen ati yn fy swydd newydd. Byddaf yn gwneud hynny drwy ddilyn yr un llwybr cydsyniol â fy rhagflaenywyr, drwy gymryd a gwneud datblygu cynaliadwy yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru. Rwy'n gobeithio gweithio gydag Aelodau a rhanddeiliaid ledled Cymru i gyflawni hyn. Rwy'n croesawu sylwadau'r Aelodau ar yr adroddiad heddiw. Diolch yn fawr.

17:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a gynigir yn y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru, y dylai gael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol ac y dylai reoli dangosyddion datblygu cynaliadwy.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the three amendments to the motion. I call on William Powell to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Amendment 1—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Believes that the Future Generations Commissioner proposed in the Well-being of Future Generations Bill should be fully independent of Welsh Government, appointed by the National Assembly and in control of sustainable development indicators.

Amendment 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi sylw'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar rwystrdigaethau o ran yr ymdrechion i gynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gaiff ei gynhyrchu ar raddfa gymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol wrth gyflwyno adroddiad ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi sylw'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy nad oes unrhyw gyfeiriad at fynd i'r afael â thlodi tanwydd i wella iechyd a chyflawniad addysgol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i adfer y Grŵp Cynghori ar Dlodi Tanwydd gyda chylch gwaith priodol a'r gallu i wneud argymhellion polisi i'r Llywodraeth er mwyn sicrhau dull mwy integredig o fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Add as new point at end of motion:

Notes the Sustainable Futures Commissioner's comment on 'frustrations in the efforts to increase community scale renewable energy production' and calls on the Welsh Government to include targets for community scale renewable energy in reporting for the Well-being of Future Generations Bill.

Amendment 3—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Notes the Sustainable Futures Commissioner's comment that there is no reference to 'addressing fuel poverty to improve health and educational achievement' and calls on the Welsh Government to reinstate the Fuel Poverty Advisory Group with an appropriate remit and the ability to make policy recommendations to the Government in order to ensure a more integrated approach to tackling fuel poverty.

17:03

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

I would also like to congratulate the new Minister for Natural Resources on his expanded role, which now includes both sustainable development and, critically, the emerging Well-being of Future Generations (Wales) Bill.

Sustainable development continues to be of vital importance to the future of this nation. As I have said in previous debates on the issue, it remains absolutely critical that all sides within this Chamber work together to ensure that the concept becomes embedded through the way in which families plan, companies operate and this legislature governs. Further to this, we must also bring about a fundamental change in the way in which we interact with our environment and in how we behave towards each other. However, unlike previous SD reports, this one is to be the last before we had the summer to get to grips with the long anticipated future generations Bill. As such, it has a notably different focus and must be considered in relation to that Bill's introduction. I would associate myself with the remarks that the Minister has made in terms of how useful the commentary by Peter Davies, the commissioner, is. I quote from that commentary, where Peter Davies says that we should

'introduce a much more structured approach to integrated reporting across the public sector'.

This should also:

'include greater clarity as to how the policies and programmes being developed against a clear governance framework'.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau welliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Hoffwn hefyd longyfarch y Gweinidog Adnoddau Naturiol newydd ar ei rôl estynedig, sydd bellach yn cynnwys datblygu cynaliadwy ac, yn hanfodol, y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n datblygu.

Mae datblygu cynaliadwy yn parhau i fod yn hanfodol bwysig i ddyfodol y genedl hon. Fel yr wyf wedi dweud mewn dadleuon blaenorol ar y mater hwn, mae'n parhau i fod yn gwbl hanfodol bod pob ochr yn y Siambr hon yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y cysyniad yn sefydlu yn y ffordd y mae teuluoedd yn cynllunio, cwmnïau yn gweithredu a'r ddeddfwrfa hon yn llywodraethu. Yn dilyn ymlaen o hyn, rhaid i ni hefyd sicrhau newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym yn rhyngweithio â'n hamgylchedd ac yn y ffordd yr ydym yn ymddwyn tuag at ei gilydd. Fodd bynnag, yn wahanol i adroddiadau datblygu cynaliadwy blaenorol, yr un yma yw'r olaf cyn i ni gael yr haf i fynd i'r afael â'r Bil cenedlaethau'r dyfodol a ddisgwyliwyd ers amser. Fel y cyfryw, mae ganddo ffocws arbennig o wahanol a rhaid ei ystyried mewn perthynas â chyflwyniad y Bil. Byddwn yn cysylltu fy hun â'r sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud o ran pa mor ddefnyddiol yw'r sylwebaeth gan Peter Davies, y comisiynydd. Dyfynnaf o'r sylwebaeth, lle mae Peter Davies yn dweud y dylem

gyflwyno dull llawer mwy strwythuredig i adrodd integredig ar draws y sector cyhoeddus.

Dylai hyn hefyd:

gynnwys mwy o eglurder o ran sut mae'r polisiau a'r rhaglenni sy'n cael eu datblygu yn erbyn fframwaith llywodraethu clir.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Such an approach will undoubtedly be welcomed around the Chamber. This is especially true given the clear frustrations that have been felt by the present commissioner, detailed in the report's commentary, given his need to repeat the concerns that have already been stated in previous years and also to point out the lack of a formal Government acknowledgement regarding actions that have previously been recommendations of the commissioner.

Such comments only serve to highlight the need to guarantee that the forthcoming future generations commissioner should have much sharper teeth in the future generations Act to hold the Government to account, but also to ensure that each of the public bodies within the remit of that Act are working effectively towards the goals that we share.

Looking at the Bill, as drafted, it remains clear to many of us that such powers are not yet in the hands of the future commissioner. It places a duty on all of us to ensure that appropriate changes are made before the Bill becomes an Act and that the commissioner is in a much more independent and robust position to act.

Linked to this, of course, is the need to end what the report continues to refer to as a 'silo approach' to sustainable development in the Welsh Government. Once again, there are criticisms that we have gone over time and again in previous years, with the Government remarkably slow to act in some respects. With the Bill now upon us, I would argue that the threat of silo thinking towards the public bodies will get even greater as each of the 30 or so public bodies are, effectively, given a free rein to meet whichever combinations of goals that they see fit. We need to tighten up some of these vague definitions and the apple-pie aspirations that are described, so far, on the face of this Bill.

Again, were the commissioner to be fully independent of the Welsh Government, as many of us have argued, and in possession of a more robust set of powers to influence directly the actions of these public bodies, we would have a far greater opportunity to end this culture of silo thinking and move to a more meaningful shift in the way that Wales looks after its future generations.

Over the past two years, I have consistently called, in ministerial questions and other opportunities, for the need to review the education for sustainable development and global citizenship programme. Before the summer, the Minister's predecessor gave a commitment to me, in the Chamber, to discuss the findings with Estyn as a matter of urgency. As such, I would be grateful if the new Minister would use his reply to this debate to outline, among other things, what discussions he plans to have in this area, because that is vital for the embedding of sustainable development in this country.

Bydd dull o'r fath yn ddi-os yn cael ei groesawu o gwmpas y Siambr. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y rhwystredigaethau clir sydd wedi cael eu teimlo gan y comisiynydd presennol, y manylwyd arnynt yn sylwebaeth yr adroddiad, o ystyried ei angen i ailadrodd y pryderon sydd eisoes wedi'u nodi yn y gorffennol a hefyd i dynnu sylw at y ffaith nad oes cydnabyddiaeth ffurfiol y Llywodraeth ynghylch camau gweithredu sydd wedi bod yn argymhellion y comisiynydd yn flaenorol.

Nid yw sylwadau o'r fath ond yn fodd i dynnu sylw at yr angen i sicrhau y dylai comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol sydd ar ddod gael dannedd llawer mwy miniog yn Neddf cenedlaethau'r dyfodol i ddal y Llywodraeth i gyfrif, ond hefyd i sicrhau bod pob un o'r cyrff cyhoeddus o fewn cylch gwaith y Ddeddf honno yn gweithio'n effeithiol tuag at y nodau yr ydym yn eu rhannu.

O edrych ar y Bil, fel y'i drafftwyd, mae'n parhau i fod yn amlwg i lawer ohonom nad yw pwerau o'r fath eto yn nwylo comisiynydd y dyfodol. Mae'n rhoi dyletswydd ar bob un ohonom i sicrhau bod newidiadau priodol yn cael eu gwneud cyn i'r Bil ddod yn Ddeddf a bod y comisiynydd mewn sefyllfa llawer mwy annibynnol a chadarn i weithredu.

Yn gysylltiedig â hyn, wrth gwrs, y mae'r angen i roi terfyn ar yr hyn y mae'r adroddiad yn parhau i gyfeirio ato fel 'ymagwedd seilo' at ddatblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru. Unwaith eto, mae yna feirniadaeth yr ydym wedi mynd drosti dro ar ôl tro yn y blynyddoedd blaenorol, gyda Llywodraeth yn arbennig o araf i weithredu mewn rhai ffyrdd. Gyda'r Bil erbyn hyn ar ein gwarthaf, byddwn yn dadlau y bydd y bygythiad o feddwl seilo tuag at y cyrff cyhoeddus yn mynd hyd yn oed yn fwy wrth i bob un o'r 30 o gyrff cyhoeddus, yn effeithiol, yn cael rhwydd hynt i gyflawni pa bynnag gyfuniadau o nodau y maent yn eu gweld yn dda. Mae angen tynhau rhai o'r diffiniadau amwys hyn a'r dyheadau trefnus sy'n cael eu disgrifio, hyd yn hyn, ar wyneb y Bil hwn.

Unwaith eto, pe byddai'r comisiynydd yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru, fel y mae llawer ohonom wedi dadlau, ac yn meddu ar set fwy cadarn o bwerau i ddylanwadu'n uniongyrchol ar y gweithredoedd cyrff cyhoeddus hyn, byddai gennym lawer mwy o gyfle i roi terfyn ar y diwylliant hwn o feddwl seilo a symud tuag at newid mwy ystyrion yn y ffordd y mae Cymru'n gofalu am genedlaethau'r dyfodol.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, rwyf wedi galw'n gyson, mewn cwestiynau gweinidogol a chyfleoedd eraill, am yr angen i adolygu'r addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a'r rhaglen dinasyddiaeth fyd-eang. Cyn yr haf, rhoddodd rhagflaenydd y Gweinidog ymrwymiad i mi, yn y Siambr, i drafod y canfyddiadau gydag Estyn fel mater o frys. Fel y cyfryw, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog newydd yn defnyddio ei ymateb i'r ddadl hon i amlinellu, ymysg pethau eraill, pa drafodaethau y mae'n bwriadu eu cael yn y maes hwn, oherwydd mae hynny'n hanfodol ar gyfer ymgorffori datblygu cynaliadwy yn y wlad hon.

Minister, I, too, start by welcoming you to your new job. I hope to be able to develop a good working relationship with you over the next few months to take forward the prospects of sustainable development in Wales. I would also like to pay tribute to the previous Minister for his work in this field.

The scope of this report is quite wide, so I will aim to focus my contributions on a couple of the main issues that it raises. I agree with the Minister's comments about the importance of the commentary from the Commissioner for Sustainable Futures in the report. It makes for interesting reading, Minister, and he picks out a number of issues where the actions of the Welsh Government deserve greater scrutiny. I think that such a contribution from a critical friend is an important addition to a Government report.

So, I am now going to focus on some of the issues that the commissioner has raised in his commentary. A recurrent complaint, not just in this report, but over previous years, is that the report focuses on input but contains little on outcomes. In particular, there are no benchmark points that can relate performance to indicators. He highlights the need to tie in the contents of the report to key performance targets. It is interesting to note that the commissioner states:

'I feel the report still falls a long way short in this respect with significant gaps on material issues, notably energy, where the national conversation is highlighting frustrations in the efforts to increase community scalar renewable energy production and the need for a more coherent focus on energy efficiency.'

With that particular criticism, Minister, I am concerned that you are not looking at reinstating the fuel poverty action group. It made an important contribution to Government business, and I urge you to respond to this criticism and reconsider that decision. Also, perhaps you could tell us what targets and measures you are putting in place to correct these two issues around energy production and to focus on energy efficiency over the next 12 months? In the short time that I have held the energy brief, I have heard from a number of people about the frustration at the barriers that are in place to enable more effective and more efficient community renewable energy programmes.

Weinidog, rwyf innau, hefyd, yn dechrau drwy eich croesawu i'ch swydd newydd. Rwy'n gobeithio gallu datblygu perthynas waith dda gyda chi dros y misoedd nesaf er mwyn bwrw ymlaen â'r rhagolygon o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'r Gweinidog blaenorol am ei waith yn y maes hwn.

Mae cwrpas yr adroddiad hwn yn eithaf eang, felly byddaf yn anelu at ganolbwyntio fy nghyfraniadau ar un neu ddau o'r prif faterion y mae'n eu codi. Rwy'n cytuno â sylwadau'r Gweinidog am bwysigrwydd y sylwadau gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn yr adroddiad. Mae'n ddiddorol i'w ddarllen, Weinidog, ac mae'n codi nifer o faterion lle mae'r camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn haeddu mwy o graffu. Rwy'n meddwl bod cyfraniad o'r fath gan ffrind beirniadol yn ychwanegiad pwysig at adroddiad y Llywodraeth.

Felly, rwyf yn awr yn mynd i ganolbwyntio ar rai o'r materion y mae'r comisiynydd wedi'u codi yn ei sylwebaeth. Cwyn rheolaidd, nid yn unig yn yr adroddiad hwn, ond dros y blynyddoedd diwethaf, yw bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar fewnbwn ond yn cynnwys ychydig iawn ar ganlyniadau. Yn arbennig, nid oes unrhyw bwyntiau meincnod all gysylltu dangosyddion i berfformiad. Mae'n tynnu sylw at yr angen i glymu cynnwys yr adroddiad ar dargedau perfformiad allweddol. Mae'n ddiddorol nodi bod y comisiynydd yn dweud:

Rwy'n teimlo bod yr adroddiad yn dal i fod yn brin iawn yn hyn o beth gyda bylchau sylweddol ar faterion perthnasol, yn enwedig ynni, lle mae'r sgwrs genedlaethol yn tynnu sylw at rwystredigaethau yn yr ymdrechion i gynyddu cynhyrchu ynni cymunedol scalar renewable a'r angen am ffocws mwy cydlynol ar effeithlonrwydd ynni.

Gyda'r feirniadaeth benodol honno, Weinidog, rwy'n pryderu nad ydych yn edrych ar adfer y grŵp gweithredu ar dlodi tanwydd. Gwnaeth gyfraniad pwysig i fusnes y Llywodraeth, ac rwy'n eich annog i ymateb i'r feirniadaeth hon ac ailystyried y penderfyniad hwnnw. Hefyd, efallai y gallech ddweud wrthym pa dargedau a mesurau yr ydych yn eu rhoi ar waith i gywiro'r ddau fater sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni ac i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni dros y 12 mis nesaf? Yn yr amser byr yr wyf wedi dal y briff ynni, rwyf wedi clywed gan nifer o bobl am y rhwystredigaeth ar y rhwystrau sydd ar waith i alluogi rhaglenni ynni adnewyddadwy cymunedol mwy effeithiol a mwy effeithlon.

The commissioner also highlights the focus on early preventative action, which initiatives such as Flying Start, Families First and various health campaigns are in place to address. However, again, he raises the need to track outcomes across the range of interventions due to the tendency to focus on strategy developed and investment made, rather than outcomes achieved. I appreciate the importance of having a strategy, Minister, but if you do not know what bang you are getting for your buck, it is hard for you or us to assess how effective your spending programmes are at tackling the problems. Therefore, again, what will you do to address the concern raised by the commissioner?

The commissioner also highlights the report that the Wales Audit Office has done on European structural funds. While the Wales Audit Office acknowledges that those programmes are on track to meet their key performance targets, they are likely to fall short of most of their environmental sustainability and equal opportunities targets. Equal opportunity is a key area in which Wales is failing. There is a 16.5% gender pay gap, and 91% of the jobs in skilled trades are held by men. Last year, the previous Minister committed to integrate sustainable development in all aspects of European programmes, with the intention that sustainable development, equal opportunities and social inclusion would be the central guiding principle of the 2014 programmes. That has clearly failed for the first half of 2014.

Will you outline what efforts you will make to include regular measures in the future structural fund programmes to ensure that those targets are assessed throughout the life of the structural fund programme and to allow corrections to be made to ensure that environmental and equality targets are met?

Mae'r comisiynydd hefyd yn tynnu sylw at y ffocws ar gamau ataliol cynnar, y mae mentrau megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf ac ymgyrchoedd iechyd amrywiol ar waith i fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, unwaith eto, mae'n codi'r angen i olrhain canlyniadau ar draws yr ystod o ymyriadau oherwydd y tueddiad i ganolbwyntio ar strategaeth datblygu a buddsoddiad a wnaed, yn hytrach na'r canlyniadau a gyflawnir. Rwy'n sylweddoli pwysigrwydd cael strategaeth, Weinidog, ond nad ydych yn gwybod pa werth yr ydych yn ei gael am eich arian, mae'n anodd i chi neu ni asesu pa mor effeithiol yw eich rhaglenni gwariant wrth fynd i'r afael â'r problemau. Felly, unwaith eto, beth fyddwch yn ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y comisiynydd?

Mae'r comisiynydd yn tynnu sylw hefyd at yr adroddiad y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i wneud ar Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Er bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod bod y rhaglenni hynny ar y trywydd iawn i gyrraedd eu targedau perfformiad allweddol, maent yn debygol o syrthio'n brin o'r rhan fwyaf o'u targedau cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal. Mae cyfle cyfartal yn faes allweddol lle mae Cymru'n methu. Mae bwlch cyflog 16.5% rhwng y rhywiau, ac mae 91% o'r swyddi mewn crefftau medrus yn cael eu dal gan ddynion. Y llynedd, ymrwymodd y Gweinidog blaenorol i integreiddio datblygu cynaliadwy ym mhob agwedd ar raglenni Ewropeaidd, gyda'r bwriad mai datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol fyddai egwyddor arweiniol ganolog rhaglenni 2014. Mae hynny wedi methu'n glir ar gyfer hanner cyntaf 2014.

A wnewch chi amlinellu pa ymdrechion y byddwch yn eu gwneud i gynnwys mesurau rheolaidd yn y rhaglenni cronfeydd strwythurol yn y dyfodol i sicrhau bod y targedau hynny'n cael eu hasesu drwy gydol oes y rhaglen cronfeydd strwythurol a chaniatáu i gywiriadau gael eu gwneud i sicrhau bod targedau amgylcheddol a chydarddoldeb yn cael eu bodloni?

17:13

Jenny Rathbone [Bywgraffiad Biography](#)

I am somewhat confused as to why Antoinette Sandbach says that we do not have any targets, because we have some very clear targets. The sustainable development indicators are pretty clear for me to read—there is either a tick, an amber colour or a red colour. I can understand them. They may need some refining, but they certainly give some indication of how we will measure how well we are doing.

One of the things the commissioner highlights is the insufficient lack of progress on energy generation. In my view, we remain a country that is far too dependent on the price of oil and we need to futureproof our communities and our businesses from the hikes in oil, which, inevitably, feed forward into increased petrol prices and energy bills. We have a huge range of natural resources that we could tap into if we set our minds to it. It is unfortunate that there has been such an amount of hot air expended on resisting some very high profile wind turbine investments, which has put off investors who might otherwise have wanted to come to Wales. That is why, in my view, we hugely lag behind Scotland with regard to the amount of energy generated by renewables.

Rwyf braidd yn ddrislyd ynghylch pam y mae Antoinette Sandbach yn dweud nad oes gennym unrhyw dargedau, gan fod gennym rai targedau clir iawn. Mae'r dangosyddion datblygu cynaliadwy yn eithaf clir i mi eu darllen-ceir un ai tic, lliw ambr neu liw coch. Gallaf eu deall. Efallai y bydd angen rhywfaint o fireinio, ond maent yn sicr yn rhoi rhyw syniad o sut y byddwn yn mesur pa mor dda yr ydym yn gwneud.

Un o'r pethau y mae'r comisiynydd yn tynnu sylw ato yw'r diffyg cynnydd annigonol ar gynhyrchu ynni. Yn fy marn i, rydym yn parhau i fod yn wlad sydd yn llawer rhy ddibynnol ar bris olew ac mae angen diogelu ein cymunedau a'n busnesau at y dyfodol rhag y codiadau mawr mewn olew, sydd, yn anochel, yn bwydo ymlaen i gynyddu prisiau petrol a biliau ynni. Mae gennym ystod eang o adnoddau naturiol y gallem fanteisio arnynt os ydym yn rhoi ein bryd ar hynny. Mae'n anffodus y defnyddiwyd cymaint o aer poeth ar wrthsefyll rhai buddsoddiadau tyrbîn gwynt proffil uchel iawn, sydd wedi digalonni buddsoddwyr a fyddai fel arall wedi bod eisiau dod i Gymru. Dyna pam, yn fy marn i, ein bod yn llusgo ymhell y tu ôl yr Alban o ran faint o ynni a gynhyrchir gan ffynonellau adnewyddadwy.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

One of the reasons for this resistance is the lack of perception that renewable energy schemes could benefit the communities in which they are located rather than the external investors coming in to create something. That is something that was picked up by the commissioner: we need to increase the number of community-scale renewable investment production, which benefits the communities in which they are located as well as the investors. That would, I think, completely change the conversation and overcome the current restrictions with regard to being unable to tap into the grid in many parts of Wales. Once those schemes got going, I think that you would find that the grid would soon follow. If we became experts in locally generated and locally consumed electricity that benefits the communities where those resources are located, it would also enable us to develop the businesses that would be relevant to third-world communities that definitely are not living near the grid.

We have huge resources from the rivers and streams, the land under the school playgrounds, the former coalfield communities, where the hot water coming out of these mines is allowed to run off into the Dŵr Cymru drainage system, it is pumped back into homes and then heated up again. That is not a sustainable way of doing things.

Of these 44 sustainable development indicators, I am particularly keen to ensure that we continue to focus on the percentage of households where the time taken to reach a GP surgery and a shopping centre, including a grocer, is 15 minutes on foot or by public transport. This only gets the orange light, meaning that there has been little or no change. This is something that I feel we will need to focus on in the future. The majority of people do not have a car, and even if they do, as people get older or become disabled, they may no longer be able to drive a car, even if they could afford to do so. Clearly, this is a major challenge for us in terms of the provision of public transport in rural areas. However, in the context of reducing the amount of money available to invest in public services, another key indicator for me is active community participation—volunteering on a formal or informal basis. This, too, only gets the orange light, meaning little or no change. Therefore, there is much more that we need to do there.

The weekend before last, I observed the community in action painting a mural on a wall near a railway line that had previously been subject to constant graffiti. This was inspired by a 90-year-old man who lives opposite the mural, who still walks his dog every day, as well as picking up the litter left by neighbours and passers-by, who are 50 to 70 years younger than him. I am glad to say that this heroic individual and his dog are both immortalised in the mural, which is on Cranbrook Street in Cathays, if you want to go to see it. The volunteers were brought together as a result of the co-ordinating and networking activities of the Cynefin co-ordinator—a single individual with no budget, other than his salary, which is provided by the Government, who got people working together, which is the key to sustainability in everything we do.

Un o'r rhesymau dros y gwrthwynebiad hwn yw'r diffyg canfyddiad y gallai cynlluniau ynni adnewyddadwy fod o fudd i'r cymunedau y maent wedi eu lleoli ynddynt yn hytrach na'r buddsoddwyr allanol yn dod i mewn i greu rhywbeth. Mae hynny'n rhywbeth y tynnodd y comisiynydd sylw ato: mae angen i ni gynyddu nifer y cynhyrchu buddsoddi adnewyddadwy ar raddfa gymunedol, sydd o fudd i'r cymunedau lle maent yn cael eu lleoli yn ogystal â'r buddsoddwyr. Byddai hynny, rwy'n meddwl, yn gyfan gwbl yn newid y sgwrs ac yn goresgyn y cyfyngiadau presennol o ran methu â manteisio ar y grid mewn sawl rhan o Gymru. Unwaith y bydd y cynlluniau hynny ar waith, rwy'n meddwl y byddech yn gweld y byddai'r grid yn dilyn yn fuan. Pe byddem yn dod yn arbenigwyr mewn trydan a gynhyrchir yn lleol ac a ddefnyddir yn lleol sydd o fudd i'r cymunedau lle mae'r adnoddau hynny'n cael eu lleoli, byddai hefyd yn ein galluogi i ddatblygu'r busnesau a fyddai'n berthnasol i gymunedau trydydd byd nad ydynt yn bendant yn byw ger y grid.

Mae gennym adnoddau enfawr o'r afonydd a'r nentydd, y tir o dan feysydd chwarae ysgolion, yr hen gymunedau glofaol, lle mae'r dŵr poeth yn dod allan o'r cloddfeydd hyn yn cael ei ganiatáu i redeg i ffwrdd i mewn i system ddraenio Dŵr Cymru, mae'n cael ei bwmpio yn ôl i mewn i gartrefi ac yna'n cael ei gynhesu eto. Nid yw hynny'n ffordd gynaliadwy o wneud pethau.

O'r 44 dangosydd datblygu cynaliadwy hyn, rwy'n arbennig o awyddus i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ganran y cartrefi lle mae'r amser a gymerir i gyrraedd meddygfa a chanolfan siopa, gan gynnwys groser, yn 15 munud ar droed neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Dim ond golau oren mae hyn yn ei gael, sy'n golygu na fu fawr ddim newid. Mae hyn yn rhywbeth rwy'n teimlo y bydd angen i ni ganolbwyntio arno yn y dyfodol. Nid oes car gan y rhan fwyaf o bobl, a hyd yn oed os oes un ganddynt, wrth i bobl fynd yn hŷn neu'n dod yn anabl, efallai na fyddant mwyach yn gallu gyrru car, hyd yn oed pe gallent fforddio gwneud hynny. Yn amlwg, mae hyn yn her fawr i ni o ran y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, yng nghyd-destun lleihau faint o arian sydd ar gael i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, dangosydd allweddol arall i mi yw cyfranogiad cymunedol egniol—gwirfoddoli yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Dim ond golau oren mae hyn, hefyd, yn ei gael, sy'n golygu ychydig neu ddim newid. Felly, mae llawer mwy y mae angen inni ei wneud yno.

Y penwythnos cyn diwethaf, sylwais ar y gymuned ar waith yn paentio murlun ar wal ger lein reilffordd a oedd wedi bod yn agored i graffiti cyson yn flaenorol. Cafodd hyn ei ysbrydoli gan ddyn 90 mlwydd oed sy'n byw gyferbyn â'r murlun, sy'n dal i fynd â'i gi am dro bob dydd, yn ogystal â chasglu sbwriel a adawyd gan gymdogion a phobl sy'n mynd heibio, sydd yn 50-70 mlynedd yn iau nag ef. Rwy'n falch o ddweud bod yr unigolyn arwrol hwn a'i gi wedi eu hanfarwoli yn y murlun, sydd ar Stryd Cranbrook yn Cathays, os ydych am fynd i'w weld. Daethpwyd â'r gwirfoddolwyr at ei gilydd o ganlyniad i weithgareddau cydlynu a rhwydweithio cydlynedd Cynefin—un unigolyn heb unrhyw gyllideb, ac eithrio ei gyflog, a ddarperir gan y Llywodraeth, a gafodd bobl yn cydweithio, sef yr allwedd i gynaliadwyedd ym mhopeth a wnawn.

Mae 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' yn amlinellu diffiniad o ddatblygu cynaliadwy sy'n cynnwys y dyhead i Gymru ddod yn genedl un blaned, yn defnyddio dim mwy na'i chyfran deg o adnoddau'r byd, o fewn oes un genhedlaeth. Mae hwn yn ddyhead uchelgeisiol, wrth gwrs, ond mae'n un y mae Plaid Cymru yn credu sy'n realistig ac, yn wir, yn angenrheidiol ar gyfer dyfodol ein cenedl a'n planed.

Un o ddibenion adroddiad blynyddol datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru, yn fy marn i, yw monitro cynnydd y Llywodraeth wrth gyflawni'r weledigaeth honno. Un o'r prif feirniadaethau sy'n cael ei gwneud o'r adroddiad blynyddol bob blwyddyn yw nad oes monitro ar effaith cyffredinol polisiâu amrywiol ar ôl-troed ecolegol Cymru. Mae rhywun yn gobeithio, wrth gwrs, y bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a fydd, yn ôl y Llywodraeth, yn arwain y byd yn y maes hwn, yn rhoi cyfle inni wneud ymrwymiad pendant i weithio tuag at fod yn genedl un blaned. Fodd bynnag, yn anffodus, nid yw'r nod yn y Bil o fod yn Gymru ffynniannus, er enghraifft, sy'n gwneud defnydd mwy effeithlon a chymesur o adnoddau yn ddim byd tebyg i ymrwymiad diflewyn ar dafod i ddod yn genedl un blaned, gan ddefnyddio, fel roeddw'n ddweud, dim mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear. Mae'n dweud y dylem wneud defnydd mwy effeithlon; mae rhywun yn derbyn hynny. Mae'n dweud hefyd y dylem wneud defnydd mwy cymesur, ond nid yw'n dweud cymesur i beth.

Mae'r Bil hefyd yn ddiffygiol gan nad yw'n cynnwys ymrwymiad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fel y dylai, er gwaetha'r ffaith mai dyna yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol, yn sicr yn ôl trafodaeth 'Y Gymru a Garem' a gafwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae hynny wedi cael ei anwybyddu yn y Bil. Rwy'n derbyn na fydd deddfwriaeth ar ei phen ei hun yn sicrhau datblygu cynaliadwy heb bod newid diwylliant a meddylfryd mwy sylfaenol o ran sut mae pob un ohonom yn byw ein bywydau. Fodd bynnag, mae'n rhoi cyfle i ddangos arweinyddiaeth ac yn cynnig potensial i helpu i yrru'r newid hwnnw.

Dylem weld yr adroddiad blynyddol hwn yn yr un golau. Nid cyfle i restru lluo o brojectau, sy'n ddiau yn cyfrannu yn bositif at sawl agwedd ar nodau'r Lywodraeth hon, gyda rhyw fath o 'gloss' sy'n dangos y Llywodraeth yn y goleuni gorau posibl, yw'r adroddiad. Dylai fod yn llawer mwy gwrthrychol, yn llawer mwy gonest. Dylai amlygu methiannau yn ogystal â llwyddiannau—beth sydd wedi gweithio, beth sydd ddim wedi gweithio, pam na weithiodd, beth yw'r gwrsi sydd wedi eu dysgu, beth fydd y Llywodraeth yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf a'r cerrig milltir sy'n caniatáu inni weld lle mae'r agweddau positif a lle mae'r agweddau llai positif. Mae sylwadau'r comisiynydd yn cynnig peth o'r gwrthrychedd hwnnw, a byddwn yn ychwanegu fy llais at y diolchiadau iddo am ei gyfraniad, ond dylai'r gwrthrychedd hwnnw redeg drwy'r adroddiad er mwyn darparu asesiad llawer mwy gonest a all wedyn chwarae rhan ei hun o ran newid yr agweddau a'r 'mindset' sydd ei angen, ac nid, fel sy'n gallu digwydd yn aml iawn, bod yn rhyw broses o dicio bocsys.

'One Wales: One Planet' outlines a definition of sustainable development that includes the aspiration for Wales to become a one planet nation, using no more than its fair share of global resources, within a single generation. This is an ambitious aspiration, of course, but it is one that Plaid Cymru believes is realistic and, indeed, necessary for the future of our nation and our planet.

One of the objectives of the Welsh Government's annual report on sustainable development should, in my view, be to monitor the Government's progress in achieving that vision. One of the main criticisms made in the annual report every year is that there is no monitoring of the general impact of various policies on Wales's ecological footprint. One hopes, of course, that the Well-being of Future Generations (Wales) Bill—which will, according to the Government, lead the world in this area—will give us the opportunity to make a firm commitment to working towards being a one planet nation. However, unfortunately, the goal in the Bill of becoming a prosperous Wales, for example, which makes more efficient and proportionate use of resources, is nothing like the unequivocal commitment to becoming a one planet nation, using, as I say, no more than our fair share of global resources. It says that we should make more efficient use; one would accept that. It also says that we should make more proportionate use, but it does not say proportionate to what.

The Bill is also deficient in that it does not contain a commitment to tackling climate change as it should, despite the fact that that is the greatest threat facing future generations, certainly according to 'The Wales We Want' discussion that we had recently. However, this has been ignored in the Bill. I accept that legislation alone cannot achieve sustainable development without a more fundamental culture shift and a change in mindset in terms of how we all live our lives. However, it does provide an opportunity to demonstrate leadership and provides the potential for helping to drive that change.

We should see this annual report in the same light. It is not an opportunity to list a range of projects that, undoubtedly, contribute positively to a number of Government objectives, with some sort of gloss that puts them in the best possible light. It should be far more objective, and far more honest. It should highlight failings as well as successes—what has worked, what has not worked, why it did not work, the lessons learned, what the Government will do differently next time and the milestones that will allow us to see where the positive and the less positive aspects are. The commissioner's comments offer some of that objectivity, and I would add my voice to the thanks to him for his contribution, but that objectivity should run through the report, in order to provide a much more honest assessment that can then play its own part in changing attitudes and mindsets, rather than, as can happen, being a box-ticking exercise.

Mae'n ddiddorol mai dim ond rhestru'r sectorau sydd wedi gostwng eu hallyriadau carbon a welwn yn yr adroddiad; enghraifft efallai o ddewis a dethol er mwyn rhoi rhyw sbin cadarnhaol yn lle rhoi'r darlun mwy gonest. Nid oes angen bod ofn cydnabod na chw'rddir â rhai targedau, ond ar yr un pryd mae'n ddyletswydd i esbonio pam na wneir hynny a beth mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud yn wahanol i sicrhau y gwneir hynny yn y dyfodol. Lle mae'r gydnabyddiaeth, er enghraifft, fod y targed o dorri allyriadau carbon 40% erbyn 2020 yn annhebygol o gael ei gyrraedd ar y 'trajectory' presennol? Mae hynny yn cael ei gydnabod yn eang. Lle mae'r esboniad am beth mae'r Llywodraeth yn ei gwneud i ddwysáu ymdrechion, yn enwedig gan fod yr enillion hawdd o safbwynt gostwng allyriadau carbon wedi eu cyflawni, hyd y gwn i, yn y cyfnod cynnar, a bod y chwe blynedd nesaf yn mynd i olygu dwysáu difrifol yn yr ymdrechion os ydym o ddifrif ynglŷn â chyrraedd y targed hwnnw?

Mae eironi hefyd, yn fy marn i, fod yr adroddiad blynyddol yn cydnabod pwysigrwydd ein rôl ryngwladol o safbwynt datblygu cynaliadwy a bod gan ein gweithredoedd yng Nghymru oblygiadau ac effaith ar ddatblygu cynaliadwy y tu hwnt i'n ffiniau, ond bod hynny ar goll yn llwyr o Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel ag y mae ar hyn o bryd. Mae eisoes wedi cael ei ddweud y bydd y Bil yn newid y ffordd mae'r Llywodraeth yn adrodd ar ddatblygu cynaliadwy yn y dyfodol. Nid oes ond gobeithio felly y bydd, yn y dyfodol, yn llawer mwy gwydn, yn llawer mwy gwrthrychol ac yn llawer mwy gonest.

It is interesting that the report only lists the sectors that have reduced their carbon emissions; an example, perhaps, of being selective in order to put a positive spin rather than giving a more honest picture. There is no need to be fearful of acknowledging that certain targets are not being met, but at the same time we have a duty to explain why that is and what the Government will do differently to ensure that they are met in future. Where is the recognition, for example, that the target of cutting carbon emissions by 40% by 2020 is unlikely to be achieved on the current trajectory? That is widely acknowledged. Where is the explanation about what the Government is doing to intensify efforts, particularly as the easy wins in terms of reducing carbon emissions have been achieved, as far as I know, in the early stages, and that the next six years are going to mean a serious intensification in efforts if we are serious about reaching that target?

It is ironic, in my view, that the annual report recognises the importance of our international role with regard to sustainable development and that our actions in Wales have implications and an impact on sustainable development beyond our borders, but that is entirely missing from the Well-being of Future Generations (Wales) Bill as it currently stands. It has already been said that the Bill will change the way in which the Government reports on sustainable development in the future. We can only hope, therefore, that in the future it will be far more robust, far more objective and far more honest.

17:24

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to contribute to this debate today. As we all know, the report that we are debating is the sixth since the Welsh Government's sustainable development scheme, 'One Wales: One Planet', was first published. The Welsh Government is now bound by law to report its progress on sustainable development each year. This was a key feature of the Government of Wales Act 2006, and it seems a natural progression from the original Government of Wales Act 1998, which enshrined a commitment to sustainable development throughout the work of the National Assembly for Wales. We in Wales are genuine pioneers in this sense, and the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, which I introduced to the Assembly as the then Minister, seeks to further embed this progress. It is this issue that I will focus the majority of my contribution on today.

Last year, as the then Minister, I asked Peter Davies, the Commissioner for Sustainable Futures, to lead a pilot national conversation. I firmly believe that having a Wales-wide national conversation can only be a good thing. That is why we published the Welsh Government's 'The Wales We Want' paper, to ensure that it becomes a permanent feature of the role of the new commissioner, to be established under the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. Peter has acknowledged his progress in his introduction to the report, where he says that it is

'An important stepping stone in the process of sustainable development which has been a central feature of the devolution process'.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddatl hon heddiw. Fel yr ydym i gyd yn gwybod, yr adroddiad yr ydym yn ei drafod yw'r chweched ers i gynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru, 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', gael ei gyhoeddi gyntaf. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn cael ei rhwymo gan y gyfraith i adrodd ei chynnydd ym maes datblygu cynaliadwy bob blwyddyn. Roedd hyn yn nodwedd allweddol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'n ymddangos yn gam naturiol ymlaen o'r Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wreiddiol, a oedd yn ymgorffori ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy drwy waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym ni yng Nghymru yn arloeswyr gwirioneddol yn yr ystyr hwn, ac mae'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a gyflwynais i'r Cynulliad fel y Gweinidog bryd hynny, yn ceisio ymgorffori'r cynnydd hwn ymhellach. Mae'n fater y byddaf yn canolbwyntio'r rhan fwyaf o fy nghyfraniad heddiw arno.

Flwyddyn ddiwethaf, fel y Gweinidog ar y pryd, gofynnais i Peter Davies, y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, i arwain sgwrs genedlaethol beilot. Rwy'n credu'n gryf y gall cael sgwrs genedlaethol Cymru gyfan ond bod yn beth da. Dyna pam y cyhoeddwyd papur Llywodraeth Cymru 'Y Gymru a Garem' gennym, er mwyn sicrhau ei fod yn dod yn nodwedd barhaol o rôl y comisiynydd newydd, i'w sefydlu dan y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae Peter wedi cydnabod ei gynnydd yn ei gyflwyniad i'r adroddiad, lle mae'n dweud ei fod yn

garreg gamu bwysig yn y broses o ddatblygu cynaliadwy sydd wedi bod yn nodwedd ganolog o'r broses ddatganoli.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Later this year, the United Nations is expected to publish its sustainable development goals, following a timeline agreed at the Rio+20 summit in June 2012. I know that the Welsh Government is working to develop its Well-being of Future Generations (Wales) Bill with this ongoing process in mind, and for this reason, the Bill has, rightly in my view, adopted a six-goal model for sustainable development. These six goals are broad and all-encompassing, seeking to build a Wales that is prosperous, resilient, healthier, more equal, has cohesive communities, as well as a vibrant culture and thriving Welsh language. These are ambitious, but achievable, and the role of the commissioner will be crucial in both advising and holding future Welsh Governments to account when it comes to delivering on these long-term commitments.

The wellbeing goal that I am most interested in today is the first one: a prosperous Wales. As you would expect, this goal aims to build an innovative and productive low-carbon emission economy that provides employment and opportunities for a skilled and well-educated population. At the end of the day, for me, that is what lies at the core of prosperity, jobs and economic growth. Crucial to this will be ensuring that such growth is sustainable, and that the jobs required to engineer this growth can draw on a pool of talent, from a labour market that is skilled in green technologies. Indeed, chapter 2 of the report focuses on the issue of growth and sustainable jobs, and it addresses those areas that I have just mentioned.

Now, some may argue that a growing economy is incompatible with environmental protection; I beg to differ. A strong economy is important for sustainable development. We have to make this clear: when times are tough, jobs are low paid and/or insecure, and if living costs are rising, people worry about their wellbeing and that of their children. People want a secure future economically and environmentally. The goal of a prosperous Wales seeks to reinforce this by demonstrating that we can match our skills and growth and ambitions to lower carbon emissions and resource efficiency, and go for green growth and jobs. This is just one of the many facets of sustainable development that the future generations Bill seeks to address, and this report recognises it. Indeed, in his introduction to the report, Peter Davies expresses his hope that the Bill will introduce

‘a much more structured approach to integrated reporting across the public sector’.

This is a bold initiative and I am proud to have played my part in introducing this Bill. Both the Assembly and the new sustainable futures commissioner will have a crucial role in ensuring that the Bill achieves what it has set out to do, and we all owe that to the people of Wales.

Yn ddiweddarach eleni, disgwylir i'r Cenhedloedd Unedig gyhoeddi ei nodau datblygu cynaliadwy, yn dilyn llinell amser a gytunwyd yn uwchgynhadledd Rio+20 ym mis Mehefin 2012. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu ei Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gyda'r broses barhaus hon mewn golwg, ac am y rheswm hwn, mae'r Bil, yn gywir yn fy marn i, wedi mabwysiadu model chew nod ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Mae'r chwe nod yn eang a hollgynhwysol, yn ceisio adeiladu Cymru sy'n ffyniannus, yn wydn, yn iachach, yn fwy cyfartal, sydd â chymunedau cydynol, yn ogystal â diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Mae'r rhain yn uchelgeisiol, ond yn gyraeddadwy, a bydd rôl y comisiynydd yn hollbwysig o ran cynghori a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn y dyfodol pan ddaw at gyflawni'r ymrwymiadau tymor hir hyn.

Y nod lles y mae gennyf fwyaf o ddi-ddordeb ynddo heddiu yw'r un cyntaf: Cymru lewyrchus. Fel y byddech yn disgwyl, mae'r nod hwn yn anelu at adeiladu economi arloesol a chynhyrchiol allyriadau carbon isel sy'n darparu cyflogaeth a chyfluoedd ar gyfer poblogaeth fedrus wedi cael addysg dda. Ar ddiwedd y dydd, i mi, dyna beth sydd wrth wraidd ffyniant, swyddi a thwf economaidd. Yn hanfodol i hyn fydd sicrhau bod twf o'r fath yn gynaliadwy, a bod y swyddi sy'n ofynnol i yrru'r twf hwn yn gallu tynnu ar gronfa o dalent, o farchnad lafur sy'n fedrus mewn technolegau gwyrdd. Yn wir, mae pennod 2 o'r adroddiad yn canolbwyntio ar fater twf a swyddi cynaliadwy, ac mae'n mynd i'r afael â'r meysydd hynny yr wyf newydd eu crybwyll.

Yn awr, efallai y bydd rhai yn dadlau bod economi sy'n tyfu yn anghydnaws â gwarchod yr amgylchedd; rwy'n anghytuno. Mae economi gref yn bwysig ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae'n rhaid i ni wneud hyn yn glir: pan fydd pethau'n anodd, mae swyddi yn rhai cyflog isel ac / neu ansicr, ac os bydd costau byw yn codi, mae pobl yn poeni am eu lles a lles eu plant. Mae pobl am ddyfodol diogel yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae'r nod o greu Cymru ffyniannus yn ceisio atgyfnerthu hyn drwy d dangos ein bod yn gallu paru ein sgiliau a thwf ac uchelgeisiau i leihau allyriadau carbon ac effeithlonrwydd adnoddau, a mynd am dwf gwyrdd a swyddi. Mae hwn yn un o sawl agwedd ar ddatblygu cynaliadwy y mae Bil cenedlaethau'r dyfodol yn ceisio mynd i'r afael â nhw, ac mae'r adroddiad hwn yn cydnabod hynny. Yn wir, yn ei gyflwyniad i'r adroddiad, mae Peter Davies yn mynegi ei oobaith y bydd y Bil yn cyflwyno

dull llawer mwy strwythuredig i adrodd integredig ar draws y sector cyhoeddus.

Mae hwn yn gynllun beiddgar ac rwy'n falch o fod wedi chwarae fy rhan mewn cyflwyno'r Bil hwn. Bydd gan y Cynulliad a'r comisiynydd dyfodol cynaliadwy newydd rôl hollbwysig o ran sicrhau bod y Bil yn cyflawni'r hyn y mae wedi bwriadu ei wneud, ac rydym i gyd yn ddyledus am hynny i bobl Cymru.

I am pleased to contribute to this debate on the sustainable development annual report this afternoon; before I do, may I also welcome the Minister to his new role. Having yet another Minister leading for the Government on natural resources and environmental issues is one thing, but I think that the fact that now that the strategic lead for sustainable development has moved to his remit highlights one of the problems that this Government has had with implementing and managing its SD policies. It leads me to repeat again the clear solution, I think, to this problem, which I raised when responding to the report last year, and the fact that SD is supposed to be the central organising principle of how the Welsh Government operates. It is surely obvious and sensible that the First Minister should now have strategic oversight of SD policy. The First Minister will then draw down the necessary expertise from each given Minister, which I believe would not only strengthen the SD monitoring and reporting mechanism, but provide a more effective base for driving action in each department. The fact is that this report should be, for all intents and purposes, a scorecard for the programme for government with respect to its contributions to SD outcomes—something that the Commissioner for Sustainable Futures also highlights in the last paragraph of his commentary. However, it is clearly not doing that.

With regard to the commentary, may I also put on record my thanks to Peter Davies, not only for his commentary, but for all he has done in championing both climate change and sustainable development agendas here in Wales? He has been an important critical friend of both Government and environmental governance in this country, and I think that his commentary has been very helpful in highlighting a number of important key points, which, unfortunately, in a number of instances, have continued to repeat themselves. The commentary has once again drawn out a continued lack of integration across some areas of Government—a weakness that has been raised in previous reports. He also highlights the cherry-picking of activity, rather than having activity that has been materially tested, and draws attention to the problem of silo working again. He also stresses the need for outcome-driven actions that can be properly benchmarked to clearly show progress in achieving longer term SD goals. There are repeated themes, and I am sure that the new Minister will say in his response that the Well-being of Future Generations (Wales) Bill will make everything all right. I hope that it will, but I do not think that we know what the future reporting mechanisms will be or what the reporting cycle will be. So, it is very difficult to properly scrutinise Government delivery.

Rwy'n falch o gyfrannu at y ddatl hon ar yr adroddiad blynyddol datblygu cynaliadwy y prynhawn yma; cyn i mi wneud hynny, a gaf fi hefyd groesawu'r Gweinidog i'w swydd newydd. Mae cael Gweinidog arall eto sy'n arwain ar ran y Llywodraeth ar adnoddau naturiol a materion amgylcheddol yn un peth, ond credaf fod y ffaith yn awr fod yr arweiniad strategol ar gyfer datblygu cynaliadwy wedi symud at ei gylch gwaith yn tynnu sylw at un o'r problemau y mae'r Llywodraeth hon wedi'u cael gyda gweithredu a rheoli ei pholisiau datblygu cynaliadwy. Mae'n fy arwain i ailadrodd eto yr ateb clir, rwy'n meddwl, i'r broblem hon, y gwneuthum ei chodi wrth ymateb i adroddiad y llynedd, a'r ffaith bod datblygu cynaliadwy i fod yn egwyddor drefnu ganolog o sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu. Siawns ei bod yn amlwg ac yn synhwylol y dylai'r Prif Weinidog yn awr gael goruchwyliaeth strategol ar y polisi datblygu cynaliadwy. Bydd y Prif Weinidog yn tynnu'r arbenigedd angenrheidiol gan bob Gweinidog penodol, fydd, rwy'n credu nid yn unig yn cryfhau'r gwaith monitro datblygu cynaliadwy a'r mecanwaith adrodd, ond yn rhoi sylfaen mwy effeithiol ar gyfer ysgogi gweithredu ym mhob adran. Y ffaith yw y dylai'r adroddiad hwn fod, i bob pwrpas, yn gerdyn sgorio ar gyfer y rhaglen lywodraethu o ran ei gyfraniadau i ganlyniadau datblygu cynaliadwy—rhywbeth y mae'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy hefyd yn ei amlygu ym mharagraff olaf ei sylwebaeth. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'n gwneud hynny.

O ran y sylwebaeth, a gaf fi hefyd gofnodi fy niolch i Peter Davies, nid yn unig am ei sylwebaeth, ond am yr holl y mae wedi ei wneud o ran hyrwyddo agenda newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy yma yng Nghymru? Mae wedi bod yn gyfaill beirniadol pwysig i'r Llywodraeth a llywodraethu amgylcheddol yn y wlad hon, ac rwy'n meddwl bod ei sylwebaeth wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth dynnu sylw at nifer o bwyntiau allweddol pwysig, sydd, yn anffodus, mewn nifer o achosion, wedi parhau i ailadrodd eu hunain. Mae'r sylwebaeth unwaith eto wedi dangos diffyg integreiddio parhaus ar draws rhai meysydd Llywodraeth—gwendid a godwyd mewn adroddiadau blaenorol. Mae hefyd yn tynnu sylw at ddeus gweithgaredd yn ofalus, yn hytrach na chael gweithgaredd sydd wedi cael ei brofi yn sylweddol, ac mae'n tynnu sylw at y broblem o weithio seilo eto. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen am gamau gweithredu seiliedig ar ganlyniadau y gellir eu meincnodi yn briodol i ddangos yn glir y cynnydd wrth gyflawni amcanion datblygu cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae themâu'n cael eu hailadrodd, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog newydd yn dweud yn ei ymateb y bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gwneud popeth yn iawn. Rwy'n gobeithio y bydd, ond nid wyf yn meddwl ein bod yn gwybod beth fydd y mecanweithiau adrodd yn y dyfodol, neu beth fydd y cylch adrodd. Felly, mae'n anodd iawn craffu ar ddarpariaeth y Llywodraeth yn iawn.

One of the aspects that the Lib Dems rightly raised is the issue of the commissioner's independence. While I am still sceptical about the creation of the new role and whether it is justified, I do think that if a commissioner is to be appointed, it should not be done by Welsh Ministers. There are models in other parts of the world, like Canada, which has a very robust and independent structure for the selection of SD commissioners, which is very arm's-length and free from Government. I hope that the new Minister will look at this issue with an open mind as he starts to guide the Bill through this place.

I thought that Jenny Rathbone was doing very well in her contribution with regard to community energy projects until she spoiled it by talking about large-scale infrastructure wind projects, which are very often imposed on communities and do nothing for supporting the renewable agenda that we want to see.

I will finish my contribution by asking the Minister two key questions as he comes to this policy agenda with fresh eyes. In your opinion, which areas of Government or which strategies are not doing enough to reduce our ecological footprint? Which policy areas give the most cause for concern?

Un o'r agweddau a gododd y Democratiaid Rhyddfrydol yn briodol yw'r mater o annibyniaeth y comisiynydd. Er fy mod yn dal yn amheus ynghylch y rôl newydd ac a yw'n cael ei chyfiawnhau, rwy'n credu os yw comisiynydd yn cael ei benodi, ni ddylai hynny gael ei wneud gan Weinidogion Cymru. Mae modelau mewn rhannau eraill o'r byd, megis Canada, sydd â strwythur cadarn ac annibynnol iawn ar gyfer y dewis o gomisiynwyr datblygu cynaliadwy, sy'n hyd braich ac yn rhydd iawn oddi wrth y Llywodraeth. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog newydd yn edrych ar y mater gyda meddwl agored wrth iddo ddechrau arwain y Bil drwy'r lle hwn.

Roeddwn i'n meddwl bod Jenny Rathbone yn gwneud yn dda iawn yn ei chyfraniad o ran prosiectau ynni cymunedol nes iddi ei ddifetha drwy siarad am seilwaith prosiectau gwynt ar raddfa fawr, sydd yn aml iawn yn cael eu gorfodi ar gymunedau ac yn gwneud dim i gefnogi'r agenda adnewyddadwy yr ydym am ei gweld.

Rwyf am gloi fy nghyfraniad drwy ofyn dau gwestiwn allweddol i'r Gweinidog gan ei fod yn dod at yr agenda polisi hon gyda llygaid newydd. Yn eich barn chi, pa feysydd y Llywodraeth neu pa strategaethau nad ydynt yn gwneud digon i leihau ein hól troed ecolegol? Pa feysydd polisi sy'n rhoi'r achos pryder mwyaf?

17:33

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call the Minister to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:33

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I would like to thank Members for the positive and helpful discussion around this debate on the report today, on how we have promoted sustainable development and reporting arrangements for sustainable development and what the next steps are for this here in Wales. I look forward to building on the practical recommendations that have been suggested by many Members in the process of bringing the future generations Bill forward.

Our approach to putting sustainable development at the heart of what we do is improving year on year, and we are working hard to embed this principle across the activities of this Government. If I may, Deputy Presiding Officer, I will respond to some of the points made by Members. I do not recognise the points made by Russell George when he suggests that the future generations Bill should be with the First Minister. Respectfully, I think the Member is lacking an understanding of how Government operates. We actually do work across portfolios and do not have a silo mentality as the Member may suggest. We actually talk across the departments about how sustainable development can be introduced across all Bills in this Government. So, what the Member refers to is not a fact; it is just not correct. We work very carefully on bridging the gaps between Bills and how they are managed, moving forward.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am y drafodaeth gadarnhaol a defnyddiol o amgylch y ddadl hon ar yr adroddiad heddiw, ar y modd yr ydym wedi hyrwyddo datblygu cynaliadwy a threfniadau adrodd ar gyfer datblygu cynaliadwy a beth yw'r camau nesaf ar gyfer hyn yma yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at adeiladu ar yr argymhellion ymarferol sydd wedi cael eu hawgrymu gan nifer o Aelodau yn y broses o ddod â'r Bil cenedlaethau'r dyfodol yn ei flaen.

Mae ein dull o roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr hyn a wnawn yn gwella o flwyddyn i flwyddyn, ac rydym yn gweithio'n galed i sefydlu'r egwyddor hon ar draws gweithgareddau'r Llywodraeth hon. Os caf, Ddirprwy Lywydd, byddaf yn ymateb i rai o'r pwyntiau a wnaed gan Aelodau. Nid wyf yn cydnabod y pwyntiau a wnaed gan Russell George pan oedd yn awgrymu y dylai'r Bil cenedlaethau'r dyfodol fod gyda'r Prif Weinidog. Gyda pharch, rwy'n meddwl nad oes gan yr Aelod ddealltwriaeth o sut mae Llywodraeth yn gweithredu. Rydym mewn gwirionedd yn gweithio ar draws portffolios ac nid oes gennym feddylfryd seilo fel y mae'r Aelod yn awgrymu. Rydym mewn gwirionedd yn siarad ar draws yr adrannau am sut y gellir cyflwyno datblygu cynaliadwy ar draws yr holl Ffiliau yn y Llywodraeth hon. Felly, nid yw'r hyn y mae'r Aelod yn cyfeirio ato yn ffaith; nid yw'n gywir. Rydym yn gweithio yn ofalus iawn ar bontio'r bylchau rhwng Biliau a sut y cânt eu rheoli, wrth symud ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I also listened carefully to the Member's contribution on renewable energy. The Member has an interesting view that it seems fine to have major infrastructure as long as it is somewhere else, in terms of wind power. I support Jenny Rathbone's principle of community energy projects; it is something that we are working very hard to do in Wales and we will continue to do so, but we must do more and I welcome the contribution made by the Member.

Gwrandewais yn ofalus hefyd ar gyfraniad yr Aelod ar ynni adnewyddadwy. Mae gan yr Aelod farn ddiddorol ei bod yn ymddangos yn iawn i gael seilwaith mawr ar yr amod ei fod yn rhywle arall, o ran ynni gwynt. Rwyf yn cefnogi egwyddor Jenny Rathbone o brosiectau ynni cymunedol; mae'n rhywbeth yr ydym yn gweithio'n galed iawn i'w wneud yng Nghymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny, ond mae'n rhaid i ni wneud mwy ac rwy'n croesawu'r cyfraniad a wnaed gan yr Aelod.

17:35 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:35 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In a second, if I may.

Mewn eiliad, os caf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I have listened to contributions from colleagues across the Chamber, and I welcome, certainly, the contribution made by Peter Davies, the commissioner, which did not have as much doom and gloom as some Members' points on this annual report. We should be very proud of what we are doing in Wales in terms of our sustainable development and the approach that we take. Sustainable development is at the heart of the Welsh Government; it is about promoting growth and sustainable jobs and producing a positive effect on the health and wellbeing of people. Educational attainment is included in this too: supporting children, families and vulnerable communities is something that we believe is socially just and part of the sustainable development policy that we will continue to drive through. I will now take an intervention from the Member.

Rwyf wedi gwrandao ar gyfraniadau gan gydweithwyr ar draws y Siambr, ac rwy'n croesawu, yn sicr, y cyfraniad a wnaed gan Peter Davies, y comisiynydd, nad oedd yn cynnwys cymaint o ofid a gwae â phwyntiau rhai Aelodau ar yr adroddiad blynyddol hwn. Dylem fod yn falch iawn o'r hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru o ran ein datblygiad cynaliadwy a'r dull gweithredu yr ydym yn ei gymryd. Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd Llywodraeth Cymru; mae'n ymwneud â hyrwyddo twf a swyddi cynaliadwy a chynhyrchu effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl. Mae cyrhaeddiad addysgol yn cael ei gynnwys yn hyn hefyd: mae cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau sy'n agored i niwed yn rhywbeth yr ydym yn credu sy'n gymdeithasol gyfiawn ac yn rhan o'r polisi datblygu cynaliadwy y byddwn yn parhau i'w weithredu. Byddaf yn awr yn cymryd ymyriad gan yr Aelod.

17:36 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I welcome what you were talking about on community generation of electricity, in particular, small-scale generation. One of the big problems is obviously grid connection and the inability of the grid to facilitate such community projects. Have you had, or do you intend to have, discussions with grid operators to try to see what their programming is? Above all, is the Welsh Government able to facilitate any assistance with that?

Diolch i chi, Weinidog. Rwy'n croesawu'r hyn yr ydych yn sôn amdano ar gynhyrchu trydan yn y gymuned, yn benodol, cynhyrchu ar raddfa fach. Un o'r problemau mawr yn amlwg yw cysylltiad â'r grid ac anallu'r grid i hwyluso prosiectau cymunedol o'r fath. Ydych chi wedi, neu a ydych yn bwriadu, cael trafodaethau gyda gweithredwyr grid i geisio gweld beth yw eu rhaglennu? Yn fwy na dim, a yw Llywodraeth Cymru yn gallu hwyluso unrhyw gymorth gyda hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:36 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the Member raises a really important point, actually. It is about access as well. We have to remember the way that the devolution settlement affects energy. Some of the large-scale programmes that Russell George talks about are affected by DECC and planning permissions relating to the UK industry and the UK Government. There are issues that affect us in terms of planning. I will take the Member's point further in terms of discussions with the sector and how we can develop an opportunity there.

Wrth gwrs, mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig iawn, mewn gwirionedd. Mae'n ymwneud â mynediad yn ogystal. Mae'n rhaid i ni gofio'r ffordd y mae'r setliad datganoli yn effeithio ar egni. Mae rhai o'r rhaglenni ar raddfa fawr y mae Russell George yn sôn amdanynt yn cael eu heffeithio gan DECC a chaniatâd cynllunio'n ymwneud â diwydiant y DU a Llywodraeth y DU. Mae materion sy'n effeithio arnom o ran cynllunio. Cymeraf bwynt yr Aelod ymhellach o ran trafodaethau gyda'r sector a sut y gallwn ddatblygu cyfle yno.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

May I pick up some of the points that other Members made too? Bill Powell, I thank you for your warm welcome, as I do other Members as well. I am very grateful for the positive opportunities that we have to take work forward over the coming months. I listened to your contribution, but during my opening remarks, I mentioned that I think that the amendments to the Bill that you laid are premature. Actually, we are starting a process of scrutiny of the future generations Bill and, therefore, the right place to raise some of the points that you have raised is in committee. However, I will take them forward and listen very carefully, particularly around opportunities with the commissioning rights and roles of that. We have to listen to the evidence provided by a broader sector on that.

The Bill that many Members referred to today is not just about the environment. May I remind Members that this is about economic, social and environmental aspects of social and sustainable development? Therefore, we have to have a broader context of what the Bill is and is not. For the people who are trying to push this into the environmental scope, there is, of course, the environment Bill, which will shortly be running alongside this, and I would urge Members to concentrate their focus on the environment on that, specifically. This is a much wider ranging Bill in terms of future generations and wellbeing.

Antoinette Sandbach raised some issues around managing natural resources and dealing with climate change. Again, I accept that there are improvements to make in terms of not just measuring the inputs, but the outputs as well. The Member will be aware of the sustainable development charter indications and the indicators for Wales. They can be better. I think the future generations Bill will indicate that in a much more understanding way of how that impacts in our communities. It is an important point that the Member raises and I look forward to working with her in that process.

Jenny Rathbone's point on the project in her constituency, where the wall that was painted makes a difference to her community and the community around there, is a very important one. It is about the power of wellbeing and I think that that is what we have to consider about all of our actions in that process.

Llyr, 'The Wales We Want' is something that I am really passionate about. The conversation that Peter Davies and others have lent their time to in terms of being able to have opportunities to change the shape of Wales is something that I will work with you on. As I mentioned earlier, the environment Bill, the future generations Bill and the planning Bill are all within my department now and I think that they have great synergies in developing an opportunity for that Wales that we certainly want.

A gaf i roi sylw i rai o'r pwyntiau a wnaed gan Aelodau eraill hefyd? Bill Powell, rwy'n diolch i chi am eich croeso cynnes, fel y gwnaf i Aelodau eraill yn ogystal. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfleoedd cadarnhaol sydd gennym i ddatblygu gwaith dros y misoedd nesaf. Gwrandewais ar eich cyfraniad, ond yn ystod fy sylwadau agoriadol, soniais fy mod yn meddwl bod y gwelliannau i'r Bil a osodwyd gennych yn gynamserol. A dweud y gwir, rydym yn dechrau proses o graffu ar y Bil cenedlaethau'r dyfodol ac, felly, y lle iawn i godi rhai o'r pwyntiau a godwyd gennych yw yn y pwyllgor. Fodd bynnag, byddaf yn mynd â nhw ymlaen ac yn gwrando'n ofalus iawn, yn enwedig o ran cyfleoedd gyda'r hawliau comisiynu a swyddogaethau hynny. Mae'n rhaid i ni wrando ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan sector ehangach ar hynny.

Nid yw'r Bil y mae llawer o Aelodau yn cyfeirio ato heddiw yn ymwneud â'r amgylchedd yn unig. A gaf i atgoffa'r Aelodau bod hyn yn ymwneud ag agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol datblygiad cymdeithasol a chynaliadwy? Felly, mae'n rhaid i ni gael cyd-destun ehangach o'r hyn yw'r Bil ar hyn nad yw. Ar gyfer y bobl sy'n ceisio gwthio hyn i mewn i'r cwmmpas amgylcheddol, ceir y Bil amgylchedd wrth gwrs, a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â hyn yn fuan, a byddwn yn annog yr Aelodau i ganolbwyntio eu ffocws ar yr amgylchedd ar hynny, yn benodol. Mae hwn yn Fil llawer ehangach o ran cenedlaethau'r dyfodol a lles.

Cododd Antoinette Sandbach rai materion yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol a delio â newid yn yr hinsawdd. Unwaith eto, rwy'n derbyn bod gwelliannau i'w gwneud o ran nid yn unig mesur y mewnbynnau, ond yr allbynnau hefyd. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r arwyddion siarter datblygu cynaliadwy a'r dangosyddion ar gyfer Cymru. Gallan nhw fod yn well. Rwy'n meddwl y bydd y Bil cenedlaethau'r dyfodol yn nodi hynny mewn ffordd sy'n dangos llawer mwy o ddealltwriaeth o sut mae hynny'n effeithio ar ein cymunedau. Mae'n bwynt pwysig y mae'r Aelod yn ei godi ac edrychaf ymlaen at weithio gyda hi yn y broses honno.

Mae pwynt Jenny Rathbone ar y prosiect yn ei hetholaeth, lle mae'r wal a beintwyd yn gwneud gwahaniaeth i'w chymuned a'r gymuned o gwmpas y fan honno, yn un pwysig iawn. Mae'n ymwneud â grym llesiant ac rwy'n meddwl mai dyna y mae'n rhaid i ni ei ystyried am ein holl gamau gweithredu yn y broses honno.

Llyr, mae 'Y Gymru a Garem' yn rhywbeth yr wyf wir yn angerddol amdano. Mae'r sgwrs y mae Peter Davies ac eraill wedi rhoi eu hamser i'w chael o ran gallu cael cyfleoedd i newid siâp Cymru yn rhywbeth y byddaf yn gweithio gyda chi arno. Fel y soniais yn gynharach, mae'r Bil amgylchedd, y Bil Mesur cenedlaethau'r dyfodol a'r Bil cynllunio i gyd o fewn fy adran yn awr ac rwy'n meddwl fod ganddynt synergedd mawr wrth ddatblygu cyfle ar gyfer y Gymru honno yr ydym yn sicr am ei gweld.

Deputy Presiding Officer, for the record, I think that a Member said that this is the sixth report and the last report. This is not the last report; another annual report will be delivered next year, alongside the development of the wellbeing of future generations Bill, which I look forward to taking forward with my colleagues. This is a great opportunity for Wales. We need to do more, but, certainly, we should not be shy about celebrating the work that we have already had success in, and it is something that is well-documented in the report and acknowledged by the sustainability commissioner Peter Davies.

Ddirprwy Lywydd, ar gyfer y cofnod, rwy'n meddwl bod Aelod wedi dweud mai hwn yw'r chweched adroddiad a'r adroddiad diwethaf. Nid hwn yw'r adroddiad diwethaf, bydd adroddiad blynyddol arall yn cael ei gyflwyno'r flwyddyn nesaf, ochr yn ochr â datblygiad y Bil llesiant cenedlaethau'r dyfodol, yr wyf yn edrych ymlaen at ei ddatblygu gyda fy nghydweithwyr. Mae hwn yn gyfle gwych i Gymru. Mae angen i ni wneud mwy, ond, yn sicr, ni ddylem fod yn swil ynglŷn â dathlu'r gwaith yr ydym eisoes wedi cael llwyddiant ynddo, ac mae'n rhywbeth sy'n cael ei gofnodi'n dda yn yr adroddiad a'i gydnabod gan y comisiynydd cynaliadwyedd Peter Davies.

17:40

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 1 be agreed. Does any Member object? There is objection, therefore, I will defer all votes on this item until voting time.

Voting time now follows. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae amser pleidleisio yn awr yn dilyn. Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Cyfnod Pleidleisio

Voting Time

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5568](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5568](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5568](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5568](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 26, Against 26 Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5568](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5568](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 26, Against 26 Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5568](#)

[Result of the vote on motion NDM5568](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Motion agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

17:42

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:42.

The meeting ended at 17:42.